Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
www.ceredigion.gov.uk

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio ar gyfer ei ddarlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy gyfrwng safle rhyngrwyd y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ffilmio ai peidio.

Yn gyffredinol ni fydd y rhannau lle mae'r cyhoedd yn eistedd yn cael eu ffilmio. Er hynny, trwy ddod i mewn i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r man lle mae seddi'r cyhoedd, mae'r cyhoedd yn cytuno y gallant gael eu ffilmio ac o bosibl i'r lluniau a'r sain a gaiff eu recordio gael eu defnyddio, fel y nodir uchod. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd.

19 Ionawr 2023

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir CYFARFOD o'r CYNGOR yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo gynhadledda ar Ddydd Iau, 26 Ionawr 2023 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**
2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**
3. **Materion Personol**
4. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 (Tudalennau 3 - 6)**
5. **I ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 Diweddariad (Tudalennau 7 - 84)**

6 (a) **I dderbyn Adroddiad ISA260 Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 (Tudalennau 85 - 102)**

6 (b) **Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i gyflwyno'n ffurfiol sylwadau'r Pwyllgor hwnnw ar yr adroddiad**

6 (c) **I gytuno Datganiad Cyfrifon 2021/22 (Tudalennau 103 - 268)**

7. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar y gofyniad i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr 2023 (Tudalennau 269 - 274)**

8. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar Adolygu Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) (Tudalennau 275 - 370)**

9. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ar apwyntio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau (Tudalennau 371 - 372)**

10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Awdurodi'r Polisiau Tâl Athrawon (Tudalennau 373 - 462)**

11. **I ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Bolisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2023/24 (Tudalennau 463 - 496)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: **Gadeirydd ac Aelodau Cyngor**

Cofnodion Cyfarfod CYNGOR SIR CEREDIGION
a gynhaliwyd yn Neuadd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynhadledda ar Ddydd Iau, 15fed Rhagfyr, 2022

YN BRESENNOL: Cynghorydd Ifan Davies (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Amanda Edwards, Endaf Edwards, Elaine Evans. Elizabeth Evans, Eryl Evans, Gwyn Wigley Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Keith Henson, Geraint Hughes, Hugh R M Hughes, Chris James, Gwyn James, Ceris Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts, John Roberts, Wyn Thomas, Matthew Vaux, Alun Williams a Carl Worrall

(10.00am - 10.30am)

Gweithdrefn
Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Ifan Davies, bawb l'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

1 Ymddiheuriadau
Ymddiheurodd y Cynghorwyr Euros Davies, Marc Davies, Steve Davies, Paul Hinge a Mark Strong am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
Nid oedd dim datganiadau o fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

3 Materion Personol

a) Dymunodd y Cynghorydd Ifan Davies, Cadeirydd y Cyngor yn dda i Mr Geraint Evans, Pennaeth Gwasanaeth Cerdd Ysgolion Ceredigion ar ei ymddeoliad yn dilyn 26 mlynedd o wasanaeth;
b) Diolchodd y Cynghorydd Ifan Davies i'r holl staff sy'n gweithio ddydd a nos i sicrhau bod ffyrdd yn cael eu graeanu, staff swyddfeydd, a staff sydd wedi bod yn mynd allan ym mhob tywydd i roi cymorth i drigolion Ceredigion;
c) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant ar y gyngerdd a gynhaliwyd ym mis Tachwedd i ddathlu 200 mlynedd ar gampws Llanbedr Pont Steffan.
d) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan ddisgyblion a staff Ysgol Bro Pedr ar ei pherfformiad gwych o 'Grease';
e) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ceris Jones Megan Teleri Davies ar ennill Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn Cyfadran De-ddwyrain Cymru yr RCGP, gan gael y sgôr uchaf am ei phortffolio ar Brosiectau Meddygon Teulu a Llwybr Cleifion;
f) Llongyfarchodd y Cynghorydd Ceris Jones Michael Morgans ar gael Gwobr Gymunedol oddi wrth Gyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad am ei waith gwirfoddol diflino yn ei gymuned;
g) Gofynnodd y Cynghorydd Elizabeth Evans i bawb lenwi holiadur cleifion Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, er mwyn bwydo'r ymchwiliad cenedlaethol i'r ymateb i Covid-19;
h) Llongyfarchodd y Cynghorydd Keith Evans y Cynghorydd Rhodri Evans ar ei benodiad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

4 **Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 24 Tachwedd 2022**
PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd 2022 fel rhai cywir.

5 **Penodi Aelod i Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda**
Nododd y Cynghorydd Ifan Davies, Cadeirydd y Cyngor fod y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Amanda Edwards ac Wyn Evans wedi eu penodi i Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda 20 Mai 2022. Roedd y Cynghorydd Wyn Evans wedi gofyn am gael tynnu'n ôl o Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda, felly gofynnwyd i'r Cyngor enwebu Aelod arall i ymgymryd â'r rôl hon.

Enwebodd y Cynghorydd Elizabeth Evans y Cynghorydd Elaine Evans, a eiliwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol penodi'r Cynghorydd Elaine Evans i gynrychioli Cyngor Sir Ceredigion ar Gyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda.

6 **Penodi'r Cynghorydd Rhodri Evans i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
Nododd y Cynghorydd Ifan Davies, Cadeirydd y Cyngor fod y Cyngor wedi enwebu 2 gynrychiolydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ac yn dilyn proses ddethol, cafodd y Cynghorydd Rhodri Evans gadarnhad o'i benodiad gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i wasanaethu fel Aelod Annibynnol am gyfnod o 4 blynedd.

Nododd Eifion Evans, Prif Weithredwr, pa mor bwysig yw hi i Geredigion gael llais ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a llongyfarchodd ef ar ei benodiad. Ategwyd hyn gan y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor. Diolchodd y Cynghorydd Rhodri Evans i bawb am eu geiriau caredig, ac i'r holl Gynghorwyr am ei enwebu.

Nodwyd, gan y Cyngor, benodiad y Cynghorydd Rhodri Evans i Fwrdd Iechyd Hywel Dda fel Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) am gyfnod o 4 blynedd.

7 **Penodi'r Cynghorydd Carl Worrall i Grŵp Llywio Prosiect Bryngaer Pendinas**
Nododd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor fod y Cynghorydd Carl Worrall, Aelod Lleol dros Ward Penparcau Aberystwyth wedi'i benodi i Grŵp Llywio Prosiect Bryngaer Pendinas.

Nodwyd y penodiad gan y Cyngor.

8 **Penodi Aelod (Lleyg) Annibynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
Cyflwynodd y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod y Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd yr adroddiad gan nodi yn dilyn proses recriwtio bod Mr Andrew Blakemore wedi'i ddewis yn Aelod Annibynnol / Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Nodwyd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, y byddai'r aelod lleyg newydd yn cael ei benodi am ddim mwy na dau dymor gweinyddol yn olynol, h.y. un tymor i ddechrau, gyda'r opsiwn i ymestyn i ail dymor yn 2027 o 15 Rhagfyr 2022, yn amodol ar eirdaon boddhaol.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol i gymeradwyo penodi Andrew Blakemore yn Aelod Annibynnol / Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

9 Adroddiad Hunan-Asesu Cyngor Sir Ceredigion 2021/22

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod trefn perfformiad newydd yn seiliedig ar hunanasesiad ar gyfer Prif Gynghorau wedi'i chyflwyno o ganlyniad i Ran 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Nododd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Hunanasesu fesul blwyddyn ariannol yn amlinellu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn honno, ac unrhyw gamau y bydd yn eu cymryd, neu eisoes wedi'u cymryd i fodloni'r gofynion perfformiad. Mae'r hunanasesiad hwn yn cyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Nododd hefyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu'r adroddiad ar 27 Medi 2022, gan ofyn am fân newidiadau fformatio.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i Weinidogion, Estyn, Archwilydd Cyffredinol Cymru a Phwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ac yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** yn unfrydol cymeradwyo Adroddiad Hunanasesu 2021-22 gan gynnwys yr Adolygiad Blynyddol o Amcanion Perfformiad a Llesiant.

10 Cyflwyno Lwfans Cysgu Mewn a Lwfans Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy

Cyflwynodd y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad, Pobl a Threfniadaeth yr adroddiad i'r Cyngor gan nodi bod datblygu cyfleuster preswyl i blant sy'n cael ei redeg gan y Cyngor wedi ysgogi adolygiad o drefniadau lwfansau ar gyfer staff mewn lleoliadau preswyl, y gellir hefyd eu defnyddio o bryd i'w gilydd yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor i oedolion yn ystod cyfnodau o dywydd garw er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth.

Nododd hefyd ei bod yn ddyletswydd statudol ar y Cyngor i gael Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy ar ddyletswydd bob amser. Mae Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yn Weithwyr Cymdeithasol sydd â chymwysterau a chymeradwyaeth briodol sy'n gyfrifol am y cydlynu a'r penderfyniad terfynol ynghylch asesiad Iechyd Meddwl unigolyn. Lle bo angen, bydd hyn yn cynnwys derbyn yr unigolyn i'r ysbyty os yw i gael ei anfon i ysbyty'r meddwl fel yr amlinellir yn Neddf Iechyd Meddwl

2007. I gydnabod y cyfrifoldeb, y rôl a'r sylfaen sgiliau angenrheidiol wrth gyflawni dyletswyddau Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, cynigir lwfans ychwanegol.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynglŷn â'r lwfans preswyl os yw'r alwad yn fwy na 30 munud, a chadarnhawyd y byddai cyfradd fesul awr yn berthnasol mewn amgylchiadau o'r fath. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oes gan Gyngor Sir Ceredigion ddigon o staff sydd wedi cymhwyso fel Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy i gyflawni'r dyletswyddau a nodwyd, a chadarnhawyd bod recriwtio wedi bod yn llwyddiannus ond y bydd angen cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 26 Ionawr 2023

CADEIRYDD: _____

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 Diweddariad**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

Cefndir:

Cafodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 8 Gorffennaf 2022.

Y Sefyllfa Bresennol:

Mewn ymateb i argymhellion Archwilio Cymru cafodd y gwelliannau canlynol eu gwneud i Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22:

- Tudalen 7 – Cywiro'r dyddiadau ynghylch bod Archwilio Mewnol yn adolygu'r Ddogfen Fframwaith Llywodraethu.
- Tudalen 7 - Ychwanegwyd casgliad yr adolygiad hunanasesu o God Rheoli Ariannol CIPFA.
- Tudalennau 13, 29 a 35 – Diweddaru dyddiad cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Tudalen 22 – Cywiro blwyddyn y Strategaeth a Chynllun Archwilio Mewnol, sef 2021/2022.
- Tudalen 29 – Darparu dyddiadau ychwanegol ar gyfer adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Archwilio Mewnol.
- Tudalennau 30, 35 a 36 – Diweddaru dyddiad yr adolygiad diweddaraf gan gymheiriaid a wnaed ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn.
- Tudalen 36 – Diweddaru dyddiad adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.
- Tudalen 37 – Diweddaru'r sylwadau a'r dyddiadau ar gyfer Adroddiad Cynnydd ac Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2021/22.
- Tudalen 38 – Cywiro mân-wall teipo.

Mae'r newidiadau hyn i gyd i'w gweld - gan ddefnyddio marcio/amlygu newidiadau - yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 sydd wedi'i ddiweddaru ac ynghlwm (**Atodiad 1**).

Cyflwynwyd adroddiad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 hwn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 19eg o Ionawr 2023.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?** Na **Os na, esboniwch pam** ***Crynodeb:*** Nid yw'r adroddiad yma'n achosi unrhyw newid i bolisi na strategaeth **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhelliad / Argymhellion:	Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 (**Atodiad 1**).
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	Er mwyn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
Trosolwg a Chraffu:	Adolygwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 19/1/2023.
Fframwaith Polisi:	Dim
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Bydd llywodraethu corfforaethol effeithiol yn sicrhau bod y Cyngor yn medru cyflawni ei holl Amcanion Llesiant Corfforaethol: 1. Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth; 2. Creu Cymunedau Gofalgar ac Iach; 3. Darparu'r Dechrau Gorau Mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu; a 4. Creu Cymunedau Cynaliadwy a Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.
Goblygiadau cyfreithiol:	Cydymffurfio â deddfwriaeth / rheoliadau.
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014
Papurau Cefndir:	Dim

Atodiadau:	**Atodiad 1 -** Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu (& Swyddog Monitro)
Swyddog Adrodd:	Harry Dimmack, Swyddog Llywodraethu
Dyddiad:	10/1/2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

2021-22

Cymeradwywyd gan y Cyngor [x]

Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol 3

2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu 5

3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22 7

4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi 36

5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022) 42

6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023 67

7 Casgliad 72

8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 72

DRAFT

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac mae'n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *'yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau'* a bwriedir gwireddu'r weledigaeth trwy gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu'r Economi;
2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl;
3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a
4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â'n gwerthoedd. Ategir y Cod Lleol gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy'n egluro'r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a'r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/.

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn grym i raddau helaeth ac mae'r Cyngor yn parhau i wneud y gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yr adrannau hyn o'r Ddeddf a chydymffurfiaeth gydag adrannau o'r Ddeddf nad ydynt mewn grym eto.

DRAFT

Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac mae wedi'i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016.* Defnyddir y fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt gyfrannu cymaint ag y modd i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, cymeradwywyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn wreiddiol gan y Cyngor ar 29 Mehefin 2017 a chymeradwywyd fersiwn wedi'i ddiweddaru gan y Cyngor ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Adolygwyd y Cod 2022/23 ymhellach er mwyn ystyried newidiadau parhaus i drefniadau llywodraethu oherwydd pandemig y coronafeirws.

Mae Fframwaith Llywodraethu y Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid
C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd
E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn
G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor craidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu

Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o ran trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau'r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

Arweinydd y Cyngor	**Prif Weithredwr**
Dyddiad: xx/xx/xxxx	Dyddiad: xx/xx/xxxx

2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cynghorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle y dadansoddwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor, ac roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol ynddo: Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, roedd y Swyddog Monitro; y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol; y Swyddog Llywodraethu; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau

Democrataidd; y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wedi cymryd rhan. Yn dilyn y gweithdy, bu cyfle pellach i'r sawl a oedd yn bresennol i ystyried dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor a bu cyfle i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid, i ystyried y ddogfen Fframwaith Llywodraethu.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

1/2	Annerbyniol – angen gweithredu'n syth
3/4	Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis)
5/6	Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)
7/8	Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau
9/10	Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach

Mae pob sgôr yn y Ddogfen Fframwaith Reoleiddio yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc.

Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor hefyd. Cyflwynir y fframwaith adolygu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Ionawr 2022.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth bob blwyddyn. Cwblhawyd yr adolygiad o Fframwaith 2021/22 ym mis Mai 2022, gan gynnig sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle.

Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Mehefin 2022. ~~Mae'r adolygiad o Fframwaith 2021/22 yn mynd rhagddo o hyd.~~

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, gan ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol cost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/.

Mae cod Rheolaeth Ariannol CIPFA yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Ei nod yw cefnogi arferion effeithiol o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd cyllidebol. Mae Swyddog Adran 151 wedi cynnal adolygiad hunanasesu ac yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod.

3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22.

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

- Cod Ymddygiad i Aelodau (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad. Yn ogystal, Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).
- Cod Ymddygiad i Swyddogion* (sy'n cael ei adolygu'n sylweddol ar hyn o bryd), sydd ar gael gyda'r holl bolisïau a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet.
- Rhoddir darpariaeth ymsefydlu a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.

- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn destun adolygiad ar hyn o bryd).
- Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sail modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a Gwasanaethau Llywodraethu ac Archwilio Mewnol ('IA') sy'n gweithio gyda Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu.
- Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau ac anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn. Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt, mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau ac mae gweithgarwch adrodd yn mynnu bod cyngor ariannol a chyfreithiol/goblygiadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol. Mae eitemau yr adroddir amdanynt i Aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau amdanynt trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor ariannol a chyfreithiol, y cyfeirir ato ym mhob adroddiad. Yn ogystal, mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.
- Adolygiad Datblygiad Personol.
- Cymeradwyaeth unigol o ran cydymffurfiaeth.
- Cofrestr o fuddiannau Aelodau, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, a adolygir gan MO ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae ffurflenni Datgelu Budd a Lletygarwch i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.
- Mae MO yn dosbarthu nodyn atgoffa ynghylch datganiadau budd/lletygarwch i Staff bob chwarter.
- Mae datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd ac mae Cofnodion yr holl bwyllgorau yn cynnwys Datganiadau Budd-Swyddogion ac Aelodau.
- Nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet, MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau Prif Swyddogion bob blwyddyn ac yn rhoi cyngor i Brif Swyddogion am yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, gan gynnwys cynghori Prif Swyddogion yn y Grŵp Arweiniol. Hysbysir Prif Swyddogion trwy gyfrwng diweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu buddiannau a Lletygarwch ac anfonir nodyn atgoffa at Brif Swyddogion.
- Datganiadau Buddiannau blynyddol Prif Swyddogion a'u hymrwymiadau parhaus i ddatgelu buddiannau. Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion.
- Cyhoeddwyd diweddariad i'r cyngor am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2021 ac ar 20 Gorffennaf 2021 ar CeriNet, hefyd ynghylch Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid-19 ar gyfer busnesau

(Diweddariad newyddion a gyhoeddwyd ar 8.1.2021) a dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r MO.

- Datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd, cyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys:
  - Contractwyr;
  - Llywodraethwyr Ysgol;
  - Clercod cynghorau Tref a Chymuned;
  - Aelodau cynghorau Tref a Chymuned;
  - Llywodraethwyr Ysgol.
  - MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan:
  - Swyddi cyfarwyddwyr; a
  - Chyflogaeth arall
    Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.
- Mae gofyn i aelodau ddiweddaru'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Mae hyn bellach yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyhoeddwyd llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor.
- Mae cyfatebiaeth NFI yn amlygu Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau y maent wedi cael cyswllt gyda'r Cyngor – bydd IA yn ymchwilio i unrhyw achos o beidio datgan ac yn adrodd amdano i MO.
- Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, caiff y Cyfansoddiad ei ddiweddaru.
- Ffurflenni Goddefebau wedi'u diweddaru ar gyfer Aelodau wedi'u llenwi (2020).
- Rhaid i Athrawon a Swyddogion Cymwys Proffesiynol fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol.
- Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD.
- Darparir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr ar gyfer Staff.
- Mae'r Llawlyfr i Gyflogeion yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Gyflogeion ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol.
- Mae MO yn dosbarthu diweddariadau/penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, a'u rôl nhw yw pennu'r achosion honedig o dorri'r amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.
- Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella safonau ymddygiad Aelodau a gweithrediad y Cod Ymddygiad i Aelodau. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys:
  - Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;

  - Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.
  - Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.
- Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Materion ynghylch ymddygiad a safonau aelodau a ystyrir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion APW a Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Adroddwyd Adroddiad Pwyllgor Moeseg a Safonau Blynyddol i'r Cyngor ym mis Hydref 2021.
- Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Cynhelir Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg ar hyn o bryd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Mae'r Cabinet wedi adolygu a chymeradwyo'r weledigaeth hon ar gyfer y Cyngor ac mae'r weledigaeth yn nodi nifer o Amcanion Strategol dros y tymor hir.
- Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (2017-2022) yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor.
- Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori â'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Deialog reolaidd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheolyddion eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO.
- Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n destun adolygiadau rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl y gofyn, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol gyda Chydbwysedd Gwleidyddol am y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn 2021 yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau ar 18.3.21 a 23.9.21. Mae'r Gweithgor Trawsbleidiol am y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 15.2.21,

19.4.21, 30.6.21, 10.8.21 ac 8.11.21. MO/Swyddog Llywodraethu i adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddaru dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu camau gweithredu a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gwneud penderfyniadau.
- Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ddiwygio i nodi'n glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Mae dogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i diwygio. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol yn diffinio ceisiadau sy'n bwysig yn strategol ac yn geisiadau cynllunio 'o bwys'.
- Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol yn mynd i'r afael â'r trefniadau mewn perthynas ag aelodau wardiau lleol yn annerch y Pwyllgor.
- Mae Protocol Arferion Da i Gynghorwyr ar Bwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i gynhyrchu ac wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Mae Cynllun Dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ddiwygio i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a rhai o bwys.
- Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau y mae'n rhaid eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.
- Mae grŵp 'callio' wedi'i sefydlu o fewn Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio, a allai, o'u cymeradwyo, fod yn wyriad sylweddol o'r polisi.
- Bydd penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion ac nad ydynt yn bodloni meini prawf y rhestr wirio sy'n cael ei datblygu ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses AMB a'u hadrodd i'r gweithdrefnau archwilio mewnol.
- Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Egwyddorion Diogelu Data a phrosesu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun Pwyllgorau'r Cyngor a'r holl Aelodau.
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pob Aelod (Cyflwyniad i'r Cyngor, gan gynnwys GDPR) yn dilyn Etholiadau Mai 2022.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA') (rhwng mis medi 2017 a mis Tachwedd 2021, fe'i cwblhawyd gan 2,834 o gyflogeion, yr oedd 343 o'r rhain wedi gwneud hynny yn Gymraeg a 2,491 yn Saesneg). Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl at ei gilydd, 40 yn Gymraeg, 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael hefyd). Rhoddwyd nodiadau atgoffa i Staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwl eto, ac mae Grwpiau Arwain yn cael adroddiadau achlysurol.
- Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Cheredigion (fe'i chynhaliwyd ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd cynnal cynhadledd debyg gan Gynghorau Gogledd Cymru yn 2021 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad o'r broses DLIB.
- Mae IA yn adolygu ac yn adrodd am y broses bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried

adroddiadau llywodraethu a chan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol.

- Adroddwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe'i cymeradwywyd.
- Cyflwynwyd Strwythur Llywodraethu Covid-19 gan y Cyngor, i gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19 y Cyngor), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniad Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021.
- Mae'r grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Cyhoeddir Cofnod o Benderfyniadau'r grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro a oedd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn dilyn y dyddiad hwnnw).
- Cynhyrchwyd map ffyrdd, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor a'r rhai nas darparir gan y Cyngor, ynghyd â chynlluniau'r Cyngor, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, ar gyfer Ceredigion, gan gynnig trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparir yng ngoleuni Pandemig Covid-19, y canllawiau presennol a nifer yr achosion yng Ngheredigion.
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21(cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21).
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cedwir Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol i Swyddogion ac mae Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol ar gael i gyflogeion ar CeriNet.
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion ar Chontractwyr (diweddarwyd 2018) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.
- MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO'), ac mae'n cynghori'r sawl sy'n Chwythu'r Chwiban, pan fo hynny'n briodol.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis. O ran manteisio ar y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael).
- Rhoddir sylw i'r holl gwynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.
- Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol. Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau

Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion Diwygiedig 2021, ei weithrediad a'i gyhoeddiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

- Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion/argymhellion a gafwyd.
- Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol, gan gynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion, wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ei gyflwyno i'r Cyngor a'i nodi.
- Cyhoeddir cofnodion yr holl bwyllgorau ar Wefan y Cyngor. Mae holl agendâu/cofnodion Pwyllgorau yn cynnwys eitem am ddatgelu buddiannau.
- Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet ar Wefan y Cyngor.
- Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle y gwneir penderfyniad.
- Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur (cofrestr penderfyniadau) yn rheolaidd, fe'i cyflwynir i'r Grŵp Rheoli Aur (a'i gymeradwyo) ac ar ôl hynny i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (20.1.2021, 16.6.21 ac 1.12.2021) ac fe'i cyhoeddir ar Wefan y Cyngor. O ran penderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Cyhoeddir Cofrestr o Gontractau ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn gwneud paratoadau i gydymffurfio â Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cyflwynwyd Adroddiad am newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24.2.2021 a 3.6.2021 (gan gynnwys gofyniad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru i gael Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu)), a chymeradwywyd newidiadau ynghylch recriwtio gan y Cyngor ar 18.3.2021, fel a ganlyn:
  a) newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a swyddogaethau ychwanegol ynghylch perfformiad a delio â chwynion a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021;
  b) cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
  c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r
  d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person.
- Newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23.9.21. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:
  - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad;
  - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
  - Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf) – recriwtio wedi'i gwblhau, ac eithrio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.
  - Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun;
  -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg.
  -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac

- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol sy'n gallu cadeirio.

- Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a oedd yn cytuno argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i'r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022.
- Mae swyddogion megis Archwilwyr Mewnol yn llofnodi datganiad blynyddol am y Cod Moeseg.
- Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Ionawr 2022.
- Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a'r modiwl hyfforddiant bwriadedig er mwyn ymateb i'r adborth.
- Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.
- Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018 a chyflwynir hyfforddiant ynghylch caffael i'r Staff hefyd.
- Polisi DBS a Pholisi Recriwtio y Cyngor.
- Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Defnyddir meddalwedd fewnol i ôl-wirio taliadau dyblyg drwgdybiedig.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi Caethwasiaeth Fodern (a anfonir at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019-2020 a Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Mae MO a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol, gan gynnwys ymlaen llaw ac yn ystod cyfarfodydd ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.
- Mae MO yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb yr MO, bydd y Dirprwy MO yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.
- Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn cydymffurfio yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae aelodau pob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae Cynllun gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.
- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn glir ac mae disgrifiadau Rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd y cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIFPA, *Putting Principles into Practice* (2019)).

- Caiff Cylch gorchwyl ei gynnwys yn y Cyfansoddiad a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021.
- Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad).
- Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).
- Cydymffurfiaeth gyda Chodau Penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)
- Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO, y mae ganddynt fynediad uniongyrchol i'r CE ac sy'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol. Mae'r MO a'r Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol.
- Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a hawl mynediad yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Ymchwiliadau mewnol, Archwilio Allanol effeithiol.
- Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig ac mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gaiff ei chydlynu gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).
- Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal.
- Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer).
- Ychwanegir archwiliadau rheoli ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, i archwilio camau rheoli, llywodraethu a risgiau pan fo'r staff yn gweithio gartref.
- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch ail-flaenoriaethu gwaith sy'n angenrheidiol, gan ganiatáu i'r IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran y risg yn y Cyngor.

B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid:

- Mae'r holl adroddiadau Blynyddol statudol ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018) a Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau

eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr. Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.

- Mae'r Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd.
- Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth gyngor.
- Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022. Caiff yr Amcanion Llesiant a Gwella eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir agendâu a phapurau ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau wedi'u heithrio).
- Caiff cyfeiriadau e-bost MO a Moeseg a Safonau generig eu creu.
- Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018).
- Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith. Yn ogystal, Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cyfansoddiad I Dogfen Rhan 4).
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae trefniadau'n cael eu gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Mae offer newydd yn cael ei osod yn y Siambr ar hyn o bryd (cwblhau ganol mis Ebrill 2022). Bydd y system yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu recordio a sicrhau eu bod ar gael ar-lein.
- Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 Cyfansoddiad) a chymeradwywyd Protocol mynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan y Cyngor (Cyfansoddiad M2 Dogfen Rhan 5).
- Mae'r Protocol Arferion Da wedi'i greu er mwyn cefnogi Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau bod penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr.
- Cymeradwywyd offeryn ac arweiniad Asesiad Effaith Integredig ('IIA') i'w weithredu.
- Datblygwyd canllawiau ac offeryn IIA er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol ac maent yn cael eu gweithredu, ac adroddir casgliadau IIA i'r Cyngor, y Cabinet ac i Drosolwg a Chraffu. Aeth 10 IIA i'r Cabinet yn ystod 2021-22 tan 1.12.2021. Pwyllgorau, sy'n cynnwys ymgynghori.
- Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae'r rhain oll yn cynnwys canlyniadau IIA.
- Asesir yr holl IIA ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wedi digwydd a phroses wybodus o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud

DRAFT

â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs.

- Cyflwynwyd prosesau i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i'r pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu penderfyniadau.
- Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.
- Diweddarwyd templed adrodd y Cyngor/Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.
- Pan fo hynny'n briodol, mae eitemau yr adroddir amdanynt er mwyn cael penderfyniadau trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a gwneir cyfeiriad at y cyngor hwn ym mhob adroddiad.
- Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir yr holl adroddiadau blynyddol, Datganiadau o gyfrifon, adroddiadau cynnydd Gwelliant o fewn amserlenni ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae'r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori ar gael i Swyddogion.
- Mae tudalen Ymgysylltu Cymunedol, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau wedi cael ei chreu ar CeriNet, sy'n cynnwys dolenni i'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol (11 Ionawr 2013), Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori
- Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi.
- Mae Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys rhanddeiliaid y dylai'r awdurdod ymgysylltu â nhw yn ei lle.
- Adroddir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn ôl i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Cofnodion cyfarfodydd ymgysylltu strwythuredig, digwyddiadau a grwpiau ymgysylltu gyda phobl y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig.
- Lluniwyd Polisi Ymgysylltu Drafft newydd er mwyn ystyried y fethodoleg ymgysylltu ddiweddaraf, gan gynnwys ymgysylltu digidol. Ymgynghorir am hwn a chytunir arno yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Chydweithio' wedi cael ei pharatoi. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cyflawni gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('BGC').
- Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y broses o baratoi'r asesiad Llesiant Lleol nesaf a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022.

DRAFT

- Ymgynghoriadau 2020-21.
- Caiff ymgynghoriadau eu hyrwyddo trwy gyfrwng Cyfryngau Cymdeithasol.
- Lledaenir canlyniadau gweithgarwch ymgynghori a chaiff adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau a gwblhawyd eu postio ar dudalen y Cyngor ar y we ynghylch ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.
- Mae Cylch Gorchwyl BGC ar gael ar Wefan y Cyngor, mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael ac mae trefniadau Craffu ar gyfer BGC wedi cael eu gwneud.
- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant (BGC) sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Llesiant Lleol BGC, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.
- Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion 2021 Diwygiedig, ei weithrediad a'i gyhoeddi, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygwyd offeryn gwneud Penderfyniadau Ymgynghori (siart llif a Choeden Ymgynghori) ar gyfer Staff ac Aelodau ac mae'n cynnwys defnyddio adborth.
- Mae gweithgarwch ymgynghori pellach yn cynnwys:
    - Mae swydd Ymgysylltu a Chydraddoldeb newydd wedi cael ei chreu trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth Polisi a Pherfformiad; ac
    - Mae'r holl ymgynghoriadau cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor.
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol (diwygiwyd Awst 2018).
- Defnyddir cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch materion a ystyrir gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.
- Oherwydd Covid-19, mae'r Cyngor wedi ymgynghori o bell trwy gyfrwng cynadleddau fideo ac arolygon electronig.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar fewnrwyd Cyngor Ceredigion i'r holl Staff eu dilyn ynghylch lledaenu adborth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r arwyddion a welwyd yn ddiweddar yn dynodi bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.
- Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd.
- Cynhelir prosiectau ar y cyd gyda rhanddeiliaid sefydliadol ac mae trefniadau llywodraethu clir mewn grym.
- Mae Templedi a Chanllawiau Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael.
- Mae partneriaethau yn cynnwys:
    - BGC;
    - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru;
    - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (adolygwyd yn 2019 ac yn destun gweithgarwch Craffu);
    - Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
    - Thyfu Canolbarth Cymru.
- Cwblhawyd yr adolygiad ffurfiol o bartneriaethau sy'n eistedd dan BGC. Mae'r strwythur partneriaeth newydd wedi bod yn weithredol er mis Mehefin 2018 ac adolygir y partneriaethau yn gyson.
- Gweithgarwch rheolaidd i adrodd am gyfarfodydd partneriaeth a gweithgarwch i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet.

DRAFT

- Sefydlwyd partneriaethau megis Tyfu Canolbarth Cymru gyda threfniadau llywodraethu. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru
- Mae metrigau partneriaeth yn destun gweithgarwch adolygu mewnol, pan fo hynny'n briodol.
- Adroddir am fframwaith partneriaeth monitro sy'n adrodd am yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan bartneriaethau sy'n bodoli eisoes i'r Grŵp Arweiniol.
- Rhoddir cyngor i Aelodau a Swyddogion sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol.
- Mae'r Tîm Cyfreithiol yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio ac adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cytundebau Rhyng-Awdurdod ('IAAs') a phwyllgorau ffurfiol.
- Datblygwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithio strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymrwymo iddynt. Mae'r dogfennau yn cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer camau amrywiol prosiectau cydweithio.
- Cynhaliwyd Hunanasesiad o'r Grŵp Gweithredol.
- Mae gofyn i'r holl gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion fod wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid trwy gydymffurfio gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.
- Canllawiau ynghylch Brandio Corfforaethol (Mai 2019).
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol (2019-2022).
- Cyflawnwyd cyswllt Cymunedol Effeithiol gyda'r gwaith asesu llesiant a gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd er mwyn cyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a set o gwestiynau ar y cyd ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig.
- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:

- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Caiff Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn a'u hadrodd yn adroddiad blynyddol yr amcanion Llesiant a Gwella a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Amlinellir gwybodaeth ynghylch perfformiad yn Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi pennu diben a gweledigaeth y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-22. Mae'r strategaeth

hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion.

- Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Lleol BGC ym mis Mai 2018.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

  Paratoi datganiad ac amcanion llesiant;
  - Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygiad Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes;
  - Datblygu canllawiau ac offeryn IIA newydd (cyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau);
  - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
  - Caiff y Cyfansoddiad ei fonitro a'i adolygu yn barhaus;
  - Cyhoeddwyd asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017;
  - Cytunwyd ar drefniadau craffu ar gyfer BGC;
  - Adroddiadau Cabinet, gan gynnwys yr asesiad effaith Cymdeithasol/economaidd/amgylcheddol;
  - Datblygwyd modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf ac mae wedi cael ei hyrwyddo ymhlith holl Staff y Cyngor;
  - Rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb, cymunedol a'r iaith Gymraeg am yr holl gynigion ynghylch ailstrwythuro ysgolion fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac
  - Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â DLICD
- Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys;
  - Cynllun Strategol;
  - Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac
  - Amcanion Gwella Llesiant
- Mae Polisi Cymunedol ac Ymgysylltu (11 Ionawr 2013) ar gael.
- Datblygwyd Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2014 er mwyn darparu adnodd hawdd i'w ddefnyddio i Swyddogion wrth ddatblygu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd gyda'u cymunedau, yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Adroddir diweddariadau am arbedion yn y gyllideb ac am waith y Grŵp Datblygu i'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
- Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys neilltuo adnoddau a chaiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a'u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu'r gwasanaeth.
- Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer;
  - Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a

    - Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).
- Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni Busnes a gwasanaeth.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys;
    - Hawliau Tramwy;
    - Priffyrdd;
    - Cynllun Cyllideb Blynyddol; a
    - Thrawsnewid.
- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019.
- Cyflwynir hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau a Rheolwyr Uwch.
- Datblygwyd pecyn e-ddysgu rheoli risg i'r holl Staff eraill a chynhaliwyd hyfforddiant yn 2019, a threfnwyd gweithdy gydag yswirwyr ar gyfer Rheolwyr uwch.
- Caiff cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data ynghylch costau a gwerth am arian, ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth.
- Mae'r Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr, mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch ei ddefnydd o adnoddau.
- Cyhoeddwyd yr Archwiliad mwyaf diweddar o Gynllun Gwella y Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr adroddiad i'r canlyniad cadarnhaol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn ffordd ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Caiff ffurflen arfarnu cyfalaf ei llenwi ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe'i ddefnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys Strategaeth Buddsoddiad Cyfalaf hefyd.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â Strategaeth Caffael 2018-2022 y Cyngor.
- Mae canllawiau ac offeryn IIA ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo gweithgarwch gwneud penderfyniadau.
- Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac mae modd eu harchwilio. Mae pob cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â diffiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Anogir gweithgarwch Craffu cyn gwneud penderfyniadau pan fo modd.
- Y Rhaglen Trawsnewid.
- Mae Rhestrau Cyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gael ar CeriNet.
- Cynllun Gweithredu Grŵp DLICD.
- Cyflwynir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, ac adroddiad monitro 2020-2021 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol i'w gymeradwyo, ac ar ôl eu cymeradwyo, fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Safonau'r Gymraeg ac adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg Blynyddol.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2020/21 i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol ar 27.10.21 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 9/12/21.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:

- Mae arweiniad ac offeryn IIA ar gael a chyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau.
- Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen i Reolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs, ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac MO (CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.
- Cyhoeddir Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 24.9.10) gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau, Rheolwyr Uwch a Rheolwyr ar CeriNet ac maent ar gael i bob Aelod o Staff.
- Diwygiwyd dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn rheolaidd (9.9.2021, 3.6.2021).
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd a chymeradwywyd y fersiwn cyfredol dyddiedig 2021/22 Ymlaen gan y Cyngor ar 5.3.2021.
- Mae offeryn coeden benderfynu ymgynghori yn cynnwys adran sy'n cynnig arweiniad ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori.
- Her gyllid ynghylch arbedion ar Wefan y Cyngor.
- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol:
    - Adroddiad Gwasanaeth y Prif Swyddog Corfforaethol;
    - Bwrdd Perfformiad; a
    - Chyfarfodydd Panel Gweithredol.
- Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.
- Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.
- Defnyddir calendr i adrodd terfynau amser a chyhoeddir dyddiadau Bwrdd/Panel Gweithredol gydag adroddiadau.
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022.
- Mae gan BGC Ceredigion Gynllun Llesiant Lleol a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol.
- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant Lleol gan y BGC sydd wedi cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol ac Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r holl brosiectau cydweithio mawr wedi pennu trefniadau llywodraethu a rheoli gan gynnwys rheoli risg.

- Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir gan IA hefyd ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.
- Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf LGEW 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl ac a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).
- Sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect Corfforaethol er mwyn ffurfioli gweithgarwch datblygu a rheoli prosiectau.
- Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael.
- Mae hyn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried y canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Mae'n helpu i nodi'r gofynion ynghylch cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.
- Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd.
- Fframwaith Cyllideb.
- Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb.
- Mae Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol wedi cael eu diweddaru. Datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog.
- Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.
- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Cymeradwywyd Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021.
- Mae'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniadau gwasanaeth a ddymunir.
- Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisïau ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adroddwyd amdanynt yn rheolaidd.
- Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.

DRAFT

E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo:

- Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Rheolwyr Uwch yn cyflwyno yn y sesiynau wyneb-yn-wyneb hyn.
- Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Darparir hyfforddiant parhaus i Aelodau a threfnir darpariaeth ynghylch materion penodol e.e. rheoli Trysorlys, a hefyd, cynhelir adolygiad parhaus o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddaru, gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol (defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau) a darparir rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022), a fydd yn cynnwys modiwlau e-ddysgu ychwanegol.
- Cynllun datblygu aelodau.
- Mae paratoadau yn cael eu gwneud ar gyfer (fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet, hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg (rôl), hyfforddiant am Ddyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl).
- Cyflawnwyd Datblygiad/Hyfforddiant fel rhan o fanylebion person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).
- Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion a darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant diweddaru a sgiliau parhaus.
- Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnrwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae ei gyflwyno wedi gwella effeithiolrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch ymsefydlu ar gael, ynghyd â'r Pecyn Cymorth i Reolwyr a'r llawlyfr Staff.
- Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff, a hefyd, cynigir cyfleoedd i'r rhai sy'n cyflawni Rôl Arwain neu y maent yn dymuno bod yn arweinwyr. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.
- Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.
- Mae pecyn cymorth cynllunio Gweithlu Strategol yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddiant a dysgu pob maes gwasanaeth.
- Mae Arfarniadau Perfformiad yn cofnodi anghenion hyfforddiant a datblygu trwy system Ceri.
- Cynllun Perfformiad a Datblygiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.
- Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.
- Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac ar ôl hynny, paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn darparu gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.

- Gall yr holl Staff fanteisio ar ddigwyddiadau dysgu a datblygu trwy gyfleuster hunan-wasanaeth Ceri. Yn ogystal, gall rheolwyr archebu lle i Staff ar ddigwyddiadau perthnasol trwy'r cyfleuster Hunan-wasanaeth i Reolwyr.
- Cryfhawyd cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wrth gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.
- Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer datblygiad Staff mewn themâu allweddol.
- Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).
- Defnyddio ymarferion meincnodi ac ymchwil.
- Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
- Gweithrediad effeithiol partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys:
    - Gwella Ysgolion;
    - Iechyd a Gofal cymdeithasol;
    - Porth Agored; a
    - Gwastraff.
- Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Mae Strategaeth Adnoddau Dynol ar gael ar y Fewnrwyd.
- Cyflawnir gwaith cynllunio gweithlu strategol gan ddefnyddio'r pecyn offer cynllunio gweithlu Strategol a chaiff hwn ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Cyfrannodd canlyniadau'r pecyn cymorth hwn at y cynllun gweithlu ar gyfer 2017-2022. Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn canolbwyntio ar 4 thema allweddol:
    1. Ymgysylltu a Chyfle;
    2. Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth;
    3. Hyrwyddo gweithlu dwyieithog; a
    4. Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.
- Adroddir diweddariadau am gynnydd y cynllun gweithlu i'r pwyllgor craffu.
- Mae'r strwythur Arwain a Rheolwyr Uwch wedi diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.
- Cynhelir gweithgarwch cynllunio ar gyfer olyniaeth trwy gyfrwng trafodaethau a chamau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a gyda phartneriaid ac ni ellir wastad dangos tystiolaeth o hyn. Datblygir hyn ymhellach trwy gyfrwng y pecyn cymorth cynllunio gweithlu Strategol.
- Mae cyfarfod ar y cyd o Reolwyr Uwch yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.
- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol gan swyddi mewn ffordd glir.
- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau (Rhan 3.4 Tabl 4) a Swyddogion uwch (rhan 2 Erthygl 2) ac mae Cynllun Dirprwyo (Y Cyfansoddiad Rhan 3.5) yn bodoli ac yn nodi cyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion yn glir.
- Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent.

DRAFT

- Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).
- Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym.
- Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol.
- Adolygir Rheolau Gweithdrefnau Contract ('CPR') (Rhan 4 Dogfen G Cyfansoddiad) a Rheoliadau Ariannol a gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F Cyfansoddiad) yn rheolaidd e.e. diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019.
- Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.
- Mae'r CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
- Ar 15.10.21, penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC'), sy'n cynnwys disgrifiad o rôl yr Arweinydd (Paratowyd adroddiad er gwybodaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 19.1.21).
- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Trefnir Gweithdai Aelodau yn ôl yr angen.
- Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a grwpiau ffocws Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Polisi Ymgysylltu Cymunedol.
- Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Pwyllgor Craffu (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda phreswylwyr lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sir yn barhaus er mwyn deall eu safbwyntiau a'u barn wrth ddatblygu cynlluniau a/neu strategaethau newydd. Rhoddir ystyriaeth briodol i adborth cyn cytuno ar fersiynau terfynol.
- Cyflawnir gweithgarwch hunan-asesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.
- Anogir a chynorthwyir aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Gweithredu polisïau Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg a Pholisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff e.e. cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.
- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
    - Gwasanaeth cwnsela; a
    - Chyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:

- Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;
- Cynllun gofal llygaid;
- Cynllun talebau gofal plant;
- Iechyd Da; a
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:

- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019 ac mae'r Fframwaith yn cael ei ddiweddaru o hyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ffurfio strategaethau a chynlluniau, gan ystyried y risgiau a achosir gan bandemig Covid-19
- Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Adroddir diweddariadau yn ystod pob Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn cynnig gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau.
- Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd a chyfeirir Trawsnewid a Risgiau i Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar y cyd.
- Roedd yr holl Gynlluniau yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys:
    - Y Cynllun Ariannol tymor Canolig;
    - Cynlluniau Busnes (lefel 1); a
    - Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).
- Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni.
- Caiff trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd a chaiff gweithgarwch rheoli risg ei gynnwys mewn rhaglenni archwilio sefydliad/gwasanaeth Gwasanaethau unigol.
- Mae 'risgiau' yn sail i raglenni gwaith archwilio yr Archwilwyr Mewnol, fel sy'n ofynnol gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana. Diweddarwyd templed adroddiadau Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo/asedau a risgiau.
- Mae Perfformiad Corfforaethol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran Risg.
- Diwygiodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella'r broses o fonitro ei gynlluniau busnes a'i ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ('NSI'), PAM a Dangosyddion Lleol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Amcanion Gwella a Llesiant a Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 hefyd.
- Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-

Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith priodol nhw.

- Cyflawnir gweithgarwch Monitro Risg Prosiectau Penodol a chaiff yr holl Risgiau eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).
- Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21 a chymeradwyodd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21 ym mis Hydref 2020 (Yn ogystal, cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-2021 gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor ar 15.9.21, a chan y Cabinet ar 5.10.21).
- Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaeth.
- Asesiadau mewnol ac allanol gan:
    - Archwilio Cymru;
    - Estyn;
    - Arolygiaeth Gofal Cymru (‘AGGC’); Swyddfa’r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (‘ICPO’); a
    - Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (‘ICO’).
- Asesiadau allanol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad.
- Hunanasesiad (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) – mae ymarfer hunanasesu yn mynd rhagddo i’w gyflwyno yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10.3.2022.
- Mae Gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrics perfformio.
- Mae IA yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriaid / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS.
- Perfformiad costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).
- Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau. Darparir cyngor gan y Prif Swyddog Ariannol hefyd.
- Mae gofynion adrodd yn mynnu bod goblygiadau/cyngor cyfreithiol ac ariannol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny’n briodol.
- Cyhoeddir pob adroddiad a’r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac maent ar gael i’w harchwilio gan gynnwys.
- Dewisiadau ar gyfer argymhellion.
- Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau ar unrhyw adeg a gwahoddir Cadeiryddion Craffu i fynd â materion yn ôl gerbron y Cabinet
- Mae’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfeirio materion i’r pwyllgor Craffu ac mae’n cael adroddiadau yn ôl.
- Mae croeso i’r cyhoedd fynychu pob cyfarfod, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi’i heithrio yn unol â’r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.
- Cytundeb am y wybodaeth y bydd gofyn ei chael a’r amserlenni
- Mae trefniadau craffu mewn grym a gefnogir ac sy’n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i’r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel “cyfaill beirniadol”. Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a chyn gwneud penderfyniadau, sy’n swyddogaeth craffu, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.

DRAFT

- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Protocol Trosolwg a Chraffu Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith.
- Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i geisio safbwyntiau'r cyhoedd, a gesglir trwy gyfryngau cymdeithasol a'u rhannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn iddynt eu hystyried.
- Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol BGC.
- Gwaith a gyflawnir gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLICD.
- Cyhoeddir adroddiadau a hefyd, yr holl agendâu, cofnodion, Blaenraglen Waith a phob Cylch Gorchwyl ar wefan y Cyngor.
- Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu.
- Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn.
- Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau a'r Cabinet e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd, y caiff Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu gwahodd i'w harsylwi law yn llaw â chyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.
- Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i'r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad i'w gynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet.
- Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad) a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad) oll wedi cael eu diweddaru. Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe'u hadroddir i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae IA yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd.
- Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Corfforaethol, CORP04 Risg ac mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob mis.
- Asesir risg y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol; i gynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol Rheoli Risg, a phrofi'r trefniadau rheoli lliniarol sydd mewn grym ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2021-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021, ac mae'n parhau i ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan y pandemig.
- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i Reolwyr yn amlygu'r risgiau o beidio gweithredu unrhyw gamau IA a argymhellir. Cynhelir archwiliad dilynol

o'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir. Os bydd CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir am hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac mae gan hwn y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr hwnnw fynychu ac esbonio'r rheswm dros beidio sicrhau cydymffurfiaeth.

- Bydd yr Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr lle y mae'n nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch defnyddio ei adnoddau.
- Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Busnes a Materion Brys i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Parhad Busnes a Materion Brys Meysydd Gwasanaeth a Chorfforaethol, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ymarferion i ddangos tystiolaeth o risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn ymateb iddynt.
- Mae gwerthuso risg wastad yn ymddangos ar agendâu.
- Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod cyntaf rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021, adroddwyd am y cyfnodau dilynol ar 19 Ionawr 2022, 10 Mawrth 2022 a'r 6 Mehefin 2022).
- Darparir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch y sicrwydd a roddir yn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol AM ar gyfer 2020/21 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021 a'r Adroddiad Blynyddol AM ar gyfer 2021/22 wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 6 Mehefin 2022
- Adolygiadau IA dilynol i fonitro gweithrediad y camau gweithredu gofynnol.
- Caiff trefniadau rheoli mewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19/01/2022) a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ynghylch Rheoli Risg Twyll a Llygredd ('CIPFA', 2014).
- Mae gan Archwilwyr Mewnol weithdrefnau yn eu lle os darganfyddir twyll.
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Gwrth Dwyll achrededig.
- Mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn dal Tystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe'i hysgrifennwyd mewn perthynas â'r Cod Ymarfer a'i diweddaru i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.
- Mae IA yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach) ac mae'n cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn (Cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2022.
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan IA ar hyn o bryd.

- Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati);
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig o'r Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd;
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Archwiliwyd taliadau grant Covid-19 cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer);
- Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn gwirio trefniadau rheoli, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref
- Cymeradwywyd DLIB 2020/21 gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 gyda'r Datganiad o'r Cyfrifon. Mae DLIB yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Cynhelir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch IA. Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSIAS, a gaiff ei hunanasesu a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Cynhelir adolygiad cymheiriaid bob 5 mlynedd (adolygiad diweddaraf gwblhawyd ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn).
- Mae IA yn cynnig sicrwydd unigol i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – yna, defnyddir y rhain i gynnig lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd bob blwyddyn, sy'n cyfrannu i'r DLIB.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus (gweler pwynt G3.2 isod).
- Mae dau aelod o'r tîm yn astudio am gymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod o grŵp y gwrthbleidiau (tan fis Mai 2022, pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021).
- Gwaith paratoi parhaus a gweithredu newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf 2021. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mewn adroddiad yn ystod Cyfarfod ar 24.2.2021, o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch

asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r newid enw, ynghyd â newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad.

- Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018.
- Cyflwynwyd adroddiad am y diweddaraf am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3.6.2021, gan gynnwys rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:
  - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac
  - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag:
    - adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor;
    - ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor;
    - ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor;
    - adolygu swyddogaeth delio gyda chwynion y Cyngor; a'r
    - rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022).
- Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:
  - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad (gan gynnwys argymhellion i'r Cyngor gan y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad a newidiadau i'r Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23.9.2021);
  - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
  - Bydd yr aelodaeth yn cynnwys 2/3 Chynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y diffinnir yn y Ddeddf) – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21);
  - Dyletswydd y pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;
  - Rhaid i'r cadeirydd fod yn unigolyn lleyg – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21) a phenodir y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg;
  - Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
  - Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.
- Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y penderfyniad i newid ei faint o fis Mai 2022 (9).
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Aelod Lleyg effeithiol ac ystyrir bod Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyd-fynd â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelod Lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a therfynu cyfnod yr aelodau lleyg presennol yn y rôl. Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.
- Mae manylion aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, rhoddir cyngor gan MO a chyfarfodydd rheolaidd hefyd, yn ôl yr angen rhwng MO a'r Cadeirydd, ac MO, CMIA ac Archwilio Cymru.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol, Archwilio Cymru (gyda a heb Swyddogion)

DRAFT

- Hyfforddiant i Aelodau a rhoddir hyfforddiant/diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu grŵp rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Cymeradwywyd Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022 ac mae'r holl bolisïau wedi cael eu diweddaru, gan gynnwys (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019):
    - Polisi Diogelu Data a GDPR;
    - Polisi Diogelwch Gwybodaeth; a
    - Pholisi Rheoli Cofnodion.
- Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifatrwydd mewn perthynas â cheisiadau i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Mae hyfforddiant wedi'i amserlennu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o'r hyfforddiant newydd i Aelodau ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno bellach wedi'i chynnwys yn y protocol ar gyfer Aelodau wrth gynllunio.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwlau hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth.
- Swyddog Diogelu Data Dynodedig.
- Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.
- Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:
    - Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a
    - Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')
- Yn ogystal, mae'r Grŵp Diogelu Data Corfforaethol a'r Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau yn ystyried diogelwch Gwybodaeth.
- Gweithredwyd Archwiliad Mewnol Rheolaidd o ofynion a gweithdrefnau Cofrestru diogelu data yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru.
- Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth.
  ***Mae'r cytundeb yn set gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol oddi tanynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.
- Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.
- Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.
- Asesiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad.
- Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.
- Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.
- Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.
- Amserlen Gadw – fe'i chyhoeddir ar y fewnrwyd bellach.
- Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod blwyddyn 2013-14 ac fe'i diweddarwyd mewn ffordd sylfaenol a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS Gyfredol ar

gyfer y cyfnod ar ôl 2018/2019 ond mae bellach wedi cael ei diwygio i adlewyrchu setliad refeniw amodol 2021/2022 a'i diweddaru i:

- Adlewyrchu effaith Covid-19
- Adlewyrchu 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'
- Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid
- Rhagweld pwysau o ran y costau yn y dyfodol
- Adlewyrchu newidiadau data, rheoliadau, cynlluniau, polisïau a strategaethau

ac fe'i chyflwynir i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 23,2,2021, gyda'r nod o gyflwyno'r gymeradwyaeth i'r Cyngor ar 5.2.2021.

- Bellach, mae hwn yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r MTFS yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddaru o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch blynyddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.
- Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.
- Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sy'n meddu ar gyfrifoldeb dros Gyllid.

G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

- Gwefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.
- Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Cyngor.
- Cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg.
- Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.
- Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogi â'r cyhoedd gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder.
- Cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru) 2020, sy'n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd a gofynion ynghylch mynediad i'r cyhoedd/cyhoeddi dogfennau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog

cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.

- Mae Map ffyrdd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion ynghylch y gwasanaethau ddarparir oherwydd pandemig Covid-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir.
- Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â'r gallu i ddarlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer yn ystod y gaeaf.
- Mae'r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd lle y gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy'n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain.
- Mae manylion cyswllt Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a'r Datganiadau Diddordeb ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion Ceredigion o'r gweithgareddau a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.
- Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor.
- Cymeradwyaeth briodol.
- Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Perchnogaeth o waith cynllunio a thrawsnewid.
- DLlB.
- Mae DLlB y Cyngor yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i ddiwygiwyd yn unol â Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth e.e. wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol oherwydd pandemig Covid-19. Penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a gymeradwyir DLlB e.e. ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 (gyda chyfrifon).
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae'n meddu ar y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol, ac mae'n ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

DRAFT

- Rhannwyd DLIB gyda chyfrifon, fe'i adolygwyd a'i ddiweddarwyd gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach. Mae Aelodau a Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r DLIB bob blwyddyn.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad). Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae IA yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm.
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol a gyda rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru.
- O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Cyflwynir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021.
- Cynhelir cyfarfodydd misol gydag Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a cheir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro gweithrediad y camau gweithredu cywiro gofynnol.
- Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu yn cael ei datblygu.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Mae dau aelod o Staff yn astudio ar gyfer cymhwyster Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd, ac mae dau yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.
- Mae Swyddogion IA yn astudio am gymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.

DRAFT

- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.
- Mae rôl CMIA yn cael mynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (ac mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau o bell yn ystod pandemig Covid-19).
- Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Cyflawnir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch gweithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 19/01/2022).
- Mae CMIA yn cynnig barn wrthrychol flynyddol am sicrwydd ynghylch prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y Cyngor, ar sail y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac mae'n cyfrannu i'r DLIB.
- Adroddir am gydymffurfiaeth gyda PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bydd cynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (adolygiad diweddaraf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn).
- Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnig sicrwydd, cyngor a dirnadaeth wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus.
- Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan PSIAS.
- Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol Archwilio Mewnol diwethaf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2022, ynghyd â'r Cynllun gwella.
- Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.
- Cynllun Llesiant a chylch gorchwyl BGC, ac adroddiad blynyddol gan BGC.
- Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.
- Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.

DRAFT

4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin fel rheol (cyflwynwyd ar 6 Mehefin 2022). Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Caiff manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd, eu nodi yn yr adroddiad.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwyso CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid ym Mis Mai 2022, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ~~(cynhelir yr adolygiad nesaf yn 2022)~~. Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion PSIAS, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Darparwyd Adroddiad am Gynllun Gweithredu Cynnydd a Blwyddyn Gyfredol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Mehefin 2021.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2021-30/6/2021 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021 a'r cyfnodau dilynol adroddwyd ar 19 Ionawr 2022, 10 Mawrth 2022 a'r 6 Mehefin 2022) yn cynnwys y camau gweithredu a gymrwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae strwythur staffio y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gyflawn yn ystod y flwyddyn 2021-2022.

Ar 24 Chwefror 2021 hefyd, cyflwynodd CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol

am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2021/22 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n cael eu cario ymlaen neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor, er enghraifft, rwymedigaeth daer i ddyfarnu grantiau amrywiol i fusnesau cymwys yn y Sir, ac oherwydd hawliadau twyllodrus posibl, mae'r Archwiliad Mewnol wedi parhau i adolygu sampl o geisiadau cyn talu (mae'n haws stopio taliadau nag adfer yr arian wedi hynny), gan ychwanegu gwerth i weithrediadau'r Cyngor o ganlyniad i amgylchiadau sy'n newid, fel y'i cefnogir gan nodiadau arweiniad y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol.

Daeth yr CMIA i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/06/2022 bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar waith i reoli cyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn seiliedig ar:

- y nifer, y cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022,
- a'r ffaith bod y rheolwyr (pan ar gael) wedi derbyn y camau a gymrwyd.

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliadau penodol wrth archwilio grantiau EIG a PDG.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae'n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol, roedd Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr am faterion: E.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, Pennaeth TG, Cyfreithiol, AD a rhywfaint o gynrychiolaeth adrannol. Mae hwn yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') sy'n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir o bryd i'w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch;
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt;
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn gyfarfod Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Polisi Gwasanaeth (Dirprwy HOS ICT&CS); a
- Chyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor.

Yn ogystal:

- ITSO yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (Cymru WARP) sy'n cwrdd bob chwarter.
- IRMO yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae IRMO yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 9/10.

Mae cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion craidd Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/SOLACE yn cynnig arweiniad i'r holl Aelodau a Swyddogion am yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas i'w diben.

DRAFT

Pandemig y Coronafeirws

Oherwydd argyfwng pandemig y coronafeirws, caewyd holl swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd ar 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni'r argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa frys a gododd o ganlyniad i'r pandemig, ac er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor a'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle y bernir bod y penderfyniad yn un brys ac y byddai unrhyw oedi'n niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol, rhoddodd Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch ymateb y Cyngor i COVID-19.

Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unol â rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor.

Mae Hysbysiad y Cofnod o Benderfyniadau Brys ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen y Cyngor ar gyfer Strwythur Llywodraethu er mwyn gwneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 (https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coronavirus-covid-19/governance/). Adolygwyd y penderfyniad, ac ym mis Hydref 2020, Chwefror 2021, Mawrth 2021 a Mai 2021, cymeradwyodd yr Arweinydd benderfyniadau diwygiedig (ar gael ar wefan y Cyngor hefyd).

Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur wedi'u cynnal er mwyn trafod pandemig Covid-19 a dulliau o ymdrin yn effeithiol â'r sefyllfa. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn dal i gwrdd sawl gwaith yr wythnos.

Sefydlwyd fforwm y Grŵp Rheoli Aur ar unwaith i hwyluso gweithrediadau a darparu proses gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, ac roedd yn cynnal cyfarfodydd rhith bob dydd.

Daeth swyddogaeth Weithredol Dros Dro i drosglwyddo pwerau i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 tan nawr, mae'r Grŵp Rheoli Aur wedi bod yn gwneud penderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae llythyr Archwilio Cymru i'r Cyngor ynghylch Adfer yn sgil Covid-19 – Sicrwydd Dros Dro, dyddiedig 19 Hydref 2020, yn crynhoi ei gasgliadau dros dro ar sail camau parhaus i fonitro'r broses o addasu i effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at y bwriad, yn rhan o drefniadau addasu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, i'r Lòg Penderfyniadau gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac i adroddiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 a chyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2020, a oedd yn nodi cynnwys yr Adroddiad a chynnwys Lòg Penderfyniadau cyfarfodydd y Grŵp Arwain Covid-19, sef y Grŵp Rheoli Aur.

Cyhoeddwyd y Lòg gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020). Mae'r penderfyniadau a wnaed

rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Tachwedd 2020 wedi'u cyhoeddi erbyn hyn hefyd ac mae'r penderfyniadau a wnaethpwyd tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021 yn cael eu paratoi i'w cyhoeddi.

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth yn ddieithriad ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod penllanw cyntaf yr haint ond, yn bwysicach na hynny, nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod unrhyw benllanw yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth wedi'i gweithredu mewn tri chyfnod hyd yma:

- Cyfnod 1: Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cyfnod 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod clo
- Cyfnod 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Mae Cyfnod 3 yn darparu cyfnod addasu rhwng y ddau gyfnod cyntaf a phedwerydd cyfnod, sef y cyfnod adfer. Er mwyn i hynny allu digwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif elfen a fydd yn hollbwysig ar gyfer delio â COVID-19, gan sicrhau ar yr un pryd bod elfennau o'r cyfnod clo yn cael eu llacio'n ddiogel ac mewn dull strwythuredig a reolir. Y tair elfen yw:

Cyfyngu + Ynysu + Dileu

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio'n raddol ac wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut a phryd y gall ailgyflwyno ei wasanaethau neu sut y byddant yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol. Nodir hynny mewn 'Cynllun y ffordd ymlaen' ar wefan y Cyngor.

Gobeithir y bydd sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn er mwyn sicrhau eglurder i holl drigolion Ceredigion.

Ar ôl rhoi'r gorau yn syth ar y dechrau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfarfodydd y Cyngor wedi'u hailgyflwyno ar lwyfan rhith.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd o bell drwy anfon e-bost i'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cael y manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o gyfarfodydd o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gwylio'r cyfarfodydd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor hefyd.

5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022)

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymrwyd yn ystod 2021-22 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020-2021:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys: • Contractwyr; • Llywodraethwyr Ysgol; • Clercod cynghorau Tref a Chymuned; • Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; • Llywodraethwyr Ysgol. MO a CLO Gwasanaethau Democrataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, y Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol, gan barhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.	Mae hon yn ddyletswydd barhaus. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys: • Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; • Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000. • Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghylch y flwyddyn honno yn unol â 56B Pennod 1 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000.	EP/LE	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan • Swyddi cyfarwyddwyr; a • Chyflogaeth arall Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio. Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion. Y Swyddog Monitro i roi cyngor i Brif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan: • cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill,	Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor. Mae cyngor y Swyddog Monitro i Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn gam gweithredu sy'n parhau, a gyflawnir yn rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system Cerinet. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd Diweddariad am Ddatgelu Buddiannau a Lletygarwch Cyflogeion y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor, gan gynnwys dolenni i ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r Swyddog Monitro. Cyhoeddwyd diweddariad am y Datganiad Cyflogeion a'r Gofrestr Buddiannau, gan gynnwys ynghylch		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau COVID-19 ar gyfer busnesau ar 8 Ionawr 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor. Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddaru'r Cyfansoddiad. Ar hyn o bryd, cynhelir adolygiad sylweddol o'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, a hefyd, y Datganiadau Budd a Lletygarwch ar gyfer Staff. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd a chafwyd mewnbwn gan y Swyddog Monitro, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth a'r Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth Diogelu Data. Yn ogystal, anfonwyd Asesiad drafft o'r Effaith ar Ddiogelu Data i'r Swyddog Diogelu Data ei ystyried mewn perthynas â'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiadau, a rhoddwyd		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		diweddariadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 25.11.2021 (rhoddir diweddariad cynnydd pellach yn ystod ei Gyfarfod ar 19.1.2022). Ar ôl cwblhau proses DPIA, anfonir y dogfennau drafft at y Grŵp Arweiniol, Undebau Llafur a'r Cyngor. Yn ogystal, ystyrir a ddylid cyhoeddi Buddiannau Busnes Prif Swyddogion ar wefannau'r Cyngor, a chynhelir Cyfarfodydd rhwng yr MO, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Diogelu Data a CLO – Pobl a Threfniadaeth.		
A1.3 Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu'r egwyddorion gweithredol safonol hyn fel fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau a chymryd camau eraill	Y Grŵp Arweiniol i gael diweddariad am e-Ddysgu gydag AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol (Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('WFGA').	Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu gorfodol ym mis Medi 2017 a than fis Tachwedd 2021, mae wedi cael ei gwblhau gan 2,834 o gyflogeion. O blith y rhain, cwblhaodd 343 y modiwl Cymraeg a chwblhaodd 2,491 y modiwl Saesneg. Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi	GE	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen.	cwblhau'r modiwl e-ddysgu, 40 yn Gymraeg a 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). Anfonir nodiadau atgoffa i staff nad ydynt wedi cyflawni'r modiwl eto a bydd y Grŵp Arweiniol yn cael adroddiadau am weithgarwch cwblhau modiwlau e-ddysgu gorfodol o bryd i'w gilydd. Mae adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen yn dasg barhaus, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw. Cyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ddiwethaf i'r Cyngor yn ystod y Cyfarfod ar 23 Medi 2021, a chyn hyn, yn ystod ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2021. Mae Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar 15 Chwefror 2021, 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021, 10 Awst 2021 ac 8	EP/HR	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Tachwedd 2021, a bwriedir cynnal y Cyfarfod nesaf ar 11 Chwefror 2022. Mae diwygiadau arwyddocaol i'r Cyfansoddiad wedi cynnwys diwygiadau er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weithredu newidiadau fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru yn ei Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21 (Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2021). Cynhelir ymarfer cymharu o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLlLC.		
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu	Mae'r Cyngor yn gwneud paratoadau i gydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio (cylch	Cyflwynwyd newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Weithgor	EP/AW/HR	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad i'w hadolygu): Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; - Yr Aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg; -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.	Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad ar 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021 a 10 Awst 2021, a wnaeth argymhellion priodol i'r Cyngor. Cyflwynwyd Adroddiad am y newidiadau arfaethedig hyn i'r Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23 Medi 2021. Penderfynodd y Cyngor gytuno i'r newidiadau arfaethedig. Cyflwynwyd Adroddiad pellach am newidiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 3 Mehefin 2021, gan gynnwys diweddariadau i'r Cyfansoddiad, gan hysbysu am y gofynion i CJC Canolbarth Cymru i gael Is-bwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Yn ogystal, cyflwynwyd adroddiad am newidiadau dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n		Newidiadau ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a Deddf 2021 wedi'u Cwblhau

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		effeithio ar y Pwyllgor i'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2021, gan gynnwys recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor. Yna cyflwynwyd y newidiadau a'r cynigion hyn ynghylch recriwtio i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021, ac fe'u cymeradwywyd ganddo. Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad, ynghyd â'r dyddiadau gweithredu perthnasol, gan gymeradwyo: a) newid enw y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â swyddogaethau ychwanegol yn ymwneud â delio gyda chwynion a pherfformiad y byddent yn dod i rym o 1 Ebrill 2021; b) cychwyn ar y broses recriwtio am aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio; c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person.		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21 Mai 2021, a gytunodd argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Yna, cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17 Mehefin 2021 a chytunodd y Cyngor ar y cyfansoddiad hwnnw o ran aelodau o 5 Mai 2022. Mae'r broses recriwtio wedi cael ei chwblhau erbyn hyn, a phenderfynodd y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2021 benodi tri ymgeisydd a argymhellwyd gan Banel Dethol y Rhestr Fer. Mae'r broses o gyhoeddi cofrestr y penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Mae Lòg Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur, cofrestr penderfyniadau, wedi cael ei		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	• Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig.	chyhoeddi a'i diweddaru bob chwarter, a'i chyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur (ac yna ei chymeradwyo), ac wedi hynny, i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (yn fwyaf diweddar ar 1 Rhagfyr 2021 a chyn hyn, ar 16 Mehefin 2021) ac fe'i chyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. Cynigiwyd yn y Cyfarfod hwn y dylid cyhoeddi'r Lòg Penderfyniadau yn fwy rheolaidd ac mae MO/Swyddog Llywodraethu yn trefnu y bydd yn cael ei gyhoeddi yn fwy rheolaidd (cyhoeddwyd penderfyniadau a wnaethpwyd tan 30 Tachwedd 2021 a chyhoeddir penderfyniadau a wnaethpwyd tan 31 Rhagfyr 2021 cyn bo hir (Rhagfyr 2021). Yna, cyflwynir y Log Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaethpwyd rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystod ei Gyfarfod ar 10 Chwefror 2022.		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	• Gwaith parhaus i fonitro'r niferoedd sy'n dilyn y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd.	Mewn perthynas â phenderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygiad. Mae unrhyw waith penderfyniadau eraill yn mynd rhagddo, fodd bynnag, yn arbennig, mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i baratoi Cofrestr Gorchymyn Cadw Coed (TPO). O ran y niferoedd a fanteisiodd ar y modiwl Chwythu'r Chwiban e-ddysgu Gorfodol, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael) Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion Corfforaethol wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd y polisi newydd i'r		Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion / Canmoliaeth wedi cael ei gwblhau

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	• Adolygir y polisi Cwynion / Canmoliaeth yn ystod 2020- 2021. Darparir hyfforddiant Moeseg / Twyll.	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ar 23 Medi. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r Polisi a'r Gweithdrefnau Cwynion 2021 diwygiedig. Bellach, mae'r modiwl hyfforddiant Moeseg / Twyll, a baratowyd ar y cyd â Zurich (yswiriwr y Cyngor), wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Anthony Connolly o Zurich ar 28 Mai 2021 yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol. Defnyddir y sleidiau o'r cyflwyniad fel sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff. Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Llywodraethu Mewnol wedi paratoi cwestiynau ac atebion drafft ar gyfer y modiwl e-ddysgu ac mae wedi darparu'r rhain i'r adran Dysgu a		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Datblygu, a byddant yn eu defnyddio fel sylfaen y modiwl. Cefnogir hyn hefyd gan yr adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Mae archwiliad mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A3.1 Sicrhau bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol	• Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn mynd rhagddynt.	Fel yr uchod, mae cydymffurfiaeth gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn bresennol), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.	EP	Mawrth 2022
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Diweddarwyd y polisi FOI ac EIR. Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.	Bwriedir cynnal adolygiad o Gynllun Cyhoeddi FOI yn ystod y flwyddyn nesaf.	LE/AW/MNH	Mawrth 2022
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr	O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur ar hyn o bryd am resymau brys, felly mae'n amhosibl i nifer o wasanaethau	Lluniwyd Tudalen Ymgysylltu, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau Cymunedol ar safle newydd Ceri Net. https://cerinet.ceredigion.gov.uk/our-	AW/LE/MS	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig	ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.	council/community-engagement-consultation-and-partnerships/# Mae hyn yn cynnwys dolenni i'n Rhestr Gyfeirio Polisi Ymgysylltu Cymunedol, Ymgysylltu ac Ymgynghori cyfredol, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori. Bellach, asesir yr holl Asesiadau Effaith Integredig (IIAs) ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys a yw gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori effeithiol wedi digwydd, gan gyfrannu at ein proses strategol o wneud penderfyniadau. Lluniwyd Strategaeth Ymgysylltu ddrafft newydd i Gyngor Sir		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	Mae'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol yn destun adolygiad a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.	Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022. Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.		
B3.4 Gweithredu mecanweithiau adborth effeithiol er mwyn dangos sut yr ystyriwyd eu safbwyntiau	Mae gofyn gwneud gwaith pellach ynghylch monitro adborth a bydd y swydd Cydraddoldeb ac Ymgysylltu newydd yn rhoi sylw i hyn.	Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs. Cyhoeddir adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau ar ein tudalen ar y we ynghylch ymgynghoriadau	AW/MS	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd. http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/ Cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgysylltu / ymgynghori i'r pwyllgor Craffu a'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu gweithgarwch gwneud penderfyniadau.		
C1.5 Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael	Cyhoeddi perfformiad y gwasanaeth gan gynnwys data am y costau a gwerth am arian.	Caiff data perthnasol ynghylch costau a gwerth am arian ei ystyried yn gyson mewn adroddiadau gwasanaeth. Nid yw data ynghylch costau a gwerth am arian yng nghyd-destun rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth, ar gael i nac yn cael ei ddal gan y Gwasanaeth Perfformiad.	AW	Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau
D2.3 Ystyried a monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth	Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	Fel yr uchod, mae'r gwaith yn parhau mewn perthynas â gwneud newidiadau deddfwriaethol, megis	AW/EP	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir		newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl a risgiau a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021). Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol yn eu lle mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		drefniadau priodol yn eu lle (Pwyllgor Craffu, Safonau a Llywodraethu ac Archwilio ar y cyd) – trefniadau sy'n cydymffurfio gyda deddfwriaeth a'i Rheolau Sefydlog.		
D2.5 Pennu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol perthnasol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn nodi sut y caiff perfformiad gwasanaethau a phrosiectau ei fesur	Mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i gysylltu'r mesurau Perfformiad Lleol gyda holl Amcanion cynllun Busnes lefel 1.	Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 a fydd yn eu tro yn trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Yna, bydd gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.	AW	Mawrth 2022
F3.5 Sicrhau pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol	Adolygu cylch gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac	Fel yr uchod, mae gwaith yn parhau mewn perthynas â newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a	EP/AR/HR	Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
sy'n annibynnol ar y pwyllgor gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu: mae'n cynnig ffynhonnell bellach sicrwydd effeithiol ynghylch trefniadau i reoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol y gwrandawir ar ei argymhellion ac y gweithredir yn eu cylch	Etholiadau (Cymru) 2021. Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; -- Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y cânt eu diffinio yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg; -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio. Mae adolygiad yn mynd rhagddo o faint y Pwyllgor Archwilio. Caiff aelodau lleyg eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried unrhyw ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau	Llywodraethu yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn adroddiad yn ystod y cyfarfod ar 24 Chwefror 2021, hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r cam o newid enw, a'r newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad. Fel yr uchod, cyflwynwyd adroddiad yn cynnig diweddariad am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y Cyfarfod ar 3 Mehefin 2021, a oedd yn cynnwys rhoi diweddariad i'r pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	(Cymru) 2021 a therfynu cyfnod aelod lleyg presennol yn y swydd.	- Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag: o adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor; o ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor; o ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor; o adolygiad o swyddogaeth y Cyngor er mwyn delio gyda chwynion; a'r o rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022). Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo (Cyfarfod 23 Medi 2021) diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Llywodraethu ac Archwilio, yn dilyn argymhellion y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad. Diweddarwyd y Cyfansoddiad gyda chylch gorchwyl er mwyn adlewyrchu dyletswyddau cyfredol y Pwyllgor o Ddeddf 2021, a chaiff dyletswyddau ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol eu cynnwys yn y cylch gorchwyl ar yr dyddiad priodol.		
G1.1 Ysgrifennu a chyfleu adroddiadau i'r cyhoedd ac i randdeiliaid eraill mewn arddull dealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa dan sylw a sicrhau eu bod yn hawdd troi atynt a'u cwestiynu	Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu newidiadau i'w cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth gyfranogi gyhoeddus gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder.	Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd hefyd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau, er ein bod yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac mae wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor, a	LE/AM	Mawrth 2022 (– Wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2022)

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â gallu darlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer dros y gaeaf a bydd y system yn ei lle erbyn mis Mawrth 2022.		
G3.1 Sicrhau y gweithredir ynghylch argymhellion sy'n ymwneud â chamau cywiro gan archwilwyr allanol	Monitro cynnydd Camau gweithredu/argymhellion	Dogfennwyd 'Protocol Archwilio Cymru' ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad AW ac y cyflwynir ymatebion gwasanaeth i LG, GAC ac AW. Y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt AW ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion parhaus sy'n ymwneud â llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu. Y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yw'r pwynt cyswllt AW ar gyfer MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad a	EP/AW/SJ	Mawrth 2022

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		materion perfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Protocol (i adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn ei swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 9 Medi 2021. Yn ogystal, mae'r Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol wedi paratoi taenlen ar gyfer MRFs cyfredol, yn ogystal ag MRFs hanesyddol (a gaiff ei monitro gan y Swyddog Llywodraethu), i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Monitro er mwyn monitro ymatebion MRF. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd misol gydag AW i drafod gwaith parhaus a		

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Felly, mae'r camau gweithredu hyn yn parhau, ond mae'r systemau/archwiliadau priodol yn eu lle.		

Sylwer: Caiff unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2022-2023

DRAFT

6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016),* nodwyd y materion a ganlyn i'w datrys yn ystod 2022-23:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	MO i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan am letygarwch/rhoddion. MO i barhau i gynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan: • cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion MO a CLO Gwasanaethau Democrataidd i barhau i adolygu Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, MO i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol a	Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach.	EP/LE	Mawrth 2023

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	pharhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau Diweddaru ffurflenni Goddefebau i Aelodau Stopiwyd yr arfarniadau oherwydd Pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailgychwyn (fe'u cynhaliwyd ym mis Mai 2021 ac maent yn parhau i gael eu gynnal dan drefniant rhith).) Cyhoeddir y Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ar ôl iddo gael ei ddiweddaru a'i gymeradwyo. Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Gorfodol ynghylch Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo. Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.			

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)	Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.	Ymgorffori ymhellach Egwyddorion a gwerthoedd Gweithredu Safonol, gan gynnwys eu cyfathrebu.	EP/LE	Mawrth 2023
A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu eraill	Rhoddir diweddariad i'r Grŵp Arweiniol am e-ddysgu a bydd AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol.	Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl er mwyn gwneud penderfyniadau'n effeithiol.	GE	Mawrth 2023
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig.	Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau. Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol	EP/ HR	Mawrth 2023

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	Monitro parhaus o'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r modiwl e-ddysgu Gorfodol am Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd. Adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban.	ymhellach ac arwain drwy esiampl. Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach.		
A3.1 Sicrhau bod aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith yn ogystal â chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol	Hyfforddiant pellach i'w roi i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data a hysbysiadau preifatrwydd. Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w rhoi.	Dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith a chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol	EP/LE	Mawrth 2023
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Cwblhau adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.	Dangos ymrwymiad i fod yn agored.	LE/AW/MNH	Mawrth 2023
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid	Oherwydd pandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r Grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro sydd mewn grym	Gwella Ymgysylltu â'r Gymuned.	AW	Mawrth 2023

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig	tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004), felly mae wedi bod yn amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn. Parhau i symud ymlaen gyda'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.			
D2.3 Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir	Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob	Rheoli risg a chydymffurfio gyda deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r gyfraith.	AW/EP	Mawrth 2023

DRAFT

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.			
G3.1 Sicrhau y gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol	Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion.	Sicrwydd a rheoli risg	EP/AW/SJ	Mawrth 2023

DRAFT

7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu gynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o'r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n dod â'r holl godau a'r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Galluogodd hynny y Cyngor i ymateb yn gyflym i'r bygythiadau a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws.

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i'w datrys yn ystod 2022/23 ac mae wedi'u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymrwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig eu cofnodi, fel y bo'n briodol.

8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, trwy gydol 2022/23, a byddwn yn monitro'r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a'r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai'r pandemig atal rhai o'r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23.

DRAFT

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3244A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen eu dwyn i'ch sylw cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Asedau Seilwaith 4

Barn archwilio arfaethedig 5

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad 5

Atodiadau

Atodiad 1 – llythyr sylwadau terfynol 7

Atodiad 2 – adroddiad archwilio arfaethedig 10

Atodiad 3 – crynodeb o gywiriadau a wnaed 15

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r swyddogion perthnasol.

3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.

4 Fe bennon ni lefel o £2.8 miliwn ar gyfer hyn yn archwiliad eleni.

5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a all fod o fwy o bwysigrwydd i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel is o berthnasedd ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Aelodau o Staff – £1,000
- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig ar gyfer swyddogion ac aelodau – £10,000

6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol ond ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae'r gwaith canlynol yn dal heb ei gyflawni:

- yr adolygiad terfynol o'n ffeil archwilio; a hefyd
- ein hadolygiad terfynol o ddatganiadau ariannol diwygiedig 2021-22.

7 Byddwn yn darparu diweddariad ar lafar am yr eitemau hyn sydd heb eu cwblhau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ym mis Ionawr 2023.

8 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.

9 Bu'n angenrheidiol newid yr Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad o'r un a hysbysebwyd yn y Cynllun Archwilio. Derwyn Owen, sy'n Gyfarwyddwr yn Archwilio Cymru, oedd yr Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad o'r cyfrifon.

Asedau Seilwaith

10 Yn gyffredin ag awdurdodau lleol eraill, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi manteisio ar ryddhadau dros dro ar gyfer datgeliadau llai mewn perthynas ag asedau seilwaith y darparwyd ar eu cyfer yn y Diweddariad i'r Cod a Manylebau ar gyfer Codau yn y Dyfodol ar gyfer Asedau Seilwaith a'r newidiadau yn 2022 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003.

11 Nid yw'r awdurdod wedi datgelu cost gros a dibrisiant cronnus ar gyfer asedau seilwaith, am bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisiant cronnus yn cael eu mesur yn gywir ac na

fyddent yn cynrychioli'r sefyllfa o ran asedau mewn modd ffyddlon i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

12 Dull dros dro yw'r rhyddhadau sydd wedi'u bwriadu i alluogi awdurdodau i fynd i'r afael â'r diffygion gwybodaeth a pharatoi gwybodaeth gadarn i ategu gwerth cario asedau seilwaith. Dim ond i flynyddoedd ariannol hyd at a chan gynnwys 2024-25 y mae'r rhyddhadau dros dro'n berthnasol.

13 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos effaith y mater hwn ar yr amserlen archwilio.

Arddangosyn 1 – effaith materion cenedlaethol ar amserlen archwilio eleni

Amserlen	O ystyried y llithriant parhaus sy'n deillio o bandemig COVID-19 a materion cenedlaethol mewn perthynas ag archwilio asedau seilwaith, darparodd Llywodraeth Cymru hyblygrwydd o ran y terfynau amser ar gyfer paratoi cyfrifon a'r terfynau amser ar gyfer archwilio: • cafodd y raddfa amser ar gyfer cwblhau eich cyfrifon ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru o 31 Mai 2022 i 31 Awst 2022; • cawsom y cyfrifon drafft ar 16 Awst 2022; • cafodd ein terfyn amser ar gyfer cwblhau ein harchwiliad ei newid o 31 Gorffennaf 2022 i 31 Ionawr 2023; ac • rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 30 Ionawr 2023.

Barn archwilio arfaethedig

14 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr un a nodir yn **Atodiad 1**.

15 Rydym yn rhoi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall, rydym yn rhoi barn ddiamod.

16 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae angen inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhau gwybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

17 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

18 Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon archwiliedig.

Camddatganiadau a gywirwyd

19 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n ystyried y dylid dwyn y rhain i'ch sylw ac felly fe'u nodir ynghyd ag esboniadau yn **Atodiad 3**.

Materion arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

20 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Mae un mater yr ydym yn dymuno'i ddwyn i'ch sylw.

21 Rhwng 2015-16 a 2019-20, fe wnaethom nodi anawsterau a oedd yn codi o archwilio asedau'r Cyngor o ran trywydd archwilio annigonol a diffyg Sicrwydd Ansawdd effeithiol i sicrhau bod materion a gwallau'n cael eu hadnabod yn fewnol ac nid pan fo archwilwyr yn gwneud eu gwaith.

22 Er na wnaethom ganfod y materion hyn y llynedd, fe wnaethom ganfod materion tebyg eto yn ystod archwiliad eleni. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ymdrin â'r rhain ac yn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed yn wreiddiol yn 2020-21. Caiff asedau'r Cyngor eu hailbrisio ar raglen dreigl dros bum mlynedd ac mewn blynyddoedd yn y dyfodol bydd llwyth gwaith y rhaglen yn drymach. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod gwella'n barhaus yn dal i fod yn bwysig i sicrhau nad yw materion yn codi eto yn y dyfodol.

Atodiad 1

Llythyr sylwadau terfynol

[Pennawd llythyr y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

26 Ionawr 2023

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio) Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22; yn arbennig, bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ceredigion ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y Datganiadau Ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd ar sail gwerth teg, yn rhesymol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau neu ddatgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol.

Sylwadau gan y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar 26 Ionawr 2023.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:	Llofnodwyd gan:
[Swyddog sy’n llofnodi ar ran y rheolwyr]	[Swyddog neu Aelod sy’n llofnodi ar ran y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu]
Dyddiad: 26 Ionawr 2023	Dyddiad: 26 Ionawr 2023

Atodiad 2

Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ceredigion

Barn am y datganiadau ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad ar Lifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu’r Cyngor i barhau i fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Adroddiad Naratif wedi’i baratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; ac
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r

datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon ar **dudalen 8**, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i

ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ceredigion sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll wrth gofnodi dyddlyfrau anarferol.
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gyngor Sir Ceredigion yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ceredigion.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd posibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ceredigion, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Ionawr 2023

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Atodiad 3

Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi am y broses adrodd ariannol.

Arddangosyn 2: crynodeb o gywiriadau a wnaed

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
Cost Gros o £165,721,000; a Dibrisiant Cronnus o £29,775,000 (Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)	**Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen** Fel a nodir ym mharagraff 11, mae'r balansau cost hanesyddol a dibrisiant cronnus sy'n ymwneud ag asedau seilwaith wedi cael eu tynnu allan o'r cyfrifon. Mae hyn yn golygu bod y golofn seilwaith wedi cael eu thynnu allan o nodyn 1.13 a dangosir gwerth llyfr net asedau seilwaith yn y Fantolen. Nid oes effaith ar y fantolen ar y cyfan.	I fanteisio ar ryddhadau dros dro ar gyfer datgeliadau llai mewn perthynas ag asedau seilwaith.
Cost Gros a Dibrisiant Cronnus o £2,122,360 (GLIN o DDIM) (Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)	**Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen** Roedd Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys nifer o asedau yr oedd y Cyngor eisoes wedi eu gwaredu. Cafodd yr asedau hyn eu dibrisio'n llawn ac felly roedd GLIN y rhain yn DDIM. Diwygiwyd nodyn 1.13 i dynnu allan y Gost Gros a Dibrisiant Cronnus ar gyfer y rhain (cyfanswm o £2,122,360 ar gyfer y naill a'r llall) heb unrhyw effaith ar gyfanswm y cwbl yn Nodyn 1.13 na'r Fantolen .	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
£452,452	**Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen** Ni chwblhawyd y prisiad o'r dosbarth asedau Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd i fod i gael ei gwblhau yn 2021-22 fel rhan o raglen dreigl bum mlynedd y Cyngor o asedau. Mae'r rhain wedi cael eu prisio wedyn yn ystod y broses archwilio, gan arwain at gynnydd mewn prisiadau tuag i fyny o £1,199,641 a phrisiadau tuag i lawr o £747,189 (cynnydd net o £452,452 i werth asedau yn Nodyn 13 a'r Fantolen).	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
£151,000	**Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen** Canfu profion archwilio naw ased y mae'r modd y triniwyd gwariant nad yw'n cynyddu gwerth ar eu cyfer yn anghywir. Mae gwerth yr asedau hyn yn y cyfrifon wedi'i danddatgan o £151,000. Diweddarwyd y cyfrifon i gynyddu gwerth yr asedau yn ôl y swm yma.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
£600,000 (Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)	**Nodyn 1.13 Eiddo, Cyfarpar ac Offer a'r Fantolen** Diwygiwyd Nodyn 1.13 i ailddosbarthu ased a oedd yn gyfanswm o £600,000 a gofnodwyd yn wreiddiol o fewn Asedau Dros Ben, ond canfu profion archwilio y dylai hwn fod wedi cael ei gofnodi o fewn Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
£86,000 (Dim effaith ar y prif ddatganiadau ar y cyfan)	**Nodyn 1.33 Trafodion Partïon Cysylltiedig** Canfu profion archwilio nifer o bartïon cysylltiedig mewn perthynas ag aelodau nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn Nodyn 1.33. Diwygiwyd Nodyn 1.33 i gynnwys £86,000 o drafodion mewn perthynas â'r partïon cysylltiedig hyn.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
£163,000 (Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)	**Nodyn 1.19 Offerynnau Ariannol** O dan y pennawd Credydwyr, mae Rhwymedigaethau Ariannol yn ôl cost amorteiddiedig wedi cael eu diwygio o £31,756,000 i £31,593,000 sy'n ostyngiad o £163,000 oherwydd gwall yn y cyfrifiad.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
Amrywiol (Dim effaith ar y prif ddatganiadau ar y cyfan)	Gwnaed nifer o fân newidiadau i'r datganiadau ariannol mewn perthynas â naill ai diwygio datgeliadau gwybodaeth neu newidiadau naratif.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynglŷn â Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion 2021/22.**
Pwrpas yr adroddiad:	**Ystyried y Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Cynghorydd Gareth Davies Gwasanaethau Cyllid a Chaffael**

1. CYFLWYNIAD

Yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion erbyn 31 Ionawr 2023.

Cafodd y Datganiad o'r Cyfrifon Awdurdod Harbwr Ceredigion ei baratoi i ateb gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

2. CYFRIFON

Cyflwynwyd y Cyfrifon Drafft i Archwilio Cymru ar 16 Awst. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, mae'r alldro yn dangos tanwariant cyffredinol o £668k, mae'r Gronfa Gyffredinol wedi codi i £6.7m a lefel y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd wedi cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn i ychydig o dan £54m. Mae'n gadarnhaol mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod parthed y Cyfrifon. O ganlyniad byddwn yn medru cwblhau'r archwiliad yn derfynol erbyn 31 Ionawr 2023.

Mae nifer o gyfeiriadau at Covid 19 yn y Datganiad Cyfrifon gyda nodiadau a gofynion ychwanegol. Mae Nodyn Datganiad 1.12 yn cynnwys dau dabl defnyddiol sy'n dangos crynodeb o arian Covid 19 a dderbyniwyd gan y Cyngor yn ogystal ag arian ychwanegol tuag at wariant Asiantaethau sy'n gyfanswm o oddeutu £14m. Mae hyn hefyd yn cynnwys y Taliadau Grantiau Busnes.

Amgaeir y Datganiadau Cyfrifon Cyngor Sir Ceredigion ac Awdurdod Harbwr Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 i'r Cyngor eu hystyried. Ystyriodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyfrifon yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022 ac adroddir sylwadau'r Pwyllgor gerbron y Cyngor.

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam	Na. Mae'r adroddiad yn ofyniad statudol.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:***	
	Hirdymor:	Amherthnasol
	Cydweithio:	Amherthnasol
	Cynnwys:	Amherthnasol
	Atal:	Amherthnasol
	Integreiddio:	Amherthnasol
Argymhelliad / Argymhellion:	**Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyngor a Datganiad Cyfrifon yr Awdurdod Harbwr**	
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	**Er mwyn sicrhau bod y Datganiadau Cyfrifon wedi'u cymeradwyo.**	
Trosolwg a Chraffu:	Ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – 19 Ionawr 2023	
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Amherthnasol	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Amherthnasol	
Goblygiadau cyfreithiol:	Amherthnasol	
Goblygiadau staffio:	Amherthnasol	
Goblygiadau eiddo / asedau:	Amherthnasol	
Risg(iau):	Amherthnasol	
Pwerau Statudol:	Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989	
Papurau Cefndir:	Amherthnasol	
Atodiadau:	**Datganiadau Cyfrifon**	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael	
Swyddog Adrodd:	Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael	
Dyddiad:	19 Ionawr 2023	

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

DATGANIAD O'R CYFRIFON

am y flwyddyn a oedd
yn diweddu ar
31ain Mawrth 2022
Archwiliwyd

CYNNWYS

	Rhif y Dudalen
Adroddiad Naratif	2
Datganiad o'r Cyfrifoldebau o ran y Datganiad Cyfrifon	8
Adroddiad yr Archwilydd i Gyngor Sir Ceredigion	9
DATGANIADAU ARIANNOL	
Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	13
Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant	15
Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn	17
Mantolen	18
Datganiad Llif Arian	19
Nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon	20
Datganiad Llywodraethu Blynyddol	91

ADRODDIAD NARATIF

Ynglŷn â Chyngor Sir Ceredigion

Mae Sir Ceredigion yn ardal sy'n ymestyn dros fwy nag 690 milltir sgwâr o olygfeydd ysblennydd, arfordir dramatig a chymunedau llawn bwrlwm. Yn ddaearyddol mae'r sir yn un o'r rhai mwyaf yng Nghymru gyda phoblogaeth o 71,500 yn ôl cyfrifiad 2021, wedi'i gwasgaru ar hyd a lled y sir a'r prif drefi sef Aberystwyth, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul, Aberaeron a Thregaron.

Mae Ceredigion yn darparu ar gyfer nifer o ddiwydiannau, e.e. amaethyddiaeth, twristiaeth, cwmnïau cynhyrchu bwyd, adwerthu, ymchwil gwyddonol a llawer o fusnesau cynhenid eraill sydd wedi'u lleoli ar draws y Sir. Mae addysg yn chwarae rôl fawr yng Ngheredigion gyda dwy Brifysgol, Coleg Addysg Bellach, 4 ysgol uwchradd, 3 ysgol canol a nifer o ysgolion cynradd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn awdurdod unedol, a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 1996 ac mae'n gyfrifol am ystod eang o wasanaethau a gweithgareddau. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu system "Gabinet" o weinyddu. Bydd y Cabinet cyflawni swyddogaethau Gweithrediaeth ar ran yr Awdurdod.

Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (ar dudalennau 91 i 156) yn amlinellu ymagwedd y Cyngor tuag at sicrhau ei fod yn cynnal system effeithiol o ran llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol. Cynhyrchir y datganiad yn dilyn adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac mae'n cynnwys cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol a nodwyd.

Materion a risgiau sy'n effeithio ar y Cyngor

Isod nodir risgiau corfforaethol y Cyngor, sgôr y risgiau a'u statws CMG [coch (13-25), melyn (6-12), gwyrdd (0-5)] ar ddechrau a diwedd y flwyddyn:

Risgiau Corfforaethol	Dechrau'r flwyddyn	Diwedd y flwyddyn
Trefniadau Gwella a Rheoli Perfformiad Corfforaethol	9/Melyn	6/Melyn
Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl	10/Melyn	15/Coch
Cynllun Ariannol Tymor Canolig	15/Coch	15/Coch
Rhaglen Gydol Oed a Llesiant	15/Coch	15/Coch
Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch	8/Melyn	8/Melyn
Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol, Cynnal Diogelwch	16/Coch	16/Coch
Canlyniadau Brexit	16/Coch	16/Coch
Diogelu	15/Coch	15/Coch
COVID-19	25/Coch	12/Melyn
Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd		25/Coch
Clefyd Coed Ynn		20/Coch
Ffosffadau		20/Coch

- **Gwella Corfforaethol a Threfniadau Rheoli Perfformiad** – mae sgôr y risg wedi gostwng i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf a'r ffaith bod cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Perfformiad a Chynllunio Busnes wedi ailddechrau yn dilyn cyfnod yn ystod 2020/21 pan na chynhaliwyd y cyfarfodydd am fod angen ymateb i bandemig COVID-19.
- **Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl** – mae sgôr y risg wedi cynyddu o 10 i 15 i adlewyrchu'r risg o ran ymosodiadau meddalwedd wystlo (ransomware*)* ar rwydwaith y cyngor a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gallu i barhau â gwaith y cyngor a darparu gwasanaethau hanfodol.
- **Rheoli Gwybodaeth** – fe'i ehangwyd i gynnwys **Rheoli Gwybodaeth a Chydnerthedd Seiberddiogelwch** i adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol seiberddiogelwch ymhlith y staff swyddfa sy'n gweithio gartref.
- **COVID-19** – mae sgôr y risg wedi lleihau o 25 i 20 i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn dilyn llwyddiant y rhaglen frechu. Mae'r Cyngor yn parhau i ymwneud ag amrywiaeth o grwpiau yn fewnol ac yn allanol parthed y trefniadau ymateb ac adfer.
- **Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd** – risg newydd yw hon sy'n cyfuno'r risgiau blaenorol Rheoli Carbon ac Erydu Arfordirol i greu un risg gyffredinol ar newid hinsawdd. Mae'r risg newydd hon yn cynnwys goblygiadau ehangach newid hinsawdd, megis mwy o achosion o lifogydd, sychder a stormydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo arwain trwy esiampl a rhoi sylw i'r risgiau hyn. Mae camau lliniaru ar waith gan gynnwys datblygu Strategaeth Newid Hinsawdd Gorfforaethol a chynllun gweithredu yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn cyflawni carbon sero-net erbyn 2030. Yn wyneb yr effeithiau posibl a'r tebygolrwydd, mae'r risg hon wedi cael sgôr o 25 ar y gofrestr.
- Mae **Clefyd Coed Ynn** yn risg newydd y chwarter hwn gan adlewyrchu'r effaith fawr y gallai Clefyd Coed Ynn ei chael ar draws Ceredigion a Chymru. Amcangyfrifir bod 42,000 o goed ynn aeddfed ar hyd ffyrdd sirol yn unig, a 10,000 pellach ar Ystad Gorfforaethol y Cyngor. Mae Clefyd Coed Ynn eisoes yn gyffredin ac i'w weld ar draws y sir. Mae camau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith gan gynnwys cynhyrchu cynllun gweithredu, sefydlu grŵp llywio, ynghyd â chynnal arolwg o'r meysydd â blaenoriaeth uchel i nodi lleoliadau coed ynn a'u cyflwr.
- **Ffosffadau** – Mae ffosffadau yn risg newydd. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ceredigion ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n argymell cyfyngiadau cynllunio oherwydd lefelau uchel o ffosffadau yn afon Teifi. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol ar y sir a bydd yn atal adeiladau rhag cael eu datblygu ar draws 44.6% o Geredigion, gan effeithio ar dwf economaidd y sir.
- Nid oes unrhyw newidiadau i sgoriau risg **Cynllun Ariannol Tymor Canolig**, **Rhaglen Gydol Oed a Llesiant**, **Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol**, **Canlyniadau Brexit** a **Diogelu**, ond adolygwyd camau lliniaru.

Strategaeth Ariannol a Dyraniad Adnoddau

Mae nifer o flynyddoedd heriol o'n blaenau ym maes llywodraeth leol gan fod cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn eithriadol o dynn. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar gyllidebau'r Cyngor. Felly, mae hwn yn gyfnod anodd o ran y gyllideb ac o ran darparu gwasanaethau, yn enwedig wrth i ganlyniadau pandemig COVID-19 ar gyllid cyhoeddus ddod yn gliriach.

Mae tystiolaeth o hyn eisoes o fewn y broses dendro (yn bennaf ar ochr cyfalaf) a chostau refeniw (yn benodol lle effeithir ar wasanaethau gan brisiau tanwydd ac egni, lle mae contractau yn gysylltiedig â chwyddiant). Nid yw codiadau cyflog wedi eu penderfynu eto ar gyfer 2022/23, gan fod bellach tipyn mwy o risg y bydd chwyddiant cyflogau yn fwy na lefelau a nodwyd ar hyn o bryd yn y gyllideb.

Gellir gweld strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor yma:

http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/strategaethau-cynllunio-a-pholisiau/cyllid/strategaeth-ariannol-tymor-canolig/

Perfformiad Ariannol - Refeniw

Mae sefyllfa refeniw cyffredinol terfynol yn nodi tanwariant cyffredinol o £668k. Bydd hyn yn cynnwys manteision y gwarged o ran casglu Treth y Cyngor a Grant Refeniw ychwanegol Llywodraeth Cymru (a dderbyniwyd o ganlyniad i Setliad Ariannol a ddiwygiwyd ar gyfer 2021/22 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022). Mae'r tanwariant yn is na'r hyn a ragwelwyd o ganlyniad i drosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd fydd o gymorth wrth gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Bydd y gwarged cyffredinol yn golygu y bydd y Balansau Cyffredinol yn codi i £6.7m, sy'n cyfateb i 4.1% o Gyllideb 2022/23 (sef ychydig yn uwch na'r pwynt canol ar gyfer yr ystod targed rhwng 3% a 5%).

Caiff cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd eu hadolygu'n rheolaidd a'u hail-lunio i flaenoriaethau sy'n datblygu, ymrwymiadau ac anghenion posib. Edrychwyd ar hyn ymhellach fel rhan o'r broses alldro a nodir manylion llawn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn Atodiad 1.8. Yn gyffredinol, mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (gan eithrio Balansau Cyffredinol) wedi cynyddu ar ddiwedd y flwyddyn i ychydig o dan £54m (sef 32.5% o Gyllideb 2022/23).

Mae rheoli deinameg ariannol COVID-19 wedi parhau i fod yn heriol ac yn ddwys iawn o ran defnydd adnoddau. Fodd bynnag mae perfformiad 2021/22 yn parhau i ddangos serch COVID-19, fod sefyllfa ariannol cyffredinol y Cyngor yn parhau'n bositif ac yn medru gwrthsefyll y sefyllfa ac y mae mantolen y Cyngor yn parhau'n gryf, er gwaethaf y ffaith bod mwy a mwy o bethau'n codi bob amser.

Mae dadansoddiad o sefyllfa alldro refeniw rheoladwy terfynol yn wahanol i flynyddoedd blaenorol am fod Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 wedi ail agor a'r arian ychwanegol y mae hyn yn ei ddenu y tu allan i'r Gyllideb reoladwy arferol. Felly gall y sefyllfa gyffredinol derfynol gael ei chrynhoi fel a ganlyn:

	2021/22 Cyllideb ddiweddaraf £'000	2021/22 Union Wariant £'000	Tan / (Gor) wariant £'000
Arian			
Treth y Cyngor	**(45,078)**	(46,629)	*1,551*
NNDR + RSG	**(109,658)**	(111,093)	*1,435*
Cyfanswm yr Arian	**(154,736)**	**(157,722)**	*2,986*
Llai trosglwyddiadau i'r arian wrth gefn *	**-**	2,001	*(2,001)*
Cyfanswm yr Arian Net	**(154,736)**	**(155,721)**	*985*
Cyllideb Reoladwy	**154,736**	**155,053**	***(317)***
Sefyllfa Alldro Cyffredinol	**-**	**(668)**	*668*

** Mae'r trosglwyddiadau yma i'r Cronfeydd wrth Gefn yn ymwneud yn benodol â gosod i'r ochr Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Cymru o £1.4m a chynnydd rhannol sy'n rhan o'r cynnydd yng nghronfa wrth gefn y Cynllun Cyllid Preifat. Mae trosglwyddiadau eraill i gronfeydd wrth gefn o fewn sefyllfa'r Gyllideb Reoladwy.*

Dangosir y sefyllfa derfynol gyffredinol hefyd yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido ar dudalen 13.

Perfformiad Ariannol - Cyfalaf

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Cyllideb Gymeradwy	22,661	19,121
Cyllideb Wariadwy	22,155	17,737
Gwariant Gwirioneddol	17,522	13,814
	4,633	**3,923**

Cyllideb Gymeradwy – yw cyfanswm cyllideb y Rhaglen Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Cabinet/y Cyngor sy'n cynnwys llinell ar gyfer grantiau cyffredinol nad yw'n Gyllideb Wariadwy. Dyma fecanwaith ar gyfer ychwanegu cynlluniau grant cymeradwy ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Cyllideb Wariadwy – yw cyfanswm y cynlluniau cymeradwy o fewn y Rhaglen Gyfalaf nad yw'n cynnwys y llinell ar gyfer grantiau cyffredinol.

Cyllid Gwariant Cyfalaf:	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Cyllid Cyfalaf Cyffredinol	1,992	1,754
Benthyca â Chymorth	673	126
Cronfeydd Wrth Gefn Datblygu Addysg yng Ngheredigion	0	94
Derbyniadau Cyfalaf	299	0
Refeniw/Cyfraniadau Wrth Gefn - gan gynnwys Cyfalaf Corfforaethol Wrth Gefn	127	3
Arian i'w ad-dalu i LIC (Troi Tai'n Gartrefi a HILS)	142	185
Grantiau	14,289	11,652
	17,522	**13,814**

DATGANIADAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y Datganiad Cyfrifon i ddarparu gywbodaeth ar sefyllfa ariannol y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, aelodau'r cyngor ac unrhyw bartïon eraill. Mae'r ddogfen yn rhoi crynodeb o sefyllfa ariannol gyffredinol ar 31 Mawrth 2022 ac yn cynnwys nifer o ddatganiadau cyfrifyddu, sy'n dangos ystod a graddfa gwasanaethau a gweithgareddau'r Cyngor, a hynny mewn termau ariannol. Mae gwahanol adrannau'r Cyngor wedi cydweithredu drwy gadw cofnodion ariannol digonol, rheoli eu cyllidebau a darparu dogfennau priodol. Paratowyd y ddogfen hon i ateb gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (ac fel y nodwyd ymhellach yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014) ac mae'n adlewyrchu'n llawn gofynion Cod Ymarfer Cyfrifyddu ar gyfer Awdurdodau yn y Deyrnas Unedig 2021/22 ar gyfer datganiadau cyfrifyddu.

DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys nifer o Ddatganiadau Cyfrifyddu ac mae'r nodiadau a ganlyn yn esbonio'u pwrpas.

Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu

Mae'r Dadansoddiad o Wariant ac Ariannu'n dangos sut mae'r gwariant blynyddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu gan Gynghorau gydag adnoddau (grantiau'r llywodraeth, treth y cyngor a threthi busnes), o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan Gynghorau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant hwn yn cael ei ddyrannu i wahanol Wasanaethau'r Cyngor, er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau. Mae'r incwm a'r gwariant sy'n gysylltiedig ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant

Mae'r datganiad yn dangos cost cyfrifyddu yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w ariannu o drethi. Mae cynghorau yn codi treth y cyngor er mwyn talu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i gost cyfrifyddu. Dangosir y sefyllfa drethi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos symudiadau yn ystod y flwyddyn parthed y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, ac a ddadansoddir fel 'cronfeydd defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu ostwng treth y cyngor) a 'chronfeydd wrth gefn aneddfnyddiadwy'. Mae'r Gorged neu'r Diffyg ar y llinell Darparu Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, dangosir mwy o fanylion yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n ofynnol eu nodi ym Malans y Gronfa Gyffredinol at ddibenion y dreth gyngor. Mae'r Cynnydd/Lleihad cyn Trosglwyddiadau i'r llinell Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd yn dangos Balans y Gronfa Gyffredinol statudol a'r Balans Cyfrif Refeniw Tai cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd neu ohonynt a wnaethpwyd gan y Cyngor.

Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth ar ddyddiad y Fantolen, yr asedau a'r ymrwymiadau a gydnabyddir gan y Cyngor. Caiff asedau net y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) eu cyfateb gan yr arian wrth gefn a gedwir gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Y categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yw cronfeydd defnyddiadwy h.y. y cronfeydd hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o arian wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Wrth Gefn Derbynebau Cyfalaf Defnyddiadwy a ellir ond eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf neu i ad-dalu dyled). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw cronfeydd wrth gefn anefnyddiadwy, h.y. y rhai nad yw'r Cyngor yn medru eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd sydd yn dal enillion a cholledion na wireddwyd (er enghraifft y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio), lle byddai symiau ond ar gael er mwyn darparu gwasanaethau os gwerthir yr asedau; a bod cronfeydd wrth gefn sydd â gwahaniaeth amseru fel y dangosir yn y llinell Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn 'Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan reoliadau'.

Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Ariannol yn dangos y newidiadau mewn arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian ac eitemau cyfwerth ag arian parod drwy ddosbarthu llif arian fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido gweithgareddau. Mae maint y llif arian net sydd yn deillio o weithgareddau gweithredol yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor sydd yn cael eu cyllido drwy drethi ac incwm grant neu gan y rhai sydd yn derbyn gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli'r graddau y mae llif arian allan wedi eu gwneud o adnoddau a fwriedir i gyfrannu i gyflwyno gwasanaethau gan y Cyngor yn y dyfodol. Mae llif ariannol sydd yn deillio o weithgareddau ariannol yn ddefnyddiol wrth ddarogan hawliadau ar lif ariannol yn y dyfodol drwy ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) i'r Cyngor.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae gan bawb sydd â diddordeb hawl statudol i weld y Cyfrifon, yn ystod arolygiad cyhoeddus, cyn cwblhau'r archwiliad blynyddol. Mae'r Cyngor a'i Swyddogion wedi ymrwymo i roi gwybodaeth lawn ar faterion ariannol y Cyngor. Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth neu esboniad ynglŷn â'r Cyfrifon, cysylltwch â:

Cyllid a Chaffael
E-bost: df.technicians@ceredigion.gov.uk

DATGANIAD O'R CYFRIFOLDEBAU O RAN Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Mae'n ofynnol bod y Cyngor:

- yn gwneud trefniadau i weinyddu ei faterion ariannol yn briodol ac yn sicrhau bod un o'i swyddogion yn gyfrifol am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog hwnnw yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael.

- yn rheoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau a diogelu ei asedau.

- cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cadeirydd y Cyngor 26 Ionawr 2023

CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL – CYLLID A CHAFFAEL

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r arferion priodol fel y'u nodir yn CIPFA/LASAAC *Cod Arferion ar Gyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* ('y Cod').

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael:

- wedi dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio mewn modd cyson;
- wedi gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer.

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael hefyd:

- wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyfredol;
- wedi cymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Rwyf yn ardystio bod Datganiad y Cyfrifon yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu a'i incwm a'i wariant dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael 26 Ionawr 2023

ADRODDIAD ARCHWILYDD ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNGOR SIR CEREDIGION

Barn am y datganiadau ariannol
Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad ar Lifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

SAIL Y FARN
Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol
Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

ADRODDIAD AR OFYNION ERAILL

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol
Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon ar dudalen 8, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ceredigion sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll wrth gofnodi dyddlyfrau anarferol.
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gyngor Sir Ceredigion yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r

rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ceredigion.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol am ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd posibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ceredigion, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

TYSTYSGRIF CWBLHAU'R ARCHWILIAD

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
30 Ionawr 2023

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO 2021/2022

2021/2022	Alldro	Trosglwyddiadau (i)/o'r Cronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 1.8)	Gwariant Net a godir ar y Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Cyllido (Nodyn 1.1 & 1.7)	Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion a Diwylliant	48,508	(2,486)	**46,022**	9,374	**55,396**
Porth Cymorth Cynnar	3,719	(125)	**3,594**	174	**3,768**
Cyllid a Chaffael	20,004	(1,996)	**18,008**	(4,972)	**13,036**
Gwasanaethau Democrataidd	4,016	0	**4,016**	732	**4,748**
Pobl a Threfniadaeth	2,082	0	**2,082**	441	**2,523**
Porth Cynnal	23,632	(750)	**22,882**	816	**23,698**
Porth Gofal	11,595	(524)	**11,071**	2,383	**13,454**
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	2,657	0	**2,657**	335	**2,992**
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	17,474	(1,398)	**16,076**	5,207	**21,283**
Economi ac Adfywid	3,189	(59)	**3,130**	2,810	**5,940**
Cyswllt Cwsmeriaid	5,705	(75)	**5,630**	1,019	**6,649**
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,527	0	**1,527**	195	**1,722**
Grŵp Arweiniol	5,801	(4,922)	**879**	960	**1,839**
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	7,145	(3,073)	**4,072**	(4,072)	**0**
COST NET GWASANAETHAU	**157,054**	**(15,408)**	**141,646**	**15,402**	**157,048**
Incwm a Gwariant Arall	**(157,722)**	**0**	**(157,722)**	**(5,944)**	**(163,666)**
(Gorged) neu Ddiffyg	**(668)**	**(15,408)**	**(16,076)**	**9,458**	**(6,618)**
Balans Agoriadol Gronfa Gyffrinedol	**(6,052)**	**(38,533)**	**(44,585)**		
(Gorged) neu Ddiffyg	**(668)**	**(15,408)**	**(16,076)**		
Balans Terfynol Gronfa Gyffrinedol	**(6,720)**	**(53,941)**	**(60,661)**		

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO 2020/2021

2020/2021	Alldro	Trosglwyddiadau (i)/o'r Cronfeydd a Glustnodwyd (Nodyn 1.8)	Gwariant Net a godir ar y Gronfa Gyffredinol	Addasiadau rhwng Sail Cyfrifyddu a Sail Cyllido (Nodyn 1.1 & 1.7)	Gwariant Net yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion a Diwylliant	48,861	(4,962)	**43,899**	7,697	**51,596**
Porth Cymorth Cynnar	3,158	(351)	**2,807**	1,643	**4,450**
Cyllid a Chaffael	20,858	(1,664)	**19,194**	(6,787)	**12,407**
Gwasanaethau Democrataidd	3,957	0	**3,957**	477	**4,434**
Pobl a Threfniadaeth	2,007	0	**2,007**	256	**2,263**
Porth Cynnal	21,950	1,301	**23,251**	619	**23,870**
Porth Gofal	10,236	(1,067)	**9,169**	1,627	**10,796**
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	2,178	0	**2,178**	193	**2,371**
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	16,305	(2,663)	**13,642**	4,671	**18,313**
Economi ac Adfywid	3,276	(400)	**2,876**	1,687	**4,563**
Cyswllt Cwsmeriaid	5,445	0	**5,445**	789	**6,234**
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,476	0	**1,476**	130	**1,606**
Grŵp Arweiniol	6,938	(6,416)	**522**	89	**611**
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	4,475	(186)	**4,289**	(4,289)	**0**
COST NET GWASANAETHAU	**151,120**	**(16,408)**	**134,712**	**8,802**	**143,514**
Incwm a Gwariant Arall	**(151,609)**	**0**	**(151,609)**	**2,164**	**(149,445)**
(Gorged) neu Ddiffyg	**(489)**	**(16,408)**	**(16,897)**	**10,966**	**(5,931)**
Balans Agoriadol Gronfa Gyffrinedol	**(5,563)**	**(22,125)**	**(27,688)**		
(Gorged) neu Ddiffyg	**(489)**	**(16,408)**	**(16,897)**		
Balans Terfynol Gronfa Gyffrinedol	**(6,052)**	**(38,533)**	**(44,585)**		

DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT (IaG)

	Nodyn	Gwar Gros £'000	2021/22 Incwm Gros £'000	Gwar Net £'000
Ysgolion a Diwylliant		82,576	(27,180)	55,396
Porth Cymorth Cynnar		9,992	(6,224)	3,768
Cyllid a Chaffael		27,943	(14,907)	13,036
Gwasanaethau Democrataidd		5,110	(362)	4,748
Pobl a Threfniadaeth		3,657	(1,134)	2,523
Porth Cynnal		38,588	(14,890)	23,698
Porth Gofal		24,664	(11,210)	13,454
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd		6,291	(3,299)	2,992
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol		30,291	(9,008)	21,283
Economi ac Adfywid		9,436	(3,496)	5,940
Cyswllt Cwsmeriaid		7,435	(786)	6,649
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu		1,782	(60)	1,722
Grŵp Arweiniol		9,875	(8,036)	1,839
COST GWASANAETHAU		**257,640**	**(100,592)**	**157,048**
Gwariant gweithredol arall	1.9	13,389	0	13,389
Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi	1.10	8,830	(794)	8,036
Incwm trethi a grantiau amhenodol	1.11	0	(185,091)	(185,091)
(GORGED) NEU DDIFFYG DARPARU GWASANAETHAU		**279,859**	**(286,477)**	**(6,618)**
(Gorged) neu ddiffyg ar ailbrisio Asedau Sefydlog	1.28			(32,256)
Ail-fesur yr atebolrwydd (ased) o ran y buddiannau net a ddiffiniwyd	1.38			(38,833)
INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL				**(71,089)**
CYFANSWM INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR				**(77,707)**

DATGANIAD CYNHWYSFAWR O INCWM A GWARIANT (IaG)

	Nodyn	Gwar Gros £'000	2020/21 Incwm Gros £'000	Gwar Net £'000
Ysgolion a Diwylliant		74,084	(22,488)	51,596
Porth Cymorth Cynnar		9,753	(5,303)	4,450
Cyllid a Chaffael		28,781	(16,374)	12,407
Gwasanaethau Democrataidd		4,482	(48)	4,434
Pobl a Threfniadaeth		3,346	(1,083)	2,263
Porth Cynnal		36,508	(12,638)	23,870
Porth Gofal		20,902	(10,106)	10,796
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd		4,066	(1,695)	2,371
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol		26,595	(8,282)	18,313
Economi ac Adfywid		8,011	(3,448)	4,563
Cyswllt Cwsmeriaid		6,899	(665)	6,234
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu		1,675	(69)	1,606
Grŵp Arweiniol		12,282	(11,671)	611
COST GWASANAETHAU		**237,384**	**(93,870)**	**143,514**
Gwariant gweithredol arall	1.9	13,338	0	13,338
Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi	1.10	10,090	(826)	9,264
Incwm trethi a grantiau amhenodol	1.11	0	(172,047)	(172,047)
(GORGED) NEU DDIFFYG DARPARU GWASANAETHAU		**260,812**	**(266,743)**	**(5,931)**
(Gorged) neu ddiffyg ar ailbrisio Asedau Sefydlog	1.28			1,077
Ail-fesur yr atebolrwydd (ased) o ran y buddiannau net a ddiffiniwyd	1.38			(6,276)
INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL				**(5,199)**
CYFANSWM INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR				**(11,130)**

DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

2021/22	Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol	Cronfeydd a Glustnodwyd	CYFANSWM	Cronfeydd Derbynebion Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy	Cronfeydd Anefnyddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd y Cyngor
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31/03/21		**(6,052)**	**(38,533)**	**(44,585)**	**(6,331)**	**(1,803)**	**(52,719)**	**(100,264)**	**(152,983)**
(Gorged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau		(6,618)	0	**(6,618)**	0	0	**(6,618)**	0	**(6,618)**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	**0**	0	0	**0**	(71,089)	**(71,089)**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**(6,618)**	**0**	**(6,618)**	**0**	**0**	**(6,618)**	**(71,089)**	**(77,707)**
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan y rheoliadau	**1.7**	(9,458)	0	**(9,458)**	**(233)**	(3,486)	**(13,177)**	13,177	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd		**(16,076)**	**0**	**(16,076)**	**(233)**	**(3,486)**	**(19,795)**	**(57,912)**	**(77,707)**
Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn	**1.8**	15,408	(15,408)	**0**	0	0	**0**	0	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad		**(668)**	**(15,408)**	**(16,076)**	**(233)**	**(3,486)**	**(19,795)**	**(57,912)**	**(77,707)**
Balans ar 31/03/22		**(6,720)**	**(53,941)**	**(60,661)**	**(6,564)**	**(5,289)**	**(72,514)**	**(158,176)**	**(230,690)**

2020/21	Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol	Cronfeydd a Glustnodwyd	CYFANSWM	Cronfeydd Derbynebion Cyfalaf	Grantiau Cyfalaf Heb eu Cymhwyso	Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiadwy	Cronfeydd Anefnyddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd y Cyngor
		£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 31/03/20		**(5,563)**	**(22,125)**	**(27,688)**	**(5,990)**	**(954)**	**(34,632)**	**(107,221)**	**(141,853)**
(Gorged) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau		(5,931)	0	**(5,931)**	0	0	**(5,931)**	0	**(5,931)**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	**0**	0	0	**0**	(5,199)	**(5,199)**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**(5,931)**	**0**	**(5,931)**	**0**	**0**	**(5,931)**	**(5,199)**	**(11,130)**
Addasiadau rhwng sail cyfrifyddu a sail cyllido o dan y rheoliadau	**1.7**	(10,966)	0	**(10,966)**	(341)	(849)	**(12,156)**	12,156	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad cyn Trosglwyddiadau i Gronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd		**(16,897)**	**0**	**(16,897)**	**(341)**	**(849)**	**(18,087)**	**6,957**	**(11,130)**
Trosglwyddiadau i/(o) Gronfeydd wrth Gefn	**1.8**	16,408	(16,408)	**0**	0	0	**0**	0	**0**
(Cynnydd)/Gostyngiad		**(489)**	**(16,408)**	**(16,897)**	**(341)**	**(849)**	**(18,087)**	**6,957**	**(11,130)**
Balans ar 31/03/21		**(6,052)**	**(38,533)**	**(44,585)**	**(6,331)**	**(1,803)**	**(52,719)**	**(100,264)**	**(152,983)**

MANTOLEN

				Ailosodwyd
			31/03/22	31/03/21
	Nodyn	£'000	£'000	£'000
ASEDAU				
Eiddo, Offer a Chyfarpar	1.13	277,636		245,034
Seilwaith	1.13	135,946		133,860
Eiddo ar gyfer Buddsoddi	1.14	17,368		16,912
Asedau Treftadaeth	1.15	3,522		3,220
Dyledwyr Tymor Hir	1.17	3,961		3,526
ASEDAU TYMOR HIR			**438,433**	**402,552**
Buddsoddiadau Tymor Byr	1.19	18,006		4,003
Asedau ar gyfer eu Gwerthu		720		120
Stocrestrau	1.18	1,245		1,473
Dyledwyr Tymor Byr	1.22	36,660		30,685
Arian Parod a Chyfatebol	1.23	32,498		22,695
ASEDAU PRESENNOL			**89,129**	**58,976**
CYFANSWM ASEDAU			**527,562**	**461,528**
RHWYMEDIGAETHAU				
Benthyg Tymor Byr	1.25	(7,818)		(1,084)
Credydwyr Tymor Byr	1.24	(32,115)		(22,667)
Darpariaethau Tymor Byr		(240)		(24)
Cyfrif Cyfraniadau Stocrestr	1.18	(687)		(1,066)
RHWYMEDIGAETHAU PRESENNOL			**(40,860)**	**(24,841)**
Credydwyr Tymor Hir		(808)		(817)
Benthyg Tymor Hir	1.25	(108,054)		(115,872)
Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	1.26	(145,029)		(166,649)
Derbynebion Grantiau Cyfalaf Ymlaen Llaw		(2,121)		(366)
RHWYMEDIGAETHAU TYMOR HIR			**(256,012)**	**(283,704)**
CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU			**(296,872)**	**(308,545)**
ASEDAU NET			**230,690**	**152,983**
Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy	1.27	(72,514)		(52,719)
Cronfeydd wrth Gefn Anefnyddiadwy	1.28	(158,176)		(100,264)
CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN			**(230,690)**	**(152,983)**

Mae 2020/21 wedi'i ailosod i gynnwys asedau Seilwaith ar wahân.

DATGANIAD LLIF ARIAN

	Nodyn		2021/22 £'000	2020/21 £'000
GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU				
Gorged/(Diffyg) net Darparu Gwasanaethau			**6,618**	**5,931**
Trafodion anariannol				
Dibrisiant a Lleihad			9,928	12,256
Grantiau Cyfalaf			(17,393)	(10,975)
Addasiadau Cronfa Bensiwn			17,587	12,715
			16,740	19,927
Addasiadau i eitemau a nodir ar wahân o ran Llif Arian				
(Enill)/Colled o werthu Asedau Sefydlog			44	23
Eitemau cronnus				
(Cynnydd)/gostyngiad mewn Stocrestrau			(150)	138
(Cynnydd)/gostyngiad mewn Dyledwyr			(2,828)	(8,864)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn Credydwyr			8,611	558
Mewnlif/(All-lif) Arian Net o Weithgareddau Gweithredu	1.29		**22,417**	**11,782**
GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI				
All-lif Arian				
Prynu asedau sefydlog		(12,718)		(9,851)
Prynu buddsoddiadau byrdymor		(14,000)		0
Taliadau arian cyfalaf arall		(919)		(536)
			(27,637)	(10,387)
Mewnlif Arian				
Gwerthu asedau sefydlog		302		254
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd		14,518		8,583
Enillion buddsoddiadau hirdymor		0		9
Enillion buddsoddiadau byrdymor		14		1,997
Derbyniadau arian cyfalaf eraill		1,646		1,082
			16,480	11,925
Llif Arian Net o Weithgareddau Buddsoddi			**(11,157)**	**1,538**
GWEITHGAREDDAU ARIANNU				
All-lif Arian				
Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor		(1,083)		(6,162)
Taliadau ar gyfer gostwng rhwymedigaethau dyledus yn ymwneud a phrydlesau ariannol ac ar fantolenni contractau Mentrau Cyllid Preifat		(374)		(278)
			(1,457)	(6,440)
Mewnlif Arian				
Benthyciadau newydd a godwyd			0	80
Llif Arian Net o Weithgareddau Ariannu			**(1,457)**	**(6,360)**
CYNNYDD/(GOSTYNGIAD) MEWN ARIAN AC EITEMAU SYDD YN CYFATEB I ARIAN			**9,803**	**6,960**
Arian ac Eitemau sydd yn Cyfateb i Arian ar ddechrau'r flwyddyn			**22,695**	**15,735**
Arian ac Eitemau sydd yn Cyfateb i Arian ar ddiwedd y flwyddyn	1.23		**32,498**	**22,695**

NODIADAU I'R DATGANIAD CYFRIFON

1.1 NODYN I'R DADANSODDIAD O WARIANT AC ARIANNU

2021/22	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn A)	Newid Net o ran Addasu Pensiynau (Nodyn B)	Gwahaniaethau Eraill (Nodyn C)	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Ysgolion a Diwylliant	5,600	3,452	322	9,374
Porth Cymorth Cynnar	(989)	1,101	62	174
Cyllid a Chaffael	86	679	(5,737)	(4,972)
Gwasanaethau Democrataidd	11	704	17	732
Pobl a Threfniadaeth	0	412	29	441
Porth Cynnal	(33)	985	(136)	816
Porth Gofal	335	1,944	104	2,383
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	8	859	(532)	335
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	3,466	1,701	40	5,207
Economi ac Adfywid	1,053	979	778	2,810
Cyswllt Cwsmeriaid	87	932	0	1,019
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	0	190	5	195
Grŵp Arweiniol	582	340	38	960
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	0	0	(4,072)	(4,072)
COST GWASANAETHAU	**10,206**	**14,278**	**(9,082)**	**15,402**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	(18,043)	3,309	8,790	(5,944)
Y gwahaniaeth rhwng y gwarged neu'r diffyg yn y Gronfa Gyffredinol gyda'r Cronfeydd a Glustnodwyd â'r gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwyswyr ar Ddarparu Gwasanaethau	**(7,837)**	**17,587**	**(292)**	**9,458**

NODYN A – Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf
Mae'r golofn hon yn addasu ar gyfer dibrisiant, amhariad, enillion a cholledion yn sgil ailwerthuso, enillion a cholledion gwaredu asedau, grantiau cyfalaf a gwariant cyfalaf a ariannir gyda refeniw.

NODYN B - Newid Net o ran Addasu Pensiynau
Mae'r golofn hon yn dangos yr addasiadau sy'n ofynnol i gydymffurfio â Buddiannau Gweithwyr IAS19, sef yn benodol, disodli cyfraniadau pensiwn gweithwyr a wneir gan y Cyngor fel y caniateir yn statudol gyda'r costau gwasanaeth blaenorol a'r costau gwasanaeth presennol, fel y'u cyfrifir gan yr actiwari, gyda'r llog net ar yr atebolrwydd buddiannau a ddiffiniwyd yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

NODYN C - Gwahaniaethau Eraill

Mae'r golofn hon yn cynnwys gwahaniaethau eraill rhwng symiau sydd wedi'u debydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r symiau sydd wedi'u talu/derbyn sydd i'w cydnabod yn statudol. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau i ail-alinio gwariant ac incwm yn unol â'r cod, ac addasiadau mewn perthynas â'r croniad o Absenoldebau Cronedig.

2020/21	**Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf (Nodyn A)**	**Newid Net o ran Addasu Pensiynau (Nodyn B)**	**Gwahaniaethau Eraill (Nodyn C)**	**Cyfanswm Addasiadau**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Ysgolion a Diwylliant	5,786	2,228	(317)	7,697
Porth Cymorth Cynnar	802	739	102	1,643
Cyllid a Chaffael	143	379	(7,309)	(6,787)
Gwasanaethau Democrataidd	21	486	(30)	477
Pobl a Threfniadaeth	0	250	6	256
Porth Cynnal	4	662	(47)	619
Porth Gofal	355	1,278	(6)	1,627
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	8	412	(227)	193
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	3,482	1,103	86	4,671
Economi ac Adfywid	153	648	886	1,687
Cyswllt Cwsmeriaid	137	592	60	789
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	0	116	14	130
Grŵp Arweiniol	27	203	(141)	89
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	0	0	(4,289)	(4,289)
COST GWASANAETHAU	**10,918**	**9,096**	**(11,212)**	**8,802**
	(10,978)			1,784
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		3,619	9,143	
Y gwahaniaeth rhwng y gwarged neu'r diffyg yn y Gronfa Gyffredinol gyda'r Cronfeydd a Glustnodwyd â'r gwarged neu'r diffyg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwyswyr ar Ddarparu Gwasanaethau	**(60)**	**12,715**	**(2,069)**	**10,586**

1.2 POLISÏAU CYFRIFYDDU

i. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'i sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 31ain o Fawrth 2022. Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol yn ôl y Cyfrifon a Rheoliadau Archwilio (Cymru) 2014, a'r Rheoliadau hynny sydd yn gofyn i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifyddu priodol. Mae'r arferion hyn yn bennaf yn cynnwys *Cod Ymarfer Cyfrifyddu Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig 2021/22*, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Mae'r cytundeb cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yn bennaf gost hanesyddol, a gymhwyswyd drwy ailbrisio categorïau penodol o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol.

ii. Croniadau o Incwm a Gwariant

Caiff gweithgaredd ei chyfrifyddu yn y flwyddyn y mae'n digwydd, nid pan fo taliadau ariannol yn cael eu gwneud neu eu derbyn. Yn arbennig:

- Cydnabyddir refeniw o werthu nwyddau pan fydd y Cyngor yn trosglwyddo'r risgiau a buddiannau sylweddol perchnogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol fod buddiannau economaidd neu bosibilrwydd y gwasanaeth sydd yn gysylltiedig â'r trafodion yn llifo i'r Cyngor.
- Cydnabyddir refeniw o ddarparu gwasanaethau pan gall y Cyngor fesur canran cwblhau'r trafodion yn ddibynadwy a'i bod yn debygol fod buddiannau neu wasanaeth posibl sydd yn gysylltieidg a'r weithred yn llifo i'r Cyngor.
- Cofnodir cyflenwadau fel gwariant lle defnyddir hwy – lle mae bwlch rhwng y dyddiad y derbynnir cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel stocrestr ar y Fantolen.
- Cofnodir treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) fel gwariant pan dderbynnir gwasanaethau yn hytrach na thaliadau.
- Mae llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifyddu fel incwm a gwariant ar sail graddfa llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach na llifiadau arian sefydlog neu a benderfynwyd gan gontract.
- Lle cydnabuwyd refeniw a gwariant ond na dderbyniwyd ac na thalwyd arian parod, bydd dyledwr neu gredydwr am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Fantolen. Lle nad yw dyledion yn cael eu setlo, mae balans y dyledwyr yn cael eu cynnwys a chodir tâl ar refeniw ar gyfer yr incwm na fydd efallai yn cael ei gasglu.

Yr unig eithriad i hyn yw rhai taliadau cyson lle codir nifer y taliadau bob blwyddyn yn erbyn y cyfrifon refeniw. Mae'r polisi hwn yn cael ei gymhwyso yn gyson bob blwyddyn ac nid yw'n cael effaith sylweddol ar Gyfrifon y flwyddyn.

iii. Arian ac eitemau Cyfwerth ag Arian

Cynrychiolir arian gan arian mewn llaw ac adneuon gan sefydliadau ariannol sydd yn ad-daladwy heb gosb ar rybudd o nid mwy na 24 awr. Eitemau cyfwerth ag arian yw buddsoddiadau sydd yn aeddfedu o fewn tri mis neu lai o ddyddiad eu cael ac y medrir eu newid yn hawdd i symiau y gwyddys amdanynt o arian gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth. Dangosir arian ac eitemau cyfwerth ag arian yn net o orddrafftiau banc.

iv. Eitemau Eithriedig

Pan fo eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol, caiff eu natur a'u swm ei ddatgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant neu yn y nodiadau i'r cyfrifon, yn ddibynnol ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i ddeall perfformiad ariannol y Cyngor. Bydd trafodion sy'n ymwneud â COVID-19 yn cael eu cynnwys yn nodiadau'r cyfrifon.

v. Addasiadau'r Cyfnod Blaenorol, Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifyddu ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall addasiadau'r cyfnod blaenorol ddeillio o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifyddu neu gywiro camgymeriad sylweddol. Cyfrifir newidiadau mewn

amcangyfrifon cyfrifyddu yn y dyfodol, h.y. yn y blynyddoedd cyfredol ac yn y dyfodol a effeithir gan y newid ac nid yw'n golygu addasiad cyfnod blaenorol.

Caiff newidiadau i bolisïau cyfrifyddu eu gwneud ond pan fo hynny'n ofynnol gan arferion cyfrifyddu priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynglŷn ag effaith y trafodion, digwyddiadau ac amodau eraill parthed sefyllfa ariannol y Cyngor neu berfformiad ariannol. Lle gwneir newid, caiff ei gymhwyso yn adolygol (oni nodir fel arall) drwy gymhwyso balansau agoriadol a symiau cymharol cyn y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei gymhwyso.

Caiff camgymeriadau sylweddol a ddarganfyddir mewn ffigurau cyfnod blaenorol eu hunioni yn adolygol drwy newid balansau agoriadol a symiau cymharol am y cyfnod blaenorol.

vi. Taliadau i Refeniw am Asedau Anghyfredol

Caiff gwasanaethau a gwasanaethau cefnogi eu debydu â'r symiau er mwyn cofnodi cost dal asedau yn ystod y flwyddyn:

- dibrisio a briodolir i'r asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol
- ailbrisio a cholledion diffygion ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth perthnasol lle nad oes enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio y gellir dileu colledion yn ei erbyn

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi treth y cyngor er mwyn talu am ddibrisio, ailbrisio a cholledion neu amorteiddiadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud darpariaeth flynyddol o'r refeniw er mwyn cyfrannu tuag at leihau benthyciad cyfan i gyfateb i swm a amcangyfrifir ar sail ddarbodus a benderfynir gan y Cyngor yn unol â chanllawiau statudol. Caiff dibrisio, ailbrisio a cholledion neu amorteiddiadau felly eu disodli gan leiafswm y ddarpariaeth refeniw yn y Balans Cronfa Gyffredinol, drwy gymhwyso trafodion gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (a gynhwysir yn y Cronfeydd Anefnyddiadwy) yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

vii. Buddiannau Gweithwyr

Buddiannau sydd yn Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddiannau gweithwyr tymor byr yw'r buddiannau hynny sydd i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys y cyfryw fuddiannau megis cyflogau misol, cyflogau wythnosol, gwyliau gyda thâl a chyfnodau o salwch gyda thâl ar gyfer gweithwyr a gyflogir ar hyn o bryd ac a gydnabyddir fel treuliau i wasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn cynnal gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost teilyngdod gwyliau a gwyliau hyblyg nad yw gweithwyr wedi eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn ac y gall gweithwyr eu cario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Gwneir y croniad hwn ar raddfeydd cyflogau wythnosol a misol sydd yn gymwys yn y flwyddyn cyfrifyddu. Mae'r croniad hwn yn cael ei godi yn erbyn y Gorged neu Ddiffyg ar y Darparu Gwasanaethau, ond yna caiff ei roi drwy'r Symudiad yn y Datganiad Cronfeydd wrth Gefn fel bo buddiannau gwyliau yn cael eu codi ar refeniw yn y flwyddyn ariannol pan fydd yr absenoldeb gwyliau yn enilledig.

Buddiannau Terfynu Swydd

Buddiannau terfynu swydd yw'r symiau sydd yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth gweithiwr cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad gwirfoddol. Codir y cyfryw symiau ar sail croniadau i'r Gorged neu Ddiffyg ar y Darparu Gwasanaethau pan fo'r Cyngor wedi ymrwymo yn eglur i derfynu cyflogaeth swyddog, neu grŵp o swyddogion, neu wneud cynnig i annog diswyddiadau gwirfoddol.

Buddiannau Ôl Gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita ar ran Adran Addysg ar gyfer Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Sir Caerfyrddin (ac y cyfeirir ato fel Cronfa Bensiwn Dyfed).

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau pendant i aelodau (swm crynswth ar ymddeol a phensiwn), ac maent wedi eu hennill wrth weithio i'r Cyngor. Fodd bynnag, golyga trefniadau cynllun yr athrawon nad oes modd i'r Cyngor gael gwybod am atebolrwydd y buddion hyn. Felly, rhoddir cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig - ni chydnabyddir atebolrwydd dros daliadau at y dyfodol yn y Fantolen. Codir ar linell Addysg a Phlant yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant gyda chyfraniadau'r cyflogwr yn daladwy i Gynllun Pensiynau Athrawon yn ystod y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif amdano fel cynllun buddion diffiniedig:

- Mae rhwymedigaethau a chostau gwasanaeth Cronfa Bensiwn Dyfed y gellir eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Y nod o dan y dull hwn yw codi treuliau ar gyfer buddion pob cyfranogwr o dan y gronfa fel y byddent yn cronni, gan ystyried cynnydd mewn digolledu a fformiwla dyrannu buddion y gronfa yn y dyfodol. Felly mae'r cyfanswm pensiwn y mae pob cyfranogwr yn disgwyl ei hawlio adeg ymddeol wedi'i rannu'n unedau, pob un wedi'i chysylltu â blwyddyn o wasanaeth wedi'i chredydu yn y gorffennol neu'r dyfodol.
- Yr ymrwymiad budd yw cyfanswm gwerth presennol buddion unigolion y gellir eu priodoli at ddibenion prisio ar y dyddiad mesur, a'r gost gwasanaeth yw cyfanswm gwerth presennol buddion yr unigolion y gellir eu priodoli i wasanaeth yn ystod y flwyddyn.
- Caiff rhwymedigaethau eu disgowntio hyd at eu gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 2.8%.
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Dyfed y gellir eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen yn ôl eu gwerth teg:
    - gwarantau heb eu dyfynnu - pris bidio cyfredol
    - gwarantau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
    - gwarantau cyfun - pris bidio cyfredol
    - eiddo - gwerth y farchnad
- Caiff y newid yng nghost pensiynau net ei ddadansoddi yn ôl y cydrannau canlynol:
    - Cost y gwasanaeth gan gynnwys:
        - cost gyfredol y gwasanaeth - y cynnydd yn y rhwymedigaethau o ganlyniad i'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd y flwyddyn hon - wedi'i dyrannu yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant i wasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio iddynt
        - cost flaenorol y gwasanaeth - y cynnydd yn y rhwymedigaethau sy'n codi o benderfyniadau'r flwyddyn gyfredol y mae eu heffaith yn cyfeirio at flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol - wedi'i debydu i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y

Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant fel rhan o'r Gwasanaeth Cyllid

- Ailfesuriadau gan gynnwys:
  - yr enillion disgwyliedig ar asedau - ac eithrio symiau wedi'u cynnwys yn y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig net (ased) - wedi'u debydu i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
  - enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau yn y rhwymedigaeth pensiynau net sy'n codi oherwydd nid yw pethau wedi digwydd yn unol â'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwariaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau - wedi'u debydu i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
  - cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Dyfed - arian a dalwyd fel cyfraniadau'r cyflogwr at y gronfa bensiwn i setlo rhwymedigaethau; ni chyfrifir y rhain fel treuliau.

Yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud hi'n ofynnol i godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol y symiau sydd yn daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu yn uniongyrchol i bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, nid y maint yr amcangyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod dyraniadau i'r Gronfa Bensiwn ac ohoni er mwyn symud y debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeoliad a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw gyfryw symiau taladwy ond nas talwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio ar y Gronfa Bensiynau wrth Gefn felly yn mesur effaith llesol y Gronfa Gyffredinol o'r gofyniad i gyfrif am fuddiannau ymddeoliad ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillir gan weithwyr.

Buddion Dewisol

Mae gan y Cyngor bwerau cyfyngedig i roi buddion ymddeoliad dewisol os yw staff yn ymddeol yn gynnar. Caiff pob rhwymedigaeth y tybir ei bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad a roddir i unrhyw aelod staff (gan gynnwys athrawon) ei gronni yn ystod y flwyddyn y penderfynwyd rhoi'r dyfarniad a rhoddir cyfrif amdano gan ddefnyddio'r un polisïau ag a ddefnyddir o ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

viii. Digwyddiadau Ar Ôl Dyddiad y Fantolen

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sydd yn digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fydd y Datganiad Cyfrifon yn cael ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir nodi dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sydd yn rhoi tystiolaeth o amodau a oedd yn bresennol ar ddiwedd y cyfnod adrodd – addasir y Datganiad Cyfrifon er mwyn adlewyrchu'r cyfryw ddigwyddiadau.
- y rhai hynny sydd yn ddangosol o amodau a oedd yn deillio ar ôl y cyfnod adrodd - nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r cyfryw ddigwyddiadau, ond lle byddai gan gategori o ddigwyddiadau effaith sylweddol, datgelir yn y nodiadau natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol amcangyfrifiedig.

Nid yw digwyddiadau sydd yn digwydd ar ôl dyddiad yr awdurdodi ar gyfer cyhoeddi yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

ix. Mesur Gwerth Teg

Mae'r Cyngor yn mesur rhai o'i asedau anariannol megis asedau dros ben ac eiddo buddsoddi yn unol â'u gwerth teg ar bob dyddiad adrodd. Gwerth teg yw'r pris a

fyddai'n cael ei sicrhau wrth werthu ased mewn trafodiad cyson rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae'r mesur gwerth teg yn cymryd bod y trafodiad i werthu'r ased yn cael ei gynnal naill ai:

- yn y brif farchnad ar gyfer yr ased
- yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad fwyaf fanteisiol i'r ased (defnydd uchaf a gorau)

Mae'r Cyngor yn defnyddio technegau prisio sy'n briodol ar gyfer yr amgylchiadau ac y mae data digonol ar gael ar eu cyfer, gan fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o fewnbynnau sylwadwy perthnasol, a lleihau'r defnydd o fewnbynnau ansylwadwy gymaint ag y bo modd.

Caiff mewnbynnau i'r technegau prisio mewn perthynas ag asedau neu rwymedigaethau y mesurir neu y datgelir gwerth teg yn y cyfrifon, eu categoreiddio o fewn yr hierarchaeth gwerth teg, fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau yr un fath y mae modd i'r Cyngor fanteisio arnynt ar y dyddiad mesur
- Lefel 2 – mewnbynnau ac eithrio prisiau a ddyfynnwyd sy'n cael eu cynnwys yn Lefel 1, y maent yn sylwadwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol
- Lefel 3 – mewnbynnau ansylwadwy ar gyfer yr ased neu'r rhwymedigaeth

x. Offerynnau Ariannol

Rhwymedigaethau Ariannol

Caiff rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod yn y Fantolen pan fo'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a mesurir hwy i gychwyn yn ôl eu gwerth teg a'u cario yn ôl eu cost amorteiddiedig. Bydd y ffioedd blynyddol ar y llinell Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi ar gyfer llog sydd yn daladwy yn seiliedig ar faint fydd gwerth y rhwymedigaeth, wedi ei luosogi â chyfradd y llog ar y pryd ar gyfer yr offeryn dan sylw. Y raddfa llog effeithiol yw'r raddfa sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y mwyafrif o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r prifswm sy'n ddyledus ac sydd yn daladwy (a'r llog cronnus) a'r llog a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yw'r swm sydd yn daladwy am y flwyddyn yn unol â'r cytundeb benthyg.

Caiff unrhyw enillion neu ddyledion sy'n deillio o dalu benthyciadau yn ôl yn gynnar eu credydu neu'u debydu i'r Gwariant ac Incwm Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Cynhwysfawr Gwariant ac Incwm yn y flwyddyn y caiff y benthyciad ei dalu neu'i ail-brynu. Fodd bynnag, mewn achosion lle ail-brynir benthyciadau fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthyciadau, sy'n golygu diwygio neu gyfnewid yr offerynnau cyfredol, caiff y premiwm neu'r disgownt naill ai ei dynnu allan o gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu ddiwygiedig neu ei ychwanegu ati. Caiff y gostyngiad i'r Datganiad Cynhwysfawr Gwariant ac Incwm ei estyn dros oes y benthyciad drwy addasu'r gyfradd llog sydd ar waith.

Mewn achosion lle y codir premiymau neu ostyngiadau yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant, mae rheoliadau'n caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei ledu dros y blynyddoedd sydd i ddod. Pan geir premiymau neu ostyngiadau sy'n cwrdd yn ffurfiol ag ymarfer ailstrwythuro dyled, fe'u cyfrifir fel addasiad i'r swm sydd i'w gario o'r benthyciad neu fenthyciadau amnewid. Os nad

ydyn nhw'n cwrdd â'r telerau hyn, cânt eu gwasgaru dros y cyfnod hiraf sy'n weddill ar y benthyciad amnewid, neu gyfnod y benthyciad amnewid (premiymau) neu'r cyfnod sydd dros ben ar y benthyciad a amnewidiwyd hyd at uchafswm o ddeng mlynedd (gostyngiadau). Rheolir y camau i gysoni'r symiau a godwyd ar y Datganiad Cynhwysfawr Gwariant ac Incwm â'r ffioedd net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol drwy drosglwyddo arian i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol neu ohono yn y Datganiad o Symudiadau ar Gronfeydd Wrth Gefn.
Mae'r modd y caiff gwerth teg ei gyfrif yn seiliedig ar y gyfradd fenthyca gymeradwy newydd ar gyfer yr union offeryn ariannol oddi wrth fenthycwyr tebyg. Deliwyd yn yr un modd ag asedau ac unrhyw rwymedigaethau.

Asedau Ariannol
Dosberthir asedau ariannol yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol sy'n cael eu mesur:

- Cost wedi'i hamorteiddio
- Gwerth teg drwy elw neu golled; a
- Gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Model busnes y Cyngor yw cynnal buddsoddiadau i gasglu llifau arian parod cytundebol. Felly dosberthir asedau ariannol fel cost wedi'i hamorteiddio, ac eithrio'r rhai nad yw eu taliadau cytundebol yn talu prif swm a llog yn unig (h.y. lle nad yw'r llifau arian parod ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio
Caiff asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio eu cydnabod ar y Fantolen pan fo'r Cyngor yn barti i ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol a mesurir hwy yn ôl gwerth teg. Mesurir hwy wedyn yn ôl eu cost amorteiddiedig. Seilir credydau blynyddol i'r llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant am y llog sydd yn dderbyniadwy ar faint fydd gwerth yr ased, wedi ei luosogi â chyfradd y llog ar y pryd ar gyfer yr offeryn dan sylw. O ran mwyafrif yr offerynnau ariannol a ddelir gan y Cyngor, golyga hyn taw'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm sy'n weddill ac sydd i'w dderbyn (a llog cronedig), a'r llog a delir i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant yw'r swm a dderbynnir ar gyfer y flwyddyn yn y cytundeb benthyca.

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i hamorteiddio. Mewn achosion lle nodir asedau fel rhai diffygiol yng ngoleuni sefyllfa sy'n codi o ddigwyddiad yn y gorffennol lle na chaiff taliadau eu gwneud o dan y contract, caiff yr ased ei ddibrisio a chodir taliad yn erbyn y llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Caiff unrhyw enillion a cholledion yn sgil gwaredu'r ased eu credydu neu eu debydu i'r llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

xi. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth
Os telir drwy gyfrif, drwy randaliadau, neu ar ffurf ôl-daliadau, cydnabyddir grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau trydydd parti (gan gynnwys rhoddion) fel dyladwy i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol bod:

- y Cyngor yn cydymffurfio a'r amodau sydd ynghlwm i'r taliadau, a'r

- grantiau neu'r cyfraniadau yn cael eu derbyn.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sydd yn daladwy i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant hyd y bodlonir amodau sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad. Amodau yw'r gofynion sydd yn nodi y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posibl a ymgorfforir yn yr ased a geir drwy ddefnyddio grant neu gyfraniad, i fod er lles y derbynnydd fel y nodir, neu fuddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth bosibl i'w ddychwelyd i'r sawl sydd yn ei drosglwyddo.

Caiff arian a roddir ymlaen llaw ar ffurf grantiau a chyfraniadau a nas bodlonwyd yr amodau, eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fodlonir amodau, credydir y grant neu'r cyfraniad i'r llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw a briodolir) neu Drethiant ac Incwm Grant heb fod yn benodol (grantiau refeniw heb eu clustnodi a phob grant cyfalaf) yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant.

Lle credydir grantiau cyfalaf i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant, maent yn cael eu rifyrsio o'r Balans Cronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Lle bo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, caiff ei roi yn y gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu cymhwyso. Lle cafodd ei gymhwyso rhoddir yn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf. Caiff symiau yn y gronfa Grantiau Cyfalaf heb eu cymhwyso eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf unwaith y cymhwyswyd hwy i gyllido gwariant cyfalaf.

xii. Asedau Treftadaeth

Mae'r Cyngor yn dal Asedau Treftadaeth yn bennaf i warchod eitemau oedd yn gyffredin yn yr ardal neu'n unigryw iddi, neu sy'n perthyn i ddigwyddiad hanesyddol arwyddocaol, neu berson sydd â chysylltiadau lleol. Fe'u cedwir mewn lleoliadau amrywiol ar draws y sir, ond mae'r rhan fwyaf i'w gweld ym mhrif Amgueddfa'r Coliseum yn Aberystwyth. Fe'u cedwir fel arfer yn unol â pholisïau cyfrifyddu Eiddo, Peiriannau ac Offer y Cyngor, ond caiff rhai rheolau eu llacio mewn perthynas ag asedau penodol am y rhesymau a ddisgrifir isod.

<u>Gwaith Celf</u>

Mae gan y Cyngor tua 190 o ddarnau o waith gelf cyfoes a hanesyddol, sydd wedi'u gwasgaru ar draws amgueddfeydd, swyddfeydd y cyngor a chanolfannau hamdden yng Ngheredigion. Nid yw'r rhan fwyaf ohonynt o unrhyw werth sylweddol, ac maent ymhell islaw'r gwerth de minimis o £10,000 fyddai'n eu gwneud yn gymwys i'w cynnwys ar gofrestr asedau'r Cyngor. Fodd bynnag, dynodwyd pedwar yn benodol fel rhai uwchlaw'r gwerth hwn gan Brisiwr Allanol â'r cymwysterau priodol ac maent wedi'u cynnwys yn y Fantolen ers 2011. Cawsant eu hailbrisio at ddibenion yswiriant ar werth y farchnad yn 2022 ac nid yw cyflwr yr eitemau wedi newid ers y prisiad hwn. Tybir bod gan y rhain oes amhenodol ac felly ystyrir na fyddai dibrisiant yn briodol.

<u>Regalia Dinesig</u>

Mae gan y Cyngor bedair cadwyn swyddogol ar gyfer swyddi'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'u cymheiriaid. Dim ond Cadwyn y Cadeirydd a ystyrir fel un sy'n werth mwy na'r lefel de minimis, yn seiliedig ar werth marchnad y metelau a ddefnyddiwyd i'w chreu. Felly mae wedi'i phrisio ac wedi'i chynnwys yn y Fantolen am y swm hwnnw. Ni fydd unrhyw dibrisiant am fod ganddi oes amhenodol, ond bydd yn cael ei hail-brisio o bryd i'w gilydd, yn seiliedig ar bris marchnad y metelau gwerthfawr.

<u>Safleoedd ac Adeiladau Hanesyddol</u>

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o safleoedd ac adeiladau hanesyddol ar draws Ceredigion ac yn gyfrifol am eu cadw a'u harddangos, gan gynnwys dau gastell. Am nad oes unrhyw ffordd ddibynadwy o brisio eitemau o'r fath, oherwydd diffyg marchnad gyfoes, maent yn cael eu cynnwys yn y fantolen fel cost hanesyddol.

Arddangosion Amrywiol

Mae prif amgueddfa'r Cyngor yn Y Coliseum, Aberystwyth yn arddangos nifer fawr o eitemau. Fodd bynnag, oherwydd bod yr amcangyfrif o werth pob eitem unigol yn isel, ac oherwydd prinder marchnad gyfoes ar gyfer nifer o'r eitemau, mae'r Cyngor o'r farn y byddai costau prisio'r rhain yn uwch o lawer na gwerth proses o'r fath i ddefnyddwyr y cyfrifon, ac felly ni chynhaliwyd ymarfer o'r fath.

Yn ogystal, ceir 13 o eitemau mawr a/neu werthfawr yn yr amgueddfa, sydd wedi'u prisio at ddibenion yswiriant. Er bod y gwerthoedd unigol yn is na'r lefel de minimis o £10,000, mae cyfanswm eu gwerth yn sylweddol, felly maent wedi'u hychwanegu at y gofrestr a'r fantolen fel un eitem. Byddant yn cael eu trin yn yr un modd â'r gwaith celf ac ni fyddant yn cael eu dibrisio. Bydd unrhyw bryniant newydd sylweddol gan y Cyngor yn cael ei ychwanegu yn ôl cost, nes cynhelir y prisiad nesaf.

Safleoedd ac Adeiladau Amgueddfeydd

Mae prif Amgueddfa'r Cyngor yn y Coliseum yn Aberystwyth wedi'i hymestyn i eiddo gwag cyfagos. Mae gwariant ar y prosiect yn cael ei gyfalafu a'i ychwanegu at werth yr amgueddfa. Yn ogystal â'r prif amgueddfa yn Aberystwyth, mae gan y Cyngor nifer o amgueddfeydd llai ar draws y sir. Ystyriwyd a ddylid dal unrhyw rai o'r rhain fel Asedau Treftadaeth yn hytrach nag Eiddo, Peiriannau ac Offer. Penderfynwyd bod dwy ohonynt (gan gynnwys y Coliseum) yn cael eu dal am eu harwyddocâd hanesyddol eu hunain, yn ogystal â chael eu defnyddio i arddangos neu gadw eitemau hanesyddol. Maent felly wedi'u trosglwyddo i'r categori Asedau Treftadaeth ar y Fantolen, gan barhau ar eu prisiant blaenorol (Cost Amnewid Hanesyddol neu Ddibrisiant). Byddant yn cael eu dibrisio os ystyrir bod hynny'n briodol, gan ystyried amgylchiadau unigol yr adeilad dan sylw.

Asedau Treftadaeth Cyffredinol

Os bydd unrhyw dystiolaeth o amhariad, yna bydd y symiau i'w cario ar y fantolen yn cael eu hadolygu, er y disgwylir y bydd achosion o'r fath yn brin. Bydd unrhyw amhariad o'r fath yn cael ei drin mewn modd tebyg i amhariad asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer. Os bydd unrhyw eitemau'n cael eu gwaredu, bydd angen cyfrif amdanynt yn yr un modd ag Eiddo, Peiriannau ac Offer, ond bydd yr enillion am eitemau a waredwyd yn cael eu nodi ar wahân yn y nodiadau. Ni chafwyd gwared ar unrhyw eitemau yn y cyfnod dan ystyriaeth ar gyfer y set hon o gyfrifon, ac ni ddisgwylir y bydd hynny'n beth cyffredin am fod y casgliad yn un gweddol sefydlog ei natur.

xiii. Stocrestrau

Caiff stocrestrau eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl yr isaf o'r gost a'r gwerth sylweddoladwy net.

xiv. Eiddo Buddsoddi

Eiddo buddsoddi yw'r eiddo hynny a ddefnyddir yn unig i gael rhenti a/neu adbrisio cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn gywir os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso cyflwyno gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os cedwir ef ar gyfer ei werthu.

Caiff eiddo cyfalaf eu mesur yn gyntaf ar gost ac wedi hynny ar werth teg, yn seiliedig ar y swm y byddai ased yn cael ei gyfnewid rhwng partïon gwybodus. Ni ddibrisir eiddo ond ail-brisir hwy yn flynyddol yn unol ag amodau'r farchnad ar

ddiwedd y flwyddyn. Caiff enillion a cholledion adbrisio eu rhoi yn llinell Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant yn y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant. Mae'r un peth yn wir am enillion a cholledion wrth werthu.

Caiff rhenti a dderbynnir yng nghyswllt eiddo buddsoddi eu credydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddi a bydd enilliad i'r Balans Cronfa Gyffredinol. Fodd bynnag, ni chaniateir enillion a cholledion adbrisio a gwaredu drwy drefniadau statudol i gael effaith ar y Balans Cronfa Gyffredinol. Caiff yr enillion a'r colledion felly eu rifyrsio allan o'r Balans Cronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'i bostio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf a (ar gyfer unrhyw werthiant mwy na £10,000) y Gronfa Derbynebion Cyfalaf.

xv. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw gweithgareddau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw mewn cydweithrediad â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau sy'n codi ac mae'n debydu ac yn credydu'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant gyda'r gwariant sy'n codi a chyfran yr incwm y mae'n ei ennill o weithgareddau'r gweithrediad.

Mae asedau a reolir ar y cyd yn eitemau o beiriannau, eiddo neu offer sy'n cael eu rheoli ar y cyd gan y Cyngor a mentrwyr eraill, gyda'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddion i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn cynnwys sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor dim ond yn rhoi cyfrif am ei gyfran ei hun o'r asedau a reolir ar y cyd, y rhwymedigaethau a'r treuliau sy'n codi ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill mewn perthynas â'i fudd yn y fenter ar y cyd, a'r incwm y mae'n ei ennill yn y fenter.

xvi. Prydlesau

Dosberthir prydlesau fel prydlesau cyllid lle bo telerau'r brydles yn trosglwyddo yn sylweddol pob risg a budd o ganlyniad i berchen yr eiddo, offer neu gyfarpar o'r prydleswr i'r prydlesai. Dosberthir pob prydles arall fel prydlesau gweithredol.

Lle bo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, ystyrir yr elfennau tir ac adeiladau ar wahân er mwyn eu dosbarthu.

Bydd trefniadau heb statws cyfreithiol prydles ond sydd yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am daliad yn cael eu cyfrifyddu o dan y polisi hwn lle bo cyflawni'r trefniant yn ddibynnol ar ddefnyddio asedau penodol.

Y Cyngor fel Deiliad Prydles

Prydlesau Ariannol

Mae eiddo, peiriannau ac offer a ddelir o dan brydlesau cyllid yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar ddechrau'r brydles ar ei werth teg, a fesurwyd ar ddechrau'r brydles (neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf os ydynt yn is). Mae'r ased sy'n cael ei gydnabod yn cael ei gyfateb gan atebolrwydd am y rhwymedigaeth i dalu y deiliad prydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol y Cyngor yn cael eu hychwanegu at swm yr ased i'w gario. Mae premiymau a delir ar ddechrau prydles yn cael eu cymhwyso i ddibrisiant rhwymedigaeth y brydles. Mae rhenti wrth gefn yn cael eu codi fel treuliau yn y cyfnodau y maent wedi digwydd.

Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng:

- Tâl am gaffael diddordeb yn yr eiddo, offer neu gyfarpar – wedi'i gymhwyso i ddibrisio rhwymedigaeth y brydles.

- Tâl cyllid (i'w ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Cyfrifir am yr Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu cydnabod o dan brydlesau cyllid drwy ddefnyddio'r polisïau sy'n berthnasol yn gyffredinol i asedau o'r fath, yn amodol ar ddibrisiant yn cael ei godi dros gyfnod y brydles, os yw hyn yn fyrrach nag oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased (lle nad yw perchnogaeth yr ased yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid oes gofyn i'r Cyngor godi treth y cyngor i dalu am ddibrisiant neu ailbrisiant a cholledion oherwydd diffygion yn codi o asedau ar brydles. Yn lle hynny, gwneir cyfraniad blynyddol darbodus o'r cyfrifon refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly caiff dibrisiant ac ailbrisiant a cholledion oherwydd diffygion eu disodli gan gyfraniad refeniw ym Malans y Gronfa Gyffredinol drwy wneud trafodiad addasu o ran y Cyfrif Addasu Cyfalaf (sy'n gynwysedig yn y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio) yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredu

Mae rhenti a delir o dan brydlesau gweithredu yn cael eu talu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul o'r gwasanaethau sy'n elwa o ddefnydd yr eiddo, y peiriannau neu'r offer sydd ar brydles. Gwneir taliadau ar linell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. ceir cyfnod di-rent ar ddechrau'r brydles).

Y Cyngor fel Prydlesydd

Prydlesau Cyllid

Pan fydd y Cyngor yn rhoi prydles gyllid dros eiddo neu beiriant neu offer, mae'r ased perthnasol yn cael ei symud o'r Fantolen fel gwarediad. Ar ddechrau'r brydles, bydd swm yr ased i'w gario yn y Fantolen (boed yn Eiddo, Peiriannau ac Offer neu Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu yn y llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion o waredu. Mae enillion, sy'n cynrychioli buddsoddiad net y Cyngor yn y brydles, yn cael eu credydu hefyd i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion a wneir o waredu (h.y. eu netio yn erbyn llyfrwerth yr ased ar yr adeg y cafodd ei waredu), gan gael eu cydweddu ag ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen. Mae rhenti prydlesau sy'n dderbyniadwy yn cael eu dosrannu rhwng:

- tâl am gaffael diddordeb yn yr eiddo – wedi'i gymhwyso i ddibrisio'r dyledwr prydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a ddaw i law), a
- incwm cyllid (i'w gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaniateir gan y statud i'r enillion a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth waredu, gynyddu Balans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n ofynnol iddynt gael eu trin fel derbyniad cyfalaf. Lle mae premiwm wedi cael ei dderbyn, caiff hwn ei drosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd y swm sy'n ddyledus mewn perthynas â'r ased prydles yn cael ei setlo drwy dalu rhenti yn y blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, mae hwn yn cael ei drosglwyddo o Falans y Gronfa Gyffredinol i Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fydd y rhenti yn cael eu derbyn yn y dyfodol, bydd yr elfen ar gyfer y derbyniad cyfalaf ar gyfer cael gwared ar yr ased yn cael ei ddefnyddio i ddibrisio'r dyledwr prydles. Ar y pwynt hwn, mae'r

derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn cael eu trosglwyddo i Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf.

O ddileu dyled y gwarediadau, ni chodir hynny ar dreth y cyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllid cyfalaf. Caiff symiau eu neilltuo, felly, i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf (sy'n cynnwys y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio) o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredol
Pan fydd y Cyngor yn caniatáu prydles weithredol dros eiddo neu beiriant neu offer, bydd yr ased yn cael ei gadw yn y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gredydu i'r llinell Gwariant Gweithredu Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff credydau eu gwneud ar linell syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm o daliadau (e.e. telir premiwm ar ddechrau'r brydles). Ychwanegir costau uniongyrchol cychwynnol am drafod a threfnu'r brydles at faint fydd gwerth yr ased perthnasol a'i godi fel traul dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

xvii. Contractau Hirdymor
Caiff symiau sy'n ddyledus o dan gontractau hirdymor eu codi ar refeniw pan ddônt yn daladwy o dan delerau'r contract.

xviii. Darpariaeth Isafswm Refeniw
Mae Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) y Cyngor yn dilyn egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru dan adran 21(A) Deddf Llywodraeth Leol 2003 trwy ddefnyddio un o'r dewisiadau a amlinellwyd yn y canllawiau.

Mae prif gyfran yr MRP yn parhau i fod yn gysylltiedig gyda'r rhwymedigaeth dyled hanesyddol a oedd yn bodoli cyn 2008 neu ar ôl 2008, lle y mae'n ymwneud â Benthyca â Chymorth a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Darparir ar gyfer y rhwymedigaeth MRP ar Ofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor sy'n ymwneud gyda dyled cyn 2008 a Benthyca â Chymorth ar ôl 2008 a ariannwyd trwy system Grant Cynnal Refeniw (RSG) gan ddefnyddio Opsiwn 3 (Dull Oes Asedau) o ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru 2018 a gweithredu'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 4.20% (cyfradd fenthyca gyfartalog y benthyciadau sy'n ddyledus ar 01/04/21) dros gyfnod o 44 mlynedd yn dechrau ar Ebrill y 1af 2021. Mae'r cyfnod yn cynnwys y cyfnod o 50 mlynedd a ddewiswyd i gyd-fynd ag oesau cyfartalog Asedau'r Cyngor nad ydynt wedi'u hariannu'n benodol gan Fenthyca Digymorth ar ôl Ebrill y 1af 2008, wedi tynnu'r chwe blynedd a ddaeth i ben ers iddo gael ei weithredu'n wreiddiol ar Ebrill y 1af 2015. Gan fod Benthyca newydd pellach â Chymorth yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, darperir hefyd ar gyfer rhwymedigaeth yr MRP ar bob cyfran newydd o fenthyca o'r fath gan ddefnyddio Opsiwn 3 o ganllawiau 2018 a gweithredu'r Dull Blwydd-dal. Darperir ar gyfer gwariant a ariannwyd gan Fenthyca Darbodus Digymorth gan ddefnyddio Opsiwn 3 (Dull Oes Asedau) o ganllawiau 2018 a gweithredu'r Dull Blwydd-dal gyda chyfradd llog o 3.68% (cyfartaledd pwysedig cyfradd llog y benthyca dan sylw) dros gyfnod o 38 mlynedd (cyfartaledd pwysedig oes sy'n weddill ar gyfer yr asedau perthnasol) yn dechrau ar Ebrill y 1af 2021. Gan fod Benthyca Darbodus Digymorth pellach yn cael ei ddefnyddio yn y Rhaglen Gyfalaf, bydd rhwymedigaeth yr MRP a adlewyrchir yn y Gofyniad Ariannu Cyfalaf hefyd yn cael ei chodi dros gyfnod sy'n gymesur â'r amcangyfrif o fywyd defnyddiol cyfartalog asedau gan ddefnyddio Opsiwn 3 a'r Dull Blwydd-dal.

Pennir y cyfnodau oes amcangyfrifedig yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Cyn belled nad yw'r gwariant yn ymwneud â chreu ased, a'i fod o fath sy'n amodol ar gyfnodau oes amcangyfrifedig a gyfeirir atynt yn y cyfarwyddyd, bydd y Cyngor yn mabwysiadu'r cyfnodau hyn yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i bennu cyfnodau oes buddiol a Darpariaeth Isafswm Refeniw darbodus mewn amgylchiadau eithriadol pan na fyddai argymhellion y cyfarwyddyd yn briodol.

Mae'r Cyngor yn parhau â'r egwyddor o beidio â chodi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar unrhyw fenthyciad (darbodus) digymorth dros dro. Ar hyn o bryd, dim ond cyllid ar gyfer Gwelliannau Tai ac Eiddo Gwag sydd i'w ad-dalu i Lywodraeth Cymru, sy'n cael ei drin yn y fath ffordd.
Gan nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf y Cyngor yn gallu cael eu perthnasu i asedau unigol, asesir oesau asedau ar sail sy'n adlewyrchu'r cyfnod buddiol y rhagwelir y bydd yn deillio o'r gwariant. Hefyd, pa bynnag fath o wariant sydd dan sylw, caiff ei grwpio gyda'i gilydd mewn modd sy'n adlewyrchu prif elfen y gwariant a chaiff ei wahanu dim ond mewn achosion lle mae dwy brif elfen neu fwy ag oesau buddiol economaidd sy'n sylweddol wahanol.

Yn ôl y Cod, mae'r asedau a ddelir o dan gynlluniau Menter Cyllid Preifat a phrydlesau cyllid yn amodol ar y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn yr un modd ag asedau a gafwyd gan ddefnyddio ffurfiau eraill o fenthyca. O dan reoliadau a chanllawiau statudol, gall y taliadau hyn gyfateb i ad-dalu'r rhwymedigaeth. Cafodd y cynnydd yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn sgil ychwanegu asedau'r prydlesau cyllid, felly, eu talu ar yr un gyfradd â dibrisiant y rhwymedigaeth gyfatebol ar y fantolen fel na fydd effaith gyffredinol ar Falansau Cronfa Gyffredinol y Cyngor. Yn 2017/18 torrwyd cysylltiad â'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw oedd yn ddyledus ar gyfer asedau Menter Cyllid Preifat Ysgol Gyfun Penweddig, a oedd, yn hanesyddol, wedi'u trin yn debyg i asedau prydlesu cyllid ac yn lle hynny bydd yn cael ei ddibrisio dros weddill oes adeiladau Ysgol Gyfun Penweddig ar sail blwydd-dal yn lle hynny.

xix. Gwasanaethau Cymorth a Gorbenion
Mae'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei baratoi fesul Gwasanaeth, yn unol ag adroddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Fel y cyfryw, nid yw'r costau a ailgodir am wasanaethau cymorth a gorbenion yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

xx. Eiddo, Peiriannau ac Offer
Mae asedau y mae iddynt sylwedd ffisegol ac a gedwir i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, neu at ddibenion gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un flwyddyn ariannol, yn cael eu hystyried fel Eiddo, Peiriannau ac Offer.

Mae Ysgolion Gwirfoddol a Reolir yn cael eu cynnwys ar y Fantolen, tra bod Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cael eu heithrio.

Os bydd gan unrhyw ran sylweddol o adeilad hyd oes sy'n sylweddol fyrrach na'r prif strwythur, a bod gwerth y rhan honno'n fwy na £10,000, yna fe'i hystyrir fel cydran i'w nodi ar wahân ar gofrestr asedau'r Cyngor. Caiff unrhyw gydrannau o'r fath a nodir o fewn y gwariant cyfalaf newydd eu prisio ar wahân pan gânt eu hychwanegu at y gofrestr asedau i ddechrau (neu pan gaiff yr ased ei drosglwyddo o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu gydag adeiladau newydd).

Cydnabyddiaeth – Caiff gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Peiriannau ac Offer ei gyfalafu ar sail croniadau, â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd

i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw yn llifo i'r Cyngord ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Defnyddiwyd rheol de-minimis ar gyfer cyfalaf – yn gyffredinol, ni chaiff gwariant cyfalaf â gwerth llai na £10,000 ei gynnwys o fewn gwariant cyfalaf. Mae gwariant sy'n cynnal, ond nad yw'n ychwanegu at botensial asedau i gyflenwi buddiannau economaidd i'r dyfodol neu botensial gwasanaeth (e.e. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei ychwanegu at asedau sefydlog yn y Fantolen, ond yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd. Mae'r cofnod wedyn yn cael ei wrthdroi allan i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar Lefelau Treth y Cyngor.

Mesur – Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:

a) y pris pwrcasu
b) unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol iddo fedru gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr
c) amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y lleolir ef arno

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a achosir tra bod asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant i fod eu gwerth teg, oni bai nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm yr ased i'w gario a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario i'r Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- Cerbydau, Peiriannau Trwm, Celfi a chyfarpar – Cost Dibrisiant Hanesyddol
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, Asedau Cymunedol a rhai Asedau Treftadaeth – Cost Hanesyddol
- Asedau sydd ar werth– Ffigwr isaf y swm a gariwyd a gwerth teg llai costau gwerthu
- Pob ased arall – Gwerth Teg, a bennir Gwerth yr Ased ar y Farchnad

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau, nad ydynt yn eiddo, oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae'r asedau a gaiff eu cynnwys ar y Fantolen yn ôl eu gwerth teg gan mwyaf yn cynnwys Tir ac Adeiladau Eraill. Rhannwyd y categori hwn yn bum is-gategori. Mae pob is-categori cyfan yn cael ei ailbrisio bob pum mlynedd. Dyma'r amserlen gyfredol o ran ailbrisio asedau:

2022/23	Asedau Tir Amrywiol a Meysydd Parcio
2023/24	Adeiladau Cyhoeddus (Canolfannau Hamdden, Cyfleusterau Cyhoeddus, Theatrau a Phyllau Nofio), Asedau Treftadaeth (pan gânt eu cadw ar werth teg)
2024/25	Adeiladau Addysgiadol (Ysgolion Cynradd, Uwchradd a Phob Oed, Clybiau Ieuenctid ac Unedau Cyfeirio)
2025/26	Swyddfeydd ac Adeiladau Gweithredol Eraill
2026/27	Adeiladau Gwasanaethau Cymdeithasol

Caiff Asedau sy'n weddill eu hystyried i'w hailbrisio yn seiliedig ar bryd y bydd pum mlynedd ers y prisiad diwethaf, felly bydd yn ddibynnol ar pa un o'r categorïau y bu iddynt trosglwyddo'r gwarged oddi wrtho.

Efallai y bydd ailbrisiadau eraill yn cael eu cyflawni rhwng yr ymchwiliadau a drefnwyd os bydd y Priswyr yn barnu bod gwerth yr ased berthnasol neu'r asedau perthnasol wedi newid yn sylweddol.

Mae cynnydd mewn ailbrisio'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrdroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdanynt trwy:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn y balans hwnnw (i fyny hyd at y swm o enillion cronnus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabyddir ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad ei gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu cyfnerthu yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Diffygion – Mae gwerth asedau'n cael eu hasesu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, lle bo hwn yn llai na swm yr ased i'w gario, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt trwy:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn y balans hwnnw (i fyny hyd at y swm o enillion cronnus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn neu falans annigonol, dibrisir swm yr ased i'w gario yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrdroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny hyd at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer Dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad, Asedau Treftadaeth ac Asedau Cymunedol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:

- Adeiladau – Dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr.

- Cerbydau, peiriannau ac offer – Dyraniad llinell syth o'r gost hanesyddol dros oes ddisgwyliedig yr ased. Rhoddir gwerth gweddilliol o 10% o bris pwrcasu cychwynnol i'r cerbydau er mwyn adlewyrchu eu gwerth ailwerthu posibl.
- Seilwaith – Dyraniad llinell syth o'r gost hanesyddol dros oes ddisgwyliedig yr ased sy'n weddill.

Caiff asedau sefydlog sy'n cael eu caffael neu'u gwerthu'u hychwanegu at y gofrestr asedau fel y maent ar y dyddiad prynu neu werthu yn y flwyddyn gyfrifyddu berthnasol ac felly cânt eu dibrisio yn y modd arferol ar gyfer y flwyddyn o'r dyddiad hwnnw os ydynt mewn categori y gellir ei ddibrisio fel arfer.

Pan fydd gan eitem sy'n ased Eiddo, Peiriannau ac Offer gydrannau mawr sy'n costio symiau sylweddol (dros £10,000), ac sydd â hyd oes sy'n sylweddol wahanol i'r prif ased, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân yn unol â'u hyd oes amcangyfrifol gwahanol.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Gwaredu – Pan ddaw'n debygol y bydd swm yr ased i'w gario yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased a Ddelir i'w Gwerthu. Er mwyn i'r trosglwyddiad o'r categori hyn ddigwydd, mae'n rhaid i'r ased fodloni'r meini prawf canlynol:

- Rhaid iddo fod ar gael i'w werthu yn ei gyflwr presennol ac yn amodol ar delerau gwerthu arferol.
- Rhaid i'r penderfyniad i wneud y gwerthiant fod wedi cael ei wneud ar y lefel reoli briodol.
- Rhaid mynd ati i farchnata'r ased am bris priodol.
- Rhaid disgwyl i'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn.

Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ailddosbarthu ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg wedi tynnu'r costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg wedi tynnu'r costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei chofnodi ar y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a Ddelir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai a ddelir i'w gwerthu; wedi'u haddasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent heb gael eu dosbarthu fel rhai a Ddelir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio â gwerthu.

Mae asedau nad ydynt mwyach yn cael eu defnyddio sy'n methu â bodloni'r holl feini prawf uchod neu y maent i'w gadael neu eu sgrapio fel arfer yn cael eu hailddosbarthu fel Gorged Asedau, oni bai nad yw'r Cyngor yn mynd ati i farchnata'r eiddo oherwydd ei fod yn aros i brisiau yn y farchnad godi, ac os felly efallai y gellid categoreiddio'r ased fel Eiddo Buddsoddi. Mae Gorged Asedau yn cael eu dibrisio yn y ffordd arferol, fodd bynnag, mae'r dibrisiant yn cael ei godi i gostau sydd heb

gael eu dosbarthu ac nid gyfrif y gwasanaeth gwreiddiol gan nad yw'r ased mwyach yn cael ei ddefnyddio.

Pan gaiff ased ei waredu neu'i ddadgomisiynu, caiff swm yr ased i'w gario ar y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Peiriannau ac Offer neu Asedau a Ddelir i'w Gwerthu) ei symud i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu'r colledion o waredu. Caiff yr enillion a wneir o waredu eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enillion neu'r colledion o waredu (h.y. wedi eu netio yn erbyn llyfrwerth yr ased ar yr adeg y cafodd ei waredu). Caiff unrhyw enillion/gynnydd yn sgil ailbrisio eu trosglwyddo o'r Graonfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Caiff symiau mwy na £10 mil eu hystyried yn dderbyniadau cyfalaf. Bydd angen credydu balans y derbyniadau i gronfa wrth gefn y Derbyniadau Cyfalaf, ac yna ni fydd modd eu defnyddio ond ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf newydd neu eu neilltuo i leihau angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca (gofyniad cyllid cyfalaf). Caiff derbyniadau eu neilltuo i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

O ddileu dyled y gwarediadau, ni chodir hynny ar Dreth y Cyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllid cyfalaf. Caiff symiau eu neilltuo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

xxi. Menter Cyllid Preifat a Chontractau Tebyg

Mae Menter Cyllid Preifat a chontractau tebyg yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, lle mae'r cyfrifoldebau ar gyfer gwneud yr eiddo, y peiriannau a'r offer ar gael, sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaethau, yn trosglwyddo i gontractwr y Menter Cyllid Preifat. Gan fod y Cyngor yn cael ei ystyried i reoli'r gwasanaethau a ddarperir o dan ei gynlluniau Menter Cyllid Preifat, a gan y bydd perchnogaeth yr eiddo, y peiriannau a'r offer yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contractau am ddim tâl ychwanegol, mae'r Cyngor yn cario'r asedau a ddefnyddir o dan y contractau ar ei Mantolen fel rhan o'r Eiddo, Peiriannau a'r Offer.

Cafodd cydnabyddiaeth wreiddiol yr asedau hyn ar werth teg (yn seiliedig ar y gost o brynu'r eiddo, y peiriannau a'r offer) ei gydbwyso gan y gydnabyddiaeth o rwymedigaeth am symiau a oedd yn ddyledus i weithredwr y cynllun i dalu am y buddsoddiad cyfalaf. Ar gyfer cynllun Menter Cyllid Preifat Ysgol Gyfun Penweddig, dibrisiwyd y rhwymedigaeth gan gyfraniad cyfalaf cychwynnol o £12,027,000.

Mae asedau tymor hir a gydnabyddir ar y Fantolen yn cael eu hailbrisio a'u dibrisio yn yr un modd ag eiddo, peiriannau ac offer sy'n eiddo i'r Cyngor.

Mae'r symiau sy'n daladwy i weithredwyr y Menter Cyllid Preifat yn cael eu dadansoddi bob blwyddyn i bum elfen:

- gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i ddebydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- cost cyllid – tâl llog o 4.5% ar rwymedigaeth y Fantolen sy'n ddyledus, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- rhent amodol – cynnydd yn y swm sydd i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwriant Cynhwysfawr.

- talu tuag at rwymedigaeth – wedi'i gymhwyso at ddibrisio rhwymedigaeth y Fantolen tuag at weithredwr y Fenter Cyllid Preifat (mae'r proffil ar gyfer dibrisio yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un egwyddorion ag ar gyfer prydles gyllid).
- Costau adnewyddu dros oes– caiff cyfran o'r symiau sy'n daladwy ei dynodi fel Gwelliant i'r diffyg sy'n cyfateb yn ased Ysgol Penweddig o dan Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar pan gaiff y gwaith sy'n ofynnol ei gwblhau yn y diwedd. Ni fydd yn cael effaith net ar y Fantolen

xxii. Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

Darpariaethau
Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod sydd yn ôl pob tebyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Efallai na fydd darpariaethau a gynhwysir yn y cyfrifon yn gallu cael eu gorfodi'n gyfreithiol ac efallai gallant ond gael eu casglu o set o ffeithiau mewn sefyllfa arbennig, felly nid yw eu cynnwys yn y cyfrifon yn golygu bod atebolrwydd wedi cael ei dderbyn.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fydd taliadau'n cael eu gwneud yn y pen draw, maent yn cael eu codi i'r ddarpariaeth a'u cario yn y Fantolen. Caiff setliadau tybiedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – lle mae'n mynd yn llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd bellach (neu bydd setliad is na'r disgwyl yn cael ei wneud), mae'r ddarpariaeth yn cael ei gwrthdroi a'i chredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol. Mae rheoliadau yn darparu'r pŵer i wneud cofnod addasu ar gyfer darpariaethau penodol yng Nghost Net y Gwasanaethau a'r Fantolen.

Lle disgwylir i beth o'r taliad neu'r taliad cyfan sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael ei adennill o barti arall (e.e. o hawliad yswiriant), mae hyn ond yn cael ei gydnabod fel incwm ar gyfer y gwasanaeth perthnasol os yw hi bron yn sicr y bydd ad-daliad yn cael ei dderbyn os bydd y Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau Amodol
Mae rhwymedigaeth amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i'r Cyngor, y mae ei bodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan y digwyddiad neu fel arall gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau amodol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle fel arall byddai darpariaeth yn cael ei wneud ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd dibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon. Maent yn cynnwys sefyllfaoedd pan fydd achosion cyfreithiol a hawliadau eraill sy'n ymdrin ag ystod o faterion yn yr arfaeth. Maent yn ymwneud â materion cyfreithiol a ffeithiol anodd a chymhleth sy'n amodol ar lawer o ansicrwydd a chymhlethdodau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ffeithiau ac amgylchiadau pob achos penodol. Oherwydd yr ansicrwydd cynhenid mewn materion o'r fath, mae'n aml yn anodd rhagweld y canlyniad terfynol.

Asedau Amodol
Mae ased amodol yn codi pan fo digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi ased posibl i'r Cyngor y mae ei bodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan y digwyddiad neu fel arall gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Nid yw asedau amodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen, ond yn cael eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon lle mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.

xxiii. Cronfeydd Wrth Gefn
Bydd y Cyngor yn neilltuo symiau penodol o arian mewn cronfeydd wrth gefn at ddibenion polisïau'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau na ellir eu rhagweld. Caiff Cronfeydd Wrth Gefn eu creu drwy neilltuo symiau o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan ariennir gwariant o gronfa wrth gefn, caiff yr arian ei godi i'r gwasanaeth priodol ar gyfer y flwyddyn honno yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth y Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna, caiff yr arian wrth gefn ei neilltuo yn ôl i Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn i sicrhau nad oes tâl net yn erbyn treth y cyngor am y gwariant hwn.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn i reoli'r broses gyfrifyddu ar gyfer asedau sefydlog diriaethol, offerynnau ariannol, buddion ymddeoliad a chyflogai ac nad ydynt yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy i'r Cyngor – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y polisïau perthnasol.

xxiv. Gwariant Refeniw a Ariennir o Gyfalaf o dan Statud
Cafodd gwariant a wnaed yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu o dan ddarpariaethau statudol ond nad yw'n arwain at greu ased tymor hir ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Lle y mae'r Cyngor wedi penderfynu talu cost y gwariant o'r adnoddau cyfalaf cyfredol neu drwy fenthyca; yna, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd o Falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn gwrthdroi'r symiau a godwyd i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar lefel treth y cyngor.

xxv. Treth Ar Werth (TAW)
Cafodd y Cyfrifon eu paratoi gan hepgor TAW, i'r graddau y mae modd ei hadennill.

1.3 SAFONAU CYFRIFYDDU SYDD WEDI'U CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI'U MABWYSIADU ETO

Mae'r Cod Ymarfer yn mynnu bod y Cyngor yn datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith newidiadau o ran cyfrifyddu, a fydd yn ofynnol gan safonau newydd sydd wedi'u cyhoeddi, ond nad ydynt wedi'u mabwysiadu eto. Y newidiadau a gyflwynir yn y Cod ar gyfer 2022/23 yw:

Ar 31 Mawrth 2022 nid oes safonau perthnasol neu ddiwygiadau i safonau cyfredol sydd wedi'u cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gan y Cod a fydd yn cael unrhyw effaith yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, darparwyd y canlynol er gwybodaeth:

Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) - bydd lesoedd yn effeithio ar ddosbarthiad lesoedd gweithredol a chyllid ar gyfer lesddeiliaid a bydd gofyn i awdurdodau lleol gydnabod pob les ar eu mantolen fel asedau hawl i ddefnyddio

gydag atebolrwydd les cyfatebol yn cynrychioli rhwymedigaeth y lesddeiliad i wneud taliadau les ar gyfer yr ased. Mai rhai esemptiadau ar gyfer lesoedd gwerth isel a thymor byr. Mae gweithredu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 16 ar gyfer llywodraeth leol wedi'i ohirio ymhellach gan CIPFA/LASAAC tan 1 Ebrill 2024.

1.4 BARN GRITIGOL MEWN CYMHWYSO POLISÏAU CYFRIFYDDU

Wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifo a nodir, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud rhai penderfyniadau am drafodion cymhleth neu'r rheiny sy'n ymwneud ag ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y penderfyniadau hanfodol a wnaed yn y Datganiad o Gyfrifon yw:

Lefelau ariannu yn y dyfodol
Mae yna lefel uchel o ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol gyda setliadau un flwyddyn yn unig yn parhau ar lefel San Steffan a Llywodraeth Cymru.

Ysgolion Gwirfoddol a Reolir ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir
Ni chaiff adeiladau Ysgolion Gwirfoddol a Reolir ac Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir eu cynnwys yn y Fantolen o hyd, oherwydd y cadarnhawyd nad ydynt yn asedau'r Cyngor.

Brexit
Daethpwyd i Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU/UE ar 24 Rhagfyr 2020 a gadarnhawyd gan Senedd y DU cyn trefniadau newydd gyda'r UE. Mae gadael yr UE gyda chytundeb wedi lleihau'r risg a'r ansicrwydd i Geredigion, er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn dal i achosi peth aflonyddwch. Mae'r Cyngor yn monitro effaith.

COVID-19
Effaith pandemig COVID-19 ar ddarparu gwasanaethau a gweithgarwch ymateb yn y dyfodol, yn ogystal ag ansicrwydd cefnogaeth ariannol barhaus gan Lywodraeth Cymru.

Cyd-bwyllgorau Corfforedig
Newidiadau posibl i drefniadau llywodraethu yn y dyfodol yn sgil cyflwyno Cyd-bwyllgorau Corfforedig

1.5 RHAGDYBIAETHAU A WNEIR AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU MAWR ERAILL O ANSICRWYDD AMCANGYFRIF

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau amcangyfrifiedig sydd wedi eu seilio ar ragdybiaethau a wnaed gan y Cyngor ynghylch y dyfodol neu sydd fel arall yn ansicr. Gwneir amcangyfrifon gan gymryd i ystyriaeth brofiad hanesyddol, tueddiadau presennol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, oherwydd na ellir pennu balansau gyda sicrwydd, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon. Yr eitemau ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2022 lle ceir risg o addasiad mewn blynyddoedd ariannol dilynol yw:

Rhwymedigaeth Pensiynau
Mae amcangyfrif o'r rhwymedigaeth net i dalu pensiynau'n dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â'r gyfradd disgownt a ddefnyddir, cyfradd ddisgwyliedig chwyddiant prisiau, cyfradd ddisgwyliedig codiadau cyflog a phensiynau, cyfraddau marwolaeth a chyfradd cymudo pensiynau. Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Pensiynau arweiniol ac mae'n defnyddio cwmni o actiwariaid i sicrhau bod y Cyngor yn cael cyngor arbenigol ynghylch y rhagdybiaethau i'w defnyddio.

Lwfans Amhariad
Mae'n anodd amcangyfrif gyda sicrwydd lefel y lwfans amhariad sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol fathau o ddyled.

Prisio Tir ac Adeiladau
Mae unrhyw waith prisio a gyflawnwyd yn y blynyddoedd 2017/18 i 2020/21 wedi eu hadolygu ac mae rhai o'r prisiadau wedi'u newid o ganlyniad i gynnydd sylweddol mewn costau adeiladu neu oherwydd yr incwm a gynhyrchir gan yr ased.

1.6 GWARIANT AC INCWM WEDI'I DDADANSODDI YN ÔL EI NATUR

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn:

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Gwariant Rheoladwy		
Gweithwyr	107,780	100,418
Eiddo	9,851	8,912
Cludiant	10,435	8,772
Cyflenwadau a Gwasanaethau	120,245	116,808
Cyfanswm Gwariant	**248,311**	**234,910**
Incwm Rheoladwy		
Grantiau	(68,414)	(67,211)
Incwm Arall	(36,461)	(31,370)
Gwasanaethau Contract/Ysgolion	(1,790)	(1,617)
Cyfanswm Incwm	**(106,665)**	**(100,198)**
Cyllideb cyn Cronfeydd Wrth Gefn	**141,646**	**134,712**
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	1,082	309
Addasiadau IAS19 *Buddiannau Gweithwyr*	17,587	12,715
Absenoldebau Cronedig	547	172
Dibrisiad, amorteiddio a diffygion	9,928	12,256
Colledion/(Enillion) o waredu asedau	(659)	(414)
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	(127)	(96)
Addasiadau cyfrif cyfalaf eraill	(1,507)	(3,000)
Praeseptau	9,976	9,462
Treth ac Incwm Grant Amhenodol	(185,091)	(172,047)
(Gorged) neu Ddiffyg Darparu Gwasanaethau	**(6,618)**	**(5,931)**

1.7 ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFYDDU A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir yn y Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu cywir i'r adnoddau y manylir arnynt gan ddarpariaethau statudol fel eu bod ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw i'r dyfodol.

2021/22

	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy			
	Balans Gronfa Gyffredinol	Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy	Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf:				
Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol	11,954	0	0	(11,954)
Colledion/enillion Ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer	(2,008)	0	0	2,008
Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi	(18)	0	0	18
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	(12,722)	0	0	12,722
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	1,082	0	0	(1,082)
Symiau asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëir ar waredu neu werthiant fel rhan o enilliad/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	347	0	0	(347)
Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na'u credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	(1,518)	0	0	1,518
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	(127)	0	0	127
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:				
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu cymhwyso a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(4,671)	0	4,671	0
Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0	0	(1,185)	1,185
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf:				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(602)	602	0	0
Defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	(369)	0	369
Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	0	0	0	0
Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd ar adeg derbyn yr arian	0	0	0	0
Addasiadau'n ymwneud â'r Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth Gefn:				
Trosglwyddo o enillion gwerthiant gohiriedig wedi eu credydu fel rhan o'r elw/colled yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(404)	0	0	404
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:				
Swm lle mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	11	0	0	(11)

Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:				
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	26,484	0	0	(26,484)
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	(8,897)	0	0	8,897
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig:				
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	547	0	0	(547)
Cyfanswm Addasiadau	**9,458**	**233**	**3,486**	**(13,177)**

2020/21

	Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy			
	Balans Gronfa Gyffredinol	**Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy**	**Grantiau Cyfalaf heb Gymhwyso**	**Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf:				
Gwyrdroi eitemau a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau am ddibrisiant ac amhariad asedau nad ydynt yn gyfredol	11,759	0	0	(11,759)
Colledion Ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer	(214)	0	0	214
Symudiad yng ngwerth teg Eiddo Buddsoddi	710	0	0	(710)
Grantiau cyfalaf a chyfraniadau a ddefnyddiwyd	(9,734)	0	0	9,734
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	310	0	0	(310)
Symiau asedau nad ydynt yn gyfredol a ddilëir ar waredu neu werthiant fel rhan o enilliad/colled ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	277	0	0	(277)
Ychwanegu eitemau sydd heb eu debydu na'u credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf	(3,016)	0	0	3,016
Taliadau gwariant cyfalaf yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	(97)	0	0	97
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso:				
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf heb eu cymhwyso a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(1,241)	0	1,241	0
Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf wedi'u trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf	0	0	(392)	392
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Derbyniadau Cyfalaf:				
Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(339)	339	0	0
Defnyddio'r Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd	0	0	0	0
Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf tuag at gostau gweinyddol gwaredu asedau nad ydynt yn gyfredol	(2)	2	0	0
Trosglwyddo o'r Gronfa Wrth Gefn y Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd ar adeg derbyn yr arian	0	0	0	0
Addasiadau'n ymwneud â'r Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig wrth Gefn:				
Trosglwyddo o enillion gwerthiant gohiriedig wedi eu credydu fel rhan o'r elw/colled yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(349)	0	0	349

Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:				
Swm lle mae'r costau ariannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau ariannu priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	15	0	0	(15)
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:				
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	21,216	0	0	(21,216)
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	(8,501)	0	0	8,501
Addasiadau yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig:				
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	172	0	0	(172)
Cyfanswm Addasiadau	**10,966**	**341**	**849**	**(12,156)**

1.8 CRONFEYDD NEILLTUEDIG A BALANSAU YSGOLION DIRPRWYEDIG

Isod, ceir crynodeb o'r cronfeydd neilltuedig y mae'r Cyngor wedi'u sefydlu:

	31/03/20 Balans £'000	Trosgl-wyddo i'r £'000	Trosgl-wyddo o'r £'000	31/03/21 Balans £'000	Trosgl-wyddo i'r £'000	Trosgl-wyddo o'r £'000	31/03/22 Balans £'000
Cyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion - Cynradd	1,521	1,514	0	3,035	1,212	(17)	4,230
Cyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion - Uwchradd	640	1,233	0	1,873	540	(12)	2,401
Cyllideb Ddirprwyedig yr Ysgolion - Ysgolion Pob Oed	519	922	0	1,441	240	0	1,681
Yswiriant- Cyflenwi Athrawon	149	148	0	297	13	(125)	185
Ysgolion a Diwylliant	407	0	(11)	396	100	0	496
Ysgolion a Diwylliant	**3,236**	**3,817**	**(11)**	**7,042**	**2,105**	**(154)**	**8,993**
Cyfalaf Corfforaethol	2,362	863	0	3,225	2,971	0	6,196
Addysg- Menter Cyllid Preifat Penweddig	1,459	0	(536)	923	1,000	(309)	1,614
Corfforaethol - Trefniadau ar y cyd	8	0	0	8	0	0	8
Cydraddoli Cyllid / Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	700	0	0	700	0	0	700
Dileu Swyddi Corfforaethol	1,062	0	0	1,062	0	0	1,062
Yswiriant	501	387	0	888	216	0	1,104
Cynllun Costau Byw (Dewisol)	0	0	0	0	487	0	487
Cyllid- Cyffredinol	0	250	0	250	0	0	250
Cyllid a Chaffael	**6,092**	**1,500**	**(536)**	**7,056**	**4,674**	**(309)**	**11,421**
Gwasanaethau Democrataidd	112	0	0	112	0	0	112
Cronfa wrth gefn etholiad y Cyngor Sir	0	200	0	200	0	0	200
Gwasanaethau Democrataidd	**112**	**200**	**0**	**312**	**0**	**0**	**312**
Pobl a Threfniadaeth	**58**	**0**	**0**	**58**	**0**	**0**	**58**
Porth Cymorth Cynnar	2	0	0	2	0	0	2
Buddsoddiad Pyrth	0	0	0	0	250	0	250
Porth Gofal	222	117	0	339	24	0	363
Model Gydol Oes y Pyrth	**224**	**117**	**0**	**341**	**274**	**0**	**615**
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	**102**	**0**	**0**	**102**	**0**	**0**	**102**
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	80	1,213	0	1,293	1,005	0	2,298
Cynnal a chadw dros y gaeaf / Atgyweirio ar ôl stormydd	277	0	0	277	0	0	277
Diogelu'r Amgylchedd ac Amddifyn rhag Llifogydd	177	0	0	177	0	0	177
Gorfodi Parcio Sifil	93	0	0	93	21	(28)	86
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	**627**	**1,213**	**0**	**1,840**	**1,026**	**(28)**	**2,838**
Cynllun Datblygu Lleol	248	0	0	248	0	0	248
Economi ac Adfywio	177	0	0	177	0	0	177
Canolfan Bwyd Cymru (Horeb)	217	0	0	217	0	0	217
Y Fargen Dwf	250	0	0	250	0	0	250
Rhaglen Gwella Gwaith Trin Carthion	543	0	0	543	0	(91)	452
Perfformiad ac Economi	**1,435**	**0**	**0**	**1,435**	**0**	**(91)**	**1,344**
TGCh ac Buddsoddiad Digidol	0	0	0	0	1,000	0	1,000
Cyswllt Cwsmeriaid	134	0	0	134	75	0	209
Cyswllt Cwsmeriaid	**134**	**0**	**0**	**134**	**1,075**	**0**	**1,209**
Cyfreithiol a Llywodraethu	**125**	**0**	**0**	**125**	**0**	**0**	**125**
Hapddigwyddiad (gan gynnwys Covid 19)	1,500	2,873	0	4,373	90	0	4,463
Chost a Phwysau Chwyddiant	0	0	0	0	1,435	0	1,435
Cydraddoli Lleoliadau	0	0	0	0	1,000	0	1,000
Premiwm Treth y Cyngor	462	186	0	648	472	0	1,120
Eisteddfod Genedlaethol 2020	170	0	0	170	0	0	170
Buddsoddi yn Nyfodol Pobl	4,781	750	(94)	5,437	535	(570)	5,402
Hybu'r Economi	67	4,443	0	4,510	2,995	(621)	6,884
Galluogi Gwydnwch Unigol a Theuluol	0	1,801	(1,301)	500	1,000	0	1,500
Hyrwyddo Gwydnwch Amgylcheddol a Chymunedol	3,000	1,450	0	4,450	500	0	4,950
Grŵp Arweiniol	**9,980**	**11,503**	**(1,395)**	**20,088**	**8,027**	**(1,191)**	**26,924**
CYFANSWM CRONFEYDD NEILLTUEDIG	**22,125**	**18,350**	**(1,942)**	**38,533**	**17,181**	**(1,773)**	**53,941**

Cynyddodd y balans o ran Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn gan £15,408mil yn 2021/22 a £16,408mil yn 2020/21.

NODIADAU YNGHYLCH Y CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODWYD

Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion
Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi'u clustnodi ac maent yn cynnwys y balansau unigol sydd gan bob ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ysgol gydol oed yng Ngheredigion.

Cyfalaf Corfforaethol
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn bodoli i ddarparu cyllid ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf a bydd yn cael ei defnyddio i wneud cyfraniad refeniw i Raglenni Cyfalaf y presennol, yn ogystal â rhai'r dyfodol.

Hapddigwyddiadau (gan gynnwys COVID-19)
Mae'r gronfa wrth gefn hon yn cynnwys arian sydd wedi ei roi o'r neilltu i gyfrannu at liniaru a rheoli peryglon ariannol COVID-19, yn ogystal â darparu cyllid un-tro neu gyllid graddedig sy'n ymwneud ag eitemau yr ymdrinnir â nhw yn gorfforaethol.

Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl
Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i gynorthwyo yn y broses o gyflawni un o Flaenoriaethau Corfforaethol penodol y Cyngor. Mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Hybu'r Economi
Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i gynorthwyo yn y broses o gyflawni un o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer Strategaeth Economaidd y Cyngor.

Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
Mae'r gronfa wrth gefn hon wedi'i chreu i gynorthwyo yn y broses o gyflawni un o Flaenoriaethau Corfforaethol penodol y Cyngor. Mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Cyfalaf Diogelu'r Arfordir.

Cronfeydd Wrth Gefn Eraill
Mae'r cronfeydd wrth gefn eraill i gyd yn cael eu cadw gan y gwasanaethau priodol at y Diben neu'r Gwasanaeth penodol a enwir. Maent wedi'u sefydlu yn sgil arbedion neu danwariant a gafwyd yn ystod blynyddoedd ariannol blaenorol ac maent yn bodoli i fodloni gwariant un-tro nad yw'n mynd i ddigwydd eto neu i gynorthwyo gwasanaethau i reoli eu cyllidebau mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol a hynny ar sail un-tro.

1.9 GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Praesept y Cynghorau Cymuned	1,183	1,141
Praesept Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	8,793	8,321
Ardollau	4,072	4,289
Colledion/(Enillion) o waredu asedau nad ydynt yn gyfredol	(659)	(413)
Cyfanswm	**13,389**	**13,338**

1.10 GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Llog taladwy a thaliadau eraill	5,725	5,749
Cost llog pensiynau ac enillion a ddisgwylir ar asedau pensiynau	3,284	3,602
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(236)	(62)
(Gwarged)/diffyg ar y Gweithrediadau Masnachol	128	89
Incwm a Gwariant parthed Eiddo Buddsoddi	(847)	(824)
Newidiadau i werth teg Eiddo Buddsoddi	(18)	710
Cyfanswm	**8,036**	**9,264**

1.11 TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Incwm Treth y Cyngor	56,605	53,426
Ardrethi Annomestig	25,064	23,800
Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi (RSG)	86,029	83,846
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf	17,393	10,975
Cyfanswm	**185,091**	**172,047**

Y Dreth Gyngor

Mae incwm y Dreth Gyngor yn dod o'r taliadau a godir yn ôl gwerth eiddo preswyl sydd wedi'u rhannu i ddeg band prisio ar sail eu gwerth amcangyfrifedig ar 1af Ebrill 2003. Cawsant eu prisio at y diben penodol hwn. Caiff y taliadau eu cyfrifo drwy gymryd swm yr incwm sydd ei angen ar Gyngor Sir Ceredigion, Cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ar gyfer y flwyddyn i ddod a rhannu'r swm hwnnw â sylfaen y Dreth Gyngor.

Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band wedi'i addasu gan gyfran i drosi'r nifer yn swm sy'n gyfwerth â Band D a'i addasu ar gyfer gostyngiadau 31,911.26 yn 2021/22 (– 31,936.27 yn 2020/21).

Sylfaen Treth Gyngor Cyngor Sir Ceredigion 2021/22

Sylfaen y Dreth (ar sail cyfradd gasglu o 98.5%)

Band	Sylfaen y Dreth
A*	1.76
A	1,002.62
B	3,063.29
C	5,674.49
D	6,539.57
E	9,386.17
F	4,641.52
G	1,397.90
H	158.44
I	45.5
Cyfanswm Sylfaen y Dreth	**31,911.26**

Dadansoddiad o enillion net Treth y Cyngor:

	2021/22	**2020/21**
Treth y Cyngor a gasglwyd	56,039	53,570
LIC Hawliad Caledi	106	0
LIC Cyllid caledi: Casglu Treth y Cyngor	0	576
Tynnu i ffwrdd:		
(Cynydd)/Gostwng darpariaeth am beidio â thalu	460	(720)
Enillion net Treth y Cyngor	**56,605**	**53,426**

Gellir dadansoddi'r enillion net fel a ganlyn:

	2021/22	**2020/21**
Cyngor Sir Ceredigion	46,629	43,963
Praesept Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	8,793	8,322
Praesept ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned	1,183	1,141
	56,605	**53,426**

Ardrethi Annomestig Cenedlaethol

Caiff yr Ardrethi Annomestig Cenedlaethol eu gweithredu ar sail genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru'n pennu swm yr ardreth, sef 53.3c yn 2021/22 (53.5c yn 2020/21), ac mae busnesau lleol yn talu ardrethi a gyfrifir drwy luosi'u gwerth ardrethol â'r swm hwnnw. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu'r ardrethi sy'n ddyledus gan y trethdalwyr yn ei ardal, ond mae'n talu'r enillion i gronfa'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ailddosbarthu'r symiau sy'n daladwy i'r Awdurdodau Lleol ar sail swm penodol y pen o'r boblogaeth dros 18 oed.

Ar 31 Mawrth 2022 y gwerth ardrethol oedd £56,060,088 (£56,199,119 ar 31 Mawrth 2021).

1.12 INCWM GRANTIAU

Grantiau Refeniw – A gredydir i'r Gwasanaethau:

		Ailosodwyd
	2021/22	**2020/21**
	£'000	**£'000**
LIC - grantiau COVID *gweler tudalen 51 am fwy o fanylion	7,667	15,502
LIC - Cyllid Ôl-16	3,773	3,768
LIC - Grant Gwella Ysgolion y Consortiwm Rhanbarthol	2,701	2,582
LIC - Grant Datblygu Disgyblion	1,550	1,287
LIC - Grant Addysg yr Awdurdod Lleol	5,463	908
LIC - Grant Plant a Chymunedau	2,210	2,176
LIC - Grant Cymorth Tai	3,847	2,953
LIC - Grant Pwysau Cynaladwyedd	1,145	1,025
LIC - Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol	1,388	0
LIC - Grant Pwysau Gofal Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol	1,145	0
LIC - Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	732	574
LIC - Grant Tocynnau Teithio Rhatach	656	625
LIC - Grant Gwasanaethau Bysiau Cyhoeddus	740	680
LIC - Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau	763	745
LIC - Cynnig Gofal Plant	7,282	7,512
LIC - Cyllid brys i wella lefelau gwasanaethau bysiau	1,703	1,163
Gofal Cymdeithasol Cymru - Rhaglen Datblygu Gweithlu	1,004	986
AGPh - Cymhorthdal y Budd-dal Tai a Grantiau Gweinyddu Budd-dal Tai	14,313	15,453
Grantiau a Chyfraniadau Eraill y Llywodraeth	10,331	9,393
Cyfanswm Grantial Llywodraeth mewn Cost Net o Wasanaethau	**68,413**	**67,332**

Ailddatganwyd ffigurau 2020/21 oherwydd bod rhai grantiau mawr wedi'u nodi o sawl maes gwahanol.

Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau – A Gredydir i'r Dreth ac Incwm Grant Amhennodd

		Ailosodwyd
	2021/22	**2020/21**
	£'000	**£'000**
LIC - Grant Cyfalaf Cyffredinol	5,136	2,853
LIC - Gwelliannau'r Priffyrdd	610	785
LIC - Cronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Lleol	842	570
LIC - Gofal Plant	1,548	739
LIC - Ysgolion y 21ain Ganrif	2,145	94
LIC - Ysgolion - Gwaith Cyfalaf Ychwanegol	1,188	1,144
LIC - Grant Offer TG Addysg	321	560
LIC - Storm Callum	10	550
LIC - Prydau Ysgol am Ddim	570	0
LIC - Datblygu Tir ac Eiddo	1,060	0
LIC - Prosiect 'Mash' Aberteifi	540	0
Grantiau Eraill	3,423	4,060
	17,393	**11,355**

Ailddatganwyd 2020/21 ar gyfer cywiriadau i'r naratif a gwybodaeth ychwanegol am grantiau a ddatgelwyd yn 2021/22

Cyllid yn sgil COVID-19
Mae gwerth y ffrydiau cyllido ychwanegol yn sgil COVID-19 yn cael eu crynhoi yn y tablau canlynol:

Prifathro yn ôl Natur

2021/22	**Gwariant**	**Incwm Llywodraeth Cymru**	**Incwm y GIG**
	£000	**£000**	**£000**
Hawliadau Caledi	5,450	5,450	0
Incwm a gollwyd	0	1,394	0
Grant Treth y Cyngor - Incwm Treth y Cyngor	0	618	0
Ffioedd Gweinyddu	26	205	0
Cyfanswm Grantiau COVID 19 y Llywodraeth a Chost Net y Gwasanaethau	**5,476**	**7,667**	**0**
Profi Olrhain Diogelu - Incwm arall	2,613	0	1,987
Ysbytai Maes - Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau	129	0	129
Cyfanswm	**8,218**	**7,667**	**2,116**

2020/21	**Gwariant £000**	**Incwm Llywodraeth Cymru £000**	**Incwm y GIG £000**
Hawliadau Caledi	8,168	8,168	0
Incwm a gollwyd	0	4,782	0
Parseli i bobl a oedd yn cysgodi	448	448	0
Cost ychwanegol cymorth Treth y Cyngor	354	354	0
Trawsnewid / Strategaethay Arbedion / Ffioedd Gweinyddu	15	1,750	0
Cyfanswm Grantiau COVID 19 y Llywodraeth a Chost Net y Gwasanaethau	**8,985**	**15,502**	**0**
Grant Treth y Cyngor - Incwm Treth y Cyngor	0	575	0
Profi Olrhain Diogelu - Incwm arall	1,017	0	772
Ysbytai Maes - Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau	628	0	628
Cyfanswm	**10,630**	**16,077**	**1,400**

Asiantaethau yn ôl eu Natur

2021/22	**Gwariant £000**	**Incwm Llywodraeth Cymru £000**
Grantiau i Fusnesau	2,066	2,066
Cynllun rhyddhad ardrethi - Manwerthu, Hamdden	8,636	8,636
Cynllun Taliadau'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	1,561	1,561
Grant Hunanynysu	886	886
Cynllun ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol - Gofal Cymdeithasol	15	15
Cynllun Cymorth Tanwydd Gaeaf	576	576
Cyfanswm	**13,740**	**13,740**

2020/21	**Gwariant £000**	**Incwm Llywodraeth Cymru £000**
Grantiau i Fusnesau	49,184	49,184
Cynllun rhyddhad ardrethi - Manwerthu, Hamdden	9,096	9,096
Cynllun Taliadau'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol	872	872
Grant Hunanynysu	42	42
Cynllun ychwanegu at y Tâl Salwch Statudol - Gofal Cymdeithasol	22	22
Cynllun Digolledu ar ôl Llifogydd (COVID-19)	9	9
Cyfanswm	**59,225**	**59,225**

1.13 EIDDO, PEIRIANNAU A CHYFARPAR

Symudiadau yn 2021/22:

	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau, Peiriannau, Celfi a Chyfarpar £'000	Asedau Cymunedol £'000	Asedau sy'n weddill £'000	Asedau caiff eu hadeiladu ar hyn o bryd (AUC) £'000	Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar £'000
Cost neu Brisiad						
Ar 31 Mawrth 2021	237,131	24,641	1,469	4,006	1,325	268,572
Ychwanegiadau	5,840	963	2	0	1,941	8,746
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	32,240	0	0	3	0	32,243
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	(13,778)	(10)	0	(13)	(63)	(13,864)
Dadgydnabod–gwaredu	(102)	(50)	0	(265)	0	(417)
Dadgydnabod–eraill	(54)	(2,118)	0	(4)	0	(2,176)
Ail-ddosbarthwyd asedau (i)/o cadwyd i'r gwerthu	0	0	0	(500)	0	(500)
Ail-ddosbarthwyd asedau o AUC	883	0	0	0	(883)	0
Symudiadau eraill	(405)	269	(1)	136	0	(1)
Ar 31 Mawrth 2022	**261,755**	**23,695**	**1,470**	**3,363**	**2,320**	**292,603**
Croniad o ran y Dibrisio a Diffygion						
Ar 31 Mawrth 2021	(8,843)	(13,796)	0	(899)	0	(23,538)
Tâl dibrisio	(7,196)	(1,724)	0	(79)	0	(8,999)
Dibrisiad wedi ei osod yn erbyn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	14,417	10	0	29	0	14,456
(Colledion) diffygion/gwyrdroadau yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio	(186)	(1)	0	0	0	(187)
(Colledion) diffygion/gwyrdroadau o ran y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	1,043	(5)	0	0	0	1,038
Dadgydnabod–gwaredu	8	26	0	79	0	113
Dadgydnabod–eraill	12	2,118	0	4	0	2,134
Symudiadau eraill	(1)	80	0	(63)	0	16
Ar 31 Mawrth 2022	**(746)**	**(13,292)**	**0**	**(929)**	**0**	**(14,967)**
Gwerth ar Bapur Net						
Ar 31 Mawrth 2022	**261,009**	**10,403**	**1,470**	**2,434**	**2,320**	**277,636**
Ar 31 Mawrth 2021	**228,288**	**10,845**	**1,469**	**3,107**	**1,325**	**245,034**

Symudiadau yn 2020/21:

Ailosodwyd	**Tir ac Adeiladau £'000**	**Cerbydau, Peiriannau, Celfi a Chyfarpar £'000**	**Asedau Cymunedol £'000**	**Asedau sy'n weddill £'000**	**Asedau caiff eu hadeiladu ar hyn o bryd (AUC) £'000**	**Cyfanswm Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar £'000**
Cost neu Brisiad						
Ar 31 Mawrth 2020	238,936	23,677	1,380	2,417	516	266,926
Ychwanegiadau	910	2,014	89	1	1,666	4,680
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	(715)	0	0	(10)	0	(725)
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio yn y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	(2,859)	0	0	(364)	0	(3,223)
Dadgydnabod–gwaredu	0	(56)	0	(4)	0	(60)
Ail-ddosbarthwyd asedau (i)/o cadwyd i'r gwerthu	0	0	0	973	0	973
Ail-ddosbarthwyd asedau o AUC	857	0	0	0	(857)	0
Symudiadau eraill	2	(994)	0	993	0	1
Ar 31 Mawrth 2021	**237,131**	**24,641**	**1,469**	**4,006**	**1,325**	**268,572**
Croniad o ran y Dibrisio a Diffygion						
Ar 31 Mawrth 2020	(4,127)	(12,955)	0	(37)	0	(17,119)
Tâl dibrisio	(7,222)	(1,724)	0	(50)	0	(8,996)
Dibrisiad wedi ei osod yn erbyn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	1,774	0	0	41	0	1,815
(Colledion) diffygion/gwyrdroadau yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio	(349)	0	0	0	0	(349)
(Colledion) diffygion/gwyrdroadau o ran y Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	1,081	(26)	0	0	0	1,055
Dadgydnabod–gwaredu	0	56	0	0	0	56
Dadgydnabod–eraill	0	0	0	0	0	0
Symudiadau eraill	0	853	0	(853)	0	0
Ar 31 Mawrth 2021	**(8,843)**	**(13,796)**	**0**	**(899)**	**0**	**(23,538)**
Gwerth ar Bapur Net						
Ar 31 Mawrth 2021	**228,288**	**10,845**	**1,469**	**3,107**	**1,325**	**245,034**
Ar 31 Mawrth 2020	**234,809**	**10,722**	**1,380**	**2,380**	**516**	**249,807**

Dibrisio

Defnyddiwyd yr oes ddefnyddiol a chyfraddau dibrisio canlynol wrth gyfrif y dibrisiad:

Tir ac Adeiladau eraill – 1-99 mlynedd
Cerbydau, Peiriannau, Celfi a Chyfarpar – 1-20 mlynedd
Seilwaith – 10-99 mlynedd

Caiff asedau o dan Brydlesau Cyllid eu dibrisio ar sail llinell syth dros oes y brydles gyfredol nad yw wedi dod i ben.

Ailbrisio

Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen dreigl sy'n sicrhau y caiff holl Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar y bydd angen eu mesur ar werth teg yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd ac ystyrir Eiddo Buddsoddi a Ffermydd y Sir yn flynyddol. Caiff yr holl waith pridio ei wneud yn fewnol gan briswyr y Cyngor sy'n Aelodau o Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig. Yr asedau a ailbrisiwyd gan y Cyngor yn 2021/22 oedd Adeiladau Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwneir prisiadau ar dir ac adeiladau yn unol â'r methodolegau ac y mae'r sail ar gyfer yr amcangyfrif wedi ei nodi yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol Syrfewyr Siartredig, y cyfeiriwyd ato fel y 'Llyfr Coch'. Mae prisiadau cerbydau, peiriannau a chyfarpar yn seiliedig ar brisiau cyfredol lle y mae marchnad ail law weithredol neu'r prisiau catalog diweddaraf wedi eu haddasu yn unol â chyflwr yr ased. O ran gweddill adeiladau'r Cyngor sy'n cael eu dal ar sail Cost Amnewid Dibrisiedig, cafodd eu prisiadau presennol eu huwchraddio gan fynegai sy'n seiliedig ar ffigyrau addas a gymerwyd o ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth am Gostau Adeiladu. Cafodd prisiadau meysydd parcio'r Cyngor eu huwchraddio hefyd, a hynny'n seiliedig ar amcangyfrifon diweddaraf y Cyngor ynghylch incwm yn y dyfodol. Barnodd y priswyr fod y prisiadau ar gyfer gweddill y categorïau o asedau'n ddigon cywir fel nad oedd angen eu mynegeio ar hyn o bryd.

Nodir isod y rhagdybiaethau penodol a ddefnyddir wrth amcangyfrif gwerth teg:

- Mae cost hanesyddol yn rhesymol i'w ystyried ar gyfer gwerth teg
- Mae oes ased cerbydau, peiriannau a chyfarpar yn seiliedig ar y cyfnodau prydles a ddefnyddir gan y Cyngor ar gyfer cerbydau neu gyfarpar o fath penodol.
- Mae gwerth gweddillion ar gyfer asedau cerbydau, peiriannau a chyfarpar yn 10% o'r gost gychwynnol ar gyfer y cerbydau ac nid oes gwerth gweddilliol i unrhyw gyfarpar arall.

Mae'r datganiad canlynol yn nodi'r datblygiadau o ran rhaglen dreigl y Cyngor ar gyfer ailbrisio Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar:

	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Peiriannau, Celfi ac Offer	Asedau Dros Ben
	£'000	**£'000**	**£'000**
Ar gost hanesyddol:	66	23,695	1,138
Prisiad ar werth teg ar:			
31 Mawrth 2022	229,288	0	2,225
31 Mawrth 2021	14,019	0	0
31 Mawrth 2020	15,949	0	0
31 Mawrth 2019	2,228	0	0
31 Mawrth 2018	205	0	0
CYFANSWM	**261,755**	**23,695**	**3,363**

Asedau Seilwaith

Yn unol â'r rhyddhad dros dro a gynigiwyd gan y diweddariad i'r Cod ar asedau seilwaith, nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgelu cost gros a dibrisio cronedig ar gyfer asedau seilwaith oherwydd bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu na fyddai hyn yn dangos y sefyllfa o ran asedau yn gywir i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw effaith ar unrhyw un o'r datganiadau ariannol.

Mae'r awdurdod wedi penderfynu yn unol â Rheoliad 24L Cymru o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) 2003 (fel y'u diwygiwyd) mai'r symiau cario ymlaen sydd i'w dad-gydnabod o ran yr asedau seilwaith pan fo gwariant newydd yw dim.

Mae'r Cyngor wedi dewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon gan fod yr arferion yr adroddwyd arnynt yn flaenorol a'r diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisio cronedig yn cael eu mesur yn gywir ac ni fyddai'n sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol wneud penderfyniadau economaidd neu benderfyniadau eraill sy'n ymwneud ag asedau seilwaith.

Roedd Asedau Seilwaith gyda swm net o £135,946k yn cael eu dal ar 31 Mawrth 2022 (£133,860k ar 31 March 2021).

	2021/22	**2020/21**
	£'000	**£'000**
Gwerth ar Bapur Net ar 1 Ebrill	**133,860**	**131,248**
Ychwanegiadau	4,920	5,576
Dadgydnabod–gwaredu	0	(153)
Tâl dibrisio	(2,825)	(2,760)
Diffygion	(9)	(51)
Gwerth ar Bapur Net ar 31 Mawrth	**135,946**	**133,860**

1.14 EIDDO BUDDSODDI

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r Cyngor i wireddu gwerth ei eiddo buddsoddi ac nid oes cyfyngiadau ychwaith ar hawl y Cyngor i dderbyn yr incwm a derbyniadau wedi i'r eiddo gael ei waredu. Nid oes gan y Cyngor unrhyw oblygiadau contract i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi, nac ychwaith i'w hatgyweirio, cynnal a'u cadw na'u gwella.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r symudiadau yng ngwerth teg eiddo buddsoddi ar draws y flwyddyn:

	2021/22	**2020/21**
	£'000	**£'000**
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	16,912	17,570
Ychwanegiadau:		
Pryniannau	370	0
Gwariant dilynol	68	52
Gwaredu	0	0
Enillion/(colledion) net o fuddsoddiadau gwerth	18	(710)
Trosglwyddiadau (i)/o Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	0	0
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	**17,368**	**16,912**

1.15 ASEDAU TREFTADAETH

Cost neu Brisiad	Tir ac Adeiladau Hanesyddol	Amguedd-feydd	Gwaith Celf	Regalia Dinesig	Eitemau ar ddangos mewn Amguedd-feydd	Cyfanswm Asedau
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
1af Ebrill 2020	**1,154**	**1,763**	**95**	**65**	**54**	**3,131**
Ychwanegiadau	7	82	0	0	0	**89**
Ailbrisiadau	0	0	0	0	0	**0**
31ain Mawrth 2021	**1,161**	**1,845**	**95**	**65**	**54**	**3,220**
Cost neu Brisiad						
1af Ebrill 2021	**1,161**	**1,845**	**95**	**65**	**54**	**3,220**
Ychwanegiadau	2	11	0	0	0	**13**
Ailbrisiadau	0	264	21	0	4	**289**
31ain Mawrth 2022	**1,163**	**2,120**	**116**	**65**	**58**	**3,522**

Mae rhagor o wybodaeth ar Asedau Treftadaeth y Cyngor ar gael yn adran 1.1 o'r nodion o'r Datganiad Cyfrifon – rhan xii.

16 MESUR GWERTH TEG ASEDAU ANARIANNOL

Hierarchaeth Gwerth Teg

Categori / Is-Gategori	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Gwerth Teg ar 31/03/2022
Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	0	720	0	720
Ystad Gorfforaethol	0	10,729	0	10,729
Eiddo Gwag	0	542	0	542
Eiddo Buddsoddi	0	4,200	0	4,200
Adeiladau ar Brydles	0	177	0	177
Adeiladau Eraill	0	1,720	0	1,720
Dros Ben	0	2,364	70	2,434
	0	**20,452**	**70**	**20,522**

Categori / Is-Gategori	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Gwerth Teg ar 31/03/2021
Asedau a Ddelir i'w Gwerthu	0	120	0	120
Ystad Gorfforaethol	0	10,787	0	10,787
Eiddo Gwag	0	763	0	763
Eiddo Buddsoddi	0	3,550	0	3,550
Adeiladau ar Brydles	0	1,660	0	1,660
Adeiladau Eraill	0	3,037	70	3,107
Dros Ben	0	20,069	70	20,139
	0	**39,986**	**140**	**40,126**

Trosglwyddiadau rhwng Hierarchaeth Lefelau Gwerth Teg
Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng Lefelau 1 a 2 yn ystod 2020/21.

Technegau Prisio a ddefnyddiwyd er mwyn Pennu Gwerthoedd Teg lefel 2 a 3 ar gyfer Eiddo Buddsoddi

Mewnbynnau Sylwadwy Sylweddol – Lefel 2

Seiliwyd gwerth teg yr asedau hyn ar ddull gweithredu'r farchnad gan ddefnyddio'r amodau presennol yn y farchnad a phrisiau gwerthu a welwyd yn ddiweddar, ynghyd â gwybodaeth berthnasol arall ar gyfer asedau tebyg yn ardal y Cyngor lleol. Mae amodau'r farchnad yn golygu bod eiddo tebyg yn cael eu prynu mewn ffordd weithredol a'u gwerthu, ac mae lefel y mewnbynnau sylwadwy yn sylweddol, gan arwain at gategoreiddio'r eiddo ar Lefel 2 yn yr hierarchaeth gwerth teg.

Mewnbynnau Ansylwadwy Sylweddol – Lefel 3

Seiliwyd gwerth teg yr asedau hyn ar yr incwm wedi'i gyfalafu a gafwyd gan ddefnyddio data'r Cyngor, ond hefyd, yn ôl yr angen, gan ddefnyddio dull gweithredu y farchnad sy'n defnyddio'r amodau yn y farchnad ar hyn o bryd trwy werthu/gosod asedau tebyg yn ardal y Cyngor lleol yn ddiweddar.

Defnydd Uchaf a Gorau o'r Eiddo Buddsoddi

Wrth amcangyfrif gwerth teg eiddo buddsoddi y Cyngor, y defnydd uchaf a gorau o'r eiddo yw eu defnydd presennol.

Technegau Prisio

Ni fu unrhyw newid yn y technegau prisio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer eiddo buddsoddi.

Cysoni Mesuriadau Gwerth Teg wedi'u Categoreiddio yn Lefel 3 yr Hierarchaeth Gwerth Teg

	2021/22	**2020/21**
	£'000	**£'000**
Balans Agoriadol	70	924
Trosglwyddiadau allan o Lefel 3	0	(874)
Cynnydd/(gostyngiadau) ailbrisio sy'n cael eu cydnabod yn y Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio	0	20
Balans Terfynol	**70**	**70**

Balans Terfynol

Caiff enillion neu golledion yn deillio o newidiadau i werth teg yr eiddo buddsoddi eu cydnabod yn y Gwarged neu'r Diffyg ar linell Darparu Gwasanaethau – Ariannu ac Incwm a Gwariant Buddsoddi.

Gwybodaeth Feintiol am Fesur Gwerthoedd Teg Eiddo Buddsoddi gan ddefnyddio Mewnbynnau Ansylwadwy Sylweddol – Lefel 3

	Ar 31/03/2022	**Techneg brisio a ddefnyddiwyd i fesur gwerth teg**
Is-Gategori	**£'000**	
Masnachol	70	Prisiad wedi'l seilio ar rhent y farchnad sy'n pasio neu amodau y cytunwyd ar gyfer yr eiddo
	70	

Proses Brisio ar gyfer Eiddo Buddsoddi

Mesurir gwerth teg eiddo buddsoddi'r Cyngor bob blwyddyn ar bob dyddiad adrodd. Cynhelir pob prisiad yn fewnol yn unol â'r fethodoleg a'r sail er mwyn amcangyfrif a nodir yn safonau proffesiynol Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae priswyr

y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda swyddogion cyllid sy'n adrodd yn rheolaidd ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud â phrisio.

1.17 DYLEDWYR TYMOR HIR

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Gofal Cymdeithasol i Oedolion	494	467
Tai	3,348	2,834
Eraill	119	225
	3,961	**3,526**

1.18 STOCRESTRAU

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	1,473	545
Pryniannau a rhoddion	1,968	3,022
Dosbarthwyd	(2,196)	(2,094)
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	**1,245**	**1,473**

Cyfrif Cyfraniadau Stocrestr

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Cyngor swm sylweddol o Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) oddi wrth Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio yn fewnol ac mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol a gomisiynir. Dyma brif symiau'r Cyfrif Cyfraniadau Stocrestr.

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Y Balans ar 1 Ebrill	1,066	0
Derbyniwyd	883	2,676
Defnyddiwyd	(1,262)	(1,610)
Y Balans sy'n weddill ar ddiwedd blwyddyn	**687**	**1,066**

1.19 OFFERYNNAU ARIANNOL

Nodir y categorïau canlynol o offerynnau ariannol yn y Fantolen:

	Hir Dymor		Cyfredol	
	31/03/22	31/03/21	31/03/22	31/03/21
Buddsoddiadau	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Benthyciadau ac arian derbyniadwy	0	0	18,006	4,003
Cyfanswm y Buddsoddiadau	**0**	**0**	**18,006**	**4,003**

	Hir Dymor		Cyfredol	
	31/03/22	31/03/21	31/03/22	31/03/21
Dyledwyr	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Benthyciadau ac arian derbyniadwy	3,961	3,526	0	0
Asedau ariannol ar gost amorteiddiedig	0	0	33,016	27,308
Cyfanswm y Dyledwyr	**3,961**	**3,526**	**33,016**	**27,308**

	Hir Dymor		Cyfredol	
	31/03/22	31/03/21	31/03/22	31/03/21
Benthyciadau	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig	108,054	115,872	7,818	1,084
Cyfanswm y Benthyciadau	**108,054**	**115,872**	**7,818**	**1,084**

	Hir Dymor	
	31/03/22	31/03/21
Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	**£'000**	**£'000**
Brydlesau cyllid a PFI	5,450	5,824
Cyfanswm y Rhwymedigaethau Hirdymor Eraill	**5,450**	**5,824**

	Hir Dymor		Cyfredol	
	31/03/22	31/03/21	31/03/22	31/03/21
Credydwyr	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig	808	817	31,593	22,173
Cyfanswm y Credydwyr	**808**	**817**	**31,593**	**22,173**

Incwm, Costau, Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a gydnabyddir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr parthed offerynnau ariannol fel a ganlyn:

	2021/2022			2020/2021		
	Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig	Asedau Ariannol: Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy	Cyfanswm	Rhwymedigaethau ariannol ar gost amorteiddiedig	Asedau Ariannol: Benthyciadau ac Arian Derbyniadwy	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Treuliau Llog	5,270	0	5,270	5,441	0	5,441
Cost ffi	14	0	14	14	0	14
Cyfanswm y gwariant yn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	**5,284**	**0**	**5,284**	**5,455**	**0**	**5,455**
Incwm Llog	0	(236)	(236)	0	(53)	(53)
Incwm llog a gronnwyd ar asedau ariannol diffygiol	0	0	0	0	(9)	(9)
Cyfanswm yr incwm yn Gwarged/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	**0**	**(236)**	**(236)**	**0**	**(62)**	**(62)**
(Enillion)/colledion net am y flwyddyn	**5,284**	**(236)**	**5,048**	**5,455**	**(62)**	**5,393**

Gwerthoedd teg Asedau a rhwymedigaethau ariannol na fesurir yn ôl eu Gwerth Teg

Cyfrifir y gwerthoedd teg fel a ganlyn:

Rhwymedigaethau Ariannol	31 Mawrth 2022		31 Mawrth 2021	
	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg
	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhwymedigaethau Ariannol (Pob un - Cyfraddau Ad-dalu Cyn Pryd)	115,872	166,919	116,956	183,983
Rhwymedigaethau Ariannol (Pob un - Cyfradd Benthyciadau Newydd)	115,872	145,911	116,956	159,052
Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau PWLB yn unig - Cyfradd Ad-dalu Cyn Pryd)	108,993	156,253	110,077	172,083
Rhwymedigaethau Ariannol (Benthyciadau PWLB yn unig - Cyfradd Benthyciadau Newydd)	108,993	137,346	110,077	149,727

Prisio benthyciadau PWLB: Ar gyfer benthyciadau gan PWLB, darparwyd amcangyfrifon gwerth teg gan ddefnyddio cyfraddau disgownt adbrynu a benthyca newydd (cyfradd sicrwydd).

Prisio benthyciadau nad ydynt yn fenthyciadau PWLB: Ar gyfer benthyciadau nad ydynt yn rhai PWLB, darparwyd amcanbrisau gwerth teg drwy ddefnyddio cyfraddau adbrynu disgownt PWLB a Chyfraddau sicrwydd newydd PWLB.

Mae'r sail brisio a fabwysiadwyd yn defnyddio **Mewnbynnau Lefel 2 –** h.y. mewnbynnau yn hytrach na phrisiau a ddyfynnwyd y maent yn sylwadwy ar gyfer yr Atebolrwydd Ariannol.

Mae'r gwerth teg yn uwch na'r swm cario oherwydd bod portffolio'r Cyngor yn cynnwys benthyciadau lle y mae'r gyfradd llog sy'n daladwy'n uwch na'r cyfraddau sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar ddyddiad y Fantolen.

Benthyciadau PWLB:
Mae'r ymrwymiad i dalu llog sy'n uwch na'r cyfraddau yn y farchnad ar hyn o bryd yn cynyddu'r swm y byddai'n rhaid i'r Cyngor ei dalu os byddai PWLB yn gofyn i'r Cyngor ad-dalu'r benthyciadau'n gynnar (cyfradd Ad-dalu Cyn Pryd), neu os byddai'n cytuno i hynny. Mae gan y Cyngor allu parhaus i fenthyca arian am gyfraddau gostyngol gan PWLB, yn hytrach nag o'r marchnadoedd. Mesur atodol o'r llog ychwanegol y bydd y Cyngor yn ei dalu o ganlyniad i'w ymrwymiadau PWLB ar gyfer benthyciadau cyfradd sefydlog yw cymharu amodau'r benthyciadau hyn gyda'r cyfraddau benthyca newydd sydd ar gael gan PWLB (cyfradd benthyciadau Newydd).

Defnyddiwyd y tybiaethau canlynol yn y cyfrifiadau gwerth teg:

- Caiff llog ei gyfrifo gan ddefnyddio'r confensiwn mwyaf cyffredin yn y farchnad, ACT/365.
- Ni thelir/dderbynnir llog ar ddyddiad cychwyn offeryn, ond fe'i telir/derbynnir ar y dyddiad aeddfedu.
- Cafwyd prisiau gostyngol y farchnad ar 31 Mawrth 2022, gan ddefnyddio prisiau bidio lle bo'n berthnasol.

Tybiaethau eraill a wneir am werthoedd teg asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol:

- Cymrir mai gwerth teg elfennau i'w talu a'u cael (Credydwyr a Dyledwyr Tymor Byr) yw'r swm a anfonebwyd neu a nodwyd mewn bil.
- Cyfrifwyd gwerth teg benthyciadau a symiau i'w derbyn ac nid ydynt yn wahanol iawn i'r gwerth cludo.

1.20 YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2022, mae'r awdurdod wedi ymrwymo i nifer o gontractau ar gyfer adeiladu neu wella eiddo, peiriannau ac offer yn 2022/23 ac yn y blynyddoedd i ddod, sydd wedi'u cyllidebu i'r gost £5,612 mil (£6,650 mil ar 31 Mawrth 2021).

2021/22	**£'000**
B4333 Teras Lloyd, Castell Newydd Emlyn	305
B4570 Teforgan, Llangoedmor - Cloddweithiau	4
Arwynebu Ffordd Sirol Cyfnod 4	846
Ysgol Gyfun Aberaeron – Estyniad Canolfan y Môr a Bloc Newydd ar gyfer y Dderbynfa	1,313
Ysgol Uwchradd Aberteifi – Ymestyn ac Adnewyddu	3,144
Cyfanswm	**5,612**

2020/21	**£'000**
Arwynebu Ffordd Sirol Cyfnod 3	576
Darpariaeth Gofal Plant -Ysgol Henry Richard	686
Estyn ac Ailwampio Ysgol Uwchradd Aberteifi	4,830
Cyfleuster Meithrin yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llwyn yr Eos	548
Ysgol Gymunedol Cenarth - Estyn ac Ailwampio'r Meithrin	10
Cyfanswm	**6,650**

1.21 CYFEIRIAD CYFALAFU

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2003 ADRANNAU 16(2)(b) ac 20: TRIN RHAI COSTAU FEL GWARIANT CYFALAF

Mae'r Cyngor wedi bod yn hyblyg yn ei ddefnydd o dderbyniadau cyfalaf yn unol â'r canllawiau a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i gyfalafu rhai gwariannau refeniw cymwys. Mae'r prosiectau canlynol wedi denfyddio'r canllawiau a'r cyfarwyddyd:

Prosiect	**Gwariant yn ystod y flwyddyn £'000**	**Gwariant a Gyfalafwyd ac a Ariannwyd drwy Dderbyniadau Cyfalaf £'000**
Model Trawsnewid Gydol Oes a Llesiant	281	281

Mae buddiannau'r model sy'n gweithredu ar draws gwasanaethau wedi'u hamlinellu yn y Strategaeth Gydol Oes a Llesiant 2021-2027 a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 21/10/21.

1.22 DYLEDWYR

	31/03/22 £'000	31/03/21 £'000
Cyrff Llywodraeth Ganol	20,158	16,633
Awdurdodau Lleol Eraill	3,714	3,076
Cyrff GIG	4,420	3,169
Corfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	0	0
Endidau ac Unigolion eraill	11,814	11,247
Lwfans lleihad yn y gwerth	(3,446)	(3,440)
Cyfanswm	**36,660**	**30,685**

1.23 ARIAN AC EITEMAU CYFWERTH AG ARIAN

Mae balans yr arian ac eitemau cyfwerth ag arian yn cynnwys yr elfennau canlynol:

	31/03/22 £'000	31/03/21 £'000
Arian a gedwir gan y Cyngor	36	33
Cyfrif cyfredol banciau	(5,036)	(2,538)
Adneuon tymor byr gyda banciau/cymdeithasau adeiladu/sefydliadau ariannol eraill	37,498	25,200
Cyfanswm yr arian ac eitemau cyfwerth ag arian	**32,498**	**22,695**

1.24 CREDYDWYR

	31/03/22 £'000	31/03/21 £'000
Cyrff Llywodraeth Ganol	7,369	3,745
Awdurdodau Lleol Eraill	2,143	1,636
Cyrff GIG	552	672
Endidau ac unigolion eraill	22,051	16,614
Cyfanswm	**32,115**	**22,667**

1.25 BENTHYCA

Mae'r rhan fwyaf o fenthyciadau tymor hir y Cyngor yn deillio'n bennaf oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Caiff y benthyciadau eu dadansoddi yn ôl aeddfedrwydd ac mae'r cyfraddau llog yn amrywio rhwng 1.73% a 9.875%.

Dadansoddiad o'r benthyciadau yn ôl aeddfedrwydd:

	31/03/22 PWLB £'000	31/03/22 ARALL £'000	31/03/22 CYFANSWM £'000	31/03/21 PWLB £'000	31/03/21 ARALL £'000	31/03/21 CYFANSWM £'000
Aeddfedu o fewn blwyddyn	**7,818**		**7,818**	**1,084**	**0**	**1,084**
Benthyca Hirdymor						
Aeddfedu mewn 1 – 2 flynedd	1,151	0	1,151	7,818	0	7,818
Aeddfedu mewn 2 – 5 mlynedd	8,718	80	8,798	6,589	0	6,589
Aeddfedu mewn 5 – 10 mlynedd	13,352	556	13,908	10,747	636	11,383
Aeddfedu mewn 10 – 15 blynedd	16,163	250	16,413	16,780	250	17,030
Aeddfedu mewn15 – 20 mlynedd	17,138	0	17,138	19,522	0	19,522
Aeddfedu mewn 20 – 25 blynedd	11,586	0	11,586	8,470	0	8,470
Aeddfedu mewn 25 – 30 blynedd	3,800	0	3,800	9,800	0	9,800
Aeddfedu mewn 30 – 35 blynedd	13,500	0	13,500	10,500	0	10,500
Aeddfedu mewn 35 – 40 blynedd	16,000	0	16,000	19,000	0	19,000
Aeddfedu mewn 40 – 45 blynedd	0	5,760	5,760	0	0	0
45+ blynedd	0	0	0	0	5,760	5,760
Cyfanswm y benthyciadau hirdymor	**101,408**	**6,646**	**108,054**	**109,226**	**6,646**	**115,872**

Ailstrwythuro Benthyciadau
Ni ailstrwythurwyd benthyciadau yn 2021/22.

Grantiau Llywodraeth Cymru i'w had-dalu yn y dyfodol
Ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw fenthyciadau pellach oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22. Bellach mae balans o £886mil ar draws dau gynllun a fydd angen ei ad-dalu yn y dyfodol. Er mai grantiau yw'r enw ar y symiau hyn, rydym wedi'u trin fel benthyciadau ar y Fantolen oherwydd y bydd angen eu had-dalu mewn 5-15 blynedd. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu cynnwys yn y colofnau Arall yn y tabl uchod.

1.26 RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR ERAILL

	31/03/22 £'000	31/03/21 £'000
Rhwymedigaethau Ysgol Gyfun Penweddig PFI	3,517	3,959
Rhwymedigaethau Pensiwn	139,579	160,825
Rhwymedigaethau Prydlesau Cyllid	468	578
Addasiad ddibrisio MRP	1,465	1,286
Cyfanswm	**145,029**	**166,648**

1.27 CRONFEYDD WRTH GEFN Y GELLIR EU DEFNYDDIO

Nodir symudiadau yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor y gellir eu defnyddio yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar dudalen 18 a Nodyn 1.8.

1.28 CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

	2021/22	**2020/21**
	£'000	**£'000**
Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio	131,592	103,149
Cyfrif Addasu Cyfalaf	166,159	157,781
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	625	637
Cronfa Wrth Gefn Bensiynau	(139,579)	(160,825)
Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd	3,426	3,022
Cyfrif Absenoldebau Cronedig	(4,047)	(3,500)
Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio	**158,176**	**100,264**

Mae'r canlynol yn ddadansoddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu Defnyddio sydd fwyaf arwyddocaol:

Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio

Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor o ganlyniad i gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar. Bydd y balans yn lleihau pan fydd asedau ag enillion a gronnwyd yn cael:

- eu hailbrisio'n llai neu'n ddiffygiol ac y mae'r enillion wedi eu colli
- eu defnyddio wrth ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu defnyddio drwy ddibrisiad, neu
- eu gwaredu a chaiff yr enillion eu cyflawni

Bydd y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn ond yn cynnwys enillion ailbrisio a wireddwyd ers 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y'i rhoddwyd ar waith yn ffurfiol. Cafodd enillion a wnaed cyn y dyddiad hwnnw eu cyfuno â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Balans ar 1 Ebrill	103,149	107,952
Asedau a ail-brisiwyd ar i fyny	34,296	2,449
Asedau a ail-brisiwyd ar i lawr a cholledion diffygiol na chafodd eu hawlio ar y (Gwarged)/Diffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	(2,040)	(3,525)
(Gwarged) neu Ddiffyg ar ailbrisio asedau tymor hir na chafodd eu nodi ar y (Gwarged)/Ddiffyg o ran Darpariaeth Gwasanaethau	32,256	(1,076)
Gwahaniaeth rhwng dibrisio gwerth teg a dibrisio cost hanesyddol	(3,718)	(3,721)
Enillion a gronnwyd ar asedau a werthwyd neu a ddiystyriwyd	(95)	(6)
Swm a osodwyd yn erbyn y Cyfrif Addasu Cyfalaf	(3,813)	(3,727)
Balans ar 31 Mawrth	**131,592**	**103,149**

Cyfrif Addasu Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn cymathu'r gwahaniaethau amseru rhwng y trefniadau gwahanol ar gyfer cyfrif y defnydd a wneir o asedau nad ydynt yn rhai cyfredol a'r trefniadau ar gyfer ariannu'r gwaith o brynu, adeiladu neu wella'r asedau hynny o dan ddarpariaethau statudol. Bydd debyd yn y cyfrif parthed y gost o brynu, adeiladu neu wella fel dibrisiad a chaiff colledion oherwydd diffygion neu amorteiddio eu nodi yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant (gan gysoni trosglwyddiadau o'r Gronfa Ailbrisio wrth gefn er mwyn trosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Rhoddir credyd i'r cyfrif drwy gynnwys y symiau a osodwyd i'r naill ochr gan y Cyngor er mwyn ariannu costau prynu, adeiladu a gwella.

Mae'r cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion a gronnwyd ar Eiddo Buddsoddi ac enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Cyfarpar a Pheiriannau cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i gadw enillion o'r fath.

Bydd Nodyn 1.7 yn darparu manylion ffynhonnell y trosglwyddiadau i'r Cyfrif oni bai am y rheiny a oedd yn cynnwys y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn.

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Balans ar 1 Ebrill	157,781	153,658
Gwyrdroi eitemau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf ar ddebyd neu gredyd i'r Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant:	0	0
Ffioedd parthed dibrisio a diffygion asedau nad ydynt yn rhai cyfredol	(11,954)	(11,759)
Ailbrisio colledion ar Eiddo, Peiriannau ac Offer	2,008	214
Gwariant refeniw a ariannwyd o gyfalaf dan statud	(1,082)	(310)
Nifer yr asedau nad ydynt yn rhai cyfredol caiff eu diystyru ar ôl gwaredu neu werthu gan eu nodi fel rhan o'r enillion/colledion ar waredu yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant	(347)	(277)
	(11,375)	(12,132)
Cymhwyso symiau a ddiddymwyd o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn	3,813	3,727
Swm net a ddiddymwyd o gost Asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(7,562)	(8,405)
Cyllid cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn:		
Defnyddio Derbynion Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu gwariant cyfalaf newydd	369	0
Grantiau a chyfraniadau cyfalaf wedi eu credydu i'r Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant sy'n briodol i ariannu cyfalaf	12,723	9,734
Cymhwyso grantiau i gyllid cyfalaf o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	1,185	392
Darpariaeth statudol ar gyfer ariannu buddsoddiad cyfalaf a hawliwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	1,518	3,016
Gwariant Cyfalaf a nodwyd yn erbyn y Gronfa Gyffredinol	127	96
	15,922	13,238
Symudiadau yng ngwerth marchnad Eiddo Buddsoddi a ddebydwyd neu a gredydwyd i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant	18	(710)
Balans ar 31 Mawrth	**166,159**	**157,781**

Cronfa Wrth Gefn Bensiynau

Mae'r Gronfa Bensiynau'n delio â'r gwahaniaethau amseru o ganlyniad i drefniadau gwahanol ar gyfer cyfrifo manteision pensiynau ar ôl gwaith ac ar gyfer ariannu manteision yn unol â'r darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fanteision ôl gyflogaeth yn y Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant fel y manteision y bydd gweithwyr yn eu hennill wrth gasglu blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a nodir er mwyn adlewyrchu chwyddiant, addasiadau sy'n newid a dychweliadau ar fuddsoddi parthed unrhyw adnoddau a osodwyd yn erbyn y costau. Fodd bynnag yn unol â threfniadau statudol bydd angen i'r manteision yma gael eu hariannu gan fod y Cyngor yn sicrhau cyfraniadau cyflogwyr i'r gronfa bensiwn neu mi ddylai yn y diwedd dalu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae'r balans debyd ar y Gronfa Bensiwn felly'n dangos diffyg sylweddol yn y manteision a enillwyd gan gyn weithwyr a gweithwyr cyfredol yn ogystal â'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi ei roi i'r neilltu ar eu

cyfer. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y caiff arian ei osod i'r neilltu erbyn y bydd yn rhaid talu'r pensiwn.

	31/03/22	31/03/21
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	(160,825)	(154,386)
Cildroi eitemau IAS19	(26,484)	(21,216)
Ailfesuriadau	38,833	6,276
Costau Pensiwn taladwy	8,897	8,501
Balans ar 31 Mawrth	**(139,579)**	**(160,825)**

Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd

Yn y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf a ohiriwyd ceir yr enillion o'r broses o waredu asedau nad ydynt yn rhai cyfalaf ac nad ydynt wedi eu setlo eto. O dan drefniadau statudol, nid yw'r Cyngor yn ymdrin â'r enillion yma fel rhai y gellir eu defnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf newydd hyd nes y bydd derbyniadau arian wedi eu derbyn. Pan dderbynnir y gwir arian caiff y symiau eu trosglwyddo i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

	31/03/22	31/03/21
	£'000	£'000
Cynllun Perchnogaeth Cartrefi Cost Isel	362	375
LIC Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	341	391
Benthyciadau Cyfalaf Tai Eraill a Ohiriwyd	332	417
Caniatadu Cynllunio a Ohiriwyd	2,049	1,487
Benthyciadau Atgyweirio Brys	276	287
Derbyniadau Cyfalaf a Ohiriwyd Eraill	66	65
Balans ar 31 Mawrth	**3,426**	**3,022**

Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Bydd y Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn delio â'r gwahaniaethau y byddai'n codi fel arall yn y Balans ar y Gronfa Gyffredinol o ganlyniad i gronni absenoldebau a enillwyd ond na hawliwyd yn y flwyddyn, e.e. gwyliau blynyddol a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth. Bydd yn ofynnol yn ôl y trefniadau statudol i effaith Balans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i'r Cyfrif neu oddi yno.

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	(3,500)	(3,328)
Setliad neu ganslo croniadau a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	3,500	3,328
Symiau a gronnwyd ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol	(4,047)	(3,500)
Gwahaniaeth rhwng tâl swyddogion a nodir ar y Datganiad Cynhwysfawr Incwm a Gwariant ar sail gronedig a'r tâl a godir yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(547)	(172)
Balans ar 31 Mawrth	**(4,047)**	**(3,500)**

1.29 DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu'n cynnwys yr eitemau canlynol:

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Llog a dalwyd	(5,095)	(5,735)
Llog a dderbyniwyd	213	58

1.30 LWFANSAU'R AELODAU

Talodd y Cyngor y symiau a ganlyn i aelodau'r cyngor yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddir manylion y taliadau unigol yn y wasg leol, yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002.

	2021/22	2020/21
	£'000	£'000
Cyflogau	826	818
Treuliau	0	0
Cyfanswm	**826**	**818**

1.31 TALIADAU SWYDDOGION

- Y lluosrif rhwng yr enillion cyfwerth ag amser llawn canolrifol ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw 1:6.1 (2020/21: 1:5.5)
- Enillion cyfwerth ag amser llawn y Prif Weithredwr ar gyfartaledd yw £132,060 (2020/21: £117,866)
- Yr enillion cyfwerth ag amser llawn canolrifol holl weithwyr y Cyngor yw £21,695 (2020/21 £21,322)

Mae'r cyflog a delir i uwch gyflogeion y Cyngor (ac eithrio unrhyw ffioedd etholiad a delir) fel a ganlyn:

Enillion Uwch-swyddogion – Cyflog rhwng £60,000 a £150,000

2021/22

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)	**Cyflog (yn cynnwys Ffioedd a Lwfansau)**	**Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr**	**Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth gan Gynnwys Cyfraniadau Pensiwn**
	£	**£**	**£**
Prif Weithredwr	132,060	20,865	**152,925**
Cyfarwyddwr Corfforaethol	105,647	16,692	**122,339**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151)	85,190	13,460	**98,650**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion	85,190	13,460	**98,650**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (1)	82,489	13,033	**95,522**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfwyio	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar	78,350	12,379	**90,729**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal (1)	77,383	12,226	**89,609**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth (2)	74,519	11,774	**86,293**
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro (3)	70,532	11,128	**81,660**
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Ionawr '22 ymlaen (4)	22,299	3,523	**25,822**

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau neu iawndal am golli cyflogaeth i uwch swyddogion yn ystod 2021/22. Talwyd unrhyw gostau teithio o ran milltiroedd ar gyfradd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

1) Mae'r taliad cydnabyddiaeth yn cynnwys y £735, sy'n rhan o Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer y GIG a Gofal Cymdeithasol.
2) Mae'r gydnabyddiaeth ariannol yn gysylltiedig â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Pobl a Threfniadaeth hyd at 13 Rhagfyr 2021. Cafodd swydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ei llenwi ar 14 Rhagfyr 2021 gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Pobl a Threfniadaeth.
3) Bu'r swydd hon yn un dros dro tan ymddeoliad y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros dro ar 13 Rhagfyr 2021.
4) Yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar 13 Rhagfyr 2021, penodwyd Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd a llanwyd y swydd ar 10 Ionawr 2022.

Enillion Uwch-swyddogion – Cyflog rhwng £60,000 a £150,000
2020/21

Gwybodaeth am Ddeiliad y Swydd (Teitl y Swydd)	**Cyflog (yn cynnwys Ffioedd a Lwfansau) £**	**Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr £**	**Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth gan Gynnwys Cyfraniadau Pensiwn £**
Prif Weithredwr	117,866	18,623	**136,489**
Cyfarwyddwr Corfforaethol	104,086	16,446	**120,532**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (A151)	82,223	12,991	**95,214**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion	82,223	12,991	**95,214**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi a Pherfformiad (1)	77,641	12,267	**89,908**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid	77,192	12,196	**89,388**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfwyio	77,192	12,196	**89,388**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal (2)	77,191	12,196	**89,387**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd	75,515	11,931	**87,446**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	75,515	11,931	**87,446**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	75,515	11,931	**87,446**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar	75,515	11,931	**87,446**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal (3)(4)	75,095	11,865	**86,960**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth - Ebrill '20 i Rhagfyr '20 (5)	52,982	8,371	**61,353**
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Ebrill '20 i Fai '20 (5)	17,927	2,741	**20,668**
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Rhagfyr ymlaen (5)	29,031	4,587	**33,618**
Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Pobl a Threfniadaeth - Ionawr 21 ymlaen (6)	18,040	2,850	**20,890**

Ni thalwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau neu iawndal am golli cyflogaeth i uwch swyddogion yn ystod 2020/21. Talwyd unrhyw gostau teithio o ran milltiroedd ar gyfradd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

1) Mae'r taliad cydnabyddiaeth yn cynnwys £449 honorariwm am ddyletswyddau ychwanegol oherwydd ymadawiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal ar 31ain Mawrth 2020.
2) Taliad cydnabyddiaeth yw taliad cydnabyddiaeth y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Porth Cynnal hyd at 30ain Mehefin 2020 oherwydd ymadawiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal ar 31ain Mawrth 2020. Cafodd swydd y

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal ei llenwi ar 1af Gorffennaf 2020 gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros dro: Porth Cynnal.

3) Mae'r taliad cydnabyddiaeth yn cynnwys £1,258 honorariwm am ddyletswyddau ychwanegol oherwydd ymadawiad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal ar 31ain Mawrth 2020.
4) Fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth gofal cymdeithasol sy'n mynd ymlaen, cafodd swydd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Ceredigion ei ailenwi yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal ar 26ain Tachwedd 2020.
5) Ymddeolodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar 31ain Mai 2020. Yn dilyn hynny, cafodd swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ei chreu a'i llenwi ar 14eg Rhagfyr 2020 gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth.
6) Yn dilyn penodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth yn Gyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro ar 14eg Rhagfyr 2020, cafodd swydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Pobl a Threfniadaeth ei chreu a'i llenwi ar 1af Ionawr 2021.

Nid yw'r symiau hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniadau pensiwn a wnaed gan y cyflogwr. Fodd bynnag, maent yn cynnwys y symiau a dalwyd i'r cyflogai, neu i'w derbyn ganddo, o ran unrhyw iawndal am golli swydd (3 cyflogai yn 2021/22 ac 1 cyflogai yn 2020/21).

Band Tâl	**2021/22 Nifer y Cyflogeion**	**2021/22 Nifer sy'n cynnwys Taliadau Terfyniad**	**2020/21 Nifer y Cyflogeion**	**2020/21 Nifer sy'n cynnwys Taliadau Terfyniad**
£60,000 - £64,999	20	0	7	0
£65,000 - £69,999	9	1	6	0
£70,000 - £74,999	4	1	4	0
£75,000 - £79,999	2	1	0	0
£80,000 - £84,999	1	0	2	0
£85,000 - £89,999	3	0	2	1
£90,000 - £94,999	1	0	1	0
£95,000 - £99,999	0	0	1	0
£100,000 - £104,999	1	0	0	0
CYFANSWM	**41**	**3**	**23**	**1**

Bu i'r Cyngor derfynu contractau nifer o weithwyr yn 2021/22, a chododd rhwymedigaethau o £250 mil yn sgil hynny (£181 mil yn 2020/21). Mae'r taliadau canlynol yn cynnwys costau diswyddo statudol a gwirfoddol, cyfraniadau pensiwn mewn perthynas â blynyddoedd a ychwanegwyd, straen pensiwn a thaliadau ex gratia eraill.

Band cost pecyn gadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer ymadawiadau eraill y cytunwyd		Cyfanswm nifer y pecynnau gadael		Cyfanswm cost pecynnau gadael ym mhob band	
	2021/22 nifer	2020/21 nifer	2021/22 nifer	2020/21 nifer	2021/22 nifer	2020/21 nifer	2021/22 £'000	2020/21 £'000
£0 - £20,000	0	30	7	9	7	39	44	64
£20,001 - £40,000	0	0	2	2	2	2	66	75
£40,001 - £60,000	0	0	1	1	1	1	41	50
£60,001 - £80,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£80,001 - £100,000	0	0	1	0	1	0	98	0
£100,001 - £150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
£150,001 - £200,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**0**	**30**	**11**	**12**	**11**	**42**	**249**	**189**
Adio: Symiau y darparwyd ar eu cyfer yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant heb eu cynnwys mewn bandiau							1	(8)
Cyfanswm cost yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant							**250**	**181**

1.32 COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r ffioedd a ganlyn am waith archwilio ac arolygu allanol am y flwyddyn ariannol 2021/22 yn daladwy gan y Cyngor:

	Ffi Arfaethedig 2021/22 £'000	Ffi Wirioneddol 2020/21 £'000
Gwaith Archwilio Ariannol	159	154
Gwaith Archwilio Perfformiad	104	100
Gwaith Ardystio Grant	24	23
Gwaith Archwilio Ariannol Arall:		
Awdurdod Harbwr Ceredigion	2	2
	289	**279**

1.33 TRAFODION PARTÏON PERTHNASOL

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodion sylweddol â phartïon perthnasol - cyrff neu unigolion a chanddynt botensial i reoli'r Cyngor, neu ddylanwadu arno, neu i gael eu rheoli gan y Cyngor, neu'u dylanwadu ganddo. Mae'r trafodion hyn yn caniatáu i'r darllenwr asesu i ba raddau y gallai'r Cyngor fod wedi'i gyfyngu o ran ei allu i weithredu'n annibynnol neu i ba raddau y mae'n meddu ar y gallu i gyfyngu ar ryddid parti arall i fargeinio â'r Cyngor.

Llywodraeth Ganol

Bydd gan y Llywodraeth Ganol reolaeth effeithiol ar weithgareddau cyffredinol y Cyngor – mae'n gyfrifol am ddarparu fframwaith statudol y bydd y Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddo, gan ddarparu'r mwyafrif o'i arian drwy grantiau gan nodi hefyd amodau nifer o'r trafodion rhwng y Cyngor a phartïon eraill (e.e. biliau treth y cyngor, budd-daliadau tai).

Mae cyfanswm y grantiau refeniw unigol a dderbyniwyd oddi wrth adrannau'r llywodraeth wedi eu cynnwys yn yr incwm gros o dan y Gwarged neu Ddiffyg yn y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn £68,413 mil ar gyfer 2021/22.

Swyddogion ac Aelodau

Mae gan y Cyngor drefniadau mewn grym sy'n gofyn i swyddogion ac aelodau nodi a datgelu trafodion gyda thrydydd partïon cysylltiedig. Nid oedd unrhyw drafodion perthnasol gyda aelodau neu swyddogion yn ystod y flwyddyn.

Bydd gan aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau gweithredu ac ariannol y Cyngor. Nodir yn Nodyn 1.30 cyfanswm lwfansau aelodau a dalwyd yn 2021/22. Dan y Cod Ymddygiad a ymgorfforwyd yng Nghyfansoddiad y Cyngor, mae gofyn i Aelodau gofnodi yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau unrhyw fuddiannau ariannol a personol. Mae'r Gofrestr yn agored i'w harchwilio gan y cyhoedd ac mae ar gael ar sail Aelod unigol ar wefan y Cyngor. Nid yw Aelodau sy'n datgan buddiant yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth neu benderfyniad sy'n ymwneud â grantiau a roddir neu waith neu wasanaethau a gomisiynir.

Cynhaliwyd y trafodiadau canlynol yr oedd gan aelodau etholedig gysylltiad â nhw yn ystod y flwyddyn 2021/22:

Parti cysylltiedig	Cysylltiad a manylion y trafodiad	Swm £'000
Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur	Mae un aelod yn Gyfarwyddwr. Darparwyd cyllid ar gyfer y prosiect Camau Bach	13
Canolfan Cyngor ar Bopeth Ceredigion	Mae un aelod yn Gyfarwyddwr. Gwnaed taliadau yn rhan o brosiect y Gronfa Cartrefi Clyd	40
Canolfan Deuluoedd Tregaron	Mae un aelod yn Ymddiriedolwr. Cyllid grant a thaliadau ar gyfer gweithgareddau i deuluoedd	13
Theatr Byd Bychan Cyf	Mae un aelod yn Gyfarwyddwr. Taliadau am ddarpariaeth perfformiadau a gweithgareddau i blant, cyllid ar gyfer Llesiant a Iechyd Meddwl Pobl Ifanc	20
Cyfanswm		**86**

Cyrff Cyhoeddus Eraill

Yn ystod y flwyddyn, bu i drafodion eraill gyda phartïon perthnasol godi fel a ganlyn:

	Derbyniadau £'000	Taliadau £'000
Llywodraeth Ganolog		
Cyfran o Ardrethi Annomestig Cenedlaethol o'r Gronfa Genedlaethol	25,064	0
Grant Cymorth Refeniw	86,029	0
Grantiau Cyfalaf		
Llywodraeth Cymru	14,240	0
Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	0	4,061
Heddlu Dyfed Powys	0	8,793
Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Ceredigion	0	1,183

1.34 CYLLID A GWARIANT CYFALAF

Nodir yn y tabl isod y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gwerth yr asedau a gafwyd o dan brydlesau cyllid a chontractau PFI), yn ogystal â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Lle y bydd angen ariannu gwariant cyfalaf yn y blynyddoedd i ddod drwy godi tâl ar refeniw fel y caiff asedau eu defnyddio gan y Cyngor, bydd y gwariant yma'n golygu cynnydd yn y Gofyniad am Arian Cyfalaf (CFR), sef mesur y gwariant cyfalaf yn hanesyddol gan y Cyngor nad yw hyd yma wedi ei ariannu. Caiff y Gofyniad am Arian Cyfalaf ei ddadansoddi yn ail ran y nodyn yma.

	2021/22	**2020/21**
	£m	**£m**
Gofyniad Cyllid Cyfalaf Agoriadol	138.4	141.0
Buddsoddiad cyfalaf:		
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar	13.6	10.1
Eiddo Buddsoddi	0.4	0.1
Arall	0.0	0.1
Gwariant Refeniw a ariannwyd o Gyfalaf Statudol	1.1	0.3
Ffynonellau cyllid:		
Derbyniadau Cyfalaf	(0.4)	0.0
Grantiau'r Llywodraeth a chyfraniadau eraill	(13.9)	(10.1)
Symiau a neilltuwyd o Refeniw:		
Cyfraniadau Refeniw Uniongyrchol - Cronfa Gyffredinol	(0.1)	(0.1)
Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP)	(1.5)	(3.0)
Gofyniad Cyllid Cyfalaf Terfynol	**137.6**	**138.4**
Egluro'r symudiadau yn ystod y flwyddyn:		
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (â chymorth)	(0.3)	(2.3)
Cynnydd yn yr angen sylfaenol i fenthyca (heb gymorth)	(0.3)	0.0
Asedau a gafwyd o dan PFI	(0.1)	(0.2)
Asedau a gafwyd o dan brydlesau cyllid	(0.1)	(0.1)
Cynnydd/(gostyngiad) o ran y Gofyniad Cyllid Cyfalaf	**(0.8)**	**(2.6)**

1.35 PRYDLESAU

Y Cyngor fel Deiliad Prydles:

Prydlesau Cyllid

Mae gan y Cyngor adeiladau amrywiol, llungopiwyr, argraffwyr, cyfrifiaduron a chyfarpar eraill amrywiol o dan amodau prydlesau cyllid. Fe'i nodwyd ar y Fantolen ar y gwerthoedd a nodwyd:

	31 Mawrth 2022	**31 Mawrth 2021**
	£'000	**£'000**
Cerbydau, peiriannau, celfi a chyfarpar	108	233
Seilwaith	968	995

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i wneud y taliadau canlynol o dan y cytundebau yma:

	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Rhwymedigaethau Prydlesau Cyllid (NPV ar leiafswm taliadau):		
- Cyfredol	110	126
- Nid yw'n gyfredol	468	579
Costau Cyllid sy'n daladwy mewn blynyddoedd i ddod	(77)	(64)
Lleiafswm taliadau prydles	**501**	**641**

Bydd y lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

	Lleiafswm Taliadau Prydles		Rhwymedigaethau Prydles Cyllid	
	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000
Nid yn hwy na blwyddyn	100	131	110	126
Yn hwy na blwyddyn ond nid yn hwy na phum mlynedd	77	178	96	194
Hwy na phum mlynedd	324	332	372	385
Lleiafswm taliadau prydles	**501**	**641**	**578**	**705**

Prydlesau Gweithredu
Mae'r Cyngor wedi prynu faniau, bysiau mini, llungopiwyr, cyfrifiaduron a chyfarpar amrywiol eraill o dan amodau prydlesau gweithredu. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'r taliadau canlynol o dan y cytundebau yma:

	31 Mawrth 2022 £'000	Ailosodwyd 31 Mawrth 2021 £'000
Nid yn hwy na blwyddyn	141	120
Yn hwy na blwyddyn ond nid yn hwy na phum mlynedd	67	92
Hwy na phum mlynedd	0	0
Lleiafswm taliadau prydles	**208**	**212**

Y Cyngor fel Prydlesydd:

Prydlesau Gweithredu
Mae'r Cyngor wedi rhoi ar brydles ei eiddo Stad Corfforaethol o dan amodau prydles gweithredu.

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn y dyfodol sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau na ellir eu canslo mewn blynyddoedd i ddod fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2022	Ailosodwyd 31 Mawrth 2021
	£'000	£'000
Nid yn hwy na blwyddyn	629	725
Yn hwy na blwyddyn ond nid yn hwy na phum mlynedd	2,179	2,280
Hwy na phum mlynedd	25,845	25,852
Lleiafswm taliadau prydles	**28,653**	**28,857**

Ailddatganwyd 2020/21 oherwydd gwallau a nodwyd yn 2022.

1.36 MENTRAU CYLLID PREIFAT A CHONTRACTAU TEBYG

Cynllun Menter Cyllid Preifat Ysgol Gyfun Penweddig
2021/22 oedd yr eiliad ar hugain flwyddyn o'r cytundeb Menter Cyllid Preifat o 30 mlynedd ar gyfer adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu Ysgol Gyfun Penweddig yn Aberystwyth. Mae'r cytundeb contract Menter Cyllid Preifat yn cwmpasu'r manylebau gweithredu canlynol:

- Rheoli Cyfleusterau – sicrhau bod y safle a'r adeiladu ar gael yn ystod diwrnodau ysgol, diwrnodau swyddfa ac at ddefnydd cymunedol ar amser a chyfnodau y cytunwyd arnynt;
- Cynnal a chadw adeiladau a gwaith peirianyddol – cynnal adeiladau ysgolion, cyfleusterau a chyfarpar mewn cyflwr gwaith da;
- Cynnal a chadw tir – sicrhau y cedwir tir yr ysgol mewn cyflwr diogel, pleserus, ymarferol a gweithredol;
- Cynnal a Chadw Rhwydwaith TG – cynnal prif seilwaith TGCh yr ysgol a'r system ffôn;
- Glanhau – darparu gwasanaeth glanhau a fydd yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu mewn amgylchedd glân; a
- Gwasanaeth Arlwyo – darparu prydau o safonau maethlon uchel wedi eu darparu yn unol ag anghenion yr ysgol.

Bydd y cytundeb yn nodi'r safonau minimwm ar gyfer y gwasanaethau i'w darparu gan y contractwr, gyda didyniadau o'r ffi sy'n daladwy os na fydd y cyfleusterau ar gael neu os bydd y perfformiad yn is na'r safonau minimwm. Bu i'r contractwr gytuno i fod yn gyfrifol am adeiladu'r ysgol a'i chynnal a'i chadw i gyflwr minimwm derbyniol gan gaffael a chynnal y peiriannau a'r cyfarpar angenrheidiol sydd ei angen i redeg yr ysgol. Caiff yr adeilad ac unrhyw beiriannau a chyfarpar a osodwyd ynddi ar ddiwedd y contract eu trosglwyddo i'r Cyngor am ddim ar ddiwedd y contract. Mae gan y Cyngor hawl o dan gytundeb Cynllun Menter Cyllid Preifat i derfynu'r cytundeb os bydd y Darparwr yn methu â'u goblygiadau fel y nodwyd yn y cytundeb. Bydd y Cyngor, os terfynir y contract yn y fath fodd yn atebol i dalu iawndal i'r Darparwr yn unol â Rhan II Atodlen 3 Cytundeb Menter Cyllid Preifat.

Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar
Nodir yr ased ar Fantolen y Cyngor. Caiff symudiadau yn eu gwerth yn ystod y flwyddyn eu nodi yn y dadansoddiad ar symudiadau Balans Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar yn Nodyn 1.13. Mae'r gwerth caiff ei ddwyn ymlaen ar gyfer Ysgol Gyfun Penweddig yn £21,298 mil.

Taliadau

Cytunir gan y Cyngor i wneud taliad bob blwyddyn a gaiff ei gynyddu bob blwyddyn gan chwyddiant a gellir ei leihau os bydd y contractwr yn methu â sicrhau bod deunyddiau ar gael a chyflawni safonau perfformiad mewn unrhyw un flwyddyn sydd fel arall yn sefydlog. Mae'r taliadau sy'n weddill o dan y contract Menter Cyllid Preifat ar 31 Mawrth 2022 (gan eithrio unrhyw amcangyfrif o chwyddiant, sicrhau bod eitemau ar gael/didyniadau perfformiad) fel a ganlyn:

Taliadau i'w gwneud:	Tâl am Gwasanaethau £'000	Ad-dalu Gwariant Cyfalaf £'000	Llog £'000	Cyfanswm £'000
o fewn blwyddyn	731	442	371	1,544
o fewn 2 i 5 mlynedd	2,965	2,022	1,017	6,004
o fewn 6 i 10 mlynedd	2,782	1,495	271	4,548
	6,478	**3,959**	**1,659**	**12,096**

Er y disgrifir y taliadau a wneir i'r contractwr fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrif er mwyn digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, y gwariant cyfalaf a'r llog sy'n daladwy tra bydd y gwariant cyfalaf yn parhau i gael ei ad-dalu. Mae'r rhwymedigaeth sy'n weddill i'r contract am wariant cyfalaf arno fel a ganlyn:

Gwerth y Rhwymedigaethau ar Ddyddiad y Fantolen

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Balans ar 1 Ebrill	4,263	4,568
Ad-dalu'r prif swm	(304)	(305)
Balans ar 31 Mawrth	**3,959**	**4,263**
Tymor Hir	3,517	3,959

1.37 CYNLLUNIAU PENSIWN Y RHODDWYD CYFRIF AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae'r Athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn yr Athrawon, a weinyddir gan Capita. Mae'r Cynllun yn cynnig buddion penodol I athrawon pan fyddant yn ymddeol, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu at y costau drwy gyfrannu ar sail canran o gyflog pensiynadwy'r aelodau. Yn dechnegol, Cynllun Buddion Diffiniedig yw hwn. Serch hynny, nid oes cronfa wedi'i sefydlu ar gyfer y Cynllun, a defnyddir cronfa dybiannol fel sail ar gyfer cyfrifo'r gyfradd y bydd yr awdurdodau lleol yn ei gyfrannu fel cyflogwr. Nid yw'r Cyngor yn medru rhoi cyfrif dibynadwy o'i gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol na pherfformiad y Cynllun. At ddibenion y Datganiad Cyfrifon, rhoddir cyfrif am y cynllun hwn fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2021/22 talodd y Cyngor £6.1m (£5.7m yn 2020/21) i'r Adran Addysg a Sgiliau mewn perthynas â chostau pensiwn athrawon, sy'n cynrychioli 23.68% o bensiwn taladwy athrawon ar gyfer 2021/22 (23.68% o bensiwn taladwy athrawon am 2020/21). Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gyfrifol am yr holl daliadau pensiwn sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd ychwanegol y mae wedi'u dyfarnu, ynghyd ag unrhyw gynnydd perthnasol. Yn 2021/22, talwyd £398,069 (£202,382 yn 2020/21) i'r Gronfa Pensiwn yr Athrawon, naill ai'n uniongyrchol i neu thrwy Gyngor Sir Caerfyrddin (mewn perthynas â chyfran y Cyngor o gostau hen Gyngor Sir Dyfed o ran ymddeoliad cynnar athrawon). Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud taliadau o £383,139

yn 2021/22 (£380,094 yn 2020/21) yn uniongyrchol i athrawon sydd wedi ymddeol yn gynnar ers 1 Ebrill 1996. Gwerth cyfalafol y taliadau uchod yw £7.17 miliwn a £6.90 miliwn, yn y drefn honno.

1.38 CYNLLUNIAU BUDDION A CHYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddion ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion hyn yn daladwy tan fod gweithwyr yn ymddeol, mae ymrwymiad gan y Cyngor i wneud y taliadau (ar gyfer y buddion hynny) a'u datgelu pan fydd gweithwyr yn ennill yr hyn y mae ganddynt hawl iddo yn y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, wedi'i weinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n gynllun cyflog terfynol â buddion diffiniedig a ariennir, sy'n golygu bod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi'u cyfrifo ar lefel a ddylai gydbwyso'r rhwymedigaethau pensiwn â'r asedau buddsoddi. Amcangyfrif cyfraniadau cyflogwr o £8,777 mil ar gyfer 2022/23 gan fod yn seiliedig ar y cyfraddau cyfrannu a nodwyd fesul Prisiad Actwaraidd 2019.

Trafodion sy'n Gysylltiedig â Buddion Ymddeoliad

Mae'r Cyngor yn cydnabod cost buddion ymddeoliad wrth adrodd cost y Gwasanaethau pan fydd y gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fyddant yn cael eu talu ar ffurf pensiynau. Fodd bynnag, mae'r swm y mae gofyn i'r Cyngor ei godi ar Dreth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn. Felly caiff gwir gost y buddion ôl-gyflogaeth/ymddeoliad ei wrthdroi yn y Datganiad o Symudiadau ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Gwnaed y trafodion a ganlyn yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn:

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant:		
Cost y Gwasanaethau:		
– cost gyfredol y gwasanaeth	23,103	17,516
– cost blaenorol y gwasanaeth	0	82
– (elw)/colled o setliadau/cwtogiadau	97	16
Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi:		
– cost llog net	3,284	3,602
Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a godir o'r Gwarged neu'r Diffyg yn y Gwasanaethau	**26,484**	**21,216**
Buddion Ôl-gyflogaeth eraill a godir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant:		
Ailfesur y rhwymedigaeth budd diffiniedig net gan gynnwys:		
– Enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net)	(23,896)	(91,229)
– Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n codi ar newidiadau mewn rhagdybiaethau demograffig	(4,982)	0
– Enillion a cholledion actiwaraidd sy'n codi ar newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(11,629)	95,823
- Profiad (elw)/colled	1,674	(10,870)
	(38,833)	(6,276)
Cyfanswm y Buddion Ôl-gyflogaeth a godir yn y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant	**(12,349)**	**14,940**
Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:		
– gwrthdroi'r taliadau net a wnaed i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer buddion ol-gyflogaeth yn unol â'r Cod	(26,484)	(21,216)
Gwir swm a godwyd yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:		
– cyfraniadau cyflogwr taladwy at y cynllun	8,897	8,501

Asedau a Rhwymedigaethau Pensiynau a Gofnodwyd ar y Fantolen

Mae'r swm a gofnodwyd ar y Fantolen yn sgil rhwymedigaeth y Cyngor o ran ei gynlluniau buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	2021/22 £'000	2020/21 £'000
Gwerth presennol yr ymrwymiad budd diffiniedig	646,303	635,391
Gwerth teg o asedau'r cynllun	(506,724)	(474,566)
Rhwymedigaeth net sy'n codi o'r ymrwymiad budd diffiniedig	**139,579**	**160,825**

Cysoni Symudiadau yng Ngwerth Teg Asedau'r Cynllun

	Holl Fuddion Gronfa		Buddion heb Gronfa	
	2021/22	**2020/21**	**2021/22**	**2020/21**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Gwerth teg agoriadol asedau'r cynllun	474,566	376,366	0	0
Incwm llog	9,950	9,011	0	0
Ailfesur elw(colled):				
– Enillion ar asedau'r cynllun, ac eithrio'r swm sydd wedi'i gynnwys yn y costau llog net	23,896	91,229	0	0
Cyfraniadau gan y cyflogwr	8,897	8,501	360	384
Cyfraniadau gan weithwyr i'r cynllun	3,379	3,210	0	0
Buddion a dalwyd	(13,751)	(13,548)	(360)	(384)
Arall	(213)	(203)	0	0
Gwerth teg terfynol asedau'r cynllun	**506,724**	**474,566**	**0**	**0**

Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun (Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig)

	Holl Rhwymedigaethau Gronfa		Rhwymedigaethau heb Gronfa	
	2021/22	**2020/21**	**2021/22**	**2020/21**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	635,391	530,752	5,142	5,017
Cost gwasanaeth cyfredol	22,890	17,313	0	0
Cost llog	13,234	12,613	104	117
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	3,379	3,210	0	0
Ailfesur (enillion) a cholledion:				
– Profiad (enillion)/colledion	1,674	(10,870)	14	(118)
– (Enillion)/colledion actiwaraidd sy'n codi o newidiadau mewn rhagdybiaethau ariannol	(11,629)	95,823	(55)	510
– (Enillion)/colledion actwaraidd sy'n codi o newidadau mewn tybiaethau demograffig	(4,982)	0	(36)	0
Cost blaenorol y gwasanaeth	0	82	0	0
Colledion/(enillion) ar gwtogiad	97	16	0	0
Buddion a dalwyd	(13,751)	(13,548)	(360)	(384)
Balans terfynol 31 Mawrth	**646,303**	**635,391**	**4,809**	**5,142**

Roedd asedau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

		Gwerth teg asedau'r cynllun	
	Dyfynnwyd (Ie/Na)	**2021/22 £'000**	**2020/21 £'000**
Ecwitiau:			
DU	I	94,859	101,035
Byd-eang	I	157,591	123,387
Unol Daleithiau	I	33,140	51,443
Canada	I	2,230	2,088
Japan	I	19,458	15,993
Ymylon y Môr Tawel	N	811	4,888
Marchnadoedd Datblygol	N	39,930	40,528
Ewropeaidd heb DU	I	18,191	12,196
Is-gyfanswm ecwitiau		**366,210**	**351,558**
Bondiau:			
Llywodraeth y DU wedi'u mynegeio	I	6,739	12,339
Dosbarth Arall 1	I	40,234	42,711
Is-gyfanswm bondiau		**46,973**	**55,050**
Eiddo:			
Cronfeydd eiddo	N	66,229	52,440
Is-gyfanswm eiddo		**66,229**	**52,440**
Dewisiadau eraill:			
Dosbarth 1	I	18,698	9,966
Is-gyfanswm Dewisiadau eraill		**18,698**	**9,966**
Arian parod:			
Cyfrifon arian parod	I	8,614	5,552
Is-gyfanswm arian parod		**8,614**	**5,552**
Cyfanswm asedau		**506,724**	**474,566**

Ymraniad yr asedau ar draws y categorïau buddsoddi

	2021/22	**2020/21**
Ecwitiau	72.27%	74.08%
Bondiau	9.27%	11.60%
Eiddo	13.07%	11.05%
Dewisiadau eraill	3.69%	2.10%
Arian parod	1.70%	1.17%

Sail ar gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu uned credyd. Mae amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y dyfodol yn dibynnu ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, lefelau cyflog, ac ati. Amcangyfrifwyd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan Mercer Limited, cwmni annibynnol o actiwariaid, ac mae'r amcangyfrifon ar gyfer y Gronfa yn seiliedig ar y prisiad actiwaraidd diwethaf o'r cynllun fel ar 31 Mawrth 2019. Y rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

	31 Mawrth 22	**31 Mawrth 21**
Gwybodaeth ynghylch hyd fel ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu:		
Rhagamcanu hyd rhwymedigaethau Macaulay	18 flynyddoedd	18 flynyddoedd
Proffil hyd a ddefnyddir i bennu rhagdybiaethau	Aeddfed lawn	Aeddfed lawn
Rhagdybiaethau ariannol:		
- Cyfradd chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI)/ailbrisiad buddion CARE	3.30%	2.70%
- Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau	4.80%	4.20%
- Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau mewn taliad/gohiriad	3.40%	2.80%
- Cyfradd disgownt	2.80%	2.10%
Rhagdybiaethau marwolaeth ôl-ymddeol (iechyd arferol):		
- Aelodau sydd heb ymddeol	S3PA CMI_2021_[1.75%] (100% gwryw, 91% benyw)	S3PA CMI_2018_[1.75%] (100% gwryw, 91% benyw)
- Aelodau wedi ymddeol	S3PA CMI_2021_[1.75%] (94% gwryw, 92% benyw)	S3PA CMI_2018_[1.75%] (94% gwryw, 92% benyw)
Hirhoedledd o gwryw (benyw):		
- pensiynwr yn y dyfodol 65 oed mewn 20 mlynedd	24.4 (27.1) mlynedd	24.7 (27.2) mlynedd
- pensiynwr 65 oed ar hyn o bryd	23 (24.9) mlynedd	23.1 (25) mlynedd

Mae rhagamcanu rhwymedigaethau budd diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd a amlinellir yn y tabl isod. Mae'r dadansoddiadau sensitifrwydd isod wedi cael eu pennu yn seiliedig ar newidiadau rhesymol posibl o'r rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd ac yn cymryd ar gyfer pob newid bod y rhagdybiaeth wedi dadansoddi newidiadau tra bo'r holl ragdybiaethau eraill yn parhau'n gyson. Mae'r rhagdybiaethau mewn hirhoedledd, er enghraifft, yn cymryd bod disgwyliad oes yn cynyddu neu'n lleihau i ddynion a menywod. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, a gall newidiadau mewn rhai o'r rhagdybiaethau fod yn rhyng-gysylltiedig. Mae'r amcangyfrifon yn y dadansoddiad o sensitifrwydd wedi dilyn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cynllun, h.y. ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu uned credyd. Nid oedd y dulliau a'r mathau o ragdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn newid o'r rhai a ddefnyddiwyd yn y cyfnod blaenorol.

Dadansoddiad sensitifrwydd fel ar 31 Mawrth 2022

Eitem i'w datgelu	Canolog	Sensitifrwydd 1 + 0.1% y flwyddyn cyfradd disgownt	Sensitifrwydd 2 + 0.1% y flwyddyn chwyddiant	Sensitifrwydd 3 + 0.1% y flwyddyn twf tâl	Sensitifrwydd 4 blwyddyn o gynnydd mewn disgwyliad oes
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Rhwymedigaethau	646,303	634,878	657,933	647,575	665,427
Asedau	(506,724)	(506,724)	(506,724)	(506,724)	(506,724)
Diffyg/(Gwarged)	**139,579**	**128,154**	**151,209**	**140,851**	**158,703**
Cost Gwasanaeth Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf	21,721	21,165	22,301	21,721	22,409
Cost Llog Net Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf	3,785	3,589	4,116	3,826	4,326

	Sensitifrwydd 5 Newid o +/- 0.1% yn nychweliadau Buddsoddi	
	+1%	**-1%**
	£'000	**£'000**
Rhwymedigaethau	646,303	646,303
Asedau	(511,784)	(501,664)
Diffyg (Gwarged)	**134,519**	**144,639**
Cost Gwasanaeth Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf	21,721	21,721
Cost Llog Net Ddisgwyliedig ar gyfer y flwyddyn nesaf	3,644	3,927

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Bensiwn

Y prif risgiau i'r Cyngor yn deillio o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (h.y. tynnu symiau mawr o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, arenillion bondiau a pherfformiad y buddsoddiadau ecwiti a ddelir gan y cynllun. Mae'r rhain yn cael eu lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi i'r Gronfa Gyffredinol y symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifyddu.

1.39 DATGELU NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gweithgarwch Rheoli Trysorlys y Cyngor yn golygu ei fod yn agored I amrywiaeth o risgiau ariannol:

- Risg credyd – y posibilrwydd y gallai partïon eraill fethu â thalu symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor.
- Risg Hylifedd ac Ail-gyllido – y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn meddu ar gyllid i gyflawni ei rwymedigaethau i wneud taliadau.
- Risg y farchnad – posibilrwydd y gallai colledion ariannol ddod i ran y Cyngor o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog a symudiadau ar y farchnad stoc.

Mae pandemig COVID-19 yn cynnig ansicrwydd ychwanegol o ran y risgiau ariannol a ddisgrifir, yn enwedig risg credyd. Fodd bynnag, mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn lleihau effaith y risgiau hyn fel y disgrifir yn y nodyn hwn.

Mae tîm Trysorlys canolog yn cyflawni'r gwaith o Reoli'r Trysorlys gyda chymorth cynghorydd allanol – Link Asset Services. Diffinnir Rheoli'r Trysorlys fel a ganlyn: *'Rheoli buddsoddiadau a llifau arian yr awdurdod, ei drafodion bancio, marchnadoedd ariannol a marchnadoedd cyfalaf; rheoli'n effeithiol y risgiau sydd ynghlwm wrth y gweithgareddau hynny a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn unol â'r risgiau hynny'.*

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor lunio Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, a gaiff ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Cyngor llawn. Mae Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn nodi polisïau'r Cyngor o ran rheoli ei fuddsoddiadau a'i ddyledion ac o ran blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y buddsoddiadau hynny.

Risg Credyd

Mae risg credyd yn deillio o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, ac o fod yn agored i gwsmeriaid y Cyngor. Ni wneir adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol os nad oes ganddynt statws credyd.

Caiff statws credyd ei fonitro gan wasanaeth monitro ar-lein ynghyd â rhestrau graddfeydd credyd wythnosol a ddarperir gan Link Asset Services. Mae hwn yn defnyddio sgoriau credyd o'r 3 asiantaeth sgorio credyd (Fitch, Moody's a Standard & Poor's) ac maent hefyd yn cyfnewid data ynglŷn ag unrhyw ddiffyg lle mae hyn yn bodoli yn y marchnadoedd. Hysbysir y Cyngor yn electronig bob tro y bydd statws credyd un o'r sefydliadau sydd ar y rhestr gymeradwy'n newid. Os caiff un o'r gwrthbartïon neu gynllun buddsoddi ei israddio a bod hynny'n golygu nad yw'n bodloni meini prawf sylfaenol y Cyngor o ran credyd, bydd y Cyngor yn rhoi'r gorau ar unwaith i ddefnyddio'r gwrthbarti hwnnw neu'r cynllun buddsoddi hwnnw.

Isod, nodir y meini prawf credyd o ran asedau ariannol y Cyngor ar 31ain Mawrth 2022:

Categori'r Asedau Ariannol	**Meini Prawf**	**Buddsoddiad unigol mwyaf ar 31/03/2022**	**Cyfanswm y Buddsoddiadau ar 31/03/2022**
Adneuon sydd gyda Swyddfa Rheoli Dyledion	Dim sgôr gredyd	£4.0m	£33.0m

Llywodraeth y DU			
Adneuon mewn Banciau / Cymdeithasau Adeiladu	Isafswm sgôr: Hirdymor A-Byrdymor F1	£8.5m	£22.5m

Mae gan y Cyngor restr fuddsoddi a gymeradwyir gan y Cyngor Llawn fel rhan o'r strategaeth flynyddol i Reoli'r Trysorlys. Mae'r rhestr yn cynnwys:

- y categorïau buddsoddi a ganiateir a phwy sydd wedi ei awdurdodi i fuddsoddi ym mhob categori (e.e. swyddogion mewnol, rheolwyr cronfeydd allanol);
- y meini prawf sylfaenol sy'n ofynnol o ran credyd ar gyfer pob math o fuddsoddiad;
- gwerth uchaf yr arian y gellir ei fuddsoddi gyda phob gwrthbarti unigol;
- gwerth uchaf yr arian y gellir ei fuddsoddi ym mhob categori buddsoddi;
- y cyfnod hiraf a ganiateir ar gyfer pob math o fuddsoddiad;
- y terfyn uchaf ar gyfer buddsoddiadau hirach na 364 o ddiwrnodau.

Caiff y rhestr ei hadolygu a'i diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r statws credyd diweddaraf a chyflwr y farchnad.

Mae'r dadansoddiad canlynol yn crynhoi'r risg credyd mwyaf posibl i'r Cyngor, yn seiliedig ar brofiad o ddiffygdalu a methu casglu yn ystod y deuddeg mlynedd ariannol ddiwethaf, a addaswyd i adlewyrchu amodau'r farchnad bresennol.

	Swm ar 31/03/22	Profiad hanesyddol o ddiffygdalu	Profiad hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer amodau'r farchnad ar 31/03/22	Amcan o'r amlygiad mwyaf posibl i ddiffygdalu a methiant i gasglu buddsoddiadau	Amcan o'r amlygiad mwyaf ar 31/03/22
	£'000	%	%	£'000	£'000
	A	B	C	A x C	
Adneuon â Banciau a sefydliadau ariannol	55,485	1.5%	1.5%	832	832

Yn ystod y flwyddyn ariannol bu'r Cyngor yn gweithredu o fewn cyfyngiadau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn yr adroddiad blynyddol ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

Er nad yw dylanwad economaidd COVID-19 wedi cyrraedd ei derfyn eto, mae'r sector gwasanaethau ariannol yn wynebu cryn ansicrwydd a llawer o heriau. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'n ofalus statws credyd y sefydliadau sydd ar ei restr gymeradwy o bartïon gontract. Bydd unrhyw barti i gontract a gaiff ei israddio, gan olygu nad yw mwyach yn bodloni meini prawf gofynnol y Cyngor o ran credyd, yn cael ei dynnu ar unwaith oddi ar y rhestr gymeradwy o bartïon contract.

Risg Hylifedd ac Ail-gyllido

Oherwydd bod y Cyngor yn gallu benthyg oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), nid oes risg sylweddol na fydd yn gallu codi arian i gyflawni'r ymrwymiadau sydd ganddo o dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, mae risg yn codi oherwydd bod y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran helaeth o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn anffafriol. I'r perwyl hwn, mae'n allweddol ystyried proffil aeddfedrwydd dyledion wrth ymgymryd â benthyciadau newydd neu ailstrwythuro'r benthyciadau presennol.

Dyma ddadansoddiad o aeddfedrwydd dyledion allanol y Cyngor ar 31ain Mawrth 2022:

	£'000
Llai na blwyddyn	7,818
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	1,151
Rhwng dwy a phum mlynedd	8,798
Rhwng pump a deng mlynedd	13,908
Deng mlynedd a mwy	84,197
	115,872

Bydd yr holl ddyledion masnachol a dyledion eraill yn daladwy ymhen llai na blwyddyn. Bondiau wedi'u dal fel Credydwyr Hir Dymor heb eu cynnwys yn y tabl uchaf ar ddadansoddiad aeddfedrwydd.

Risg y Farchnad

Risg Cyfradd Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risg o ran ei amlygiad i symudiadau yng nghyfraddau llog ei fenthyciadau a'i fuddsoddiadau. Mae newidiadau i'r gyfradd llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y gyfradd llog yn peri'r effeithiau canlynol:

- Benthyciadau ar gyfraddau newidiol – bydd y treuliau llog a godir ar y Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn codi.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y rhwymedigaethau'n disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau newidiol – bydd yr incwm llog a gredydir i'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn codi.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau'n disgyn.

Caiff benthyciadau eu cario ar gost amorteiddiedig, ac felly ni fyddai'r enillion a'r colledion enwol ar fenthyciadau ar gyfradd sefydlog yn effeithio ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Fodd bynnag, caiff newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn dderbyniadwy ar fenthyciadau ar gyfradd newidiol eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant a byddant yn effeithio ar Fantolen y Gronfa Gyffredinol.

Mae gan y Cyngor nifer gyfyngedig o strategaethau i reoli'r risg o ran cyfraddau llog o ystyried yr hinsawdd bresennol lle mae'r cyfraddau llog yn isel. Y brif strategaeth yw rheoli'r gofynion o ran llif arian a'r balans craidd, gwneud buddsoddiadau mwy hirdymor pan fo'r cronfeydd dros ben yn caniatáu hynny, a mynd ati ar yr un pryd i gydnabod y gofynion cyllido yn rhaglen gyfalaf tair blynedd y Cyngor a chyflawni benthyciadau newydd hirdymor tra mae'r cyfraddau llog yn dal i fod ar eu hisaf erioed.

Yn 2021/22 roedd portffolio buddsoddi'r Cyngor (ac eithrio'r llog a gronnwyd) yn £29.2 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn ac yn £55.5 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Dechreuodd portffolio dyled y Cyngor (ac eithrio'r llog a gronnwyd) ar £116.7 miliwn ac roedd yn £115.6 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae asesiad o safle diweddaraf y gyfradd llog a'r rhagolygon at y dyfodol yn bwydo i'r broses o bennu'r gyllideb flynyddol. Fe'i defnyddir hefyd i fonitro a rhagfynegi alldro'r gyllideb yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu i unrhyw newidiadau anffafriol gael eu hystyried. Daw rhagolygon ynghylch y cyfraddau llog i law gan ragolygwyr annibynnol drwy gynghorwyr trysorlys allanol y Cyngor. Mae hyn nid yn unig yn dylanwadu ar strategaethau benthyca ond hefyd ar amserlenni buddsoddi a'r cydbwysedd cyffredinol rhwng y portfolios buddsoddi a benthyca.

Ar 31/03/2022, pe bai'r cyfraddau llog 1% yn uwch a phob newidyn arall yn gyson, byddai'r effaith ariannol fel a ganlyn:

	£'000
Cynnydd o ran y Llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol	134
Cyfanswm yr effaith ar y Cyfrif Incwm a Gwariant	**134**
Effaith Gwerth Teg	**£'000**
Gostyngiad yng ngwerth teg y benthyciadau cyfradd sefydlog	18,156

Nid oes gan y Cyngor unrhyw rwymedigaethau benthyca ar gyfradd newidiol.

Byddai effaith cwymp o 1% yn y cyfraddau llog fel yr uchod, ond gyda'r symudiadau wedi'u gwrthdroi.

Mae enillion buddsoddiad ar gyfer 2021/22 wedi bod yn isel iawn oherwydd cyfraddau llog isel yn hanesyddol (2021/22: £60 mil 2020/21: £46 mil).

Risg o ran Prisiau
Nid yw'r Cyngor yn defnyddio rheolwr cronfa allanol bellach; felly mae'r buddsoddiadau a wneir ar hyn o bryd yn seiliedig ar gyfraddau llog sefydlog. Nid yw'r Cyngor felly yn agored ar hyn o bryd i golledion sy'n codi yn sgil newidiadau ym mhrisiau eitemau a gaiff eu masnachu e.e. cyfranddaliadau, giltiau, tystysgrifau adneuo.

Risg y Cyfnewidfeydd Tramor
Nid oes gan y Cyngor ddim asedau na rhwymedigaethau ariannol mewn arian cyfred tramor ac felly nid yw'n agored i golled sy'n deillio o symudiadau mewn cyfraddau cyfnewid.

1.40 RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Municipal Mutual Insurance
Municipal Mutual Insurance (MMI) oedd yswirwyr y Cyngor cyn 1996 a bu iddynt roi'r gorau i gyflawni busnes yswiriant ar 30 Medi 1992. I sicrhau ei fod yn terfynu'n drefnus, cyflwynwyd Cynllun Trefniant (Cynllun) a ddaeth i rym ar 21 Ionawr 1994. Rhoddodd cyfarwyddwyr MMI y Cynllun ar waith ar 13 Tachwedd 2012, ar ôl iddi ddod i'r amlwg na fyddai modd terfynu'r busnes yn ddiddyled. Penodwyd Ernst & Young yn weinyddwyr ar gyfer y Cynllun a phennodd gyfradd lefi gychwynnol o 15%, swm o £30 mil, a dalwyd gan y Cyngor yn 2013/14. Yn 2015/16, hysbyswyd y

Cyngor o'r ffaith bod cyfradd yr ardoll yn cael ei chodi i 25%, felly talwyd swm pellach o £20 mil. O dan y Cynllun, mae'n ofynnol i gredydwyr yswiriant mwyaf MMI (Credydwyr y Cynllun) dderbyn taliadau rhannol o'r hawliadau (yn y gorffennol a'r dyfodol). Yr uchafswm y gellir ei adfachu oherwydd unrhyw lefi yn y dyfodol yw £174,014, ar yr amod nad yw Ceredigion yn gwneud unrhyw hawliadau eraill yn erbyn y Cynllun. Ni ddisgwylir iddo wneud hynny.

Achos Cyfreithiol am Drethi Dŵr
Trosglwyddodd y Cyngor ei stoc tai i Dai Ceredigion yn 2009, a chyn hynny, casglwyd y trethi dŵr ar ran Dŵr Cymru gan denantiaid fel rhan o'u rhent. Yn gyfnewid am y gwasanaeth hwn, roedd y Cyngor yn cael comisiwn. Cwestiynwyd y trefniant hwn yn achos *Kim Jones v Bwrdeistref Southwark Llundain [2016] EWHC 457*. Barnodd y llys bod y diffynnydd yn gweithredu fel cyflenwr dŵr ac nid fel asiant y cyflenwr dŵr wrth gasglu trethi dŵr fel rhan o'r rhent. Mae gan y dyfarniad hwn oblygiadau ariannol posibl o ran y ffi asiantaeth ac mewn achosion pan gymrwyd camau yn erbyn ôl-ddyledion rhent y byddai modd barnu eu bod yn cynnwys trethi dŵr.

Deddf Hawliau Dynol (1998)
Mae gan y Cyngor achosion yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd lle honnir bod y Cyngor wedi torri hawliau dynol yr hawlydd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol (1998). Mae'r achosion hyn yn y camau cynnar lle nad yw union natur yr honiadau a wneir a'r atebolrwydd posibl i'r Cyngor wedi'u cadarnhau eto.

1.41 CYD-BWYLLGORAU

Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru
Mae'r Cyngor a Chyngor Sir Powys yn aelodau o Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a sefydlwyd yn 2020/21. Mae'r Bwrdd yn rhoi arweinyddiaeth, atebolrwydd ac yn gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer Bargen Twf Canolbarth Cymru. Mae datganiad blynyddol ar wahân wedi'i lunio ar gyfer y Bwrdd. Yr unig ffigurau sy'n ymwneud â Thyfu Canolbarth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad hwn o Gyfrifon yw cyfraniad y Cyngor i'r Bwrdd, sef £105,647 ar gyfer 2021/22 (£44,049 ar gyfer 2020/21).

1.42 CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (CBC)
Mae'r Cyngor, Cyngor Sir Powys ac Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn aelodau o'r CBC a sefydlwyd yn 2021/22. Tasg y Pwyllgor yw datblygu trafnidiaeth ranbarthol, cynlluniau datblygu strategol a gwella lles economaidd. Ni chafwyd unrhyw wariant, nac incwm a dderbyniwyd gan y CBC yn 2021/22.

1.43 DIGWYDDIADAU AR ÔL Y FANTOLEN AC AWDURDODI'R CYFRIFON I'W CYHOEDDI

Does dim digwyddiadau ôl fantolen ar gyfer 2021/22.

Awdurdodir y Datganiad Cyfrifon i'w gyhoeddi gan Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar 26 Ionawr 2023.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac mae'n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *'yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau'* a bwriedir gwireddu'r weledigaeth trwy gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu'r Economi;
2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl;
3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a
4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â'n gwerthoedd. Ategir y Cod Lleol gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy'n egluro'r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a'r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/.

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 mewn grym i raddau helaeth ac mae'r Cyngor yn parhau i wneud y gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yr adrannau hyn o'r Ddeddf a chydymffurfiaeth gydag adrannau o'r Ddeddf nad ydynt mewn grym eto.

Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac mae wedi'i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016.* Defnyddir y fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt gyfrannu cymaint ag y modd i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, cymeradwywyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn wreiddiol gan y Cyngor ar 29 Mehefin 2017 a chymeradwywyd fersiwn wedi'i ddiweddaru gan y Cyngor ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Adolygwyd y Cod 2022/23 ymhellach er mwyn ystyried newidiadau parhaus i drefniadau llywodraethu oherwydd pandemig y coronafeirws.

Yn ogystal, yn dilyn adolygiad gan Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod Ebrill i Orffennaf 2021 (Adroddiad a gyhoeddwyd Hydref 2021), mae'r Cyngor yn parhau i gymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion a gyhoeddwyd yn yr Adroddiad, y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad Corfforaethol. Llwyddiannau Llywodraethu ar gyfer 2021-22 isod.

Mae Fframwaith Llywodraethu y Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith

B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid

C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd

E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo

F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn

G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor craidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o ran trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau'r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

Arweinydd y Cyngor

Dyddiad: 26 Ionawr 2023

Prif Weithredwr

Dyddiad: 26 Ionawr 2023

2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cynghorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer

Aelodau/Swyddogion, lle y dadansoddwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor, ac roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol ynddo: Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, roedd y Swyddog Monitro; y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol; y Swyddog Llywodraethu; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wedi cymryd rhan. Yn dilyn y gweithdy, bu cyfle pellach i'r sawl a oedd yn bresennol i ystyried dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor a bu cyfle i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid, i ystyried y ddogfen Fframwaith Llywodraethu.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

1/2	Annerbyniol – angen gweithredu'n syth
3/4	Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis)
5/6	Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)
7/8	Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau
9/10	Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach

Mae pob sgôr yn y Ddogfen Fframwaith Reoleiddio yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc.

Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor hefyd. Cyflwynir y fframwaith adolygu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Ionawr 2022.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; a'r

- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth bob blwyddyn. Cwblhawyd yr adolygiad o Fframwaith 2021/22 ym mis Mai 2022, gan gynnig sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Mehefin 2022.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, gan ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol cost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/.

Mae cod Rheolaeth Ariannol CIPFA yn gosod safonau rheolaeth ariannol ar gyfer awdurdodau lleol. Ei nod yw cefnogi arferion effeithiol o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd cyllidebol. Mae Swyddog Adran 151 wedi cynnal adolygiad hunanasesu ac yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r cod.

3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22.

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

- Cod Ymddygiad i Aelodau (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y

Cyfansoddiad. Yn ogystal, Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).

- Cod Ymddygiad i Swyddogion* (sy'n cael ei adolygu'n sylweddol ar hyn o bryd), sydd ar gael gyda'r holl bolisïau a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet.
- Rhoddir darpariaeth ymsefydlu a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.
- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn destun adolygiad ar hyn o bryd).
- Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sail modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a Gwasanaethau Llywodraethu ac Archwilio Mewnol ('IA') sy'n gweithio gyda Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu.
- Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau ac anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn. Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt, mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau ac mae gweithgarwch adrodd yn mynnu bod cyngor ariannol a chyfreithiol/goblygiadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol. Mae eitemau yr adroddir amdanynt i Aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau amdanynt trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor ariannol a chyfreithiol, y cyfeirir ato ym mhob adroddiad. Yn ogystal, mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.
- Adolygiad Datblygiad Personol.
- Cymeradwyaeth unigol o ran cydymffurfiaeth.
- Cofrestr o fuddiannau Aelodau, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, a adolygir gan MO ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae ffurflenni Datgelu Budd a Lletygarwch i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.

- Mae MO yn dosbarthu nodyn atgoffa ynghylch datganiadau budd/lletygarwch i Staff bob chwarter.
- Mae datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd ac mae Cofnodion yr holl bwyllgorau yn cynnwys Datganiadau Budd-Swyddogion ac Aelodau.
- Nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet, MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau Prif Swyddogion bob blwyddyn ac yn rhoi cyngor i Brif Swyddogion am yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, gan gynnwys cynghori Prif Swyddogion yn y Grŵp Arweiniol. Hysbysir Prif Swyddogion trwy gyfrwng diweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu buddiannau a Lletygarwch ac anfonir nodyn atgoffa at Brif Swyddogion.
- Datganiadau Buddiannau blynyddol Prif Swyddogion a'u hymrwymiadau parhaus i ddatgelu buddiannau. Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion.
- Cyhoeddwyd diweddariad i'r cyngor am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2021 ac ar 20 Gorffennaf 2021 ar CeriNet, hefyd ynghylch Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau COVID-19 ar gyfer busnesau (Diweddariad newyddion a gyhoeddwyd ar 8.1.2021) a dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r MO.
- Datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd, cyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys:
  - Contractwyr;
  - Llywodraethwyr Ysgol;
  - Clercod cynghorau Tref a Chymuned;
  - Aelodau cynghorau Tref a Chymuned;
  - Llywodraethwyr Ysgol.
  - MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan:
  - Swyddi cyfarwyddwyr; a
  - Chyflogaeth arall

    Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.

- Mae gofyn i aelodau ddiweddaru'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Mae hyn bellach yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyhoeddwyd llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor.
- Mae cyfatebiaeth NFI yn amlygu Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau y maent wedi cael cyswllt gyda'r Cyngor – bydd IA yn ymchwilio i unrhyw achos o beidio datgan ac yn adrodd amdano i MO.
- Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, caiff y Cyfansoddiad ei ddiweddaru.
- Ffurflenni Goddefebau wedi'u diweddaru ar gyfer Aelodau wedi'u llenwi (2020).
- Rhaid i Athrawon a Swyddogion Cymwys Proffesiynol fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol.
- Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD.
- Darparir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr ar gyfer Staff.
- Mae'r Llawlyfr i Gyflogeion yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Gyflogeion ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol.
- Mae MO yn dosbarthu diweddariadau/penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, a'u rôl nhw yw pennu'r achosion honedig o dorri'r amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.
- Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella safonau ymddygiad Aelodau a gweithrediad y Cod Ymddygiad i Aelodau. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys:
    - Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;
    - Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.
    - Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.

- Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Materion ynghylch ymddygiad a safonau aelodau a ystyrir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion APW a Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Adroddwyd Adroddiad Pwyllgor Moeseg a Safonau Blynyddol i'r Cyngor ym mis Hydref 2021.
- Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Cynhelir Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg ar hyn o bryd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Mae'r Cabinet wedi adolygu a chymeradwyo'r weledigaeth hon ar gyfer y Cyngor ac mae'r weledigaeth yn nodi nifer o Amcanion Strategol dros y tymor hir.
- Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (2017-2022) yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor.
- Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori â'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Deialog reolaidd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheolyddion eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO.
- Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n destun adolygiadau rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl y gofyn, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol gyda Chydbwysedd Gwleidyddol am y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn 2021 yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y

diwygiadau ar 18.3.21 a 23.9.21. Mae'r Gweithgor Trawsbleidiol am y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 15.2.21, 19.4.21, 30.6.21, 10.8.21 ac 8.11.21. MO/Swyddog Llywodraethu i adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddaru dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.

- Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ddatblygu camau gweithredu a fydd yn gwella'r Gwasanaeth Cynllunio gan gynnwys gwneud penderfyniadau.
- Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ddiwygio i nodi'n glir ei ddiben, ei rôl a'i gyfrifoldebau, a sut mae'n cysylltu â Blaenoriaethau Corfforaethol.
- Mae dogfen Gweithdrefnau Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i diwygio. Mae'r Gweithdrefnau Gweithredol yn diffinio ceisiadau sy'n bwysig yn strategol ac yn geisiadau cynllunio 'o bwys'.
- Mae'r ddogfen Gweithdrefnau Gweithredol yn mynd i'r afael â'r trefniadau mewn perthynas ag aelodau wardiau lleol yn annerch y Pwyllgor.
- Mae Protocol Arferion Da i Gynghorwyr ar Bwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i gynhyrchu ac wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.
- Mae Cynllun Dirprwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu wedi'i ddiwygio i'w alluogi i ganolbwyntio'n well ar geisiadau mwy strategol bwysig a rhai o bwys.
- Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cynnwys meini prawf ar gyfer ceisiadau y mae'n rhaid eu cyfeirio at y Pwyllgor Rheoli Datblygu, a'r ceisiadau hynny y gellir eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol.
- Mae grŵp 'callio' wedi'i sefydlu o fewn Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn adolygu ceisiadau cynllunio, a allai, o'u cymeradwyo, fod yn wyriad sylweddol o'r polisi.
- Bydd penderfyniadau a wneir yn groes i gyngor swyddogion ac nad ydynt yn bodloni meini prawf y rhestr wirio sy'n cael ei datblygu ar gyfer y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses AMB a'u hadrodd i'r gweithdrefnau archwilio mewnol.
- Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Egwyddorion Diogelu Data a phrosesu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun Pwyllgorau'r Cyngor a'r holl Aelodau.
- Mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer pob Aelod (Cyflwyniad i'r Cyngor, gan gynnwys GDPR) yn dilyn Etholiadau Mai 2022.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA') (rhwng mis medi 2017 a mis Tachwedd 2021, fe'i cwblhawyd gan 2,834 o gyflogeion, yr oedd 343 o'r rhain wedi gwneud

hynny yn Gymraeg a 2,491 yn Saesneg). Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl at ei gilydd, 40 yn Gymraeg, 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael hefyd). Rhoddwyd nodiadau atgoffa i Staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwl eto, ac mae Grwpiau Arwain yn cael adroddiadau achlysurol.

- Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Cheredigion (fe'i chynhaliwyd ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd cynnal cynhadledd debyg gan Gynghorau Gogledd Cymru yn 2021 – fe'i gohiriwyd oherwydd COVID-19.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad o'r broses DLIB.
- Mae IA yn adolygu ac yn adrodd am y broses bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu a chan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol.
- Adroddwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe'i cymeradwywyd.
- Cyflwynwyd Strwythur Llywodraethu COVID-19 gan y Cyngor, i gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19 y Cyngor), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniad Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021.
- Mae'r grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Cyhoeddir Cofnod o Benderfyniadau'r grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). O ganlyniad i bandemig COVID-19, bu'n rhaid i'r grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro a oedd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn dilyn y dyddiad hwnnw).
- Cynhyrchwyd map ffyrdd, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor a'r rhai nas darparir gan y Cyngor, ynghyd â chynlluniau'r Cyngor, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, ar gyfer Ceredigion, gan gynnig trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparir yng ngoleuni Pandemig COVID-19, y canllawiau presennol a nifer yr achosion yng Ngheredigion.
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21(cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21).

- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cedwir Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol i Swyddogion ac mae Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol ar gael i gyflogeion ar CeriNet.
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion ar Chontractwyr (diweddarwyd 2018) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen.
- MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO'), ac mae'n cynghori'r sawl sy'n Chwythu'r Chwiban, pan fo hynny'n briodol.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis. O ran manteisio ar y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael).
- Rhoddir sylw i'r holl gwynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.
- Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol. Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion Diwygiedig 2021, ei weithrediad a'i gyhoeddiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion/argymhellion a gafwyd.
- Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol, gan gynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion, wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ei gyflwyno i'r Cyngor a'i nodi.
- Cyhoeddir cofnodion yr holl bwyllgorau ar Wefan y Cyngor. Mae holl agendâu/cofnodion Pwyllgorau yn cynnwys eitem am ddatgelu buddiannau.
- Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet ar Wefan y Cyngor.

- Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle y gwneir penderfyniad.

- Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur (cofrestr penderfyniadau) yn rheolaidd, fe'i cyflwynir i'r Grŵp Rheoli Aur (a'i gymeradwyo) ac ar ôl hynny i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (20.1.2021, 16.6.21 ac 1.12.2021) ac fe'i cyhoeddir ar Wefan y Cyngor. O ran penderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygu.

- Cyhoeddir Cofrestr o Gontractau ar Wefan y Cyngor.

- Mae'r Cyngor yn gwneud paratoadau i gydymffurfio â Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cyflwynwyd Adroddiad am newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24.2.2021 a 3.6.2021 (gan gynnwys gofyniad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru i gael Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu)), a chymeradwywyd newidiadau ynghylch recriwtio gan y Cyngor ar 18.3.2021, fel a ganlyn:

  a) newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a swyddogaethau ychwanegol ynghylch perfformiad a delio â chwynion a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021;
  b) cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
  c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r
  d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person.

- Newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23.9.21. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:

  - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad;
  - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
  - Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf) – recriwtio wedi'i gwblhau, ac eithrio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.
  - Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun;
  -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg.
  -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
  - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol sy'n gallu cadeirio.

- Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a oedd yn cytuno argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i'r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022.

- Mae swyddogion megis Archwilwyr Mewnol yn llofnodi datganiad blynyddol am y Cod Moeseg.
- Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Ionawr 2022.
- Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a'r modiwl hyfforddiant bwriadedig er mwyn ymateb i'r adborth.
- Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.
- Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018 a chyflwynir hyfforddiant ynghylch caffael i'r Staff hefyd.
- Polisi DBS a Pholisi Recriwtio y Cyngor.
- Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Defnyddir meddalwedd fewnol i ôl-wirio taliadau dyblyg drwgdybiedig.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi Caethwasiaeth Fodern (a anfonir at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019-2020 a Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Mae MO a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol, gan gynnwys ymlaen llaw ac yn ystod cyfarfodydd ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.
- Mae MO yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb yr MO, bydd y Dirprwy MO yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.
- Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn cydymffurfio yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae aelodau pob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae Cynllun gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.
- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn glir ac mae disgrifiadau Rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).

- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd y cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIFPA, *Putting Principles into Practice* (2019)).
- Caiff Cylch gorchwyl ei gynnwys yn y Cyfansoddiad a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021.
- Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad).
- Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).
- Cydymffurfiaeth gyda Chodau Penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)
- Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO, y mae ganddynt fynediad uniongyrchol i'r CE ac sy'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol. Mae'r MO a'r Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol.
- Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a hawl mynediad yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Ymchwiliadau mewnol, Archwilio Allanol effeithiol.
- Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig ac mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gaiff ei chydlynu gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).
- Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal.
- Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.

- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Caiff taliadau grant COVID-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer).
- Ychwanegir archwiliadau rheoli ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, i archwilio camau rheoli, llywodraethu a risgiau pan fo'r staff yn gweithio gartref.
- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch ail-flaenoriaethu gwaith sy'n angenrheidiol, gan ganiatáu i'r IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran y risg yn y Cyngor.

B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid:

- Mae'r holl adroddiadau Blynyddol statudol ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018) a Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr. Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.
- Mae'r Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd.
- Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth gyngor.
- Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022. Caiff yr Amcanion Llesiant a Gwella eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir agendâu a phapurau ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau wedi'u heithrio).
- Caiff cyfeiriadau e-bost MO a Moeseg a Safonau generig eu creu.
- Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018).
- Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith. Yn ogystal, Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cyfansoddiad I Dogfen Rhan 4).

- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae trefniadau'n cael eu gwneud i alluogi cynnal cyfarfodydd hybrid o fis Mai 2022. Mae offer newydd yn cael ei osod yn y Siambr ar hyn o bryd (cwblhau ganol mis Ebrill 2022). Bydd y system yn caniatáu i gyfarfodydd gael eu recordio a sicrhau eu bod ar gael ar-lein.

- Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 Cyfansoddiad) a chymeradwywyd Protocol mynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan y Cyngor (Cyfansoddiad M2 Dogfen Rhan 5).

- Mae'r Protocol Arferion Da wedi'i greu er mwyn cefnogi Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu i sicrhau bod penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol cadarn, ac nid amgylchiadau personol ymgeiswyr.

- Cymeradwywyd offeryn ac arweiniad Asesiad Effaith Integredig ('IIA') i'w weithredu.

- Datblygwyd canllawiau ac offeryn IIA er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol ac maent yn cael eu gweithredu, ac adroddir casgliadau IIA i'r Cyngor, y Cabinet ac i Drosolwg a Chraffu. Aeth 10 IIA i'r Cabinet yn ystod 2021-22 tan 1.12.2021. Pwyllgorau, sy'n cynnwys ymgynghori.

- Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae'r rhain oll yn cynnwys canlyniadau IIA.

- Asesir yr holl IIA ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wedi digwydd a phroses wybodus o wneud penderfyniadau.

- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs.

- Cyflwynwyd prosesau i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i'r pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu penderfyniadau.

- Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.

- Diweddarwyd templed adrodd y Cyngor/Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.

- Pan fo hynny'n briodol, mae eitemau yr adroddir amdanynt er mwyn cael penderfyniadau trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor

cyfreithiol ac ariannol, a gwneir cyfeiriad at y cyngor hwn ym mhob adroddiad.

- Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir yr holl adroddiadau blynyddol, Datganiadau o gyfrifon, adroddiadau cynnydd Gwelliant o fewn amserlenni ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae'r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori ar gael i Swyddogion.
- Mae tudalen Ymgysylltu Cymunedol, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau wedi cael ei chreu ar CeriNet, sy'n cynnwys dolenni i'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol (11 Ionawr 2013), Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori
- Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi.
- Mae Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys rhanddeiliaid y dylai'r awdurdod ymgysylltu â nhw yn ei lle.
- Adroddir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn ôl i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Cofnodion cyfarfodydd ymgysylltu strwythuredig, digwyddiadau a grwpiau ymgysylltu gyda phobl y mae ganddynt nodweddion gwarchodedig.
- Lluniwyd Polisi Ymgysylltu Drafft newydd er mwyn ystyried y fethodoleg ymgysylltu ddiweddaraf, gan gynnwys ymgysylltu digidol. Ymgynghorir am hwn a chytunir arno yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Chydweithio' wedi cael ei pharatoi. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cyflawni gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('BGC').
- Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y broses o baratoi'r asesiad Llesiant Lleol nesaf a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022.

- Ymgynghoriadau 2020-21.
- Caiff ymgynghoriadau eu hyrwyddo trwy gyfrwng Cyfryngau Cymdeithasol.
- Lledaenir canlyniadau gweithgarwch ymgynghori a chaiff adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau a gwblhawyd eu postio ar dudalen y Cyngor ar y we ynghylch ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.
- Mae Cylch Gorchwyl BGC ar gael ar Wefan y Cyngor, mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael ac mae trefniadau Craffu ar gyfer BGC wedi cael eu gwneud.
- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant (BGC) sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Llesiant Lleol BGC, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.
- Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion 2021 Diwygiedig, ei weithrediad a'i gyhoeddi, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygwyd offeryn gwneud Penderfyniadau Ymgynghori (siart llif a Choeden Ymgynghori) ar gyfer Staff ac Aelodau ac mae'n cynnwys defnyddio adborth.
- Mae gweithgarwch ymgynghori pellach yn cynnwys:
    - Mae swydd Ymgysylltu a Chydraddoldeb newydd wedi cael ei chreu trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth Polisi a Pherfformiad; ac
    - Mae'r holl ymgynghoriadau cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor.
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol (diwygiwyd Awst 2018).
- Defnyddir cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch materion a ystyrir gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.
- Oherwydd COVID-19, mae'r Cyngor wedi ymgynghori o bell trwy gyfrwng cynadleddau fideo ac arolygon electronig.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar fewnrwyd Cyngor Ceredigion i'r holl Staff eu dilyn ynghylch lledaenu adborth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r arwyddion a welwyd yn ddiweddar yn dynodi bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.
- Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd.
- Cynhelir prosiectau ar y cyd gyda rhanddeiliaid sefydliadol ac mae trefniadau llywodraethu clir mewn grym.
- Mae Templedi a Chanllawiau Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael.

- Mae partneriaethau yn cynnwys:
  - BGC;
  - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru;
  - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (adolygwyd yn 2019 ac yn destun gweithgarwch Craffu);
  - Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
  - Thyfu Canolbarth Cymru.
- Cwblhawyd yr adolygiad ffurfiol o bartneriaethau sy'n eistedd dan BGC. Mae'r strwythur partneriaeth newydd wedi bod yn weithredol er mis Mehefin 2018 ac adolygir y partneriaethau yn gyson.
- Gweithgarwch rheolaidd i adrodd am gyfarfodydd partneriaeth a gweithgarwch i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet.
- Sefydlwyd partneriaethau megis Tyfu Canolbarth Cymru gyda threfniadau llywodraethu. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru
- Mae metrigau partneriaeth yn destun gweithgarwch adolygu mewnol, pan fo hynny'n briodol.
- Adroddir am fframwaith partneriaeth monitro sy'n adrodd am yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan bartneriaethau sy'n bodoli eisoes i'r Grŵp Arweiniol.
- Rhoddir cyngor i Aelodau a Swyddogion sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol.
- Mae'r Tîm Cyfreithiol yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio ac adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cytundebau Rhyng-Awdurdod ('IAAs') a phwyllgorau ffurfiol.
- Datblygwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithio strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymrwymo iddynt. Mae'r dogfennau yn cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer camau amrywiol prosiectau cydweithio.
- Cynhaliwyd Hunanasesiad o'r Grŵp Gweithredol.
- Mae gofyn i'r holl gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion fod wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid trwy gydymffurfio gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.
- Canllawiau ynghylch Brandio Corfforaethol (Mai 2019).
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol (2019-2022).
- Cyflawnwyd cyswllt Cymunedol Effeithiol gyda'r gwaith asesu llesiant a gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd er mwyn cyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a set o gwestiynau ar y cyd ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchodedig.
- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:

- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Caiff Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn a'u hadrodd yn adroddiad blynyddol yr amcanion Llesiant a Gwella a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Amlinellir gwybodaeth ynghylch perfformiad yn Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi pennu diben a gweledigaeth y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-22. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion.
- Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Lleol BGC ym mis Mai 2018.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
    - Paratoi datganiad ac amcanion llesiant;
    - Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygiad Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes;
    - Datblygu canllawiau ac offeryn IIA newydd (cyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau);
    - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
    - Caiff y Cyfansoddiad ei fonitro a'i adolygu yn barhaus;
    - Cyhoeddwyd asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017;
    - Cytunwyd ar drefniadau craffu ar gyfer BGC;

- Adroddiadau Cabinet, gan gynnwys yr asesiad effaith Cymdeithasol/economaidd/amgylcheddol;
- Datblygwyd modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf ac mae wedi cael ei hyrwyddo ymhlith holl Staff y Cyngor;
- Rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb, cymunedol a'r iaith Gymraeg am yr holl gynigion ynghylch ailstrwythuro ysgolion fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac
- Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â DLICD

- Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys;
  - Cynllun Strategol;
  - Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac
  - Amcanion Gwella Llesiant
- Mae Polisi Cymunedol ac Ymgysylltu (11 Ionawr 2013) ar gael.
- Datblygwyd Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2014 er mwyn darparu adnodd hawdd i'w ddefnyddio i Swyddogion wrth ddatblygu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd gyda'u cymunedau, yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Adroddir diweddariadau am arbedion yn y gyllideb ac am waith y Grŵp Datblygu i'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
- Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys neilltuo adnoddau a chaiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a'u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu'r gwasanaeth.
- Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer;
  - Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a
  - Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).

- Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni Busnes a gwasanaeth.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys;
    - Hawliau Tramwy;
    - Priffyrdd;
    - Cynllun Cyllideb Blynyddol; a
    - Thrawsnewid.
- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019.
- Cyflwynir hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau a Rheolwyr Uwch.
- Datblygwyd pecyn e-ddysgu rheoli risg i'r holl Staff eraill a chynhaliwyd hyfforddiant yn 2019, a threfnwyd gweithdy gydag yswirwyr ar gyfer Rheolwyr uwch.
- Caiff cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data ynghylch costau a gwerth am arian, ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth.
- Mae'r Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr, mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch ei ddefnydd o adnoddau.
- Cyhoeddwyd yr Archwiliad mwyaf diweddar o Gynllun Gwella y Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr adroddiad i'r canlyniad cadarnhaol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn ffordd ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Caiff ffurflen arfarnu cyfalaf ei llenwi ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe'i ddefnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys Strategaeth Buddsoddiad Cyfalaf hefyd.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â Strategaeth Caffael 2018-2022 y Cyngor.
- Mae canllawiau ac offeryn IIA ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo gweithgarwch gwneud penderfyniadau.
- Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac mae modd eu harchwilio. Mae pob cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â diffiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Anogir gweithgarwch Craffu cyn gwneud penderfyniadau pan fo modd.

- Y Rhaglen Trawsnewid.
- Mae Rhestrau Cyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gael ar CeriNet.
- Cynllun Gweithredu Grŵp DLICD.
- Cyflwynir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, ac adroddiad monitro 2020-2021 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol i'w gymeradwyo, ac ar ôl eu cymeradwyo, fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Safonau'r Gymraeg ac adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg Blynyddol.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2020/21 i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol ar 27.10.21 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 9/12/21.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:

- Mae arweiniad ac offeryn IIA ar gael a chyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau.
- Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen i Reolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr laith Gymraeg a defnyddio'r IIAs, ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac MO (CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.
- Cyhoeddir Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 24.9.10) gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau, Rheolwyr Uwch a Rheolwyr ar CeriNet ac maent ar gael i bob Aelod o Staff.
- Diwygiwyd dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn rheolaidd (9.9.2021, 3.6.2021).
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddaru'n rheolaidd a chymeradwywyd y fersiwn cyfredol dyddiedig 2021/22 Ymlaen gan y Cyngor ar 5.3.2021.
- Mae offeryn coeden benderfynu ymgynghori yn cynnwys adran sy'n cynnig arweiniad ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori.
- Her gyllid ynghylch arbedion ar Wefan y Cyngor.

- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol:
    - Adroddiad Gwasanaeth y Prif Swyddog Corfforaethol;
    - Bwrdd Perfformiad; a
    - Chyfarfodydd Panel Gweithredol.
- Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.
- Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.
- Defnyddir calendr i adrodd terfynau amser a chyhoeddir dyddiadau Bwrdd/Panel Gweithredol gydag adroddiadau.
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022.
- Mae gan BGC Ceredigion Gynllun Llesiant Lleol a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol.

- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant Lleol gan y BGC sydd wedi cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol ac Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r holl brosiectau cydweithio mawr wedi pennu trefniadau llywodraethu a rheoli gan gynnwys rheoli risg.
- Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir gan IA hefyd ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.
- Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf LGEW 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl ac a rennir

(sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).

- Sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect Corfforaethol er mwyn ffurfioli gweithgarwch datblygu a rheoli prosiectau.
- Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael.
- Mae hyn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried y canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Mae'n helpu i nodi'r gofynion ynghylch cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.
- Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd.
- Fframwaith Cyllideb.
- Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb.
- Mae Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol wedi cael eu diweddaru. Datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog.
- Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.
- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Cymeradwywyd Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021.
- Mae'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniadau gwasanaeth a ddymunir.
- Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisïau ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adroddwyd amdanynt yn rheolaidd.
- Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.

E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo:

- Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Rheolwyr Uwch yn cyflwyno yn y sesiynau wyneb-yn-wyneb hyn.
- Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Darparir hyfforddiant parhaus i Aelodau a threfnir darpariaeth ynghylch materion penodol e.e. rheoli Trysorlys, a hefyd, cynhelir adolygiad parhaus o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddaru, gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol (defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau) a darparir rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022), a fydd yn cynnwys modiwlau e-ddysgu ychwanegol.
- Cynllun datblygu aelodau.
- Mae paratoadau yn cael eu gwneud ar gyfer (fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet, hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg (rôl), hyfforddiant am Ddyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl).
- Cyflawnwyd Datblygiad/Hyfforddiant fel rhan o fanylebion person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).
- Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion a darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant diweddaru a sgiliau parhaus.
- Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnrwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae ei gyflwyno wedi gwella effeithiolrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch ymsefydlu ar gael, ynghyd â'r Pecyn Cymorth i Reolwyr a'r llawlyfr Staff.
- Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff, a hefyd, cynigir cyfleoedd i'r rhai sy'n cyflawni Rôl Arwain neu y maent yn dymuno bod yn arweinwyr. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.
- Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.
- Mae pecyn cymorth cynllunio Gweithlu Strategol yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddiant a dysgu pob maes gwasanaeth.
- Mae Arfarniadau Perfformiad yn cofnodi anghenion hyfforddiant a datblygu trwy system Ceri.

- Cynllun Perfformiad a Datblygiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.
- Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.
- Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac ar ôl hynny, paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn darparu gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.
- Gall yr holl Staff fanteisio ar ddigwyddiadau dysgu a datblygu trwy gyfleuster hunan-wasanaeth Ceri. Yn ogystal, gall rheolwyr archebu lle i Staff ar ddigwyddiadau perthnasol trwy'r cyfleuster Hunan-wasanaeth i Reolwyr.
- Cryfhawyd cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wrth gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.
- Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer datblygiad Staff mewn themâu allweddol.
- Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).
- Defnyddio ymarferion meincnodi ac ymchwil.
- Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
- Gweithrediad effeithiol partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys:
    - Gwella Ysgolion;
    - Iechyd a Gofal cymdeithasol a
    - Gwastraff.
- Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Mae Strategaeth Adnoddau Dynol ar gael ar y Fewnrwyd.
- Cyflawnir gwaith cynllunio gweithlu strategol gan ddefnyddio'r pecyn offer cynllunio gweithlu Strategol a chaiff hwn ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Cyfrannodd canlyniadau'r pecyn cymorth hwn at y cynllun

gweithlu ar gyfer 2017-2022. Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn canolbwyntio ar 4 thema allweddol:

1. Ymgysylltu a Chyfle;
2. Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth;
3. Hyrwyddo gweithlu dwyieithog; a
4. Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

- Adroddir diweddariadau am gynnydd y cynllun gweithlu i'r pwyllgor craffu.
- Mae'r strwythur Arwain a Rheolwyr Uwch wedi diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.
- Cynhelir gweithgarwch cynllunio ar gyfer olyniaeth trwy gyfrwng trafodaethau a chamau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a gyda phartneriaid ac ni ellir wastad dangos tystiolaeth o hyn. Datblygir hyn ymhellach trwy gyfrwng y pecyn cymorth cynllunio gweithlu Strategol.
- Mae cyfarfod ar y cyd o Reolwyr Uwch yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.
- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol gan swyddi mewn ffordd glir.
- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau (Rhan 3.4 Tabl 4) a Swyddogion uwch (rhan 2 Erthygl 2) ac mae Cynllun Dirprwyo (Y Cyfansoddiad Rhan 3.5) yn bodoli ac yn nodi cyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion yn glir.
- Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent.
- Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).
- Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym.
- Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol.
- Adolygir Rheolau Gweithdrefnau Contract ('CPR') (Rhan 4 Dogfen G Cyfansoddiad) a Rheoliadau Ariannol a gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F Cyfansoddiad) yn rheolaidd e.e. diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019.
- Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.
- Mae'r CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
- Ar 15.10.21, penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau

Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC'), sy'n cynnwys disgrifiad o rôl yr Arweinydd (Paratowyd adroddiad er gwybodaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 19.1.21).

- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Trefnir Gweithdai Aelodau yn ôl yr angen.
- Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a grwpiau ffocws Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Polisi Ymgysylltu Cymunedol.
- Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Pwyllgor Craffu (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda phreswylwyr lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sir yn barhaus er mwyn deall eu safbwyntiau a'u barn wrth ddatblygu cynlluniau a/neu strategaethau newydd. Rhoddir ystyriaeth briodol i adborth cyn cytuno ar fersiynau terfynol.
- Cyflawnir gweithgarwch hunan-asesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.
- Anogir a chynorthwyir aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Gweithredu polisïau Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg a Pholisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff e.e. cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.
- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
    - Gwasanaeth cwnsela; a
    - Chyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:
    - Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;

- Cynllun gofal llygaid;
- Cynllun talebau gofal plant;
- Iechyd Da; a
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:

- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019 ac mae'r Fframwaith yn cael ei ddiweddaru o hyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ffurfio strategaethau a chynlluniau, gan ystyried y risgiau a achosir gan bandemig COVID-19
- Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Adroddir diweddariadau yn ystod pob Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn cynnig gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau.
- Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd a chyfeirir Trawsnewid a Risgiau i Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar y cyd.
- Roedd yr holl Gynlluniau yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys:
  - Y Cynllun Ariannol tymor Canolig;
  - Cynlluniau Busnes (lefel 1); a
  - Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).
- Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni.
- Caiff trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd a chaiff gweithgarwch rheoli risg ei gynnwys mewn rhaglenni archwilio sefydliad/gwasanaeth Gwasanaethau unigol.
- Mae 'risgiau' yn sail i raglenni gwaith archwilio yr Archwilwyr Mewnol, fel sy'n ofynnol gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana. Diweddarwyd templed adroddiadau Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at

oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo/asedau a risgiau.

- Mae Perfformiad Corfforaethol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran Risg.
- Diwygiodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella'r broses o fonitro ei gynlluniau busnes a'i ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ('NSI'), PAM a Dangosyddion Lleol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Amcanion Gwella a Llesiant a Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 hefyd.
- Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith priodol nhw.
- Cyflawnir gweithgarwch Monitro Risg Prosiectau Penodol a chaiff yr holl Risgiau eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).
- Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21 a chymeradwyodd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21 ym mis Hydref 2020 (Yn ogystal, cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-2021 gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor ar 15.9.21, a chan y Cabinet ar 5.10.21).
- Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaeth.
- Asesiadau mewnol ac allanol gan:
    - Archwilio Cymru;
    - Estyn;
    - Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGGC'); Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('ICPO'); a
    - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO').
- Asesiadau allanol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad.
- Hunanasesiad (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) – mae ymarfer hunanasesu yn mynd rhagddo i'w gyflwyno yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10.3.2022.
- Mae Gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrics perfformio.
- Mae IA yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriaid / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS.
- Perfformiad costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).

- Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau. Darparir cyngor gan y Prif Swyddog Ariannol hefyd.
- Mae gofynion adrodd yn mynnu bod goblygiadau/cyngor cyfreithiol ac ariannol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol.
- Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac maent ar gael i'w harchwilio gan gynnwys.
- Dewisiadau ar gyfer argymhellion.
- Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau ar unrhyw adeg a gwahoddir Cadeiryddion Craffu i fynd â materion yn ôl gerbron y Cabinet
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfeirio materion i'r pwyllgor Craffu ac mae'n cael adroddiadau yn ôl.
- Mae croeso i'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.
- Cytundeb am y wybodaeth y bydd gofyn ei chael a'r amserlenni
- Mae trefniadau craffu mewn grym a gefnogir ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel "cyfaill beirniadol". Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a chyn gwneud penderfyniadau, sy'n swyddogaeth craffu, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.
- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Protocol Trosolwg a Chraffu Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith.
- Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i geisio safbwyntiau'r cyhoedd, a gesglir trwy gyfryngau cymdeithasol a'u rhannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn iddynt eu hystyried.
- Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol BGC.
- Gwaith a gyflawnir gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLICD.
- Cyhoeddir adroddiadau a hefyd, yr holl agendâu, cofnodion, Blaenraglen Waith a phob Cylch Gorchwyl ar wefan y Cyngor.
- Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu.
- Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn.

- Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau a'r Cabinet e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd, y caiff Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu gwahodd i'w harsylwi law yn llaw â chyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.
- Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i'r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad i'w gynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet.
- Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad) a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad) oll wedi cael eu diweddaru. Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe'u hadroddir i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae IA yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd.
- Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Corfforaethol, CORP04 Risg ac mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob mis.
- Asesir risg y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol; i gynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol Rheoli Risg, a phrofi'r trefniadau rheoli lliniarol sydd mewn grym ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2021-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021, ac mae'n parhau i ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan y pandemig.
- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i Reolwyr yn amlygu'r risgiau o beidio gweithredu unrhyw gamau IA a argymhellir. Cynhelir archwiliad dilynol o'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir. Os bydd CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir am hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac mae gan hwn y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr hwnnw fynychu ac esbonio'r rheswm dros beidio sicrhau cydymffurfiaeth.

- Bydd yr Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr lle y mae'n nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch defnyddio ei adnoddau.
- Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Busnes a Materion Brys i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Parhad Busnes a Materion Brys Meysydd Gwasanaeth a Chorfforaethol, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ymarferion i ddangos tystiolaeth o risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn ymateb iddynt.
- Mae gwerthuso risg wastad yn ymddangos ar agendâu.
- Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021, adroddwyd am y cyfnodau dilynol ar 19 Ionawr 2022, 10 Mawrth 2022 a'r 6 Mehefin 2022).
- Darparir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch y sicrwydd a roddir yn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol IA ar gyfer 2020/21 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021 a'r Adroddiad Blynyddol AM ar gyfer 2021/22 wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 6 Mehefin 2022.
- Adolygiadau IA dilynol i fonitro gweithrediad y camau gweithredu gofynnol.
- Caiff trefniadau rheoli mewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19/01/2022) a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol.
- Cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ynghylch Rheoli Risg Twyll a Llygredd ('CIPFA', 2014).
- Mae gan Archwilwyr Mewnol weithdrefnau yn eu lle os darganfyddir twyll.
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Gwrth Dwyll achrededig.
- Mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn dal Tystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe'i hysgrifennwyd mewn perthynas â'r Cod Ymarfer a'i diweddaru i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.

- Mae IA yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach) ac mae'n cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn (Cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Mehefin 2022.
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan IA ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati);
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig o'r Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd;
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Archwiliwyd taliadau grant COVID-19 cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer);
- Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn gwirio trefniadau rheoli, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref
- Cymeradwywyd DLIB 2020/21 gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 gyda'r Datganiad o'r Cyfrifon. Mae DLIB yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Cynhelir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch IA. Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSIAS, a gaiff ei hunanasesu a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Cynhelir adolygiad cymheiriaid bob 5 mlynedd (adolygiad diweddaraf gwblhawyd ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn).

- Mae IA yn cynnig sicrwydd unigol i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – yna, defnyddir y rhain i gynnig lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd bob blwyddyn, sy'n cyfrannu i'r DLIB.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus (gweler pwynt G3.2 isod).
- Mae dau aelod o'r tîm yn astudio am gymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod o grŵp y gwrthbleidiau (tan fis Mai 2022, pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021).
- Gwaith paratoi parhaus a gweithredu newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf 2021. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mewn adroddiad yn ystod Cyfarfod ar 24.2.2021, o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r newid enw, ynghyd â newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad.
- Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018.
- Cyflwynwyd adroddiad am y diweddaraf am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3.6.2021, gan gynnwys rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:

  - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac
  - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag:
    - adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor;
    - ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor;
    - ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor;
    - adolygu swyddogaeth delio gyda chwynion y Cyngor; a'r
    - rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022).
- Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratoadau ar gyfer:

- newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad (gan gynnwys argymhellion i'r Cyngor gan y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad a newidiadau i'r Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23.9.2021);
- newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
- Bydd yr aelodaeth yn cynnwys 2/3 Chynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y diffinnir yn y Ddeddf) – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21);
- Dyletswydd y pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;
- Rhaid i'r cadeirydd fod yn unigolyn lleyg – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21) a phenodir y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg;
- Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
- Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.

- Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y penderfyniad i newid ei faint o fis Mai 2022 (9).
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Aelod Lleyg effeithiol ac ystyrir bod Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyd-fynd â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelod Lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a therfynu cyfnod yr aelodau lleyg presennol yn y rôl. Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.
- Mae manylion aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, rhoddir cyngor gan MO a chyfarfodydd rheolaidd hefyd, yn ôl yr angen rhwng MO a'r Cadeirydd, ac MO, CMIA ac Archwilio Cymru.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol, Archwilio Cymru (gyda a heb Swyddogion)
- Hyfforddiant i Aelodau a rhoddir hyfforddiant/diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu grŵp rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Cymeradwywyd Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022 ac mae'r holl bolisïau wedi cael eu diweddaru, gan gynnwys (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019):

- Polisi Diogelu Data a GDPR;
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth; a
- Pholisi Rheoli Cofnodion.

- Mae swyddogion yn ystyried cyflwyno hysbysiadau preifatrwydd mewn perthynas â cheisiadau i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Mae hyfforddiant wedi'i amserlennu ar gyfer Aelodau ar eu rhwymedigaethau o dan y GDPR fel rhan o'r hyfforddiant newydd i Aelodau ac mae adran ar y ddeddfwriaeth honno bellach wedi'i chynnwys yn y protocol ar gyfer Aelodau wrth gynllunio.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwlau hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth.
- Swyddog Diogelu Data Dynodedig.
- Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.
- Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:
  - Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a
  - Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')
- Yn ogystal, mae'r Grŵp Diogelu Data Corfforaethol a'r Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau yn ystyried diogelwch Gwybodaeth.
- Gweithredwyd Archwiliad Mewnol Rheolaidd o ofynion a gweithdrefnau Cofrestru diogelu data yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru.
- Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth.

  ***Mae'r cytundeb yn set gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol oddi tanynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.
- Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.
- Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.
- Asesiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad.
- Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.
- Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.

- Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.
- Amserlen Gadw – fe'i chyhoeddir ar y fewnrwyd bellach.
- Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod blwyddyn 2013-14 ac fe'i diweddarwyd mewn ffordd sylfaenol a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS Gyfredol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2018/2019 ond mae bellach wedi cael ei diwygio i adlewyrchu setliad refeniw amodol 2021/2022 a'i diweddaru i:
    - Adlewyrchu effaith COVID-19
    - Adlewyrchu 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'
    - Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid
    - Rhagweld pwysau o ran y costau yn y dyfodol
    - Adlewyrchu newidiadau data, rheoliadau, cynlluniau, polisïau a strategaethau

  ac fe'i chyflwynir i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 23,2,2021, gyda'r nod o gyflwyno'r gymeradwyaeth i'r Cyngor ar 5.2.2021.
- Bellach, mae hwn yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r MTFS yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddaru o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch blynyddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.
- Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.
- Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sy'n meddu ar gyfrifoldeb dros Gyllid.

G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

- Gwefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.
- Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Cyngor.
- Cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg.
- Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.
- Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogi â'r cyhoedd gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder.
- Cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru) 2020, sy'n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd a gofynion ynghylch mynediad i'r cyhoedd/cyhoeddi dogfennau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.
- Mae Map ffyrdd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion ynghylch y gwasanaethau ddarparir oherwydd pandemig COVID-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir.
- Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â'r gallu i ddarlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer yn ystod y gaeaf.
- Mae'r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd lle y gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy'n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain.
- Mae manylion cyswllt Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a'r Datganiadau Diddordeb ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar Wefan y Cyngor.

- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion Ceredigion o'r gweithgareddau a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.
- Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor.
- Cymeradwyaeth briodol.
- Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Perchnogaeth o waith cynllunio a thrawsnewid.
- DLlB.
- Mae DLlB y Cyngor yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i ddiwygiwyd yn unol â Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth e.e. wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol oherwydd pandemig COVID-19. Penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a gymeradwyir DLlB e.e. ei ddiweddaru a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 (gyda chyfrifon).
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae'n meddu ar y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol, ac mae'n ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.
- Rhannwyd DLlB gyda chyfrifon, fe'i adolygwyd a'i ddiweddarwyd gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach. Mae Aelodau a Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r DLlB bob blwyddyn.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad). Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn.

Cynhelir gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae IA yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm.

- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol a gyda rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru.
- O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Cyflwynir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021.
- Cynhelir cyfarfodydd misol gydag Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a cheir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro gweithrediad y camau gweithredu cywiro gofynnol.
- Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu yn cael ei datblygu.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Mae dau aelod o Staff yn astudio ar gyfer cymhwyster Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd, ac mae dau yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.
- Mae Swyddogion IA yn astudio am gymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.

- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.
- Mae rôl CMIA yn cael mynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (ac mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau o bell yn ystod pandemig COVID-19).
- Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Cyflawnir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch gweithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 19/01/2022).
- Mae CMIA yn cynnig barn wrthrychol flynyddol am sicrwydd ynghylch prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y Cyngor, ar sail y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac mae'n cyfrannu i'r DLIB.
- Adroddir am gydymffurfiaeth gyda PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bydd cynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (adolygiad diweddaraf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn).
- Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnig sicrwydd, cyngor a dirnadaeth wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus.
- Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan PSIAS.

- Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol Archwilio Mewnol diwethaf ym mis Mai 2022 gan Gyngor Sir Ynys Môn ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2022, ynghyd â'r Cynllun gwella.
- Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.
- Cynllun Llesiant a chylch gorchwyl BGC, ac adroddiad blynyddol gan BGC.
- Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.
- Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.

4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin fel rheol (cyflwynwyd ar 6 Mehefin 2022). Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Caiff manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd, eu nodi yn yr adroddiad.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwyso CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid ym Mis Mai 2022, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion PSIAS, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Darparwyd Adroddiad am Gynllun Gweithredu Cynnydd a Blwyddyn Gyfredol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Mehefin 2021.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2021-30/6/2021 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021 a'r cyfnodau dilynol adroddwyd ar 19 Ionawr 2022, 10 Mawrth 2022 a'r 6 Mehefin 2022) yn cynnwys y camau gweithredu a gymrwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae strwythur staffio y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gyflawn yn ystod y flwyddyn 2021-2022.

Ar 24 Chwefror 2021 hefyd, cyflwynodd CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2021/22 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n cael eu cario ymlaen neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor, er enghraifft, rwymedigaeth daer i ddyfarnu grantiau amrywiol i fusnesau cymwys yn y Sir, ac oherwydd hawliadau twyllodrus posibl, mae'r Archwiliad Mewnol wedi parhau i adolygu sampl o geisiadau cyn talu (mae'n haws stopio taliadau nag adfer yr arian wedi hynny), gan ychwanegu gwerth i weithrediadau'r Cyngor o ganlyniad i amgylchiadau sy'n newid, fel y'i cefnogir gan nodiadau arweiniad y Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol.

Daeth yr CMIA i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2021/22 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 06/06/2022 bod gan y Cyngor fframwaith boddhaol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol ar waith i reoli cyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn, sy'n seiliedig ar:

- y nifer, y cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022,
- a'r ffaith bod y rheolwyr (pan ar gael) wedi derbyn y camau a gymrwyd,

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliadau penodol wrth archwilio grantiau EIG a PDG.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae'n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol, roedd Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr am faterion: E.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, Pennaeth TG, Cyfreithiol, AD a rhywfaint o gynrychiolaeth adrannol. Mae hwn yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') sy'n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir o bryd i'w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch;
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt;
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn gyfarfod Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Polisi Gwasanaeth (Dirprwy HOS ICT&CS); a
- Chyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor.

Yn ogystal:

- ITSO yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (Cymru WARP) sy'n cwrdd bob chwarter.
- IRMO yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae IRMO yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 9/10.

Mae cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion craidd Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/SOLACE yn cynnig arweiniad i'r holl Aelodau a Swyddogion am yr agenda lywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas i'w diben.

Pandemig y Coronafeirws

Oherwydd argyfwng pandemig y coronafeirws, caewyd holl swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd ar 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni'r argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa frys a gododd o ganlyniad i'r pandemig, ac er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor a'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle y bernir bod y penderfyniad yn un brys ac y byddai unrhyw oedi'n niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol, rhoddodd Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch ymateb y Cyngor i COVID-19.

Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unol â rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor.

Mae Hysbysiad y Cofnod o Benderfyniadau Brys ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen y Cyngor ar gyfer Strwythur Llywodraethu er mwyn gwneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 (https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coronavirus-covid-19/governance/). Adolygwyd y penderfyniad, ac ym mis Hydref 2020, Chwefror 2021, Mawrth 2021 a Mai 2021, cymeradwyodd yr Arweinydd benderfyniadau diwygiedig (ar gael ar wefan y Cyngor hefyd).

Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur wedi'u cynnal er mwyn trafod pandemig COVID-19 a dulliau o ymdrin yn effeithiol â'r sefyllfa. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn dal i gwrdd sawl gwaith yr wythnos.

Sefydlwyd fforwm y Grŵp Rheoli Aur ar unwaith i hwyluso gweithrediadau a darparu proses gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, ac roedd yn cynnal cyfarfodydd rhith bob dydd.

Daeth swyddogaeth Weithredol Dros Dro i drosglwyddo pwerau i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 tan nawr, mae'r Grŵp Rheoli Aur wedi bod yn gwneud penderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae llythyr Archwilio Cymru i'r Cyngor ynghylch Adfer yn sgil COVID-19 – Sicrwydd Dros Dro, dyddiedig 19 Hydref 2020, yn crynhoi ei gasgliadau dros dro ar sail camau parhaus i fonitro'r broses o addasu i effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at y bwriad, yn rhan o drefniadau addasu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, i'r Lòg Penderfyniadau gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac i adroddiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu

Trosolwg a Chraffu. Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 a chyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2020, a oedd yn nodi cynnwys yr Adroddiad a chynnwys Lòg Penderfyniadau cyfarfodydd y Grŵp Arwain COVID-19, sef y Grŵp Rheoli Aur.

Cyhoeddwyd y Lòg gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020). Mae'r penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Tachwedd 2020 wedi'u cyhoeddi erbyn hyn hefyd ac mae'r penderfyniadau a wnaethpwyd tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021 yn cael eu paratoi i'w cyhoeddi.

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth yn ddieithriad ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod penllanw cyntaf yr haint ond, yn bwysicach na hynny, nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod unrhyw benllanw yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth wedi'i gweithredu mewn tri chyfnod hyd yma:

- Cyfnod 1: Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cyfnod 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod clo
- Cyfnod 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Mae Cyfnod 3 yn darparu cyfnod addasu rhwng y ddau gyfnod cyntaf a phedwerydd cyfnod, sef y cyfnod adfer. Er mwyn i hynny allu digwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif elfen a fydd yn hollbwysig ar gyfer delio â COVID-19, gan sicrhau ar yr un pryd bod elfennau o'r cyfnod clo yn cael eu llacio'n ddiogel ac mewn dull strwythuredig a reolir. Y tair elfen yw:

Cyfyngu + Ynysu + Dileu

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio'n raddol ac wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut a phryd y gall ailgyflwyno ei wasanaethau neu sut y byddant yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol. Nodir hynny mewn 'Cynllun y ffordd ymlaen' ar wefan y Cyngor.

Gobeithir y bydd sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn er mwyn sicrhau eglurder i holl drigolion Ceredigion.

Ar ôl rhoi'r gorau yn syth ar y dechrau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfarfodydd y Cyngor wedi'u hailgyflwyno ar lwyfan rhith.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd o bell drwy anfon e-bost i'r Gwasanaethau Democrataidd er mwyn cael y manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o gyfarfodydd o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gwylio'r cyfarfodydd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor hefyd.

5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022)

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymrwyd yn ystod 2021-22 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020-2021:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys: • Contractwyr; • Llywodraethwyr Ysgol; • Clercod cynghorau Tref a Chymuned; • Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; • Llywodraethwyr Ysgol. MO a CLO Gwasanaethau Democrataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, y Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol, gan barhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau. Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan • Swyddi cyfarwyddwyr; a • Chyflogaeth arall Gan gynnwys os ydynt yn	Mae hon yn ddyletswydd barhaus. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys: • Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; • Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000. • Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghylch y flwyddyn honno yn unol â 56B Pennod 1 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor. Mae cyngor y Swyddog Monitro i Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn gam gweithredu sy'n parhau, a gyflawnir yn	EP/LE	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio. Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion. Y Swyddog Monitro i roi cyngor i Brif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan: • cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill,	rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system Cerinet. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd Diweddariad am Ddatgelu Buddiannau a Lletygarwch Cyflogeion y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor, gan gynnwys dolenni i ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r Swyddog Monitro. Cyhoeddwyd diweddariad am y Datganiad Cyflogeion a'r Gofrestr Buddiannau, gan gynnwys ynghylch Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau COVID-19 ar gyfer busnesau ar 8 Ionawr 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor. Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddaru'r Cyfansoddiad. Ar hyn o bryd, cynhelir adolygiad sylweddol o'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, a hefyd, y Datganiadau Budd a Lletygarwch ar gyfer Staff. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd a chafwyd mewnbwn gan y Swyddog Monitro, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth a'r Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth Diogelu Data. Yn ogystal, anfonwyd Asesiad drafft o'r Effaith ar Ddiogelu Data i'r Swyddog Diogelu Data ei ystyried mewn perthynas â'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiadau, a rhoddwyd diweddariadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Gyfarfod ar 25.11.2021 (rhoddir diweddariad cynnydd pellach yn ystod ei Gyfarfod ar 19.1.2022). Ar ôl cwblhau proses DPIA, anfonir y dogfennau drafft at y Grŵp Arweiniol, Undebau Llafur a'r Cyngor. Yn ogystal, ystyrir a ddylid cyhoeddi Buddiannau Busnes Prif Swyddogion ar wefannau'r Cyngor, a chynhelir Cyfarfodydd rhwng yr MO, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Diogelu Data a CLO – Pobl a Threfniadaeth.		
A1.3 Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu'r egwyddorion gweithredol safonol hyn fel fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau a chymryd camau eraill	Y Grŵp Arweiniol i gael diweddariad am e-Ddysgu gydag AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol (Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('WFGA'). Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen.	Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu gorfodol ym mis Medi 2017 a than fis Tachwedd 2021, mae wedi cael ei gwblhau gan 2,834 o gyflogeion. O blith y rhain, cwblhaodd 343 y modiwl Cymraeg a chwblhaodd 2,491 y modiwl Saesneg. Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl e-ddysgu, 40 yn Gymraeg a 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). Anfonir nodiadau atgoffa i staff nad ydynt wedi cyflawni'r modiwl eto a bydd y Grŵp Arweiniol yn cael adroddiadau am weithgarwch cwblhau modiwlau e-ddysgu gorfodol o bryd i'w gilydd. Mae adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen yn dasg barhaus, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw. Cyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ddiwethaf i'r Cyngor yn ystod y Cyfarfod ar 23 Medi 2021, a chyn hyn, yn ystod ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2021. Mae Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn	GE EP/HR	Mawrth 2022 Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar 15 Chwefror 2021, 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021, 10 Awst 2021 ac 8 Tachwedd 2021, a bwriedir cynnal y Cyfarfod nesaf ar 11 Chwefror 2022. Mae diwygiadau arwyddocaol i'r Cyfansoddiad wedi cynnwys diwygiadau er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weithredu newidiadau fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru yn ei Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21 (Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2021). Cynhelir ymarfer cymharu o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLILC.		
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	Mae'r Cyngor yn gwneud paratoadau i gydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio (cylch gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad i'w hadolygu): Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; - Yr Aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod	Cyflwynwyd newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Weithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad ar 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021 a 10 Awst 2021, a wnaeth argymhellion priodol i'r Cyngor. Cyflwynwyd Adroddiad am y newidiadau arfaethedig hyn i'r Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23 Medi 2021. Penderfynodd y Cyngor gytuno i'r newidiadau arfaethedig. Cyflwynwyd Adroddiad pellach am newidiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 3 Mehefin 2021, gan gynnwys diweddariadau i'r Cyfansoddiad, gan hysbysu am y gofynion i CJC	EP/AW/HR	Mawrth 2022 Newidiadau ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a Deddf 2021 wedi'u Cwblhau

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	yn unigolyn lleyg; -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.	Canolbarth Cymru i gael Is-bwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Yn ogystal, cyflwynwyd adroddiad am newidiadau dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n effeithio ar y Pwyllgor i'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2021, gan gynnwys recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor. Yna cyflwynwyd y newidiadau a'r cynigion hyn ynghylch recriwtio i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021, ac fe'u cymeradwywyd ganddo. Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad, ynghyd â'r dyddiadau gweithredu perthnasol, gan gymeradwyo: a) newid enw y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â swyddogaethau ychwanegol yn ymwneud â delio gyda chwynion a pherfformiad y byddent yn dod i rym o 1 Ebrill 2021; b) cychwyn ar y broses recriwtio am aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio; c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person. Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21 Mai 2021, a gytunodd argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Yna, cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17 Mehefin 2021 a chytunodd y Cyngor ar y cyfansoddiad hwnnw o ran aelodau o 5 Mai 2022. Mae'r broses recriwtio wedi cael ei chwblhau erbyn hyn, a phenderfynodd y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2021 benodi tri ymgeisydd a argymhellwyd gan Banel Dethol y Rhestr Fer.		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	• Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig.	Mae'r broses o gyhoeddi cofrestr y penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Mae Lòg Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur, cofrestr penderfyniadau, wedi cael ei chyhoeddi a'i diweddaru bob chwarter, a'i chyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur (ac yna ei chymeradwyo), ac wedi hynny, i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (yn fwyaf diweddar ar 1 Rhagfyr 2021 a chyn hyn, ar 16 Mehefin 2021) ac fe'i chyhoeddwyd ar wefan y Cyngor. Cynigiwyd yn y Cyfarfod hwn y dylid cyhoeddi'r Lòg Penderfyniadau yn fwy rheolaidd ac mae MO/Swyddog Llywodraethu yn trefnu y bydd yn cael ei gyhoeddi yn fwy rheolaidd (cyhoeddwyd penderfyniadau a wnaethpwyd tan 30 Tachwedd 2021 a chyhoeddir penderfyniadau a wnaethpwyd tan 31 Rhagfyr 2021 cyn bo hir (Rhagfyr 2021). Yna, cyflwynir y Log Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaethpwyd rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystod ei Gyfarfod ar 10 Chwefror 2022. Mewn perthynas â phenderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygiad. Mae unrhyw waith penderfyniadau eraill yn mynd rhagddo, fodd bynnag, yn arbennig, mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i baratoi Cofrestr Gorchymyn Cadw Coed (TPO).		
	• Gwaith parhaus i fonitro'r niferoedd sy'n dilyn y modiwl e-	O ran y niferoedd a fanteisiodd ar y modiwl Chwythu'r Chwiban e-		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd.	ddysgu Gorfodol, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael)		
	• Adolygir y polisi Cwynion / Canmoliaeth yn ystod 2020- 2021.	Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion Corfforaethol wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd y polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ar 23 Medi. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r Polisi a'r Gweithdrefnau Cwynion 2021 diwygiedig.		Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion / Canmoliaeth wedi cael ei gwblhau
	Darparir hyfforddiant Moeseg / Twyll.	Bellach, mae'r modiwl hyfforddiant Moeseg / Twyll, a baratowyd ar y cyd â Zurich (yswiriwr y Cyngor), wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Anthony Connolly o Zurich ar 28 Mai 2021 yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol. Defnyddir y sleidiau o'r cyflwyniad fel sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff. Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Llywodraethu Mewnol wedi paratoi cwestiynau ac atebion drafft ar gyfer y modiwl e-ddysgu ac mae wedi darparu'r rhain i'r adran Dysgu a Datblygu, a byddant yn eu defnyddio fel sylfaen y modiwl. Cefnogir hyn hefyd gan yr adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Mae archwiliad mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).		
A3.1 Sicrhau	• Bydd Deddf	Fel yr uchod, mae cydymffurfiaeth gyda Deddf	EP	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol	Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratoadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn mynd rhagddynt.	Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn bresennol), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddaru'n rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.		
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Diweddarwyd y polisi FOI ac EIR. Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.	Bwriedir cynnal adolygiad o Gynllun Cyhoeddi FOI yn ystod y flwyddyn nesaf.	LE/AW/MNH	Mawrth 2022
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r	O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur ar hyn o bryd am resymau brys, felly mae'n amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.	Lluniwyd Tudalen Ymgysylltu, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau Cymunedol ar safle newydd Ceri Net. https://cerinet.ceredigion.gov.uk/our-council/community-engagement-consultation-and-partnerships/# Mae hyn yn cynnwys dolenni i'n Rhestr Gyfeirio Polisi Ymgysylltu Cymunedol, Ymgysylltu ac Ymgynghori cyfredol, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori. Bellach, asesir yr holl Asesiadau Effaith Integredig (IIAs) ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys a yw gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori effeithiol wedi digwydd, gan gyfrannu at ein proses strategol o wneud penderfyniadau.	AW/LE/MS	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
canlyniadau arfaethedig	Mae'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol yn destun adolygiad a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.	Lluniwyd Strategaeth Ymgysylltu ddrafft newydd i Gyngor Sir Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022. Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.		
B3.4 Gweithredu mecanweithiau adborth effeithiol er mwyn dangos sut yr ystyriwyd eu safbwyntiau	Mae gofyn gwneud gwaith pellach ynghylch monitro adborth a bydd y swydd Cydraddoldeb ac Ymgysylltu newydd yn rhoi sylw i hyn.	Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs. Cyhoeddir adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau ar ein tudalen ar y we ynghylch ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd. http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/ Cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgysylltu / ymgynghori i'r pwyllgor Craffu a'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu gweithgarwch gwneud penderfyniadau.	AW/MS	Mawrth 2022
C1.5 Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael	Cyhoeddi perfformiad y gwasanaeth gan gynnwys data am y costau a gwerth am arian.	Caiff data perthnasol ynghylch costau a gwerth am arian ei ystyried yn gyson mewn adroddiadau gwasanaeth. Nid yw data ynghylch costau a gwerth am arian yng nghyd-destun rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth, ar gael i nac yn cael ei ddal gan y Gwasanaeth Perfformiad.	AW	Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
D2.3 Ystyried a monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir	Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.	Fel yr uchod, mae'r gwaith yn parhau mewn perthynas â gwneud newidiadau deddfwriaethol, megis newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl a risgiau a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021). Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol yn eu lle mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru drefniadau priodol yn eu lle (Pwyllgor Craffu, Safonau a Llywodraethu ac Archwilio ar y cyd) – trefniadau sy'n cydymffurfio gyda deddfwriaeth a'i Rheolau Sefydlog.	AW/EP	Mawrth 2022
D2.5 Pennu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol perthnasol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn nodi sut y caiff perfformiad gwasanaethau a phrosiectau ei	Mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i gysylltu'r mesurau Perfformiad Lleol gyda holl Amcanion cynllun Busnes lefel 1.	Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 a fydd yn eu tro yn trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Yna, bydd gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer	AW	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
fesur		y flwyddyn.		
F3.5 Sicrhau pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol sy'n annibynnol ar y pwyllgor gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu: mae'n cynnig ffynhonnell bellach sicrwydd effeithiol ynghylch trefniadau i reoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol y gwrandawir ar ei argymhellion ac y gweithredir yn eu cylch	Adolygu cylch gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; -- Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y cânt eu diffinio yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg; -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio. Mae adolygiad yn mynd rhagddo o faint y Pwyllgor Archwilio. Caiff aelodau lleyg eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried unrhyw ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a therfynu cyfnod aelod lleyg presennol yn y swydd.	Fel yr uchod, mae gwaith yn parhau mewn perthynas â newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn adroddiad yn ystod y cyfarfod ar 24 Chwefror 2021, hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r cam o newid enw, a'r newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad. Fel yr uchod, cyflwynwyd adroddiad yn cynnig diweddariad am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y Cyfarfod ar 3 Mehefin 2021, a oedd yn cynnwys rhoi diweddariad i'r pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys: - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag: o adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor; o ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor; o ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor; o adolygiad o swyddogaeth y Cyngor er mwyn delio gyda chwynion; a'r o rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022). Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo (Cyfarfod 23 Medi 2021) diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac	EP/AR/HR	Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		Archwilio, yn dilyn argymhellion y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad. Diweddarwyd y Cyfansoddiad gyda chylch gorchwyl er mwyn adlewyrchu dyletswyddau cyfredol y Pwyllgor o Ddeddf 2021, a chaiff dyletswyddau ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol eu cynnwys yn y cylch gorchwyl ar yr dyddiad priodol.		
G1.1 Ysgrifennu a chyfleu adroddiadau i'r cyhoedd ac i randdeiliaid eraill mewn arddull dealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa dan sylw a sicrhau eu bod yn hawdd troi atynt a'u cwestiynu	Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu newidiadau i'w cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth gyfranogi gyhoeddus gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder.	Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd hefyd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau, er ein bod yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac mae wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor, a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â gallu darlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer dros y gaeaf a bydd y system yn ei lle erbyn mis Mawrth 2022.	LE/AM	Mawrth 2022 (– Wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2022)
G3.1 Sicrhau y gweithredir ynghylch argymhellion sy'n ymwneud â chamau cywiro gan archwilwyr allanol	Monitro cynnydd Camau gweithredu/argymhellion	Dogfennwyd 'Protocol Archwilio Cymru' ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad AW ac y cyflwynir ymatebion gwasanaeth i LG, GAC ac AW. Y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt AW ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion parhaus sy'n ymwneud â llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu. Y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yw'r pwynt cyswllt AW ar gyfer MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad a materion perfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd	EP/AW/SJ	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Protocol (i adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn ei swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 9 Medi 2021. Yn ogystal, mae'r Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol wedi paratoi taenlen ar gyfer MRFs cyfredol, yn ogystal ag MRFs hanesyddol (a gaiff ei monitro gan y Swyddog Llywodraethu), i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Monitro er mwyn monitro ymatebion MRF. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd misol gydag AW i drafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Felly, mae'r camau gweithredu hyn yn parhau, ond mae'r systemau/archwiliadau priodol yn eu lle.		

Sylwer: Caiff unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2022-2023.

6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016),* nodwyd y materion a ganlyn i'w datrys yn ystod 2022-23:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg	MO i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan am letygarwch/rhoddion. MO i barhau i gynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:	Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach.	EP/LE	Mawrth 2023

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	• cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion MO a CLO Gwasanaethau Democrataidd i barhau i adolygu Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, MO i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol a pharhau i ddiweddaru'r Cod Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau Diweddaru ffurflenni Goddefebau i Aelodau Stopiwyd yr arfarniadau oherwydd Pandemig COVID-19 ond maent bellach wedi ailgychwyn (fe'u cynhaliwyd ym mis Mai 2021 ac maent yn parhau i gael eu gynnal dan drefniant rhith).) Cyhoeddir y Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ar ôl iddo gael ei ddiweddaru a'i gymeradwyo. Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Gorfodol ynghylch Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo. Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.			

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.2 Sicrhau bod Aelodau'n cymryd yr awenau wrth sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredu safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff a'u bod yn cael eu cyfathrebu a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)	Camau gweithredu/dogfennau llywodraethu'r Pwyllgor Cynllunio/Rheoli Datblygu wedi'u sefydlu, hyfforddiant i'w roi a chynnydd i'w adolygu yn ystod 2022-2023.	Ymgorffori ymhellach Egwyddorion a gwerthoedd Gweithredu Safonol, gan gynnwys eu cyfathrebu.	EP/LE	Mawrth 2023
A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu eraill	Rhoddir diweddariad i'r Grŵp Arweiniol am e-ddysgu a bydd AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol.	Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl er mwyn gwneud penderfyniadau'n effeithiol.	GE	Mawrth 2023
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisïau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig. Monitro parhaus o'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r modiwl e-ddysgu Gorfodol am Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd. Adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban.	Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau. Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl. Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach.	EP/ HR	Mawrth 2023
A3.1 Sicrhau bod aelodau a staff yn dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith yn ogystal â	Hyfforddiant pellach i'w roi i'r holl Aelodau ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag Egwyddorion Diogelu Data a hysbysiadau	Dangos ymrwymiad cryf i reolaeth y gyfraith a chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol	EP/LE	Mawrth 2023

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
chadw at gyfreithiau a rheoliadau perthnasol	preifatrwydd. Hysbysiadau preifatrwydd i Gynghorwyr yn cael eu datblygu ac i'w rhoi.			
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Cwblhau adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.	Dangos ymrwymiad i fod yn agored.	LE/AW/MNH	Mawrth 2023
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig	Oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid i'r Grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro sydd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004), felly mae wedi bod yn amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn. Parhau i symud ymlaen gyda'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.	Gwella Ymgysylltu â'r Gymuned.	AW	Mawrth 2023
D2.3 Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir	Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.	Rheoli risg a chydymffurfio gyda deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r gyfraith.	AW/EP	Mawrth 2023
G3.1 Sicrhau y	Monitro cynnydd camau	Sicrwydd a rheoli risg	EP/AW/SJ	Mawrth

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol	gweithredu/argymhellion.			2023

7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu gynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o'r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n dod â'r holl godau a'r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Galluogodd hynny y Cyngor i ymateb yn gyflym i'r bygythiadau a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws.

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i'w datrys yn ystod 2022/23 ac mae wedi'u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymrwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig eu cofnodi, fel y bo'n briodol.

8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, trwy gydol 2022/23, a byddwn yn monitro'r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a'r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai'r pandemig atal rhai o'r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23.

Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2022

Datganiadau cyfrifyddu 2021-22 ar gyfer:

Enw'r corff: Awdurdod Harbwr Ceredigion (AHC)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon
	31 Mawrth 2021 (£)	31 Mawrth 2022 (£)	Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	39,564	58,593	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	203,194	213,345	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw.
4. (-) Costau staff	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-)Cyfanswm taliadau eraill	242,758	271,938	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	7,202	30,706	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	-4,977	-22,359	**Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	2,225	8,347	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	0	0	**Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	1,264,433	1,206,637	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Corff, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:	Cyf y Canllaw i Ymarferwyr
	Do	Naddo*		
1. Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer: • rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a • pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu.	◉	○	Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith.	6, 12
2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd.	◉	○	Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth.	6, 7
3. Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Corff gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol.	◉	○	Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny.	6
4. Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	◉	○	Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad.	6, 23
5. Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Corff ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen.	◉	○	Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol.	6, 9
6. Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol.	◉	○	Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	6, 8
7. Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Corff, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu.	◉	○	Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol.	6
8. Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	◉	○	Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	6, 8, 23

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Nodiadau datgelu ychwanegol*

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
1.
2.
3.

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Corff

Y Corff sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Corff, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.	**Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor** Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Corff o dan gyfeirnod cofnod:
	Cyfeirnod cofnod:
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:	**Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:**
Enw: Duncan Hall	**Enw:** Ifan Davies
Dyddiad: 26/01/2023	**Dyddiad:** 26/01/2023

Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Adroddaf mewn perthynas â'm harchwiliad o'r cyfrifon dan adran 13 o'r Ddeddf, pa un a yw unrhyw faterion a ddaw i'm sylw'n rhoi achos i bryderu na chydymffurfiwyd â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer:

Awdurdod Harbwr Ceredigion

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol

Barn archwilio - Diamod

Ar sail fy adolygiad, yn fy marn i, nid oes unrhyw faterion wedi dod i'm sylw sy'n rhoi achos i bryderu, mewn unrhyw ffordd berthnasol, bod yr wybodaeth yr adroddir arni yn y Ffurflen Flynyddol hon:

- heb gael ei pharatoi yn unol ag arferion priodol;
- yn peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddiol;
- yn anghyson â threfniadau llywodraethu'r Corff; ac
- nad oes gan y Corff drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'n defnyddio adnoddau.

Materion eraill sy'n codi ac argymhellion

Nid oes unrhyw faterion pellach nac argymhellion yr wyf yn dymuno'u dwyn i sylw'r Corff.

Enw'r archwiliwr allanol: **Adrian Crompton**	
Llofnod yr archwiliwr allanol: **Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**	**Dyddiad: 30/01/2023**

Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff: Awdurdod Harbwr Ceredigion (AHC)

Mae archwiliad mewnol y Corff, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2022.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Corff a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Corff.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
1. Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn.	◉	○	○	○	Rheolir y cyfrif drwy ledjer ariannol cyfrifiadurol Cyngor Sir Ceredigion, ac fe'i gefnogir gan bapurau gwaith manwl (taenlenni).
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	◉	○	○	○	Gweinyddir taliadau yn unol â Rheoliadau Ariannol a chanllawiau caffael Cyngor Sir Ceredigion.
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli.	◉	○	○	○	Mae'r corff yn glwm wrth drefniadau rheoli risg corfforaethol y Cyngor.
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol.	◉	○	○	○	Mae'r gyllideb wedi ei gosod a chaiff ei monitro yn unol â gweithdrefnau cyllidebol blynyddol Cyngor Sir Ceredigion.
5. Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	◉	○	○	○	Mae'r ffioedd a gesglir yn unol â'r hyn a ddyfynnir yn ffioedd a thaliadau Cyngor Sir Ceredigion ac fe'u gweithredir yn unol â gweithdrefnau incwm Cyngor Sir Ceredigion.
6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW.	○	○	◉	○	Ni chyflwynir cyfrifon imprest ar arian mân i'r Harbwrfestri.
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol.	◉	○	○	○	Gweinyddir cyflogau a'u talu yn unol â threfniadau Adnoddau Dynol a Rheoliadau Ariannol Cyngor Sir Ceredigion.
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol.	◉	○	○	○	Caiff y ddwy gofrestr eu cynnal yn unol â chanllawiau Cyngor Sir Ceredigion.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys **	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	◉	○	○	○	Yn unol â phwynt 4 – caiff y gyllideb ei gosod a'i monitro yn unol â gweithdrefnau ariannol blynyddol Cyngor Sir Ceredigion.
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	◉	○	○	○	Yn unol â phwynt 4 – caiff y gyllideb ei gosod a'i monitro yn unol â gweithdrefnau ariannol blynyddol Cyngor Sir Ceredigion.

Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Naddo*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
11. Pontynau harbwr wedi'u cynnwys yn rhestr yswiriant eiddo Cyngor Sir Ceredigion.	◉	○	○	○	Dogfennau yswiriant – Polisi Perchnogion Eiddo, Crynodeb Perchnogion Eiddo a modiwl Eiddo.
12. Cofrestr Risgiau Corfforaethol – R019: Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol/Llifogydd.	◉	○	○	○	Risg wedi'i chynnwys i fonitro gwaith a wnaed i liniaru'r risg a nodwyd. Y Gofrestr Risgiau yn eitem safonol a Llywodraethu a'r agenda'r Pwyllgor Archwilio.
13. Nodwch y maes risg	○	○	○	○	Mewnosodwch destun

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Corff, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Alex Jenkins, Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol
Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: 
Dyddiad: 07/07/2022

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2023/24**
Pwrpas yr Adroddiad:	**Argymell cymeradwyo Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor 2023/24 y mae'n rhaid i'r Cyngor ei fabwysiadu erbyn 31 Ionawr 2023**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Cyllid a Chaffael Y Cynghorydd Gareth Davies**

1. Cyflwyniad

Ar 27 Ionawr 2022 mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.

Mae rhwymedigaeth statudol i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor llawn yn flynyddol hyd yn oed os na fu newid yn y cynllun ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad yn argymell parhau i weithredu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ar yr un sail â'r cynllun a ddefnyddiwyd yn 2022/23.

Ar 6 Rhagfyr 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 a chaiff y rhain eu deddfu fel y bo'n briodol yn dilyn y ddadl a drefnwyd yn y Senedd ar 17 Ionawr 2023.

2. Cefndir

Ers dileu Budd-dal Treth y Cyngor ym mis Ebrill 2013, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros drefnu cymorth Treth y Cyngor i'r rheini sydd ar incwm isel o'r Adran Gwaith a Phensiynau i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i'r Llywodraethau datganoledig yn yr Alban a Chymru. Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru ddwy set o reoliadau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor sy'n rhagnodi prif nodweddion y cynllun i'w mabwysiadu gan bob Cyngor yng Nghymru:

Y Cynllun Diofyn
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3035/contents/made

Y Cynllun Rhagnodedig
https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2013/3029/contents/made

Mae'r rheoliadau'n caniatáu i hawlwyr dderbyn gostyngiad o hyd at 100% o'u hatebolrwydd i dalu Treth y Cyngor mewn rhai amgylchiadau, a sicrhau bod pob awdurdod lleol yn darparu cymorth yn gyson i'r rhai sy'n talu Treth y Cyngor yng Nghymru.

Er bod cynllun cenedlaethol yng Nghymru, mae disgresiwn cyfyngedig dan Reoliadau Gofynion Rhagnodedig i Gynghorau ystyried tair elfen ddewisol benodol fel y nodir isod. Os yw'r Cyngor yn penderfynu defnyddio'i ddisgresiwn a chynnig disgresiwn lleol mwy hael, byddai hyn yn cynyddu fwy ar gost Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

1. Pensiwn Anabledd Rhyfel, Pensiwn Rhyfel Gwragedd Gweddw a Phensiwn Rhyfel Gwŷr Gweddw

   Ar hyn o bryd, o dan y rheoliadau diystyrir £10 gyntaf y Pensiwn Anabledd Rhyfel, Pensiwn Rhyfel Gwragedd Gweddw a Phensiwn Rhyfel Gwŷr Gweddw wythnosol. Fodd bynnag, mae disgresiwn gan gynghorau i ddiystyru hyd at 100% o'r union swm uwchben y £10 gyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, pan oedd Budd-dal Treth y Cyngor yn dal mewn bodolaeth, penderfynodd y Cyngor, fel y gwnaeth y rhan fwyaf o Gynghorau Cymru, y byddai'n diystyru 100% o'r pensiynau rhyfel uwchben y £10 statudol.

   Y llynedd, penderfynodd y Cyngor y byddai'n diystyru'r pensiynau i gyd uwchben y £10 gyntaf at ddibenion cyfrifo. Yn 2022/23 amcangyfrifir y bydd diystyru pensiynau rhyfel ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn costio tua £3.7k i'r Cyngor.

2. Cyfnod y taliad estynedig i bobl o oedran gweithio sy'n hawlio

   Mae disgresiwn i gynyddu cyfnod y taliad estynedig safonol o bedair wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith, pan fônt wedi bod yn cael budd-dal cymhwysol am o leiaf 26 wythnos.
   Nid oes cyfyngiad ar y cyfnod uchaf y gall cynghorau ystyried ymestyn cyfnod y taliad, ond byddai goblygiadau ariannol i'r Cyngor pe byddid yn mynd y tu hwnt i'r pedair wythnos safonol. Hyd at ganol Tachwedd, dim ond dau daliad estynedig a ddyfarnwyd, yn costio £224.

   Y llynedd, penderfynodd y Cyngor beidio ag ymestyn cyfnod y taliad y tu hwnt i'r pedair wythnos statudol.

3. Ôl-ddyddio hawliadau

   Mae'r rheoliadau cyfredol yn caniatáu ôl-ddyddio hawliadau am uchafswm cyfnod o hyd at dri mis.
   Mae disgresiwn gan gynghorau i gynyddu'r uchafswm cyfnod o dri mis ond byddai ymestyn y cyfnod hwn yn cynyddu cost y cynllun.

   Y llynedd, penderfynodd y Cyngor beidio ag ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio y tu hwnt i'r tri mis statudol.

3. <u>Goblygiadau Ariannol</u>

Ar 30 Tachwedd 2022 roedd 5203 yn dderbynyddion yng Nghynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor. Ariennir y rhan fwyaf o gost taliadau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, ond mae gofyniad o hyd ar Gynghorau i ariannu cost y taliadau sy'n fwy na chyfraniad Llywodraeth Cymru.

Trosglwyddwyd cyllid ar gyfer Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor i'r Cymorth Refeniw ym mlwyddyn ariannol 2013/14 a oedd yn cyfateb i £4.733m yng Ngheredigion. O fewn Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2022/23, roedd Asesiad o Wariant Safonol Ceredigion ar gyfer costau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn £5.126m, yn codi i £5.197m ar gyfer Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2023/24.

Fodd bynnag, o gymharu â'r gyllideb gyfredol ar gyfer 2022/23 sydd ychydig yn llai na £6.3m (yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau), mae mwy na £1.1m o gostau, felly, nad ydynt yn cael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru yn Setliad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae hyn ar waetha'r ffaith mai cynllun a reolir yn genedlaethol yw hwn yn bennaf sydd, yn ymarferol, ag ychydig iawn o ardaloedd disgresiwn lleol nad ydynt ar hyn o bryd yn creu costau o unrhyw bwys.

Mae cyllideb Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn dod dan gyllideb y gwasanaeth Cyllid a Chaffael ac yn un newidiol a gaiff ei chydnabod yn gorfforaethol yn y broses gyllidebu. Mae hyn yn bennaf am fod perthynas uniongyrchol o un flwyddyn i'r llall rhwng y costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun a lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor a bennir gan Aelodau bob blwyddyn.

	A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam	Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at newid Polisi neu Wasanaeth.
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Crynodeb:** **Hirdymor:** Amherthnasol **Cydweithio:** Amherthnasol **Cynnwys:** Amherthnasol **Atal:** Amherthnasol **Integreiddio:** Amherthnasol	

Argymhelliad/Argymhellion: **Argymhellir bod y Cyngor yn:**

1. **Nodi gwneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023;**

2. **Mabwysiadu darpariaethau Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig (2013) fel Cynllun**

Gostyngiadau Treth y Cyngor y Cyngor yn 2023/24, yn amodol ar y disgresiwn lleol y mae'r Cyngor yn gallu ei arfer, fel y nodir isod:

(i) Parhau â'r gostyngiad o 100% uwchben y £10 statudol sy'n cael ei diystyru o safbwynt Pensiynau Anabledd Rhyfel, Pensiwn Rhyfel Gwragedd Gweddw a Phensiwn Rhyfel Gwŷr Gweddw, ar gyfer pensiynwyr a phobl oedran gweithio sy'n hawlio.

(ii) Peidio ag ymestyn y cyfnodau talu estynedig ar gyfer pensiynwyr a phobl o oedran gweithio sy'n hawlio y tu hwnt i'r pedair wythnos safonol a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.

(iii) Peidio ag ymestyn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pensiynwyr a phobl o oedran gweithio sy'n hawlio y tu hwnt i'r tri mis safonol a nodir yn y Cynllun Rhagnodedig.

Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn cydymffurfio â gofyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (Rhagnodedig) lleol cyn 31 Ionawr 2023 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.
Trosolwg a Chraffu:	Amherthnasol oherwydd bod hwn yn gynllun rhagnodedig statudol sy'n gofyn am gymeradwyaeth lawn y Cyngor.
Fframwaith Polisi:	Amherthnasol
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesau a Galluogi Cyflogaeth
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Rhan o broses pennu'r gyllideb. Dim goblygiadau o ran Caffael.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Rhaid i'r Cyngor wneud Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor dan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Er bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu cymhwyso cynllun diofyn pan na fydd y Cyngor yn gwneud cynllun, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor, er hynny, i fabwysiadu ei gynllun ei hun

	hyd yn oed os yw'n dewis peidio â chymhwyso unrhyw un o'r elfennau dewisol.
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau Eiddo/Asedau:	Dim
Risg/Risgiau:	Byddai cynnydd mawr yn y llwyth achosion neu gynnydd yn hawliau Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn creu pwysau costau ar y Gyllideb.
Pwerau Statudol:	Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Dim

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Duncan Hall Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael
Swyddog Adrodd:	Ann Ireland, Rheolwr Corfforaethol - Refeniw ac Asesiadau Ariannol
Dyddiad:	3 Ionawr 2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Adroddiad ar Adolygu Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA') y Cyngor, Dogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol ('Polisi RIPA')**
Pwrpas yr Adroddiad:	**Cymeradwyo'r Ddogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol RIPA a ddiwygiwyd**
I'w:	**Drafod**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd**

Cefndir:

Cyflwynwyd yr adroddiad RIPA diwethaf i'r Cyngor ar 23 Medi 2021 (gweler yr adroddiad ar https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s2012/report%20-%20use%20of%20Regulation%20of%20Investigatory%20Powers%20Act%202000%20RIPA.pdf?LLL=0).

Cyflwynwyd adroddiad ar adolygu Polisi RIPA ac Archwiliad Swyddfa Comisiynydd Pwerau Ymchwilio i'r Pwyllgor Cydlynu trosolwg a Chraffu ar 23 Tachwedd 2022 (gweler adroddiad ar https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s3927/Report%20on%20the%20review%20of%20the%20RIPA%20Policy%20and%20the%20Investigatory%20Powers%20Commissioners%20Office%20Inspectio.pdf?LLL=0).

Adolygu Polisi RIPA
Yn ôl Paragraff 4.47 of the 'Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Guddwylio ac Ymyrraeth Eiddo' (2018) nodir y dylai aelodau etholedig awdurdod lleol adolygu defnydd yr awdurdod o RIPA a gosod y polisi unwaith y flwyddyn. Cymeradwywyd newidiadau mwyaf diweddar i Bolisi RIPA gan y Cyngor ar 23 Medi 2021.

Y Sefyllfa Gyfredol:

Bu i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu nodi'r newidiadau i'r Polisi RIPA Corfforaethol Diwygiedig Drafft a'r ddogfen gweithdrefnau yn y cyfarfod ar 23 Tachwedd 2022.

Yn dilyn y cyfarfod yma gwnaed dau newid i'r Weithdrefn ar gyfer Cyflwyno Cais am Awdurdod i ymgymryd â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig:

- Ychwanegwyd y gallu i Swyddogion Awdurdodi ddirprwyo i'w gilydd pan nad oedd y Swyddog Awdurdodi ar gyfer y gwasanaeth perthnasol ar gael ac mi all oedi gyfaddawdu'r ymchwiliad.

- Ychwanegwyd y dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried cais ar gyfer awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig o fewn 10 diwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Ymgynghorwyd â Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar yr ychwanegiadau yma ac y mae wedi mynegi ei gymeradwyaeth. Mae'r ychwanegiadau yma ar dudalennau 27 a 28 ac wedi ei nodi drwy ddefnyddio newidiadau a draciwyd.

Mae dogfennau diwygiedig RIPA RHAN II Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth ddynol a Dogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol Dada Cyfathrebu ('Polisi RIPA') ynghlwm yn **Atodiad 1** a nodir y newidiadau drwy ddefnyddio newidiadau a draciwyd**.**

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, nodwch pam.** Na ***Crynodeb:*** Nid yw'r adroddiad hwn yn newid mewn polisi na strategaeth **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhelliad (au):	Bydd y Cyngor yn penderfynu: 1. Cymeradwyo'r newidiadau a wnaed i Ddogfennau'r Cyngor RIPA RHAN 11 Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth ddynol a Dogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol Dada Cyfathrebu ('Polisi RIPA') ynghlwm yn **Atodiad 1** fe y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 23/11/22; a 2. Chymeradwyo'r ddau newid pellach a nodwyd yn yr adroddiad yma i'r Weithdrefn Cyflwyno cais Awdurdod Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ym mholisi RIPA (tudalennau 27 a 28 **Atodiad 1**).
Rheswm dros y penderfyniad:	Sicrhau bod Polisi RIPA y Cyngor yn parhau wedi ei ddiweddaru ac y nodir y polisi unwaith y flwyddyn yn unol â Pharagraff 4.47 'Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Guddwylio ac Ymyrraeth Eiddo' (2018).
Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 23/11/22 (https://council.ceredigion.gov.uk/documents/s3927/Report%20on%20the%20review%20of%20the%20RIPA%20Policy%20and%20the%20Investigatory%20Powers%20Commissioners%20Office%20Inspectio.pdf?LLL=0)

Fframwaith Polisi:	RHAN II Dogfen Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth ddynol a Dogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol Dada Cyfathrebu
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Amherthnasol
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Sicrhau bod polisi Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) wedi ei ddiweddaru er mwyn cydymffurfio â'r codau ymarfer.
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo / asedau:	Dim
Risg(au):	Amherthnasol
Pwerau Statudol:	Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA') fel y'i diwygiwyd (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents) Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016') (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents) RIPA Statutory Codes of Practice (http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made)
Papurau Cefndir:	Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu 23/11/22 (gweler agenda, cofnodion ac adroddiadau ar https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=143&MId=316&Ver=4&LLL=0).
Atodiadau:	**Atodiad 1 -** RIPA RHAN II Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth ddynol a Dogfen Gweithdrefnau a Pholisi Corfforaethol Dada Cyfathrebu
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Cyfreithiol a Llywodraethu
Swyddog Adrodd:	Elin Prysor
Dyddiad:	5/1/23

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

CYNGOR SIR CEREDIGION
CEREDIGION COUNTY COUNCIL

DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 ('RIPA') RHAN II

Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol a Data Cyfathrebu

POLISI CORFFORAETHOL A DOGFEN WEITHDREFNAU

- **Mabwysiadwyd gan y Cyngor – 5 Mawrth 2020**
- **Adolygwyd gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol Gorffennaf 2021**
- **Cymeradwywyd gan y Cyngor 23 Medi 2021**
- **Diwygiwyd gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol Hydref 2022**

DRAFT

MYNEGAI

Cynnwys **Tudalen(au)**

Gwyliadwriaeth Gudd – Datganiad Polisi 5

RHAN 1 – Cyflwyniad i Weithgareddau Gwyliadwriaeth a Reoleiddir gan Bennod 2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).....7

RHAN 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.....12

Ystyr 'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig': 12
Y prif bwyntiau i'w nodi: 13
Siart lif 1 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig? 20
Ystyr 'Gwyliadwriaeth Ymwthiol': 21
Siart lif 2 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol? 23
Cyfyngiadau ar ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gudd Gyfeiriedig 24
Uwch lefelau awdurdodi 24
Achosion brys 25
Y Drefn o Wneud Cais am Ganiatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.....26
Rôl y Swyddog Ymchwilio – yr Ymgeisydd 26
Llenwi'r ffurflenni 26
Rôl y Swyddog Awdurdodi 27
Adnewyddu caniatâd.....28
Adolygu caniatâd 29
Canslo caniatâd 29
Siart lif 3 – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig 30
Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi ar Ganiatáu Ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig 31
Terfynau Amser 31
Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi 31
Siart lif 4 – Caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig 35
Gofyn am Gymeradwyaeth Ynad (Cymeradwyaeth Farnwrol) ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig 36
Siart lif 5 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon.....39

RHAN 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ('CHIS') 40

Ystyr Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.....40
Gwerthu i rai o dan oedran 40
Y prif bwyntiau i'w nodi: 41
Siart lif 6 – A ydych yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS)? 43
Y drefn o wneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan RIPA 44
Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc 44
Gweithgarwch Cudd Ar-lein – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA 44
Llenwi'r Ffurflenni 44
Cylch oes caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.....46
Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi sy'n Caniatáu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol: Rheolau a Meini Prawf 46
Y Swyddog Awdurdodi.....46
Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi 47
Siart lif 7 – Caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol 50

DRAFT

Gofyn am Gymeradwyaeth nad ar gyfer Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (Cymeradwyaeth Farnwrol) 51
Cefndir 51
Canllawiau'r Swyddfa Gartref 51
Proses Gymeradwyo'r Ynadon 51
Dewisiadau'r Ynad 52
Apeliadau 52
Siart lif 8 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon 53
Terfynau Amser 54

RHAN 4 – Cofnodion, Trin Data, Trefniadau Diogelwch Wrth Gadw Gwybodaeth, Gwallau a Chwynion 55

Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau 55
Sicrwydd wrth Drin Data a Threfniadau Diogelwch wrth Gadw Gwybodaeth 56
Rhannu gwybodaeth 58
Copïo 59
Storio 59
Dileu a Dinistrio 60
Deunydd Cyfrinachol a Deunydd sy'n Meddu ar Fraint Gyfreithiol 60
Marcio 60
Gwallau 60
Codi pryder 64
Cwynion 64

RHAN 5 – Data Cyfathrebu 65

Ystyr 'Data Cyfathrebu' 65
Ymyrryd â Data Cyfathrebu 70
Cael gafael ar ddata cyfathrebu drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) 71
Asiantaeth Awdurdodi: Y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA') 73
Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu 74
Gwallau Data Cyfathrebu 75
Gwallau Difrifol 76
Caniatáu Caffael Data Cyfathrebu 76
Terfynau Amser 77
Swyddog ar Reng Gymeradwy 78
Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau – Data Cyfathrebu 78
CWYNION 80

RHAN 6 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA' 82

Ystyr 'gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA' 82
Pam cynnal gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA? 83
I. Troseddau nad ydynt yn cael eu cosbi drwy chwe mis o garchar 83
II. Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogeion 83
Gweithgarwch cudd ar-lein – y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol ('SNS') 84
Cydymffurfio â Deddfwriaeth Hawliau Dynol 84
Cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data 85

DRAFT

Y Cod Ymarfer ar Arferion Cyflogaeth o ran Diogelu Data.....85
Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA....86
Ffurflen caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA.....86
Cylch oes caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA.....87
Siart lif 9 – Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA.....88
Siart lif 10 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.....89

Atodlen 1 – Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol.....90

DRAFT

CYNGOR SIR CEREDIGION

GWYLIADWRIAETH GUDD – DATGANIAD POLISI

Cyflwyniad

1. Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') wedi ymrwymo i greu cymuned deg a diogel i bawb drwy sicrhau bod y deddfau a wnaed i amddiffyn unigolion, busnesau, yr amgylchedd ac adnoddau cyhoeddus yn effeithiol.

2. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod sefydliadau ac unigolion gan mwyaf yn deall pwysigrwydd y deddfau hyn ac yn cydymffurfio â nhw. Bydd y Cyngor yn gwneud ei orau glas i'w helpu i gyflawni'u rhwymedigaethau cyfreithiol heb iddynt fynd i gostau diangen na wynebu biwrocratiaeth ddiangen.

3. Ar yr un pryd, mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod y rheini sy'n ceisio diystyru'r gyfraith yn wynebu camau gorfodi sy'n gadarn ond sydd hefyd yn deg. Cyn iddo gymryd camau o'r fath, gall fod angen i'r Cyngor gadw gwyliadwriaeth gudd ar unigolion a/neu safleoedd i gasglu gwybodaeth am weithgarwch anghyfreithlon.

Gweithdrefn

4. Rhaid cadw gwyliadwriaeth gudd yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y ddogfen hon.

5. Rhaid i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau mai dim ond pan fydd yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl ddeddfau perthnasol y bydd gwyliadwriaeth gudd yn cael ei chadw, ac yn enwedig:

   - Deddf Hawliau Dynol 1998
   - Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA');
   - Deddf Diogelu Rhyddidau 2012;
   - Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016')
   - Deddf Diogelu Data 2018

6. Rhaid i'r Cyngor hefyd roi sylw dyledus i'r holl is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys Rheoliadau a Gorchmynion), canllawiau swyddogol a chodau ymarfer, yn enwedig y rheini a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref, Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth, y Comisiynydd Camerâu Diogelwch a'r Comisiynydd Gwybodaeth.

7. Yn arbennig, os bydd y Cyngor yn cadw gwyliadwriaeth gudd, rhaid iddo sicrhau ei bod yn seiliedig ar yr egwyddorion arweiniol a ganlyn:

   - Ni chaiff gwyliadwriaeth gudd ond ei chadw pan fo hynny'n hollol angenrheidiol i gyflawni'r nodau gofynnol;
   - Ni chaiff gwyliadwriaeth gudd ond ei chadw pan fo'n gymesur gwneud hynny ac mewn modd sy'n gymesur;
   - Rhaid rhoi sylw digonol i hawliau a rhyddidau'r rheini nad yw'r wyliadwriaeth gudd yn eu targedu;
   - Rhaid i unrhyw ganiatâd i gadw gwyliadwriaeth gudd gael ei roi gan Swyddogion Awdurdodi sydd wedi'u hyfforddi a'u dynodi'n briodol; a
   - Dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth ynad y caniateir cadw gwyliadwriaeth gudd (sy'n cael ei rheoleiddio gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA').

DRAFT

Hyfforddiant ac adolygiadau

8. Rhaid i bob un o swyddogion y Cyngor sy'n cadw gwyliadwriaeth gudd gael hyfforddiant priodol i sicrhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau cyfreithiol a gweithredol. Dylai'r swyddogion fod yn gymwys ac yn hyderus i gyflawni'u swyddogaethau o dan RIPA. Dylid darparu hyfforddiant atgoffa a dylai'r swyddogion ei gyflawni yn ôl y gofyn. Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymarferion a thrafod unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth. Dylai'r hyfforddiant hefyd gynnwys cyfarwyddyd ynghylch sut i lenwi'r ffurflenni cais.

9. Rhaid cyflawni archwiliadau'n rheolaidd i sicrhau bod y Swyddogion yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

10. Dylid adolygu'r polisi hwn unwaith y flwyddyn i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas at y diben.

11. Rhaid i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu'r Cyngor oruchwylio a monitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni gweithgareddau RIPA, a hynny drwy gael adroddiadau bob chwe mis.

Casgliad

12. Bydd pob dinesydd yn elwa ar y Polisi hwn oherwydd bydd y ddeddfwriaeth droseddol a rheoleiddiol yn cael ei gorfodi'n effeithiol gan ddiogelu'r dinasyddion.

13. O lynu wrth y Polisi hwn, bydd yn sicrhau bod y Cyngor yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â bywydau'r dinasyddion, a bydd yn sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i unrhyw her gyfreithiol yn sgil cadw gwyliadwriaeth gudd.

14. Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn at y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (y Swyddog Monitro a'r Uwch-swyddog Cyfrifol).

Dyddiad ……..

DRAFT

RHAN 1 – Cyflwyniad i Weithgareddau Gwyliadwriaeth a Reoleiddir gan Bennod 2 Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)

Mae Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ('RIPA') yn rheoleiddio'r modd y mae nifer o gyrff, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn cyflawni ymchwiliadau cudd. Fe'i cyflwynwyd i ddiogelu hawliau unigolion ac i sicrhau ar yr un pryd fod gan asiantaethau diogelwch ac asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith y pwerau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'u gwaith yn effeithiol.

Felly, mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') yn rhan o'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol a chael gafael ar ddata cyfathrebu.

Mae rhai adrannau o RIPA wedi'u diddymu a'u disodli gan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016'). Yn ogystal â'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) ei hun, gwnaed sawl set o Reoliadau, ac mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi tri Chod Ymarfer.

Mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i'r Codau Ymarfer a baratowyd gan y Swyddfa Gartref, y gweithdrefnau a'r canllawiau a baratowyd gan Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth a'r Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiynwyr Gwybodaeth wrth baratoi'r canllawiau hyn. Dylai fod gan bob Adran gopïau y gall staff gyfeirio atynt.

Amcanion y ddogfen hon

Amcan y ddogfen hon yw sicrhau bod yr holl wyliadwriaeth gudd (fel y'i diffinnir gan RIPA a deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig) a gedwir gan Swyddogion y Cyngor yn cael ei gynnal yn briodol ac yn gyfreithlon. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â Chod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, Ffynonellau Cudd-wybodaeth Ddynol, Cod Ymarfer Camerâu a Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth gynt). Mae Atodlen 1 (isod) yn rhestru deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol y mae'n rhaid eu darllen ar y cyd â'r ddogfen hon, ond nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.

Os na chaiff y gweithdrefnau a nodir yn y Polisi hwn eu dilyn, gall unrhyw dystiolaeth a gesglir yn sgil cadw gwyliadwriaeth fod yn agored i her ar sail hawliau dynol. Felly, mae'n bosibl na fydd y Llys yn ei derbyn, ac nid yw'n debygol y bydd y Cyngor yn dwyn achos ar sail tystiolaeth o'r fath. Gallai unigolion sy'n honni bod eu hawliau dynol i breifatrwydd a pharch at fywyd teuluol wedi'u niweidio hefyd ddwyn achos yn erbyn y Cyngor. Gweler 'Delio â chwynion gan y cyhoedd' isod.

Cwmpas y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn egluro cyfrifoldeb statudol y Cyngor i gydymffurfio â RIPA a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae'n darparu canllawiau ac yn amlinellu gweithdrefnau'r Cyngor a'r materion iddo eu hystyried mewn perthynas â'r canlynol:

- Gwyliadwriaeth gyfeiriedig – gweler Rhan 2 isod;
- Ffynhonnell Cudd-wybodaeth Ddynol ('CHIS') – gweler Rhan 3 isod; a
- Cael Gafael ar Ddata Cyfathrebu (drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN)) – gweler Rhan 5 isod.

Dim ond i waith gwyliadwriaeth gudd a chyfeiriedig y mae Rhannau 1 – 3 o'r Polisi hwn yn berthnasol h.y. lle nad yw'r unigolyn neu'r unigolion yn gwybod ar yr adeg y mae'r

wyliadwriaeth yn cael ei chadw ei bod yn digwydd. Diben y rhannau hyn yw helpu swyddogion i benderfynu pa fath o wyliadwriaeth y maent yn ei chadw ac a yw Pennod 2 RIPA'n rheoleiddio'r gwaith hwnnw, cadarnhau'r gweithdrefnau perthnasol a darparu arweiniad

Mae Rhan 4 yn delio â chadw cofnodion, trin data, trefniadau diogelu cadw gwybodaeth ac ymdrin â chwynion a gwallau.

Mae canllawiau wyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA hefyd wedi'u nodi (gweler Rhan 6 isod) isod ar gyfer arsylwi neu wyliadwriaeth sydd heb fod yn gudd.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer ar wahân ynghylch cadw gwyliadwriaeth gan ddefnyddio camerâu teledu cylch cyfyng (ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/update-to-surveillance-camera-code a https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1035067/Surveillance_Camera_CoP_Accessible_PDF.pdf)

Cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (OSC) (Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) bellach) gyhoeddiad Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd ar wahân ar y trefniadau gorchwylio ar gyfer gwyliadwriaeth gudd ac ymyrryd ag eiddo a gyflawnir gan awdurdodau cyhoeddus a gweithgareddau'r ffynonellau perthnasol (2016)(ar gael yn: https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/OSC-PROCEDURES-AND-GUIDANCE.pdf).

Cafodd y Codau Ymarfer Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol ac Ymyrryd â Chyfathrebu eu diweddaru yn 2022 yn unol â Rheoliadau Pwerau Ymchwilio (Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol ac Ymyrryd: Codau Ymarfer) 2022.

Cyfrifoldeb statudol Cyngor Sir Ceredigion

Mae cyfrifoldeb statudol ar y Cyngor i gydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998, sy'n cynnwys Erthyglau a Phrotocolau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Ddiogelu Hawliau Dynol ('ECHR') y bernir eu bod yn berthnasol yn y DU. Ni chafodd Brexit **effaith awtomatig** ar Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (HRA 1998), neu ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) y darparwyd ar ei gyfer gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

O dan adran 6 o'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998, nid yw'n gyfreithlon i'r Cyngor weithredu mewn unrhyw ffordd nad yw'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu:

- Bod gan bob unigolyn hawl i barch at ei fywyd preifat a'i fywyd teuluol, ei gartref a'i ohebiaeth; ac
- Na chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio mewn ffordd sydd:
    a) Yn unol â'r gyfraith;
    b) Yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, atal anhrefn neu drosedd, amddiffyn iechyd neu foesau a diogelu hawliau a rhyddidau eraill.

Felly, bydd gwyliadwriaeth yn mynd yn groes i hawliau dynol unigolyn oni bai iddi gael ei chaniatáu o dan RIPA. Mae RIPA'n darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer ymyrraeth gyfreithlon.

Drwy gael caniatâd i gadw gwyliadwriaeth yn unol â RIPA, bydd yn helpu i ddiogelu'r Cyngor a'i swyddogion rhag cwynion eu bod wedi ymyrryd â'r hawliau a ddiogelir gan Erthygl 6 ac Erthygl 8 (1) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sydd bellach wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw ymyrraeth â bywydau preifat y dinasyddion *'yn unol â'r gyfraith'.*

Ar yr amod bod y gweithgareddau hefyd '*yn angenrheidiol ac yn gymesur'* (gweler rhannau dilynol y ddogfen hon i gael mwy o fanylion), ni fyddant yn torri'r ddeddfwriaeth Hawliau Dynol.

Tybir bod gwybodaeth yn wybodaeth breifat os yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat neu fywyd teuluol yr unigolyn o dan sylw neu fywyd preifat neu fywyd teuluol unrhyw unigolyn arall. Mae hyn yn cynnwys unrhyw agwedd ar berthynas breifat neu bersonol yr unigolyn ag eraill, gan gynnwys perthynas deuluol, perthynas broffesiynol neu berthynas busnes. Gall gwybodaeth breifat gynnwys data personol, er enghraifft, enwau, rhifau ffôn a chyfeiriadau.

Er enghraifft, os bydd dau unigolyn yn cael sgwrs ar y stryd, gall fod yn rhesymol iddynt ddisgwyl bod cynnwys y sgwrs honno'n breifat. Fodd bynnag, gall fod angen caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig os bydd awdurdod cyhoeddus yn cofnodi'r sgwrs neu'n gwrando arni fel rhan o ymchwiliad neu ymgyrch.

Felly, gellir caffael *'gwybodaeth breifat'* drwy gadw gwyliadwriaeth gudd gyfeiriedig â chaniatâd hyd yn oed os yw'r unigolyn mewn man cyhoeddus lle y gall fod yn disgwyl llai o breifatrwydd.

Ymhellach, gellir cael gafael ar wybodaeth sy'n ymwneud â bywyd preifat unigolyn pan fydd nifer o gofnodion yn cael eu dadansoddi gyda'i gilydd, neu pan fydd sawl darn o wybodaeth wedi dod i law, yn gudd, er mwyn creu cofnod am unigolyn neu er mwyn prosesu data i gynhyrchu mwy o wybodaeth.

Gall y wybodaeth yn ei chyfanrwydd fod yn gyfystyr â gwybodaeth breifat, hyd yn oed os nad yw'r cofnodion unigol yn gyfystyr â gwybodaeth o'r fath. Er enghraifft, gall swyddogion gorfodi dynnu llun o'r tu allan i safle busnes ar gyfer eu cofnodion heb fod angen caniatâd RIPA arnynt. Fodd bynnag, os bydd y swyddogion am bennu'r patrwm o ran y modd y mae unigolyn yn defnyddio'r safle hwnnw a'u bod yn tynnu lluniau ar sawl achlysur, mae'n debygol y bydd hynny'n arwain at gaffael gwybodaeth breifat. Felly, bydd angen iddynt gydymffurfio â gofynion RIPA.

<u>Rôl yr Aelodau Etholedig</u>

Mae'r Codau Ymarfer statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â RIPA, sef Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, yn datgan y dylai Aelodau etholedig adolygu'r modd y mae'r Cyngor yn defnyddio RIPA a phennu'r Polisi o leiaf unwaith y flwyddyn.

Dylai Aelodau hefyd ystyried adroddiadau mewnol ynghylch y modd y mae RIPA'n cael ei defnyddio yn rheolaidd, a hynny i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio mewn ffordd sy'n gyson â pholisi'r Cyngor a bod y polisi hwnnw'n dal i fod yn addas at y diben.

DRAFT

Rôl yr Uwch-swyddog Cyfrifol

Mae'r Codau Ymarfer statudol a gyhoeddwyd mewn perthynas â RIPA, sef Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018, yn dweud y dylai'r cynghorau benodi Uwch-swyddog Cyfrifol.

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro yw Uwch-swyddog Cyfrifol Cyngor Sir Ceredigion. Dylai fod modd i'r Uwch-swyddog Cyfrifol roi cyngor i'r Swyddogion am y weithdrefn RIPA a dylai fod yn gyfrifol am:

1. Uniondeb y broses sydd ar waith yn yr awdurdod cyhoeddus i ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol ac ymyrryd ag eiddo neu delegraffiaeth ddiwifr;

2. Cydymffurfio â Phennod 2 o RIPA a'r codau perthnasol; ac

3. Ymgysylltu â'r Comisiynwyr a'r arolygwyr pan fyddant yn cyflawni'u harolygiadau, a lle bo angen, goruchwylio'r camau i gyflawni unrhyw gynlluniau gweithredu yn sgil arolygiad a argymhellir neu a gymeradwyir gan Gomisiynydd.

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol hefyd yn gyfrifol am oruchwylio a chydgysylltu:

1. Cyflwyno adroddiadau chwarterol sy'n rhoi manylion am weithgarwch RIPA i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu:

2. Adolygiad blynyddol y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu o'r Polisi hwn

3. Pennu materion sy'n codi yn y broses oruchwylio i sicrhau bod modd dadansoddi'r materion, darparu tystiolaeth o'r canlyniadau, a bwydo'r wybodaeth yn ei hôl i'r hyfforddiant RIPA i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw corfforaethol;

4. Goruchwylio'r broses RIPA'n ffurfiol o fewn y Cyngor, gan gynnwys pennu anghenion hyfforddi unigol a chorfforaethol a rhannu gwybodaeth a

5. Chynnal cofrestr o ffugenwau/persona ar-lein gan gynnwys manylion y gwasanaethau/unigolion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo.

Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO')

Arferai'r IPCO gael ei alw'n Swyddfa'r Comisiynwyr Gwybodaeth (OSC).

Mae Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn darparu ar gyfer Comisiynydd Pwerau Ymchwilio *('y Comisiynydd')*, y mae ei gylch gwaith yn cynnwys darparu goruchwyliaeth gynhwysfawr o'r defnydd o'r pwerau y mae'r cod hwn yn berthnasol iddynt, a glynu wrth yr arferion a'r prosesau a ddisgrifir ynddo.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn gweithredu fel corff rheoleiddio o ran yr agweddau hynny o RIPA a Data Cyfathrebu sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Y Swyddfa hon sy'n arolygu'r awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â RIPA o ran caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig a defnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol. Nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn rhoi cyngor cyfreithiol, ond gall roi arweiniad, lle bo'n briodol, ar gais Uwch-swyddog Cyfrifol awdurdod cyhoeddus.

DRAFT

Gellir gweld Adroddiad Blynyddol yr IPCO 2020 yn: https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/IPCO-Annual-Report-2020_Web-Accessible-version.pdf

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, ei swyddfa a'i waith yn: www.ipco.org.uk.

PO Box 29105
Llundain
SW1V 1ZU

Ffôn: 0207 389 8900

Ebost: Info@ipco.org.uk

Rôl Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO')

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw'r awdurdod annibynnol a sefydlwyd yn y DU i amddiffyn hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd, gan hybu arferion da, annog cyrff cyhoeddus i fod yn agored, sicrhau bod data unigolion yn cael eu cadw'n breifat a rhoi cyngor am safonau. Mae ei harchwiliadau hefyd yn ystyried y modd y mae sefydliadau'n ymdrin â cheisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae rhagor o wybodaeth am Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'w chael yn: ico.org.uk.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Churchill House
Churchill Way
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 0330 414 6421

Ebost: wales@ico.org.uk

RHAN 2 – Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Ym Mhennod 2 RIPA, nodir fframwaith rheoleiddio'r technegau ymchwilio cudd a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8, (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol).

Y mater cyntaf i unrhyw swyddog awdurdod lleol sy'n ystyried cadw gwyliadwriaeth gudd yw pa fath o wyliadwriaeth y mae'n ei gadw, ac **a yw'n rhywbeth y gellir ei ganiatáu o dan RIPA.** Mae Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn un o'r ddwy dechneg wyliadwriaeth sydd ar gael i'r Cyngor o dan Ran 2 o Bennod 2 o RIPA. Yr ail dechneg sydd ar gael yw Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, ond ni all y Cyngor ganiatáu'r drydedd dechneg, sef Gwyliadwriaeth Agored.

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig Gwyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn cadarnhau ym mharagraff 2.2 a 2.3:

'*Surveillance, for the purpose of the 2000 Act, includes monitoring, observing or listening to persons, their movements, conversations or other activities and communications. It may be conducted with or without the assistance of a surveillance device and includes the recording of any information obtained*

Surveillance is covert if, and only if, it is carried out in a manner calculated to ensure that any persons who are subject to the surveillance are unaware that it is or may be taking place.'

Ystyr 'Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig':

Diffinnir Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn A.26(2) o'r Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.

'Subject to subsection (6), surveillance is directed for the purposes of this Part if it is covert but not intrusive and is undertaken -

(a) for the purposes of a specific investigation or a specific operation;
(b) in such a manner as is likely to result in the obtaining of private information about a person (whether or not one specifically identified for the purposes of the investigation or operation); and
(c) otherwise than by way of an immediate response to events or circumstances the nature of which is such that it would not be reasonably practicable for an authorisation under this Part to be sought for the carrying out of the surveillance.'

Fel rheol, bydd awdurdodau lleol yn defnyddio Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig pan fyddant yn ymchwilio i dwyll budd-daliadau, troseddau safonau masnach neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. I wneud hyn, gallant ffilmio unigolyn yn gudd neu ddilyn unigolyn neu fonitro gweithgareddau unigolyn drwy ddulliau eraill.

Cyn cadw gwyliadwriaeth gudd, rhaid i'r swyddog ymchwilio ofyn pum cwestiwn (a chael atebion cadarnhaol i bob un ohonynt), a hynny cyn bod modd pennu bod y gweithgareddau'n gyfystyr â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig:

- A yw'r wyliadwriaeth mewn gwirionedd yn "wyliadwriaeth" *("surveillance")* fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)?
- A fydd yn gudd?
- A yw'n cael ei chyflawni ar gyfer ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol?
- A yw'n debygol o arwain at gaffael gwybodaeth breifat am unigolyn?
- A fydd yn cael ei chyflawni ac eithrio mewn ymateb uniongyrchol i ddigwyddiadau?

DRAFT

*Gweler **Siart lif 1 isod** i asesu a yw'n wyliadwriaeth gyfeiriedig.*

Y prif bwyntiau i'w nodi:

A. Nid yw **arsylwadau cyffredinol** yn gyfystyr â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 3.33):

'The general observation duties of many law enforcement officers and other public authorities do not require authorisation under the 2000 Act, whether covert or overt. Such general observation duties frequently form part of the legislative functions of public authorities, as opposed to the pre-planned surveillance of a specific person or group of people. General observation duties may include monitoring of publicly accessible areas of the internet in circumstances where it is not part of a specific investigation or operation'

B. Dim ond os yw'n **gudd** y mae gwyliadwriaeth yn gyfeiriedig. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 2.3) (yn unol â 26(9)a) RIPA):

'Surveillance is covert if, and only if, it is carried out in a manner that is calculated to ensure that persons who are subject to the surveillance are unaware that it is or may be taking place'

Yn unol â hyn, mae'n ofynnol i swyddogion ymchwilio ystyried y modd y byddant yn cadw gwyliadwriaeth. Os byddant yn ei wneud yn agored, heb geisio'i gelu, neu os byddant yn anfon llythyr at y targed i'w rybuddio cyn cadw gwyliadwriaeth, ni fydd yn wyliadwriaeth gudd.

C. Mae'r diffiniad o ***'wybodaeth breifat'*** *('private information')* yn eang iawn. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 diwygiedig yn datgan:

'3.3 The 2000 Act states that private information includes any information relating to a person's private or family life. Private information should be taken generally to include any aspect of a person's private or personal relationship with others, including family and professional or business relationships. Information which is non-private may include publicly available information such as books, newspapers, journals, TV and radio broadcasts, newswires, web sites, mapping imagery, academic articles, conference proceedings, business reports, and more. Such information may also include commercially available data where a fee may be charged, and any data which is available on request or made at a meeting to a member of the public. Non-private data will also include the attributes of inanimate objects such as the class to which a cargo ship belongs.

3.4 Whilst a person may have a reduced expectation of privacy when in a public place, covert surveillance of that person's activities in public may still result in the obtaining of private information. This is likely to be the case where that person has a reasonable expectation of privacy even though acting in public and where a record is being made by a public authority of that person's activities for future consideration or analysis. Surveillance of publicly accessible areas of the internet should be treated in a similar way, recognising that there may be an expectation of privacy over information

which is on the internet, particularly where accessing information on social media websites'

Yn aml, bydd swyddogion ymchwilio'n tybio'n anghywir nad ydynt yn debygol o gaffael gwybodaeth breifat os ydynt yn gwylio rhywun yn gudd mewn man cyhoeddus neu'n arsylwi ar weithgareddau mewn swyddfa neu ar safle busnes. Nid ydynt yn credu eu bod yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Serch hynny, mae'r rhannau uchod o'r cod yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd modd i awdurdod cyhoeddus ddadlau'n llwyddiannus na fydd gwyliadwriaeth fyth yn arwain at gaffael gwybodaeth breifat.

D. Pan fydd angen cadw gwyliadwriaeth gudd mewn **argyfwng** a phan na fydd amser i ganiatáu'r gweithgarwch (h.y. ymateb brys i ddigwyddiadau), gellir cadw gwyliadwriaeth ond ni fydd angen caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig. Serch hynny, mae'n bwysig nodi na fyddai'r amgylchiadau hyn yn debygol o fod yn berthnasol i'r Cyngor, oherwydd, pe bai'n cael ei herio, byddai'n ofynnol i'r Cyngor ddangos ei fod yn ymateb i ddigwyddiadau ar fryd ac nad oedd yn rhesymol ymarferol i geisio caniatâd. Ni argymhellir gweithredu fel hyn ac os ystyrir bod sefyllfa o argyfwng, dylid ceisio cyngor gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar unwaith.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 diwygiedig yn datgan (ym Mharagraff 3.32):

'Covert surveillance that is likely to reveal private information about a person but is carried out by way of an immediate response to events such that it is not reasonably practicable to obtain an authorisation under the 2000 Act, would not require a directed surveillance authorisation. The 2000 Act is not intended to prevent law enforcement officers fulfilling their legislative functions. To this end section 26(2)(c) of the 2000 Act provides that surveillance is not directed surveillance when it is carried out by way of an immediate response to events or circumstances the nature of which is such that it is not reasonably practicable for an authorisation to be sought for the carrying out of the surveillance.'

Mae Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn rhoi enghraifft o ganiatâd o dan RIPA nad yw'n briodol lle mae swyddogion heddlu yn cuddio eu hunain i arsylwi ar bobl amheus y dônt ar eu traws yn ystod patrôl arferol neu fonitro cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ystod digwyddiad trefn gyhoeddus.

E. Gweithgarwch Cudd Ar-lein

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor (ar gael yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/policies-and-procedures/) yn amlinellu'r hyn y mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo yn ei nodi ynghylch gweithgarwch cudd ar-lein, a'i gyngor perthnasol i helpu Swyddogion i ddeall pryd y gallai fod angen caniatâd RIPA. Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor i gael gofynion a chanllawiau'r Cyngor ynghylch personâu ar-lein.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan (ym Mharagraff 3.10):

"The growth of the internet and the extent of the information that is now available online, presents new opportunities for public authorities to view or gather information which may assist them in preventing or detecting crime or carrying out other statutory functions, as well as in understanding and engaging with the public they serve. It is important that public authorities are able to make full and lawful use of this information

for their statutory purposes. Much of it can be accessed without the need for RIPA authorisations; use of the internet prior to an investigation should not normally engage privacy considerations. But if the study of an individual's online presence becomes persistent, or where material obtained from any check is to be extracted and recorded and may engage privacy considerations, RIPA authorisations may need to be considered. The following guidance is intended to assist public authorities in identifying when such authorisations may be appropriate."

Mae Paragraffau 3.11 – 3.17 o'r Cod hefyd yn cynnwys cyngor perthnasol a fydd yn helpu Swyddogion i ddeall pryd y byddai angen caniatâd RIPA:-

3.11 *"The internet may be used for intelligence gathering and/or as a surveillance tool. Where online monitoring or investigation is conducted covertly for the purpose of a specific investigation or operation and is likely to result in the obtaining of private information about a person or group, an authorisation for directed surveillance should be considered, as set out elsewhere in this code. Where a person acting on behalf of a public authority is intending to engage with others online without disclosing his or her identity, a CHIS authorisation may be needed (paragraphs 4.10 to 4.16 of the Covert Human Intelligence Sources code of practice provide detail on where a CHIS authorisation may be available for online activity).*

3.12 *In deciding whether online surveillance should be regarded as covert, consideration should be given to the likelihood of the subject(s) knowing that the surveillance is or may be taking place. Use of the internet itself may be considered as adopting a surveillance technique calculated to ensure that the subject is unaware of it, even if no further steps are taken to conceal the activity. Conversely, where a public authority has taken reasonable steps to inform the public or particular individuals that the surveillance is or may be taking place, the activity may be regarded as overt and a directed surveillance authorisation will not normally be available.*

3.13 As set out in paragraph 3.14 below, depending on the nature of the online platform, there may be a reduced expectation of privacy where information relating to a person or group of people is made openly available within the public domain, however in some circumstances privacy implications still apply. This is because the intention when making such information available was not for it to be used for a covert purpose such as investigative activity. This is regardless of whether a user of a website or social media platform has sought to protect such information by restricting its access by activating privacy settings.

3.14 Where information about an individual is placed on a publicly accessible database, for example the telephone directory or Companies House, which is commonly used and known to be accessible to all, they are unlikely to have any reasonable expectation of privacy over the monitoring by public authorities of that information. Individuals who post information on social media networks and other websites whose purpose is to communicate messages to a wide audience are also less likely to hold a reasonable expectation of privacy in relation to that information.

3.15 Whether a public authority interferes with a person's private life includes a consideration of the nature of the public authority's activity in relation to that information. Simple reconnaissance of such sites (i.e. preliminary examination with a view to establishing whether the site or its contents are of interest) is unlikely to interfere with a person's reasonably held expectation of privacy and therefore is not likely to require a directed surveillance authorisation. But where a public authority is systematically collecting and recording information about a particular person or group,

a directed surveillance authorisation should be considered. These considerations apply regardless of when the information was shared online. See also paragraph 3.6.

***Example 1:** A police officer undertakes a simple internet search on a name, address or telephone number to find out whether a subject of interest has an online presence. This is unlikely to need an authorisation. However, if having found an individual's social media profile or identity, it is decided to monitor it or extract information from it for retention in a record because it is relevant to an investigation or operation, authorisation should then be considered.*

***Example 2:** A customs officer makes an initial examination of an individual's online profile to establish whether they are of relevance to an investigation. This is unlikely to need an authorisation. However, if during that visit it is intended to extract and record information to establish a profile including information such as identity, pattern of life, habits, intentions or associations, it may be advisable to have in place an authorisation even for that single visit. (As set out in the following paragraph, the purpose of the visit may be relevant as to whether an authorisation should be sought.)*

***Example 3:** A public authority undertakes general monitoring of the internet in circumstances where it is not part of a specific, ongoing investigation or operation to identify themes, trends, possible indicators of criminality or other factors that may influence operational strategies or deployments. This activity does not require RIPA authorisation. However, when this activity leads to the discovery of previously unknown subjects of interest, once it is decided to monitor those individuals as part of an ongoing operation or investigation, authorisation should be considered.*

3.16 In order to determine whether a directed surveillance authorisation should be sought for accessing information on a website as part of a covert investigation or operation, it is necessary to look at the intended purpose and scope of the online activity it is proposed to undertake. Factors that should be considered in establishing whether a directed surveillance authorisation is required include:

Whether the investigation or research is directed towards an individual or organisation;

Whether it is likely to result in obtaining private information about a person or group of people (taking account of the guidance at paragraph 3.6 above);

Whether it is likely to involve visiting internet sites to build up an intelligence picture or profile;

Whether the information obtained will be recorded and retained;

Whether the information is likely to provide an observer with a pattern of lifestyle;

Whether the information is being combined with other sources of information or intelligence, which amounts to information relating to a person's private life;

Whether the investigation or research is part of an ongoing piece of work involving repeated viewing of the subject(s);

Whether it is likely to involve identifying and recording information about third parties, such as friends and family members of the subject of interest, or information posted by third parties, that may include private information and therefore constitute collateral intrusion into the privacy of these third parties.

3.17 Internet searches carried out by a third party on behalf of a public authority, or with the use of a search tool, may still require a directed surveillance authorisation (see paragraph 4.32).

***Example:** Researchers within a public authority using automated monitoring tools to search for common terminology used online for illegal purposes will not normally require a directed surveillance authorisation. Similarly, general analysis of data by public authorities either directly or through a third party for predictive purposes (e.g. identifying crime hotspots or analysing trends) is not usually directed surveillance. In such cases, the focus on individuals or groups is likely to be sufficiently cursory that it would not meet the definition of surveillance. But officers should be aware of the possibility that the broad thematic research may evolve, and that authorisation may be appropriate at the point where it begins to focus on specific individuals or groups. If specific names or other identifiers of an individual or group are applied to the search or analysis, an authorisation should be considered."*

Mae gwylio presenoldeb rhywun ar-lein – yn gudd ac mewn modd systemataidd a rheolaidd – yn gallu codi ystyriaethau preifatrwydd ac felly byddai angen ystyried cael caniatâd RIPA

Yn unol â Pharagraff 4.16 o'r Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo, pan fydd awdurdod cyhoeddus yn bwriadu cael mynediad i gyfrif cyfryngau cymdeithasol neu gyfrif ar-lein arall y rhoddwyd mynediad i'r awdurdod drwy ganiatâd y perchennog, bydd dal angen i'r Awdurdod ystyried a fydd y cyfrif yn cynnwys gwybodaeth am eraill nad ydynt wedi rhoi eu caniatâd ac, os felly, a oes angen cael caniatâd ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

Pan fydd sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd, dim ond un ohonynt fyddai angen cael caniatâd am weithgarwch cuddwylio, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur o dan yr amgylchiadau.

Dylai'r holl weithgarwch gwyliadwriaeth gael ei gofnodi a'i graffu yn gyfnodol at ddibenion gorchwylio. Mae hyn yn sicrhau bod sicrwydd gofynnol gan y Cyngor bod y rhyngrwyd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd reoledig a dealledig.

Rhaid i weithgarwch ymchwil bwrdd gwaith gan staff gael ei fonitro gan y Swyddogion Dynodedig perthnasol y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno manylion cyfnodol am lefelau gweithgarwch mewn perthynas â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Bydd y manylion hyn yn destun rheoli ansawdd ac ymarfer samplo i brofi dealltwriaeth staff o ran ystyriaethau RIPA.

Mae'n bwysig bod swyddogion sy'n ymwneud â meysydd ymchwilio neu orfodi lle nad yw ystyriaethau RIPA mor amlwg, gynnal eu lefelau gwybodaeth a gwybod pwy i gysylltu â nhw i gael arweiniad.

Personâu ar-lein

Pan ganiateir defnyddio'r rhain yn gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog o'r ffugenwau, proffiliau/cyfrifon hyn, ynghyd â manylion y gwasanaethau neu'r swyddogion unigol sydd wedi cael yr hawl i'w defnyddio/i roi caniatâd i'w defnyddio.

DRAFT

Gwybodaeth Gwyliadwriaeth Gudd ar y Cyfryngau Cymdeithasol a Phersonâu Ar-lein

Mae'n ofynnol i Wasanaethau perthnasol y Cyngor wneud y canlynol:

- cofnodi gwybodaeth/data sy'n ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein, gan gynnwys personâu ar-lein (* gweler isod)
- nodi Swyddog Dynodedig
- rhoi'r data hwn i'r Swyddog Dynodedig; a
- rhaid i'r Swyddog Dynodedig ddarparu'r wybodaeth i'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol (Swyddog Llywodraethu) bob 4 mis.

*Bydd yn rhaid i'r Swyddog Dynodedig gadw'r wybodaeth ganlynol:

- pa safleoedd cyfryngol/broffiliau ar-lein yr ymwelwyd â hwy;
- a oedd mynediad I safle(oedd) cyfryngol/broffil(iau) ar-lein wedi'i gyfyngu (rhowch fanylion);
- pryd ymwelwyd â'r safle(oedd) cyfryngau/proffil(iau) ar-lein;
- gan bwy (Swyddog/Defnyddiwr);
- ar gais pwy;
- pwy roddodd ganiatâd;
- manylion yr wyliadwriaeth e.e. cyfeirnod yr achos, ymgyrch, ymchwiliad;
- dyddiad y cais;
- dyddiad mynediad;
- ar ba broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol;
- a ddefnyddiwyd persona ar-lein/proffil ffug/hunaniaeth ffug? Os felly, pa un?
- a ddefnyddiwyd proffil corfforaethol swyddogol? Os felly, pa un?
- sawl gwaith;
- hyd y gwylio;
- at ba ddiben/ar ba sail resymegol yr ymwelwyd â'r safle(oedd) cyfryngol/proffil(iau) ar-lein;
- cadarnhad bod yr unigolyn y mae ei hunaniaeth yn cael ei defnyddio wedi rhoi ei ganiatâd penodol yn ysgrifenedig, a bod ei ddiogelwch wedi'i ystyried, a manylion yr hyn a'r hyn na fydd yn cael ei wneud;
- nod/gwybodaeth a geisir;
- oedd yr unigolyn dan sylw yn ymwybodol o hyn;
- pa ddata gafodd eu caffael (gan gynnwys gwybodaeth anuniongyrchol);
- beth wnaethpwyd ag unrhyw gynnyrch a ddaeth yn sgil hynny;
- manylion y cyfryngau cymdeithasol sy'n berthnasol i'r cais;
- esboniad pam bod angen persona ar-lein a bod dulliau gwahanol yn cael eu hystyried;
- cadarnhau a yw asesiad risg wedi cael ei ystyried/ei gynnal;
- unrhyw ganlyniad, gan gynnwys unrhyw risg i'r Swyddog (ac os nad oes, pam).

Rhaid i swyddogion sy'n defnyddio safleoedd o'r fath hefyd ddilyn y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Corfforaethol (2016) (ar gael ar fewnrwyd y Cyngor (CeriNet).

- *'5.6 Yn ystod oriau gwaith, ni chaiff cyflogeion ond fynd i wefannau cyfryngau cymdeithasol cymeradwy sy'n ofynnol ar gyfer eu swyddi ac edrych ar dudalennau o'r fath.*

- *Rhaid bod modd cyfiawnhau defnyddio gwefannau o'r fath a rhaid i'w rheolwr llinell gymeradwyo gwneud hynny cyn iddynt fynd i wefannau o'r fath.*

DRAFT

- *6.3 Rhaid i staff sy'n gweithio mewn amgylchedd diogelu sylweddoli eu bod yn cyflawni swyddi sensitif. Cyn iddynt ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dylent ystyried a allai eu gweithredoedd arwain at unrhyw bryderon posibl o ran diogelu.*

- *Gwnewch yn siŵr nad yw eich cyfrif Facebook personol yn niweidio eich rôl broffesiynol, dylech sicrhau bod eich gosodiadau preifatrwydd yn briodol.*

- *Peidiwch â defnyddio eich manylion cyswllt yn y gwaith fel rhan o'ch proffil personol*

- *Peidiwch â defnyddio eich proffil personol mewn unrhyw ffordd ar gyfer busnes swyddogol y Cyngor*

- *Ar eich proffil personol – peidiwch â derbyn cais i fod yn ffrind gan aelod o'r cyhoedd os yw'ch perthynas â'r unigolyn hwnnw'n gysylltiedig â'ch gwaith yn bennaf.*

- *Ar eich proffil personol – peidiwch â derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan ddisgyblion (na'u rhieni) nac oedolion sy'n agored i niwed yr ydych yn gweithio gyda nhw.'*

Mae Polisi Cyfryngau Cymdeithasu RIPA y Cyngor yn berthnasol i bob un o weithwyr y Cyngor ac mae'n amlinellu safle'r Cyngor ynghylch defnyddio'r rhyngrwyd, pori ar y we ar ddyfeisiau symudol ac yn benodol gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol, wrth ymwneud â gwyliadwriaeth, a allai gynnwys ymchwiliad, yn unol â RIPA. Dylid darllen Polisi'r Cyngor ar Gyfryngau Cymdeithasol at ddibenion RIPA ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

DRAFT

Siart lif 1 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig?



Ystyr 'Gwyliadwriaeth Ymwthiol':

Mae A.26(3) RIPA yn datgan:

> *'Subject to subsections (4) to (6), surveillance is intrusive for the purposes of this Part if, and only if, it is covert surveillance that—*
> *(a)* is carried out in relation to anything taking place on any residential premises or in any private vehicle; and
> *(b)* involves the presence of an individual on the premises or in the vehicle or is carried out by means of a surveillance device.'

Fel y mae'r enw yn ei awgrymu, mae'r math hwn o wyliadwriaeth yn llawer mwy ymwthiol ac felly mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio mewn modd sy'n diogelu'r dinesydd i raddau mwy helaeth. Dim ond Uwch-swyddog Awdurdodi yn yr awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir yn A.32(6) RIPA neu a ychwanegwyd ati, neu aelod neu swyddog o'r awdurdodau cyhoeddus hynny a restrir yn adran 41(I) neu a ychwanegwyd ati a gaiff wneud cais i gadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol. **Ni chaiff** awdurdodau lleol **ganiatáu gwyliadwriaeth ymwthiol.**

Mae'n dal i fod yn bwysig deall diffiniad Gwyliadwriaeth Ymwthiol oherwydd weithiau gall swyddogion sy'n or-awyddus groesi'r ffin a chadw gwyliadwriaeth o'r fath yn y pen draw. Rhaid gofyn y cwestiynau a ganlyn:

- A yw'n wyliadwriaeth gudd fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA)?
- A yw'n cael ei chyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar unrhyw safle preswyl neu mewn unrhyw gerbyd preifat?
- A yw'n ymwneud â phresenoldeb unigolyn ar y safle neu yn y cerbyd? ac
- A yw'n cael ei chyflawni drwy gyfrwng dyfais wyliadwriaeth ar y safle neu yn y cerbyd?

*Gweler **Siart lif 2** i asesu a yw'r wyliadwriaeth yn ymwthiol.*

Y prif bwyntiau i'w nodi:

A. Pan fyddwch yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar safle, ni all ond fod yn 'ymwthiol' os yw'n cael ei chyflawni mewn perthynas ag unrhyw beth sy'n digwydd ar safle preswyl. Fe'i diffinnir yn A.48(1) RIPA:

   'residential premises" means (subject to subsection (7)(b)) so much of any premises as is for the time being occupied or used by any person, however temporarily, for residential purposes or otherwise as living accommodation (including hotel or prison accommodation that is so occupied or used);'

   Ni ystyrir bod cadw gwyliadwriaeth gudd ar safle busnes yn wyliadwriaeth ymwthiol e.e. lle bo swyddog yn cadw golwg ar ystad ddiwydiannol lle credir bod busnes bwyd yn cynhyrchu fodca 'ffug', neu lle bo siop yn cael ei hamau o werthu tybaco i rai dan ddeunaw, ac ati.

   Serch hynny, rhaid bod yn ofalus os yw'r busnes mewn adeilad sy'n cael ei ddefnyddio fel man byw e.e. rhywun sy'n cael ei amau o gynhyrchu DVDs ffug o garafán sydd hefyd yn annedd breifat i'r person. Ni chaniateir cadw gwyliadwriaeth (sy'n cynnwys ffilmio neu dynnu llun) o bobl mewn mannau byw preifat oherwydd byddai hyn yn cael ei ystyried yn wyliadwriaeth ymwthiol.

B. Nid yw pob math o wyliadwriaeth ar gerbydau'n 'ymwthiol'; rhaid bod y targed yn gerbyd preifat fel y'i diffinnir yn A.48(1):

'private vehicle" means (subject to subsection (7)(a)) any vehicle which is used primarily for the private purposes of the person who owns it or of a person otherwise having the right to use it;'

Gall y cerbyd fod yn gerbyd y mae'r unigolyn yn berchen arno neu'n gerbyd y mae wedi'i fenthyg, ei hurio neu'i brydlesu. Fodd bynnag (yn rhinwedd A.48(7)(a)) nid yw'r wyliadwriaeth yn ymwthiol os yw'r cerbyd targed yn dacsi neu'n gerbyd sy'n cael ei yrru gan *chauffeur,* fel gwasanaeth bws cyhoeddus.

C. Er mwyn i'r wyliadwriaeth fod yn ymwthiol yn hytrach na chyfeiriedig, rhaid iddi gael ei chyflawni pan fydd unigolyn yn bresennol ar y safle neu yn y cerbyd.

Mae'n eithriadol o annhebygol y bydd awdurdodau lleol yn caniatáu i'w staff gadw gwyliadwriaeth drwy fynd i mewn i gerbyd preifat yn gudd. Fodd bynnag, gall swyddog fod wedi'i leoli ar safle preswyl i arsylwi'n gudd ar ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Er mai'r heddlu sydd fel rheol yn cyflawni gwaith o'r fath, rhaid bod yn ofalus. Er enghraifft, gall ymchwilydd brwdfrydig sy'n tynnu lluniau cudd o'r tu allan i dŷ benderfynu symud i safle neu leoliad mwy cudd i gael lluniau cliriach.

D. Gall gwyliadwriaeth fod yn ymwthiol hyd yn oed os nad yw'r swyddog ymchwilio ar safle neu tu mewn i gerbyd ond ei fod yn defnyddio dyfais wyliadwriaeth fel camera, dyfais wrando, peiriant recordio neu hyd yn oed finocwlars.

Fodd bynnag, dylid sylwi ar eiriad A.26 (5):

'For the purposes of this Part surveillance which -

(a) is carried out by means of a surveillance device in relation to anything taking place on any residential premises or in any private vehicle, but

(b) is carried out without that device being present on the premises or in the vehicle, is not intrusive unless the device is such that it consistently provides information of the same quality and detail as might be expected to be obtained from a device actually present on the premises or in the vehicle.'

DRAFT

Siart lif 2 – A ydych yn cadw Gwyliadwriaeth Ymwthiol?



Cyfyngiadau ar ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gudd Gyfeiriedig

Cyflwynwyd rhagor o gyfyngiadau o ran y modd y mae'r awdurdodau lleol yn defnyddio RIPA yng Ngorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012 (OS rhif 1500) (gweler paragraff 4.44 o God Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018).

Mae'n rhwystro Swyddogion Awdurdodi awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, rhag caniatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig oni bai ei bod yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd a'i bod yn bodloni'r amodau a ganlyn:

- Bod modd cosbi'r drosedd i'w hatal neu'i chanfod drwy uchafswm o chwe mis o garchar o leiaf neu
- Ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 (gwerthu alcohol i blant) neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (gwerthu tybaco i blant o dan 18 oed).

Nid yw'r '*trothwy trosedd'* hwn yn berthnasol i'r broses o ganiatáu i'r awdurdod lleol ddefnyddio ffynonellau cuddwybodaeth ddynol neu gaffael data cyfathrebu.

Mae'r diwygiadau i'r ddeddfwriaeth yn dal i ganiatáu i'r Cyngor ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ond dim ond mewn achosion mwy difrifol, cyhyd â'i bod yn bodloni'r profion eraill h.y. ei bod yn *'angenrheidiol'* ac yn '*gymesur'* ac os yw Ynad Heddwch (Ynad) wedi rhoi cymeradwyaeth ymlaen llaw.

Felly, mae'n hanfodol bod swyddogion ymchwilio'n ystyried y gosb sy'n gysylltiedig â'r drosedd y maent yn ymchwilio iddi **CYN** iddynt ystyried a fydd yn bosibl cael caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig.

Mae'n bwysig bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran RIPA a'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn osgoi llithro drwy amryfusedd i weithgarwch lle byddai awdurdodiad RIPA yn ofynnol. Dylai Swyddogion Dynodedig a Rheolwyr Corfforaethol sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal a rhaeadru gwybodaeth i staff perthnasol.

Os nad yw Swyddog Awdurdodi'n sicr a ddylai ganiatáu gwyliadwriaeth, dylai ofyn am gyngor gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol.

Uwch lefelau awdurdodi

Dim ond swyddogion awdurdodi â'r hawl ganddynt i roi caniatadau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig gaiff awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n debygol o arwain neu y bwriedir iddi arwain at gaffael gwybodaeth am ddeunydd cyfrinachol neu freintiedig. Mae'r math hwn o wybodaeth yn cynnwys:-

- Deunydd sy'n rhwym wrth fraint gyfreithiol;
- Gwybodaeth bersonol gyfrinachol;
- Gwybodaeth gyfansoddiadol gyfrinachol; a
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol a ffynonellau newyddiadurwyr.

Yn y Cyngor, y Swyddogion Awdurdodi sydd â'r hawl i ddyfarnu awdurdodau o ran gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig yw'r Prif Weithredwr neu (yn ei absenoldeb) yr unigolyn sy'n gweithredu fel y Prif Weithredwr (h.y. Cyfarwyddwr Corfforaethol).

Rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

Sylwch nad yw RIPA'n galluogi'r awdurdod lleol i ganiatáu gwyliadwriaeth ymwthiol (i gael mwy o fanylion, gweler Rhan 2 isod).

Achosion brys – (Paragraff 4.42 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018)

Mae Paragraff 4.42 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn datgan:

> *'The Protection of Freedoms Act 2012 amended the 2000 Act to make local authority authorisations subject to judicial approval. The change means that local authorities need to obtain an order approving the grant or renewal of an authorisation from a judicial authority, before it can take effect. In England and Wales an application for such an order must be made to a Justice of the Peace (JP). If the JP is satisfied that the statutory tests have been met and that the use of the technique is necessary and proportionate, he or she will issue an order approving the grant or renewal for the use of the technique as described in the application. The amendment means that* ***local authorities are no longer able to orally authorise the use of RIPA techniques.*** *All 37 The senior responsible officer should be a person holding the office, rank or position of an authorising officer within the relevant public authority.* ***authorisations must be made in writing and require JP approval. The authorisation cannot commence until this has been obtained.'***

Mae hyn yn golygu nad yw Awdurdodau Lleol bellach yn gallu awdurdodi ar lafar y defnydd o dechnegau RIPA. Rhaid i bob caniatâd gael ei wneud yn ysgrifenedig a gyda chymeradwyaeth Ynad. Ni fydd y caniatâd yn dechrau hyd nes bydd y gymeradwyaeth hon wedi'i chael. Dylai'r Uwch-swyddog Cyfrifol fod yn unigolyn sy'n dal swydd, rheng neu radd Swyddog Awdurdodi o fewn yr awdurdod cyhoeddus perthnasol.

Fel arfer, nid ystyrir bod achos yn achos brys oni bai fod yr amser a fyddai'n mynd heibio, ym marn y Swyddog Awdurdodi, yn debygol o beryglu bywyd neu beryglu'r ymchwiliad y rhoddwyd y caniatâd ar ei gyfer.

Ni ddylid ystyried bod angen caniatâd ar frys oherwydd bod swyddog wedi anghofio gwneud cais am ganiatâd neu oherwydd gweithredoedd y Swyddog Awdurdodi neu'r ymgeisydd.

DRAFT

Y DREFN O WNEUD CAIS AM GANIATÂD GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG

Os yw Swyddog y Cyngor yn credu bod y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn cydweddu â'r diffiniad o wyliadwriaeth gudd gyfeiriedig, bydd angen iddo wneud cais am ganiatâd gwyliadwriaeth gyfeiriedig RIPA.

Tair prif elfen unrhyw ganiatâd RIPA yw **rheidrwydd, cymesuredd** ac a oes unrhyw risg o **ymyrraeth anuniongyrchol**.

Cyn i'r Swyddog Awdurdodi ganiatáu'r cais RIPA, bydd angen iddo fod yn siŵr bod y caniatâd yn **angenrheidiol** er mwyn atal neu ganfod trosedd, bod y wyliadwriaeth yn gymesur â'r canlyniad gofynnol, a bod unrhyw risg o ymyrraeth anuniongyrchol wedi'i nodi a'i lleihau.

Ni fydd y gweithgarwch gwyliadwriaeth yn **gymesur** os yw'n ormodol o ystyried amgylchiadau'r achos neu os yw'n rhesymol cael gafael ar y wybodaeth drwy ddulliau llai ymwthiol.

Pe na fyddai'r Swyddog Awdurdodi ar gyfer y gwasanaeth perthnasol ar gael, gallai un o'r Swyddogion Awdurdodi arall ystyried y cais, ac os yw'n berthnasol, gallai ei gymeradwy, mewn amgylchiadau lle gallai'r oedi effeithio ar yr ymchwiliad.

Dim ond y Prif Weithredwr sy'n meddu ar y pŵer i ganiatáu gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n cynnwys ffilmio unrhyw Aelod Etholedig, unrhyw Gyfarwyddwr Corfforaethol neu unrhyw Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn gudd.

Pan fydd sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd, dim ond un ohonynt fyddai angen cael caniatâd am weithgarwch cuddwylio.

Os bydd y gweithgareddau'n newid yn ystod yr ymgyrch, bydd angen gwneud cais i adolygu'r caniatâd.

Rôl y Swyddog Ymchwilio – yr Ymgeisydd

Rôl yr Ymgeisydd yw cyflwyno ffeithiau'r cais i gadw gwyliadwriaeth gudd, gan gynnwys:

- Y drosedd y bydd yn ymchwilio iddi;
- Y rheswm y bwriedir cyflawni'r ymchwiliad yn gudd;
- Y tactegau cudd y gwneir cais i'w defnyddio;
- Y rhesymau dros wneud cais i ddefnyddio'r tactegau cudd hynny;
- Y sawl y bydd y gwaith gwyliadwriaeth gudd yn canolbwyntio arno;
- Y bobl eraill y bydd yn effeithio arnynt;
- Y ffordd y bwriedir cadw gwyliadwriaeth gudd; a
- Darparu ffeithiau a thystiolaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Ymgeisydd haeru bod y camau i'w cymryd yn angenrheidiol ac yn gymesur – cyfrifoldeb statudol y Swyddog Awdurdodi yw hwnnw.

Llenwi'r ffurflenni

Bydd angen i Swyddogion y Cyngor wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni o wefan y Swyddfa Gartref:
https://www.gov.uk/government/collections/ripa-forms--2

Ar y ffurflenni cais ar gyfer gwyliadwriaeth gyfeiriedig, bydd angen rhoi'r wybodaeth a ganlyn:

- Y gweithgaredd y mae angen ei ganiatáu;

DRAFT

- Enwau'r bobl a fydd yn destun gwyliadwriaeth gyfeiriedig, os yw'r wybodaeth honno ar gael;
- Crynodeb o'r ymchwiliad;
- Eglurhad o'r technegau yr ydych yn bwriadu'u defnyddio;
- Cadarnhad mai amcan y weithred arfaethedig yw atal neu ganfod trosedd;
- Eglurhad o'r rhesymau yr ydych yn credu bod gwyliadwriaeth gyfeiriedig yn gymesur â'r canlyniad yr ydych yn ceisio'i gyflawni;
- Eglurhad o'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio cael gafael arni;
- Asesiad o'r posibilrwydd o ymyrraeth anuniongyrchol (h.y. i ba raddau y bydd yn ymyrryd â phreifatrwydd unigolion ac eithrio'r rheini y mae'r gweithgaredd yn eu targedu);
- A fydd unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael;
- Os oes angen caniatâd ar fyrder, y rhesymau dros hynny;
- Cyfeirnod Unigryw a geir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ac a nodir ar y ffurflen; ac
- Ar y ffurflen, dylech nodi'r math o 'drosedd' o dan sylw – dylai'r ffurflenni cais fod yn benodol. Nid yw defnyddio'r gair 'trosedd' yn ddigonol. Nid yw'n briodol cyflawni ymchwiliad heb reswm penodol gan obeithio cael hyd i wybodaeth.

Mae ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms-and-templates/. Bydd **Siart lif 3** o gymorth i chi hefyd.

Dylai'r swyddogion sy'n gwneud cais a'r Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn gwybod am y dogfennau a ganlyn a'u bod yn rhoi sylw iddynt:

- **Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo**
- **Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth**
- **Y polisi RIPA hwn; a**
- **Phecyn adnoddau ACT NOW**

Sylwch: Ni ddylech ddefnyddio testun safonol pan fyddwch yn llenwi cais am ganiatâd. Rhaid i'r esboniad a'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen fod yn berthnasol i ffeithiau'r achos a rhaid iddynt ddatgan amcanion y wyliadwriaeth yn glir.

Rôl y Swyddog Awdurdodi

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried cais am ganiatâd gwyliadwriaeth gyfeiriedig o fewn 10 diwrnod i dderbyn y cais.

Pan fydd caniatâd wedi'i roi, bydd y Swyddog Awdurdodi'n ystyried hyd y caniatâd, adnewyddu'r caniatâd a chanslo'r caniatâd.

Sylwch: **Nid yw unrhyw hysbysiad na chaniatâd yn dod i rym hyd nes i Ynad ei gymeradwyo**. Gweler isod i weld y weithdrefn ar gyfer cael cymeradwyaeth o'r fath.

Mae caniatadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig yn peidio â bod yn weithredol 3 mis o ddyddiad y gymeradwyaeth.

Pan fydd y Cyngor yn cadw *"gwyliadwriaeth gyfeiriedig*", yn defnyddio *"ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol"* neu'n cael gafael ar ddata cyfathrebu, mae RIPA a'r Codau cysylltiedig yn mynnu mai dim ond swyddog â phwerau dirprwyedig a gaiff ganiatáu'r gweithgareddau hyn, a hynny pan fydd y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Mae Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010 Rhif 521) yn datgan y gall Swyddog Awdurdodi'r awdurdod lleol fod yn Gyfarwyddwr, yn Bennaeth Gwasanaeth, yn Rheolwr Gwasanaeth neu'n unigolyn mewn swydd gyfatebol.

Felly, ar hyn o bryd, gall gwasanaethau enwebu swyddogion sy'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu'n uwch. Bydd y swyddogion hyn yn gallu caniatáu'r gweithgareddau hyn, naill ai fel "Swyddog Awdurdodi" at ddibenion gwyliadwriaeth gyfeiriedig gudd nei Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Yn unol â strwythur corfforaethol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau i'r dyfodol, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ac yn sgil Penderfyniad y Cyngor ar 21 Mehefin 2018, caniateir i'r swyddogion a ganlyn weithredu fel Swyddogion Awdurdodi:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Os yw'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael fel rhan o'r wyliadwriaeth neu ddefnyddio pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed (gweler isod), **rhaid** gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr dros dro.

Os nad ydych yn sicr eich bod yn gofyn am ganiatâd gan swyddog ar lefel ddigon uchel, dylech gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol (y Swyddog Monitro/Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu) i gael cyngor.

Rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

Wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am wyliadwriaeth gyfeiriedig, ac wrth ystyried adnewyddu, adolygu a chanslo unrhyw ganiatâd, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

(gweler Rhan 4 isod).

Adnewyddu caniatâd

Gall y Swyddog Awdurdodi adnewyddu caniatâd cyn iddo ddod i ben os yw'n angenrheidiol i'r caniatâd barhau at y diben gwreiddiol.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i'r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu

Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith ar yr amod ei fod yn dal i fodloni'r meini prawf. Rhaid gwneud cais i adnewyddu caniatâd gan ddefnyddio ffurflen arall y gellir ei lawrlwytho o wefan y Swyddfa Gartref (ffurflenni enghreifftiol gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms-and-templates/, a gweler paragraffau 5.1621 Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018.

Sylwch: Ni fydd caniatâd yn cael ei adnewyddu hyd nes i Ynad ei gymeradwyo.

Adolygu caniatâd

Pan fydd caniatâd yn cael ei roi, bydd Swyddog Awdurdodi'n pennu pa mor aml y dylid ei adolygu. Bydd adolygiad yn ystyried a yw'r caniatâd yn dal i fod yn angenrheidiol h.y. a ddylai'r wyliadwriaeth barhau.

Nid oes angen i ynad gymeradwyo adolygiad, a gellir ei gynnal yn fewnol (gweler Paragraffau 9.11-13 Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo).

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried y modd y cafodd y tactegau'u defnyddio hyd yma, ynghyd â'u heffaith ac unrhyw gynnyrch, i sicrhau bod pob tacteg ychwanegol yn ofynnol, a oes modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol, ac a yw effaith gronnus y tactegau'n gymesur yng ngoleuni'r cynnydd a wnaed.

Rhaid i unrhyw newid fod yn benodol, ac ni chaniateir defnyddio unrhyw dacteg hyd nes i'r Swyddog Awdurdodi'i chaniatáu.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi'n glir pa weithgaredd neu gyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir i sicrhau bod y rheini sy'n cadw gwyliadwriaeth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i ganiatáu ym mhob cam o'r broses ganiatáu.

Dylid cadw trywydd archwilio o'r meini prawf adolygu.

Canslo caniatâd

Bydd caniatâd yn cael ei ganslo pan fydd y Swyddog Awdurdodi'n fodlon nad yw meini prawf y caniatâd yn cael eu bodloni mwyach. I ganslo caniatâd, dylai'r swyddog sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad lenwi ffurflen ganslo (a geir ar wefan y Swyddfa Gartref ac yn yr Atodiadau i'r ddogfen hon). Yna, dylai rheolwr y swyddog fwrw golwg dros y ffurflen cyn ei hanfon at y Swyddog Awdurdodi. Rhaid nodi dyddiad canslo'r caniatâd ar y ffurflen gais. Bydd hefyd angen esbonio'r rhesymau dros ganslo'r caniatâd a gwerth y wyliadwriaeth. Bydd angen datganiad gan y Swyddog Awdurdodi (gan gynnwys cyfarwyddiadau ynghylch rheoli a storio'r cynnyrch).

Gweler Paragraffau 5.22-27 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2018.

Nid oes angen cymeradwyaeth ynad i ganslo caniatâd.

DRAFT

Siart lif 3 – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig (cylch oes Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn debyg)



Canllawiau i Swyddogion Awdurdodi ar Ganiatáu Ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Mae Adran 27 o RIPA yn darparu amddiffyniad os caiff gwyliadwriaeth gudd ei herio:

'(1) Conduct to which this Part applies shall be lawful for all purposes if -
(a) an authorisation under this Part confers an entitlement to engage in that conduct on the person whose conduct it is; and
(b) His conduct is in accordance with the authorisation.'

I fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen caniatáu'r wyliadwriaeth yn briodol. Mae Adran 28 yn nodi'r meini prawf ar gyfer caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ac mae Adran 29 yn trafod Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol.

Terfynau Amser

Ar hyn o bryd, tri mis yw terfyn amser caniatâd i gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.

Rhaid caniatáu i'r caniatâd gwreiddiol gael ei adnewyddu cyn iddo ddod i ben, ond bydd yn dod i rym ar y dyddiad a'r amser y bydd y caniatâd gwreiddiol yn dod i ben. Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith os tybir ei fod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac os caiff ei gymeradwyo gan Ynad.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i'r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffactorau a allai beri oedi yn y broses adnewyddu (e.e. penwythnosau neu a yw swyddog awdurdodi perthnasol yr awdurdod lleol ac Ynad ar gael i ystyried y cais).

Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi

Mae Adran 28(2) o RIPA yn datgan:

'A person shall not grant an authorisation for the carrying out of directed surveillance unless he believes -

(a) that the authorisation is necessary on grounds falling within subsection (3); and
(b) that the authorised surveillance is proportionate to what is sought to be achieved by carrying it out.'

*Gweler **Siart lif 4** i asesu a ddylid caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig.*

Rôl y Swyddog Awdurdodi yw ystyried y ffactorau a ganlyn.

A. A yw'r wyliadwriaeth yn angenrheidiol?

Rhaid ei bod yn angenrheidiol cadw gwyliadwriaeth ar un o'r seiliau a nodir yn A.28(3). Yn flaenorol, gallai awdurdodau lleol ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig pan oedd yn angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn:

'for the purpose of preventing or detecting crime or of preventing disorder.'
A.28(3)(b))

DRAFT

Yn adroddiad Adolygiad y Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, gwnaed argymhelliad na ddylai awdurdodau lleol sydd am gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ond wneud hynny pan fo'r drosedd y maent yn ymchwilio iddi'n drosedd ddifrifol.

Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar waith gan Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012, OS 2012/1500 a wnaed ym mis Mehefin 2012 ac a ddaeth i rym ar 1 Tachwedd 2012. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010, OS 2010/521 ("Gorchymyn 2010"), sy'n pennu pa rai o swyddogion awdurdodau cyhoeddus sy'n meddu ar y pŵer i roi caniatâd i gadw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a'r seiliau, o dan Adran 28(3), dros roi caniatâd.

Ni chaiff Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig ac eithrio er mwyn atal neu ganfod ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd, neu sy'n drosedd, ac sy'n bodloni'r amodau a nodir yn yr erthygl newydd, erthygl 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn 2010. Dyma'r amodau:

a) Bod modd **cosbi'r drosedd i'w hatal neu'i chanfod, o gael collfarn ddiannod neu dditiad, drwy uchafswm o chwe mis o garchar o leiaf** neu

b) Ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933. Mae'r ddwy drosedd hyn yn ymwneud â gwerthu tybaco ac alcohol i blant o dan oedran.

Bellach, ni ellir caniatáu cadw gwyliadwriaeth i fynd i'r afael ag anhrefn (e.e. ymddygiad gwrthgymdeithasol) fel Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, oni bai fod yr anhrefn yn cynnwys troseddau sy'n bodloni'r meini prawf uchod.

Nid oes angen caniatâd RIPA ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Ymateb ar unwaith;
- Gweithgareddau arsylwi cyffredinol;
- Systemau CCTV/APNR agored;
- Faniau canfod teledu;
- Recordio cudd o niwsans sŵn
- Cyfweld ag aelodau o'r cyhoedd;
- Gwneud recordiadau cudd ar gyfer niwsans sŵn pan fo'r recordiadau hynny ar ffurf desibel neu os yw'n sŵn heb eiriau, neu os yw'r cynnwys geiriol ar lefel nad yw'n uwch nag y byddai modd ei glywed â'r glust heb gymorth dyfais (gweler Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2019, para 3.40); na
- Gwneud recordiadau agored a chudd o gyfweliadau gwirfoddol ag aelodau o'r cyhoedd.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi'n glir pa weithgaredd neu gyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir i sicrhau bod y rheini sy'n cadw gwyliadwriaeth yn gwybod yn union beth sydd wedi'i ganiatáu ym mhob cam o'r broses ganiatáu. Sylweddolir nad yw bob amser yn bosibl rhagweld, ar ddechrau ymchwiliad, sut y bydd yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, ni ddylai'r ymgeiswyr ddefnyddio hyn fel rheswm dros wneud cais i ddefnyddio nifer fawr o dactegau / dechnegau 'rhag ofn' y bydd eu hangen yn ddiweddarach.

Ni chaiff y Swyddog Awdurdodi ganiatáu mwy nag y gellir ei gyfiawnhau ar adeg y penderfyniad caniatáu, a dylai arddangos rheolaeth, a dealltwriaeth briodol o reidrwydd, ymyrraeth anuniongyrchol a chymesuredd, mewn perthynas â phob techneg/tacteg y gofynnir

am ganiatâd i'w defnyddio. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi sicrhau bod y gofynion cyfreithiol yn cael sylw drwy gydol cyfnod y caniatâd.

B. <u>A yw'r wyliadwriaeth yn gymesur â'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni?</u>

Ystyr cymesuredd yw sicrhau mai'r wyliadwriaeth yw'r dull lleiaf ymwthiol o gael gafael ar y wybodaeth ofynnol, a hynny ar ôl ystyried yr holl ddulliau amgen rhesymol. Yn ogystal ag ystyried a yw'r wyliadwriaeth yn briodol, rhaid hefyd ystyried y dull a ddefnyddir, am ba mor hir y bydd gwyliadwriaeth yn cael ei chadw, a'r cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio.

Mae angen taro cydbwysedd rhwng yr ymyrraeth a'r budd. Rhaid ystyried pob cais yn ôl ei rinwedd ei hun.

Nid yw'n dderbyniol ystyried a oes angen caniatâd ar sail disgrifiad o'r wyliadwriaeth yn unig. Rhaid ystyried y ffeithiau penodol ar sail egwyddorion cyfreithiol. Mater o farn ydyw.

Rhaid nodi a rhoi disgrifiad clir o'r ymddygiad y bwriedir ei atal/ganfod, a rhaid esbonio pam ei bod yn angenrheidiol defnyddio'r technegau cudd y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

Ni chaiff y Swyddog Awdurdodi ganiatáu mwy nag y gellir ei gyfiawnhau ar adeg y penderfyniad caniatáu, a dylai arddangos rheolaeth, a dealltwriaeth briodol o reidrwydd, ymyrraeth anuniongyrchol a chymesuredd, mewn perthynas â phob tacteg y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

Yn ei hadroddiadau arolygu, mae Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio yn aml yn datgan nad yw'r swyddogion wedi deall cysyniad cymesuredd yn iawn neu nad ydynt wedi dangos ar y ffurflen gais eu bod yn cydymffurfio. Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 (Para 4.7) yn mynnu y dylid rhoi sylw i bedair agwedd ar y ffurflen gais:

1. Taro cydbwysedd rhwng maint a chwmpas y gweithgaredd arfaethedig a difrifoldeb a hyd a lled y drosedd neu'r dramgwydd dybiedig;
2. Egluro sut a pham y bydd y dulliau a ddefnyddir yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â tharged y wyliadwriaeth ac eraill;
3. Ystyried a yw'r gweithgaredd yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth a'i fod yn ffordd resymol o gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ar ôl ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill;
4. Rhoi tystiolaeth, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'r dulliau eraill a gafodd eu hystyried a'r rheswm dros eu diystyru.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi ystyried y modd y cafodd y tactegau'u defnyddio hyd yma, ynghyd â'u heffaith ac unrhyw gynnyrch, i sicrhau bod pob tacteg ychwanegol yn ofynnol, a oes modd cyfiawnhau unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol, ac a yw effaith gronnus y tactegau'n gymesur.

Dylai'r Swyddog Awdurdodi nodi yn ei eiriau ei hun pam y mae'n credu bod y gweithgarwch (RIPA) yn angenrheidiol ac yn gymesur. Nid yw haeriad moel yn ddigon.

C. <u>A ellir atal neu leihau ymyrraeth anuniongyrchol?</u>

Bydd angen i'r Swyddog Awdurdodi ystyried yn ofalus pa mor debygol yw hi y bydd ymyrraeth anuniongyrchol yn digwydd. Ystyr ymyrraeth anuniongyrchol yw ymyrraeth â phreifatrwydd unigolion ac eithrio'r rheini y mae'r ymchwiliad neu'r ymgyrch yn ymwneud â

DRAFT

nhw'n uniongyrchol. Os yw'r risg yn fawr, dylid cymryd camau, lle bynnag y bo'n ymarferol, i atal neu i leihau unrhyw ymyrraeth ddiangen.

Bydd angen i'r Swyddogion Ymchwilio a'r Swyddogion Awdurdodi ofyn y cwestiynau a ganlyn iddyn nhw eu hunain:

i. Beth yw'r effaith ar unrhyw drydydd parti? A yw'n fawr? A ellir ei chyfiawnhau?
ii. Os yw'n fawr, beth y gellir ei wneud i'w hatal neu'i lleihau?
iii. Ydy'r canlynol wedi cael eu hystyried:
    - Newid amseriad y wyliadwriaeth;
    - Cadw llai o wyliadwriaeth;
    - Newid y dull o gadw gwyliadwriaeth;
    - Natur y wybodaeth breifat sy'n debygol o'i chael;
    - Sensitifrwydd y gymuned leol a'r
    - Dulliau o gadw gwyliadwriaeth a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus eraill?

Yr angen i gael gafael ar y dystiolaeth orau i ymchwilio i'r drosedd fydd y brif ystyriaeth bob amser.

Y cam nesaf: Pan fydd y wyliadwriaeth wedi'i chaniatáu, y cam nesaf fydd gofyn am gymeradwyaeth Ynad (gweler isod)

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau, drwy eu Rheolydd Data, eu bod yn cydymffurfio â gofynion priodol diogelu data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw drefniadau mewnol perthnasol a gynhyrchwyd gan y Cyngor sy'n ymwneud â thrafod a storio deunydd (gweler Paragraffau 9.1.4 i 9.2.2 Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 a Rhan 7 isod). O fewn y Cyngor, y Swyddog Diogelu Data yw hwn a bydd ef/hi yn adrodd i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO).

Fel y nodir uchod (a Rhan 4 isod), wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am wyliadwriaeth gyfeiriedig, ac wrth ystyried adnewyddu, adolygu a chanslo unrhyw ganiatâd, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

DRAFT

Siart lif 4 – Caniatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig



GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD (CYMERADWYAETH FARNWROL) AR GYFER GWYLIADWRIAETH GYFEIRIEDIG

Cefndir

Daeth Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (adrannau 37 a 38) i rym ar 1 Tachwedd 2012. Bu i hyn newid y weithdrefn ar gyfer caniatáu gweithgareddau cadw gwyliadwriaeth gan awdurdodau lleol o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA) a rhaid cael cymeradwyaeth Ynad i ddefnyddio Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig

Mae angen cymeradwyaeth hefyd os yw caniatâd i ddefnyddio technegau o'r fath yn cael ei adnewyddu. Ym mhob achos, rôl yr Ynad yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y ffactorau perthnasol wedi'u hystyried. Nid oes angen i'r Ynad ystyried penderfyniadau i ganslo caniatâd nac adolygiadau mewnol.

Canllawiau'r Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch proses gymeradwyo'r Ynad, a hynny ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r Llysoedd Ynadon: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118174/magistrates-courts-eng-wales.pdf

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau y gall yr awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r newidiadau i'r gyfraith a'r trefniadau newydd y dylid eu cyflwyno i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth a'r ddau God Ymarfer a wnaed o dan RIPA.

Gweler Siart lif 5 i gael crynodeb o broses gymeradwyo'r Ynad

Proses Gymeradwyo'r Ynad

1. Y cam cyntaf fydd gwneud cais am ganiatâd mewnol yn y ffordd arferol. Pan fydd hwn wedi'i roi, bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad.

2. Bydd y gwrandawiad yn achos cyfreithiol. Felly, bydd angen i swyddogion yr awdurdod lleol gael eu dynodi'n ffurfiol i ymddangos gerbron yr ynad, tyngu llw, a chyflwyno tystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth, yn ôl y gofyn, i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi swyddogion yn ffurfiol at y diben hwn o dan adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn yr achos.

3. Mae'r Swyddfa Gartref yn awgrymu mai'r Swyddog Ymchwilio fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon, ond gall y Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn awyddus i fynd i'r gwrandawiad i ateb cwestiynau.

4. Bydd yr awdurdod lleol yn rhoi copi i'r Ynad o'r caniatâd RIPA gwreiddiol. Hwn fydd sail y cais i'r Ynad a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd yn dibynnu arni. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn darparu i'r Ynad ddau gopi o'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol wedi'i llenwi'n rhannol sydd ar gael yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (mae ffurflenni enghreifftiol (gyda chanllawiau ar lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms-and-templates/).

DRAFT

5. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a bydd un Ynad yn gwrando ar yr achos, drwy ddarllen ac ystyried y caniatâd RIPA a'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol. Gall fod gan yr Ynad gwestiynau er mwyn egluro pwyntiau neu gael sicrwydd ynghylch materion penodol. Rhaid i'r ffurflenni a'r papurau ategol ddadlau'r achos o'u rhan eu hunain. **Nid yw'n ddigonol i'r awdurdod lleol ddarparu tystiolaeth lafar os nad yw'r papurau a ddarperir yn adlewyrchu neu'n cefnogi'r dystiolaeth honno.**

6. Bydd yr Ynad yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu, ar yr adeg y cafodd y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, fod y caniatâd yn angenrheidiol ac yn gymesur. Byddant hefyd yn ystyried a yw'r sail resymol yn parhau. Yn ogystal, rhaid i'r Ynad fod yn fodlon bod y Swyddog Awdurdodi mewn swydd briodol o fewn yr awdurdod lleol a bod y caniatâd wedi'i roi yn unol ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol (e.e. ei fod yn bodloni'r Prawf Trosedd Ddifrifol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

7. Bydd yr Ynad yn cwblhau'r gorchymyn sy'n rhan o'r ffurflen a enwir uchod. Hwn fydd cofnod swyddogol ei benderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor gadw copi o'r ffurflen ar ôl i'r Ynad ei llofnodi.

Dewisiadau'r Ynad

Gall yr Ynad benderfynu fel a ganlyn -

- ***Cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd***

Bydd y caniatâd a roddwyd/adnewyddwyd yn dod i rym a chaiff y Cyngor fwrw ymlaen i ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth a enwir ynddo.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd ar bwynt technegol***

Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Gellir cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb fod angen mynd drwy'r broses ganiatáu fewnol eto. Yna, gall y Cyngor wneud cais arall am gymeradwyaeth Ynad.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd a dileu'r caniatâd***

Gall Ynad wrthod cymeradwyo rhoi neu adnewyddu caniatâd a phenderfynu dileu'r caniatâd gwreiddiol. Gall wneud hyn oherwydd ei fod yn credu nad yw'n angenrheidiol neu'n gymesur. Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Ni chaniateir i'r Ynad ddefnyddio'i bŵer i ddileu'r caniatâd oni bai fod yr awdurdod lleol wedi cael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y gwrthodwyd cymeradwyaeth i baratoi sylwadau pellach a'u cyflwyno i'r llys.

Apeliadau

Nid oes modd cwyno am benderfyniad barnwrol oni bai iddo gael ei wneud yn annidwyll. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at Bwyllgor Cynghori'r Ynadon. Felly, ni chaiff y Cyngor ond apelio yn erbyn penderfyniad Ynad i wrthod cymeradwyo caniatâd ar bwynt cyfreithiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Bydd y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') yn parhau i ymchwilio i gwynion gan unigolion ynghylch y modd y mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn defnyddio technegau RIPA. Ar ôl i gŵyn ddod i law'r Tribiwnlys, os yw'n cael bod rhywbeth o'i le â'r caniatâd RIPA, mae ganddo bŵer i ddileu gorchymyn yr Ynad, a oedd yn cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r caniatâd. Gall hefyd ddyfarnu iawndal os yw'n credu bod yr awdurdod lleol

wedi torri hawliau dynol unigolyn (gweler Rheolau'r Tribiwnlys ar Bwerau Ymchwilio 2018 (OS 2018/1334), a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018).

DRAFT

Siart lif 5 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon



RHAN 3 – Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ('CHIS')

Fel y nodwyd uchod, ym Mhennod 2 o RIPA, nodir fframwaith rheoleiddio'r technegau ymchwilio cudd a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, yn enwedig Erthygl 8, (yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol).

Y mater cyntaf i unrhyw swyddog awdurdod lleol sy'n ystyried cadw gwyliadwriaeth gudd yw pa fath o wyliadwriaeth y mae'n ei gadw, ac **a yw'n rhywbeth y gellir ei ganiatáu o dan RIPA.** Mae Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn un o'r ddwy dechneg wyliadwriaeth sydd ar gael i'r Cyngor o dan Ran 2 o Bennod 2 o RIPA. Yr ail dechneg sydd ar gael yw Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, ond ni all y Cyngor ganiatáu'r drydedd dechneg, sef Gwyliadwriaeth Agored.

Ystyr Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol

Diffinnir Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn A.26(8) o'r Ddeddf RIPA:

'…a person is a covert human intelligence source if -

(a) he establishes or maintains a personal or other relationship with a person for the covert purpose of facilitating the doing of anything falling within paragraph (b) or (c);

(b) he covertly uses such a relationship to obtain information or to provide access to any information to another person; or

(c) he covertly discloses information obtained by the use of such a relationship, or as a consequence of the existence of such a relationship.'

I bennu a yw unigolyn yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid gofyn tri chwestiwn:

1. A yw'r unigolyn yn sefydlu neu'n cynnal perthynas bersonol neu berthynas arall ag unigolyn?
2. A yw'r berthynas honno'n cael ei defnyddio at ddiben cudd? ac
3. A yw'r diben cudd yn hwyluso unrhyw beth sy'n perthyn i Baragraff (b) neu (c) uchod?

Cod Ymarfer Diwygiedig 2022

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig Drafft Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2022 i'w weld yma:
Cod Ymarfer Diwygiedig Drafft Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2022
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1112114/Oct_2022_Draft_Revised_CHIS_Code_of_Practice.pdf

- Fersiwn terfynol i ddilyn

***Gweler Siart lif 6** i asesu a yw'r wyliadwriaeth yn cynnwys ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol.*

Rhywun sy'n celu neu'n cam-fynegi pwy ydyw mewn gwirionedd i gasglu gwybodaeth yn gudd gan y targed neu i gael gafael ar wybodaeth ganddo yw Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Er enghraifft, gall Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol fod yn ymchwilydd preifat sy'n cymryd arno ei fod yn byw ar ystad dai i gasglu tystiolaeth am ddelio cyffuriau neu'n hysbysydd sy'n rhoi gwybodaeth i'r Gwasanaeth Safonau Masnach am arferion busnes anghyfreithlon mewn ffatri neu siop.

Gwerthu i rai o dan oedran

Os yw'r person ifanc yn cael ei friffio i ddechrau sgwrs a allai arwain at gaffael gwybodaeth breifat, gall fod angen caniatâd. Fodd bynnag, os na ddywedir wrth y person ifanc am

gyfathrebu, ac felly os na chaiff unrhyw wybodaeth breifat ei chaffael, nid oes angen caniatâd.

Y prif bwyntiau i'w nodi:

A. Nid yw gwirfoddolwr cyhoeddus yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Mae Cod Ymarfer diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2018 (Para 2.18) yn datgan:
'In many cases involving human sources, a relationship will not have been established or maintained for a covert purpose. Many sources merely volunteer or provide information that is within their personal knowledge, without being induced, asked, or tasked by a public authority. This means that the source is not a CHIS for the purposes of the 2000 Act and no authorisation under the 2000 Act is required.'
(Gweler Pennod 3 o'r Cod i gael arweiniad pellach ar y mathau o weithgarwch ffynhonnell y gall caniatâd o dan Ran II o RIPA fod yn gymwys iddo neu beidio)

Rhaid gofalu nad yw rhywun sy'n wirfoddolwr cyhoeddus yn y lle cyntaf yn troi'n ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol yn y pen draw.

B. Rhaid bod perthynas yn cael ei defnyddio'n gudd i ddarparu mynediad at wybodaeth neu i ddatgelu gwybodaeth yn gudd. Os byddwch yn rhoi dyddiadur i achwynydd er mwyn iddo nodi pwy sy'n mynd a dod, nid yw'r unigolyn hwnnw'n ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol.

C. O dan rai amgylchiadau, gall fod angen caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol i ddefnyddio prawf brynwr.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gyfeiriedig ac Ymyrryd ag Eiddo 2019 hefyd yn rhoi'r enghreifftiau a ganlyn, i helpu i ddarlunio ac i ddehongli darpariaethau penodol – ond nid ydynt yn ddarpariaethau yn y Cod. Dim ond i roi arweiniad y maent wedi'u cynnwys:

'Example 3: Local authority officers attend a car boot sale where it is suspected that counterfeit goods are being sold, but they are not carrying out surveillance of particular individuals and their intention is, through reactive policing, to identify and tackle offenders. Again this is part of the general duties of public authorities and the obtaining of private information is unlikely. A directed surveillance authorisation need not be sought.
Example 4: *Intelligence suggests that a local shopkeeper is openly selling alcohol to underage customers, without any questions being asked. A juvenile is engaged and trained by a public authority and then deployed to act as a juvenile in order to make a purchase of alcohol. In these circumstances any relationship, if established at all, is likely to be so limited in regards to the requirements of the Act that a public authority may conclude that a CHIS authorisation is unnecessary. However, if the test purchaser is wearing recording equipment and is not authorised as a CHIS, or an adult is observing, consideration should be given to granting a directed surveillance authorisation.'*

Pan fyddant yn ystyried gweithgareddau prawf brynu gan rai o dan oedran, rhaid i'r swyddogion ymchwilio a'r Swyddog Awdurdodi hefyd roi sylw i'r:

Cod Ymarfer ar gyfer Darparu gwaith Rheoleiddio: Cynnyrch a Gwasanaethau â Chyfyngiadau Oedran (Ebrill 2014) (sydd ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/913507/13-537-code-of-practice-age-restricted-products.pdf)

- Ffugenwau/Personâu Ar-lein
  Os caniateir i'r rhain gael eu defnyddio'n gorfforaethol, bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cynnal cofrestr o'r ffugenwau hyn gan gynnwys manylion y gwasanaethau neu'r swyddogion sy'n gallu eu defnyddio/eu cymeradwyo.

  Wedyn dylai Rheolwyr a/neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol wirio unrhyw ddefnydd o'r fath, gan gynnwys adolygu pa safleoedd ar y cyfryngau yr ymwelwyd â nhw, pryd, i ba ddiben, a beth a wnaed â'r cynnyrch a ddaeth yn sgil hynny. Mae'n ofynnol i Wasanaethau perthnasol:
  - cofnodi gwybodaeth/dyddiad yn ymwneud â gwyliadwriaeth gudd ar y cyfryngau cymdeithasol/ar-lein;
  - nodi Swyddog Dynodedig yn y Gwasanaeth i goladu'r wybodaeth;
  - rhoi'r wybodaeth hon i'r Swyddog Dynodedig; a
  - bydd y Swyddog Dynodedig yn rhoi'r wybodaeth i'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol bob 4 mis.

DRAFT

Siart lif 6 – A ydych yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol (CHIS)?



DRAFT

Y drefn o wneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan RIPA

Oherwydd y gofynion statudol y mae angen ymlynu wrthynt pan fydd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio, nid yw'n debygol y bydd modd defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol mewn ymchwiliad heb gryn dipyn o gynllunio ymlaen llaw. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd Cyngor Sir Ceredigion yn ystyried defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol fel dull o gadw gwyliadwriaeth ac fe allai ofyn am gymorth yr Heddlu.

Roedd Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 wedi diwygio Deddf 2000 i sicrhau bod caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn destun cymeradwyaeth gan Ynad. Golyga'r newidiadau hyn fod angen i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth Ynad Heddwch i roi neu adnewyddu caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac er mwyn i'r caniatâd ddod i rym.

Os yw unrhyw un o swyddogion y Cyngor yn bwriadu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, ac mae angen cyngor ac arweiniad arno, dylai gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a/neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol **cyn gwneud unrhyw beth**.

Sylwch, fel uchod, nid yw aelod o'r cyhoedd sy'n gwirfoddoli yn Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc

Mae'r broses o ganiatáu i Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ifanc (o dan 18 oed) gael ei defnyddio yn cynnwys rhagofalon arbennig. Ni ellir rhoi caniatâd oni bai fod y darpariaethau a geir yng Ngorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Pobl Ifanc) 2000 (https://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/2793/contents/made) yn cael eu bodloni. Mae Taflen Ffeithiau Dogfen Gyfarwyddyd y Swyddfa Gartref ar ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc hefyd ar gael: https://www.gov.uk/government/publications/covert-human-intelligence-sources-draft-code-of-practice/juvenile-accessible-version.

Os ydych yn bwriadu defnyddio pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed fel Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid ichi ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr.

Os yw unrhyw un o swyddogion y Cyngor yn bwriadu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ifanc, ac mae angen cyngor ac arweiniad arno, mae'n rhaid iddo gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol a/neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol **cyn gwneud unrhyw beth**.

Nid yw Deddf Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (Ymddygiad Troseddol) 2021 ('y Ddeddf CHIS) yn gymwys i awdurdodau lleol.

Gweithgarwch Cudd Ar-lein – Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA

Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor sy'n rhoi manylion ym Mharagraff 4.11 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cudd-wybodaeth Dynol 2018 (mewn perthynas â chaniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol), ac y mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi hwn.

Llenwi'r Ffurflenni

Bydd angen i'r Swyddog wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflenni o wefan y Swyddfa Gartref

https://www.gov.uk/government/collections/ripa-forms--2

Bydd angen rhoi'r wybodaeth a ganlyn ar y ffurflen gais:

- Manylion yr hyn y bydd y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio ar ei gyfer;
- Enw'r sawl a gaiff ei ddefnyddio fel Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, os yw'n wybyddus;
- Manylion yr hyn y bydd gofyn i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ei wneud;
- Manylion yr ymchwiliad;
- Y rheswm dros gredu bod defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn gymesur;
- Eglurhad o'r wybodaeth yr ydych yn gobeithio cael gafael arni;
- Y posibilrwydd o ymyrraeth anuniongyrchol (h.y. ymyrryd â phreifatrwydd unigolion nad ydynt yn rhan o'r ymchwiliad);
- Y tebygrwydd y byddwch yn cael gafael ar wybodaeth gyfrinachol; a
- Chyfeirnod Unigryw dilyniannol a geir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ac a nodir ar y ffurflen.

Dylai'r swyddogion sy'n gwneud cais i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn gwybod am y dogfennau a ganlyn a'u bod yn rhoi sylw iddynt:

- Cod Ymarfer Diwygiedig y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol;
    - Sylwer – Mae Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd. Dylai swyddogion ofyn i'r Uwch-swyddog Cyfrifol am y fersiwn diweddaraf o'r Cod hwn cyn gwneud cais. (https://www.gov.uk/government/consultations/revised-covert-human-intelligence-source-chis-code-of-practice/regulation-of-investigatory-powers-act-2000-consultation-on-revised-covert-human-intelligence-source-code-of-practice
- Y polisi RIPA hwn a'r
- Gweithdrefnau a Dogfennau Cyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynwyr Gwyliadwriaeth.

Mae ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni) ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms-and-templates/. Bydd **Siart lif 3** o gymorth i chi hefyd.

Sylwch: Yn yr un modd â'r ffurflenni cais am ganiatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig, ni ddylech ddefnyddio testun safonol pan fyddwch yn llenwi cais am ganiatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Cyn rhoi caniatâd, bydd rhaid bodloni'r Swyddog Awdurdodi fod y caniatâd yn angenrheidiol i atal neu ganfod trosedd. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodi hefyd gredu bod defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn gymesur â'r canlyniad gofynnol a bod gweithdrefnau digonol ar waith i gadw cofnodion o'r ymgyrch. Bydd angen ystyried ymyrraeth anuniongyrchol hefyd.

Fel y nodir yn Rhan 4 isod, wrth ganiatáu unrhyw geisiadau i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:

(a) am ba hyd y cedwir y data?; a

(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Wrth ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, rhaid i'r Swyddog Awdurdodi a'r swyddog sy'n cyflwyno'r cais roi sylw i adran 29(5) o RIPA ac i Reoliadau Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Cofnodion Ffynhonnell) 2000.

Mae'r darpariaethau hyn yn darparu (ymhlith pethau eraill) yr hyn a ganlyn:

- Bod swyddog yn y Cyngor yn ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol bob amser;
- Bod swyddog arall yn y Cyngor yn cadw golwg cyffredinol ar y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio;
- Bod y cofnodion yn nodi gwybodaeth bwysig sy'n gysylltiedig â diogelwch a lles y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Bod y tasgau a roddir i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r defnydd a wneir o'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael eu cofnodi;
- Manylion adnabod y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r manylion adnabod y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn eu defnyddio; a
- Bod cofnodion yn cael eu cadw o'r holl gyfathrebu a'r holl gysylltiadau rhwng y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'r Cyngor/y swyddog perthnasol yn y Cyngor.

Cylch oes caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol

Pan fydd caniatâd wedi'i roi, bydd y Swyddog Awdurdodi'n ystyried hyd y caniatâd, adnewyddu'r caniatâd a chanslo'r caniatâd.

Sylwch: Nid yw unrhyw hysbysiad na chaniatâd yn dod i rym hyd nes i Ynad ei gymeradwyo (nid yw hyn yn berthnasol ar gyfer data cyfathrebu, y mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN) yn delio ag ef (gweler Rhan 4 isod).

Mae caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn dod i ben 12 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo. Mae caniatâd Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol Ifanc yn para am fis.

CANLLAWIAU I SWYDDOGION AWDURDODI SY'N CANIATÁU FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL: RHEOLAU A MEINI PRAWF

Mae Adran 27 o RIPA yn darparu amddiffyniad os caiff gwyliadwriaeth gudd ei herio:

'1) Conduct to which this Part applies shall be lawful for all purposes if -

a. an authorisation under this Part confers an entitlement to engage in that conduct on the person whose conduct it is; and

b. his conduct is in accordance with the authorisation.'

I fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen caniatáu'r wyliadwriaeth yn briodol.
Mae A.29 yn nodi'r meini prawf i ganiatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Gweler **Siart lif 7** i asesu a ddylid caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Y Swyddog Awdurdodi

Mae RIPA a'r Codau cysylltiedig yn mynnu pan fydd y Cyngor yn defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol mai dim ond swyddog â phwerau dirprwyedig a gaiff ganiatáu'r gweithgareddau hyn, a hynny pan fydd y meini prawf perthnasol wedi'u bodloni.

Mae Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010 (OS 2010 Rhif 521) yn datgan y gall Swyddog

Awdurdodi'r awdurdod lleol fod yn Gyfarwyddwr, yn Bennaeth Gwasanaeth, yn Rheolwr Gwasanaeth neu'n unigolyn mewn swydd gyfatebol.

Felly, ar hyn o bryd, gall gwasanaethau enwebu swyddogion sy'n Swyddog Arweiniol Corfforaethol neu'n uwch. Bydd y swyddogion hyn yn gallu caniatáu'r gweithgareddau hyn, naill ai fel Swyddog Awdurdodi at ddibenion gwyliadwriaeth gyfeiriedig gudd neu ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Yn unol ag ad-drefnu corfforaethol y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018, ac yn dilyn penderfyniad y Cyngor a wnaed ar 21 Mehefin 2018, caniateir i'r swyddogion a ganlyn weithredu fel Swyddogion Awdurdodi (y Swyddogion Awdurdodi yw'r rheiny a benodwyd i ganiatáu ceisiadau Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Fel uchod, os yw'n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei chaffael fel rhan o'r wyliadwriaeth neu os yw pobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed yn cael eu defnyddio, **rhaid** gofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr neu, yn ei absenoldeb, y Prif Weithredwr dros dro.

Os nad ydych yn sicr eich bod yn gofyn am ganiatâd gan swyddog ar lefel ddigon uchel, dylech gysylltu â'r Uwch-swyddog Cyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol i gael cyngor.

Fel uchod, rhaid bod yn ofalus lle, drwy ddefnyddio gwyliadwriaeth, y byddai'n bosibl caffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn sy'n ymwneud â lles ysbrydol yr olaf, neu lle gallai materion cyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol godi.

Pan fydd deunydd o'r fath wedi'i gaffael a'i gadw, rhaid hysbysu Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor cyn gynted â phosibl, gan y dylid rhoi gwybod I Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) am y mater yn ystod ei harolygiad nesaf, a dylai'r deunydd fod ar gael i'r IPCO, os gofynnir amdano.

<u>Ystyriaethau'r Swyddog Awdurdodi</u>

Mae Adran 29(2) o RIPA yn datgan:

'A person shall not grant an authorisation for the conduct or the use of a covert human intelligence source unless he believes -

(a) that the authorisation is necessary on grounds falling within subsection (3);

(b) that the authorised conduct or use is proportionate to what is sought to be achieved by that conduct or use; and

(c) arrangements exist for the source's case that satisfy—

(i) the requirements of subsection (4A), in the case of a source of a relevant collaborative unit;

(iii) the requirements of subsection (5), in the case of any other source; and that satisfy such other requirements as may be imposed by order made by the Secretary of State'

Gweler Siart lif 7 i benderfynu a ddylid caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Mae'n bwysig ystyried tri mater cyn caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol:

1. Rheidrwydd

Rhaid ei bod yn angenrheidiol defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ar un o'r seiliau a nodir yn A.29(3). Dim ond ar un sail y caiff awdurdodau lleol ganiatáu ei defnyddio, sef pan fo'n angenrheidiol er mwyn atal neu ganfod trosedd neu atal anhrefn:

> *'for the purpose of preventing or detecting crime or of preventing disorder.'*
> *(A.29 (3) (b))*

Rhaid bod y mater sy'n destun ymchwiliad yn drosedd y gellir ei hadnabod neu raid ei fod yn gyfystyr ag anhrefn.

2. Cymesuredd

Ystyr cymesuredd yw sicrhau mai defnyddio'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yw'r dull lleiaf ymwthiol o gael gafael ar y wybodaeth ofynnol, a hynny ar ôl ystyried yr holl ddulliau amgen rhesymol. Yn ogystal ag ystyried a yw defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn briodol, rhaid hefyd ystyried y dull a ddefnyddir, am ba hyd y bydd yn cael ei defnyddio, a'r cyfarpar a gaiff ei ddefnyddio. Mae'r Cod ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol (Para 3.5) yn mynnu y dylid rhoi sylw i bedair agwedd ar y ffurflen gais:

- Taro cydbwysedd rhwng maint a chwmpas y gweithgaredd arfaethedig a difrifoldeb a hyd a lled y drosedd neu'r dramgwydd dybiedig;
- Egluro sut a pham y bydd y dulliau a ddefnyddir yn ymyrryd cyn lleied â phosibl â tharged y wyliadwriaeth ac eraill;
- Ystyried a yw'r gweithgaredd yn gwneud defnydd priodol o'r ddeddfwriaeth a'i fod yn ffordd resymol o gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ar ôl ystyried yr holl opsiynau rhesymol eraill;
- Rhoi tystiolaeth, cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol, o'r dulliau eraill a gafodd eu hystyried a'r rheswm dros eu diystyru.

Nid yw'n dderbyniol ystyried a oes angen caniatâd ar sail disgrifiad o'r wyliadwriaeth yn unig. Rhaid ystyried y ffeithiau penodol ar sail egwyddorion cyfreithiol. Mater o farn ydyw.

Rhaid nodi a rhoi disgrifiad clir o'r ymddygiad y bwriedir ei atal/ganfod, a rhaid esbonio pam ei bod yn angenrheidiol defnyddio'r technegau cudd y gofynnir am ganiatâd i'w defnyddio.

3. Trefniadau diogelwch a lles

Yn aml, bydd Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd anodd sydd weithiau'n beryglus e.e. hysbysydd ar ystad dai sy'n dod i gysylltiad â gang troseddol. Rhaid rhoi trefniadau diogelwch a lles priodol ar waith ar gyfer pob Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol. Yn unol ag A.29(5), mae'n ofynnol gwneud y ddarpariaeth a ganlyn:

- Pennu unigolyn a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am ymdrin â'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ar ran yr awdurdod, ac am ei diogelwch a'i lles;
- Pennu unigolyn a fydd yn cadw golwg cyffredinol ar y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio. Rhaid iddo fod yn unigolyn gwahanol i'r unigolyn uchod;
- Pennu unigolyn a fydd yn cadw cofnod o'r modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio. Gall fod yn unrhyw un o'r ddau unigolyn uchod neu'n unigolyn arall; a

- Chadw cofnodion priodol a diogel am y modd y mae'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol yn cael ei defnyddio.

Asesu risg: Efallai na chaiff caniatâd i gyfarwyddo na defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ei roi na'i adnewyddu p'un bynnag os yw'r ffynhonnell o dan ddeunaw oed ar yr adeg y caiff y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, oni bai fod asesiad risg wedi'i gyflawni. Rhaid i'r asesiad fod yn ddigonol i ddangos:

- Bod natur a maint unrhyw risg o niwed corfforol i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a allai godi yng nghwrs cyflawni'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y caniatâd, neu o ganlyniad iddynt, wedi'u nodi a'u gwerthuso;

- Bod natur a maint unrhyw risg o drallod seicolegol i'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a allai godi yng nghwrs cyflawni'r gweithredoedd a ddisgrifir yn y caniatâd, neu o ganlyniad iddynt, wedi'u nodi a'u gwerthuso;

- Bod y sawl sy'n rhoi neu'n adnewyddu'r caniatâd wedi ystyried yr asesiad risg a'i fod yn fodlon bod unrhyw risgiau a nodir ynddo wedi'u cyfiawnhau ac, os yw'n fodlon, eu bod wedi'u hegluro'n briodol wrth y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol a'i bod wedi'u deall; a

- Bod y sawl sy'n rhoi neu'n adnewyddu'r caniatâd yn gwybod a yw'r berthynas y byddai'r weithred neu'r defnydd yn berthnasol iddi yn berthynas rhwng y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol ac aelod o'i theulu, gwarcheidwad neu unigolyn sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros les y Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol am y tro, ac, os ydyw, a roddwyd ystyriaeth benodol i b'un a ellir cyfiawnhau'r caniatâd yng ngoleuni'r ffaith honno.

Fel y nodwyd uchod, wrth ganiatáu unrhyw geisiadau am Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai'r Swyddog Awdurdodi hefyd ystyried:
(a) am ba hyd y cedwir y data?; a
(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Y cam nesaf: Pan fydd caniatâd wedi'i roi i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, y cam nesaf fydd gofyn am gymeradwyaeth Ynad (gweler isod).

DRAFT

Siart lif 7 – Caniatáu defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol



GOFYN AM GYMERADWYAETH YNAD AR GYFER FFYNHONNELL CUDDWYBODAETH DDYNOL (CYMERADWYAETH FARNWROL)

Cefndir

Ers 1 Tachwedd 2012 a chyflwyno Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 (adrannau 37 a 38), mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael cymeradwyaeth Ynad ar gyfer defnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

Mae angen cymeradwyaeth hefyd i adnewyddu caniatâd. Ym mhob achos, rôl yr Ynad yw sicrhau bod y gweithdrefnau cywir wedi'u dilyn a bod y ffactorau perthnasol wedi'u hystyried. Nid oes angen i'r Ynad ystyried penderfyniadau i ganslo caniatâd nac adolygiadau mewnol.

Canllawiau'r Swyddfa Gartref

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch proses gymeradwyo'r Ynad, a hynny ar gyfer yr awdurdodau lleol a'r Llysoedd Ynadon: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/118174/magistrates-courts-eng-wales.pdf

Nid yw'r canllawiau hyn yn rhai statudol, ond maent yn rhoi cyngor ynghylch y ffordd orau y gall y Cyngor fynd i'r afael â'r newidiadau i'r gyfraith a'r trefniadau newydd y dylid eu cyflwyno i roi'r newidiadau ar waith yn effeithiol. Mae'r canllawiau'n ategu'r ddeddfwriaeth a'r ddau God Ymarfer a wnaed o dan RIPA.

Proses Gymeradwyo'r Ynadon (gweler hefyd Siart Lif 8 isod)

1. Y cam cyntaf fydd gwneud cais am ganiatâd mewnol yn y ffordd arferol. Pan fydd hwn wedi'i roi, bydd angen i'r Cyngor gysylltu â'r Llys Ynadon lleol i drefnu gwrandawiad.

2. Bydd y gwrandawiad yn achos cyfreithiol. Felly, bydd angen i Swyddogion y Cyngor gael eu dynodi'n ffurfiol i ymddangos gerbron yr Ynad, tyngu llw, a chyflwyno tystiolaeth neu ddarparu gwybodaeth, yn ôl y gofyn, i gefnogi'r cais. Bydd angen i'r Cyngor ddynodi Swyddogion yn ffurfiol at y diben hwn o dan adran 223 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn iddynt gynrychioli'r Cyngor yn yr achos.

3. Mae'r Swyddfa Gartref yn awgrymu mai'r Swyddog Ymchwilio fydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon, ond gall y Swyddog Awdurdodi hefyd fod yn awyddus i fynd i'r gwrandawiad i ateb cwestiynau.

4. Bydd y Cyngor yn rhoi copi i'r Ynad o'r caniatâd RIPA gwreiddiol. Hwn fydd sail y cais i'r Ynad a dylai gynnwys yr holl wybodaeth y bydd yn dibynnu arni. Yn ogystal, bydd yr awdurdod lleol yn darparu i'r Ynad ddau gopi o'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol wedi'i llenwi'n rhannol sydd ar gael yng Nghanllawiau'r Swyddfa Gartref (ffurflenni enghreifftiol (gydag arweiniad ar lenwi'r ffurflenni) ac ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms-and-templates/).

5. Cynhelir y gwrandawiad yn breifat a bydd un Ynad yn gwrando ar yr achos, drwy ddarllen ac ystyried y caniatâd RIPA a'r ffurflen gais/gorchymyn barnwrol. Gall fod gan yr Ynad gwestiynau er mwyn egluro pwyntiau neu gael sicrwydd ynghylch materion penodol. Rhaid i'r ffurflenni a'r papurau ategol ddadlau'r achos o'u rhan eu hunain. **Nid yw'n ddigonol i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth lafar os nad yw'r papurau a ddarperir yn adlewyrchu neu'n cefnogi'r dystiolaeth honno.**

DRAFT

6. Bydd yr Ynad yn ystyried a yw'n fodlon bod sail resymol dros gredu, ar yr adeg y cafodd y caniatâd ei roi neu'i adnewyddu, fod y caniatâd yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd hefyd yn ystyried a yw'r sail resymol yn parhau. Yn ogystal, rhaid i'r Ynad fod yn fodlon bod y Swyddog Awdurdodi mewn swydd briodol o fewn yr awdurdod lleol a bod y caniatâd wedi'i roi yn unol ag unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol (e.e. ei fod yn bodloni'r Prawf Trosedd Ddifrifol ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig).

7. Bydd yr Ynad yn cwblhau'r gorchymyn sy'n rhan o'r ffurflen a enwir uchod. Hwn fydd cofnod swyddogol ei benderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor gadw copi o'r ffurflen ar ôl i'r Ynad ei llofnodi.

Dewisiadau'r Ynad

Gall yr Ynad benderfynu fel a ganlyn -

- ***Cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd***

Bydd y caniatâd a roddwyd/adnewyddwyd yn dod i rym a chaiff y Cyngor fwrw ymlaen i ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth a enwir ynddo.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd ar bwynt technegol***

Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Bydd angen i'r Cyngor ystyried y rhesymau dros wrthod cymeradwyaeth. Gellir cywiro gwall technegol ar y ffurflen heb fod angen mynd drwy'r broses ganiatáu fewnol eto. Yna, gall y Cyngor wneud cais arall am gymeradwyaeth Ynad.

- ***Gwrthod cymeradwyo rhoi/adnewyddu'r caniatâd a dileu'r caniatâd***

Gall Ynad wrthod cymeradwyo rhoi neu adnewyddu caniatâd a phenderfynu dileu'r caniatâd gwreiddiol. Gall wneud hyn oherwydd ei fod yn credu nad yw'n angenrheidiol neu'n gymesur. Ni fydd y caniatâd RIPA'n dod i rym ac ni chaiff y Cyngor ddefnyddio'r dechneg wyliadwriaeth yn yr achos hwn. Ni chaniateir i'r Ynad ddefnyddio'i bŵer i ddileu'r caniatâd oni bai fod y Cyngor wedi cael o leiaf ddau ddiwrnod gwaith o'r dyddiad y gwrthodwyd cymeradwyaeth i baratoi sylwadau pellach a'u cyflwyno i'r Llys.

Apeliadau

Nid oes modd cwyno am benderfyniad barnwrol oni bai iddo gael ei wneud yn annidwyll. Dylid cyfeirio unrhyw gŵyn at Bwyllgor Cynghori'r Ynadon.

Felly, ni chaiff y Cyngor ond apelio yn erbyn penderfyniad Ynad i wrthod cymeradwyo caniatâd ar bwynt cyfreithiol drwy wneud cais am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Bydd y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') yn parhau i ymchwilio i gwynion gan unigolion ynghylch y modd y mae cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn defnyddio technegau RIPA. Ar ôl i gŵyn ddod i law'r Tribiwnlys, os yw'n cael bod rhywbeth o'i le â'r caniatâd RIPA, mae ganddo bŵer i ddileu gorchymyn yr Ynad, a oedd yn cymeradwyo rhoi neu adnewyddu'r caniatâd. Gall hefyd ddyfarnu iawndal os yw'n credu bod y Cyngor wedi torri hawliau dynol unigolyn (gweler Rheolau'r Tribiwnlys ar Bwerau Ymchwilio 2018 (OS 2018/1334), a ddaeth i rym ar 31 Rhagfyr 2018).

DRAFT

Siart lif 8 – Proses Gymeradwyo'r Ynadon



Terfynau Amser

Ar hyn o bryd, 12 mis yw terfyn amser caniatâd i ddefnyddio Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol neu fis os yw'r Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol o dan oedran.

Rhaid caniatáu i'r caniatâd gwreiddiol gael ei adnewyddu cyn iddo ddod i ben, ond bydd yn dod i rym ar y dyddiad a'r amser y bydd y caniatâd gwreiddiol yn dod i ben. Gellir adnewyddu caniatâd fwy nag unwaith os tybir ei fod yn dal i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur ac os caiff ei gymeradwyo gan Ynad.

Ni chaniateir gwneud cais i adnewyddu caniatâd fwy na 7 diwrnod gwaith cyn i'r caniatâd ddod i ben, a hynny i sicrhau bod angen ei adnewyddu. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffactorau a allai beri oedi yn y broses adnewyddu (e.e. penwythnosau neu a yw swyddog awdurdodi perthnasol yr awdurdod lleol ac Ynad ar gael i ystyried y cais).

DRAFT

RHAN 4 – Cofnodion, Trin Data, Trefniadau Diogelwch Wrth Gadw Gwybodaeth, Gwallau a Chwynion

COFRESTR GANOLOG O'R CANIATADAU

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw cofrestr ganolog sy'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn am bob caniatâd. Fe'i cedwir am o leiaf dair blynedd o'r dyddiad y bydd pob caniatâd yn dod i ben ac ym mhob achos bydd yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion (2019) y Cyngor:
https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy-v20.pdf

a'r Polisi Cadw Corfforaethol:

https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/5276/corporate-retention-schedule.pdf

Rhaid cadw dogfennau sy'n rhoi cyfarwyddyd i roi'r gorau i gadw gwyliadwriaeth. Dylid cadw cofnod sy'n rhoi manylion y cynnyrch sydd wedi deillio o'r wyliadwriaeth ac sy'n nodi a gafodd yr amcanion eu cyflawni. Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cadw golwg ar y Gofrestr Ganolog, ond y Swyddog Awdurdodi sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau ei bod yn gyfoes o ran caniatadau a adnewyddwyd ac a ganslwyd.

Bydd caniatadau ar gael i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio eu gweld. Yr Uwch-swyddog Cyfrifol neu ei gynrychiolydd fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chynnal a'i goruchwylio.

Dylai'r cofnodion gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Y caniatâd gwreiddiol (nid copi ohono);
- Y math o ganiatâd – e.e. Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol;
- Dyddiad rhoi'r caniatâd;
- Enw a gradd y swyddog awdurdodi;
- Cyfeirnod (dilyniannol) unigryw'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;
- Teitl yr ymchwiliad neu'r ymgyrch, gan gynnwys disgrifiad cryno ac enwau targedau'r ymchwiliad neu'r ymgyrch, os ydynt yn wybyddus;
- A gafodd y darpariaethau brys eu defnyddio ac, os felly, pam;
- Dyddiad unrhyw adolygiadau;
- Os yw'r caniatâd wedi'i adnewyddu, y dyddiad adnewyddu a'r sawl a ganiataodd ei adnewyddu, gan gynnwys enw a gradd y swyddog awdurdodi;
- A wnaeth yr ymchwiliad neu'r ymgyrch arwain at gaffael gwybodaeth gyfrinachol;
- A gafodd y caniatâd ei roi gan unigolyn a oedd yn rhan uniongyrchol o'r ymchwiliad;
- Dyddiad canslo'r caniatâd;
- Y cyfarwyddyd i roi'r gorau i gadw gwyliadwriaeth;
- Cofnod o'r cynnyrch a gafwyd yn sgil cadw gwyliadwriaeth;
- Cofnod sy'n nodi a gafodd yr amcanion eu cyflawni ai peidio;
- Cymeradwyaeth y Llys Ynadon, gan gynnwys dyddiad y gwrandawiad llys;
- Enw'r Ynad a benderfynodd ar yr achos, ac amser a dyddiad y penderfyniad hwnnw;
- Mewn achosion lle gwrthodir unrhyw gais, ar ba sail y'i gwrthodwyd fel y'i mynegwyd i'r awdurdod dyroddi neu i'r Comisiynydd Barnwrol;
- Cofnod, wedi i Gomisiynydd Barnwrol wrthod unrhyw gais, a oes apêl i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio;

- Pan fo apêl o'r fath a bod y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hefyd yn gwrthod dyroddi cais, ar ba sail y'i gwrthodwyd.

Mae Paragraff 8.2 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo hefyd yn cadarnhau'r canlynol:

The following documentation should also be centrally retrievable for at least three years from the ending of each authorisation:

- *A copy of the application and a copy of the authorisation together with any supplementary documentation and notification of the approval given by the authorising officer;*
- *A record of the period over which the surveillance has taken place;*
- *The frequency of reviews prescribed by the authorising officer;*
- *A record of the result of each review of the authorisation;*
- *A copy of any renewal of an authorisation, together with the supporting documentation submitted when the renewal was requested;*
- *The date and time when any instruction to cease surveillance was given;*
- *The date and time when any other instruction was given by the authorising officer;*
- *For local authorities a copy of the order approving or otherwise the grant or renewal of an authorisation from a Justice of the Peace (JP).*

Dylai pob Swyddog Ymchwilio gadw copi o'r caniatâd o fewn ei wasanaeth a chyflwyno'r dogfennau gwreiddiol i'r Uwch-swyddog Cyfrifol.

Sicrwydd wrth Drin Data a Threfniadau Diogelwch wrth Gadw Gwybodaeth

Mae'r gweithdrefnau a'r mesurau diogelu a weithredir wrth ymdrin ag unrhyw ddeunydd a ddaw i law drwy wyliadwriaeth gyfeiriedig o dan Ddeddf 2000 yn cael sylw manwl yn y Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo a'r Cod Ymarfer ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol y dylid eu dilyn.

Mae'r ffurflenni cais ar gyfer Caniatadau RIPA wedi eu diwygio i gynnwys cyfeiriad at gyfnodau cadw gwybodaeth a chadarnhad bod y cyfnodau hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor a'r Rhaglen Gadw Gwybodaeth Gorfforaethol. (mae ffurflenni enghreifftiol gydag arweiniad ar sut i lenwi'r ffurflenni ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) ar https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms-and-templates/).

Rhaid cadw caniatadau am o leiaf dair blynedd, ac yn ddelfrydol hyd at bum mlynedd, wedi i bob caniatâd ddod i ben a hyd at bum mlynedd yn ddelfrydol. Rhaid i'r holl ddata a gafwyd o dan IPA 2016 a RIPA gael eu labelu'n glir a'u storio ar lwybr data gyda pholisi cadw hysbys.

Rhaid i'r llwybr cadw, adolygu a'r broses gwaredu data gydymffurfio â'r canlynol:

1. Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (2019): https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2725/information-and-records-management-policy

2. Rhaglen Cadw Corfforaethol y Cyngor https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/5276/corporate-retention-schedule.pdf

3. Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf

sy'n nodi'r canlynol ym Mharagraff 8.5 – Cadw cofnodion*:*

Records must be available for inspection by the Investigatory Powers Commissioner and retained to allow the Investigatory Powers Tribunal ('IPT'), established under Part IV of the 2000 Act, to carry out its functions. The IPT will consider complaints made up to one year after the conduct to which the complaint relates and, where it is equitable to do so, may consider complaints made more than one year after the conduct to which the complaint relates (see section 67(5) of the Act), particularly where continuing conduct is alleged. Although records are only required to be retained for at least three years, it is therefore desirable, if possible, to retain records for up to five years.

Gweler hefyd Paragraffau 8.6-8.7 isod ynghylch gwallau.

4. Rhaid i arferion cadw gwybodaeth gydymffurfio â'r fframweithiau cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys:
   - Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
   - Deddf Pwerau Ymchwilio(IPA) 2016
   - Deddf Diogelu Data 2018 ac
   - Erthygl 8(2) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Wrth ganiatáu unrhyw geisiadau sy'n ymwneud â Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol, dylai Swyddogion Awdurdodi hefyd ystyried:
(a) am ba hyd y cedwir y data?; a
(b) a yw hyn yn cydymffurfio â Pholisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion a Rhaglen Gadw Gorfforaethol y Cyngor?

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi hefyd sicrhau eu bod yn deall yn llawn unrhyw lwybrau data a ddefnyddir ar gyfer data RIPA neu IPA 2016.
Enghraifft: Gellir storio data gwyliadwriaeth gyfeiriedig ar yr un pryd ar sawl llwybr data, fel a ganlyn:

- Llwybr 1: cynnyrch fideo teledu cylch cyfyng yn cael ei drosglwyddo i CD a'i gadw mewn cabinet diogel;
- Llwybr 2: copi o'r fideo yn cael ei anfon trwy e-bost a'i storio ar yriant storio cyffredin;
- Llwybr 3: copi o'r fideo yn cael ei dderbyn trwy e-bost a'i gadw mewn ffolder Outlook gan swyddog cyfreithiol; a
- Llwybr 4: copi o'r fideo yn cael ei dderbyn trwy e-bost a'i storio mewn ffolder gwaith achos tystiolaethol wedi'i warchod gan gyfrinair gan swyddog cyfreithiol.

Rhaid i brosesau diogelu hefyd gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag 2018 (ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf), sy'n nodi ym mharagraff 9.3 y dylai awdurdodau cyhoeddus '*should ensure that their actions when handling information obtained by means of covert surveillance or property interference comply with relevant legal frameworks and this code, so that any interference with privacy is justified in accordance with Article 8(2) of the European Convention on Human Rights. Compliance with these legal frameworks, including data protection requirements, will ensure that the handling of private information so obtained continues to be lawful, justified and strictly controlled, and is subject to robust and effective safeguards.*'

Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 fel ei fod yn cydymffurfio â threfniadau diogelu data er mwyn sicrhau lefel uchel o hyder bod yr holl ddata a gafwyd yn cael ei gadw'n gyfreithlon ac er mwyn gwreiddio ac annog arfer orau o ran cydymffurfio, a hefyd sicrhau bod y modd yr

ymdrinnir â gwybodaeth breifat a gafwyd yn y modd hwnnw, yn parhau'n gyfreithlon, wedi'i gyfiawnhau ac wedi ei reoli'n llym, a'i fod yn rhwym wrth drefniadau diogelu cydnerth ac effeithiol. Ni ddylid cadw data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol nac am fwy o amser nag sy'n briodol.

Cyfrifoldeb pob gwasanaeth yw cadw'r holl ganiatadau o fewn eu gwasanaeth ac unwaith y bo ymchwiliad wedi'i gau, dylai copïau dyblyg o'r cofnodion sydd ym meddiant y gwasanaeth gael eu gwaredu mewn modd priodol h.y. eu trin fel gwastraff cyfrinachol a'u rhwygo.

Rhaid i Swyddogion Awdurdodi sicrhau, drwy eu Rheolydd Data perthnasol, eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion diogelu data priodol dan y Ddeddf Diogelu Data ac unrhyw drefniadau mewnol perthnasol a gynhyrchwyd gan y Cyngor o safbwynt trin a storio deunydd.

Rhaid hefyd hysbysu'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw doriadau i ofynion diogelu data.

Bydd y trefniadau diogelwch hyn yn destun adolygiad rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn gyfoes ac yn effeithiol.

Mae'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn nodi:

- *(Ym Mharagraff 9.5 Trefniadau diogelwch, gan gynnwys gwybodaeth freintiedig neu gyfrinachol):*
  Dissemination, copying and retention of material must be limited to the minimum necessary for authorised purposes. For the purposes of the code, something is necessary for the authorised purposes if the material:
    - *is, or is likely to become, necessary for any of the statutory purposes set out in the 2000, 1997 or 1994 Act in relation to covert surveillance or property interference;*
    - *is necessary for facilitating the carrying out of the functions of public authorities under those Acts;*
    - *is necessary for facilitating the carrying out of any functions of the Commissioner or the Investigatory Powers Tribunal;*
    - *is necessary for the purposes of legal proceedings; or*
    - *is necessary for the performance of the functions of any person by or under any enactment.*

Mae paragraffau 9.14 i 9.22 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 yn cynnig arweiniad ynghylch y trefniadau diogelwch sy'n rheoli rhannu, copïo, storio a dinistrio gwybodaeth breifat a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu drwy ymyrryd ag eiddo.

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau mewnol mewn grym, er mwyn sicrhau bod gofynion y trefniadau diogelwch y cyfeirir atynt yn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018 wedi'u bodloni o ran gwybodaeth breifat a dderbynnir.

Gellir trefnu hyfforddiant ar Drefniadau Diogelu Trin a Chadw Data ar gyfer unrhyw Swyddogion Awdurdodi neu Swyddogion a all ymdrin â data o'r fath – cysylltwch â'r Uwch-swyddog Cyfrifol os hoffech gael unrhyw hyfforddiant o'r fath.

Rhannu gwybodaeth
Dylai nifer y bobl y datgelir y wybodaeth iddynt a faint a ddatgelir fod yn gyfyngedig i'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig.

Mae'r rheidrwydd hwn hefyd yr un mor berthnasol o ran datgelu i bobl ychwanegol o fewn y Cyngor, neu i awdurdod cyhoeddus arall. Yn yr un modd, dim ond y deunydd y mae ei angen ar y derbynnydd y dylid ei ddatgelu e.e. os bydd crynodeb o'r deunydd yn ddigon, ni ddylid datgelu mwy na chrynodeb.

Mae'r rheidrwydd hwn i gyfyngu ar y nifer o bobl y datgelir unrhyw elfen o'r wybodaeth, gan gynnwys faint a ddatgelir i'r lleiafswm angenrheidiol ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig hefyd yn berthnasol i unrhyw un y datgelir y deunydd yn ddiweddarach. Mewn rhai achosion, cyflawnir hyn drwy fynnu bod yr ail yn cael caniatâd oddi wrth yr awdurdod gwreiddiol cyn datgelu deunydd ymhellach. Mewn achosion eraill, dylid rhoi trefniadau diogelwch penodol ar waith ar gyfer derbynwyr eilaidd.

Fel y cadarnhawyd yn yr adran Ymyrryd â Data Cyfathrebu uchod, ynglŷn â deunydd a gafwyd dan warant neu awdurdod ac a ddatgelir i awdurdodau gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, rhaid i'r Cyngor sicrhau mai dim ond os yr ymddengys iddynt y cedwir at unrhyw ofynion sy'n ymwneud â lleihau'r graddau y bydd y deunydd yn cael ei ddatgelu ei gopïo, ei rannu a'i gadw i'r graddau yr ystyria'r swyddog awdurdodi, y Comisiynydd Barnwrol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

Pan ddatgelir deunydd a gafwyd o dan warant neu ganiatâd i awdurdodau gwlad neu diriogaeth y tu allan i'r DU, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y deunydd yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdodau dim ond os yw'n ymddangos iddynt hwy y cedwir at unrhyw ofynion sy'n ymwneud â lleihau'r graddau y bydd y deunydd yn cael ei ddatgelu, ei gopïo, ei rannu a'i gadw i'r graddau yr ystyria'r swyddog awdurdodi, Comisiynydd Barnwrol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn briodol.

Copïo

Dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol at ddibenion awdurdodedig y ceir copïo deunydd a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd ac ymyrryd ag eiddo. Mae copïau'n cynnwys nid yn unig gopïau uniongyrchol o'r deunydd i gyd, ond hefyd ddetholion a chrynodebau sy'n dynodi eu bod yn gynnyrch gwyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo, ac unrhyw gofnod sy'n cyfeirio at wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo a phwy yw'r unigolion y cyfeirir atynt yn y deunydd.

Storio

Rhaid i ddeunydd a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo a phob copi, pob detholiad a phob crynodeb ohono gael eu trin a'u storio'n ddiogel, er mwyn lleihau hyd yr eithaf y perygl iddynt fynd ar goll neu gael eu dwyn. Rhaid cadw'r deunydd mewn modd fel na all unigolion heb y lefel angenrheidiol o gliriad diogelwch (lle bo hynny'n briodol) gael mynediad ato. Mae'r angen hwn i storio deunydd o'r fath yn ddiogel yn berthnasol i bawb sy'n gyfrifol am drin y deunydd.

Rhaid i'r Cyngor roi'r mesurau diogelwch gwarchodol canlynol ar waith:

- Diogelwch ffisegol i warchod unrhyw gynwysyddion storio neu eiddo lle gall y wybodaeth gael ei storio neu lle gellir cael mynediad ati;
- Diogelwch TG er mwyn lleihau'r risg o fynediad diawdurdodedig at systemau TG; a
- Chliriad diogelwch priodol ar gyfer staff a'r cliriad diogelwch wedi ei lunio i roi sicrwydd bod y sawl sydd â mynediad at y deunydd hwn yn ddibynadwy ac yn bobl y gellir ymddiried yn llwyr ynddynt;
- Diogelwch ffisegol yn ei le i ddiogelu unrhyw gamerâu neu offer recordio;
- Trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod mynediad i offer recordio yn cael ei gymeradwyo ar lefel briodol, a chadw cofnod o ddefnydd o'r fath.

DRAFT

Dileu a Dinistrio

Dylid trefnu i wybodaeth a gafwyd drwy wyliadwriaeth gudd neu ymyrryd ag eiddo, yn ogystal â phob copi, detholiad a chrynodebau sy'n cynnwys deunydd o'r fath gael eu dileu neu eu dinistrio a dylid eu dinistrio mewn modd diogel cyn gynted ac nad oes mo'u hangen bellach ar gyfer y diben(ion) awdurdodedig yn unol â'r Rhaglen Cadw Corfforaethol: https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/5276/corporate-retention-schedule.pdf.

Dylid cael gwared ar gofnodion dyblyg sydd ym meddiant y gwasanaeth mewn dull priodol h.y. dylid eu trin fel gwastraff cyfrinachol a dylid eu rhwygo.

Os cedwir gwybodaeth o'r fath, dylid ei hadolygu ar gyfnodau priodol, er mwyn sicrhau bod y cyfiawnhad dros ei chadw'n parhau'n ddilys.

Deunydd Cyfrinachol a Deunydd sy'n Meddu ar Fraint Gyfreithiol

Mae gofynion penodol a manwl iawn hefyd o ran deunydd sy'n arbennig o sensitif. Mae llawer o'r deunydd hwn yn ddarostyngedig i gyfundrefnau uwch awdurdodi. Ymhlith deunydd o'r math hwn, mae'r canlynol:

- Deunydd sy'n rhwym wrth fraint gyfreithiol;
- Gwybodaeth bersonol gyfrinachol;
- Gwybodaeth gyfansoddiadol gyfrinachol; a
- Deunydd newyddiadurol cyfrinachol a ffynonellau newyddiadurwyr.

Dim ond Swyddogion Awdurdodi â'r hawl ganddynt i roi caniatadau yn ymwneud â gwybodaeth gyfrinachol neu freintiedig gaiff awdurdodi gwyliadwriaeth gyfeiriedig sy'n debygol o arwain neu y bwriedir iddi arwain at gaffael gwybodaeth am ddeunydd cyfrinachol neu freintiedig. Rhaid bod yn ofalus os byddai modd, trwy gadw gwyliadwriaeth, gaffael gwybodaeth am drafodaethau rhwng gweinidog yr efengyl ac unigolyn ynghylch lles ysbrydol yr olaf, neu os yw materion o gyfrinachedd meddygol neu newyddiadurol dan sylw.

Os yw materion o'r fath wedi cael eu caffael a'u cadw, rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer RIPA gael ei hysbysu cyn gynted â phosibl oherwydd dylai'r mater gael ei adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn ystod yr arolygiad nesaf a dylai'r deunydd fod ar gael i'r Swyddfa os oes angen.

Marcio

Dylid ystyried marcio deunydd mewn modd priodol, er enghraifft, marcio deunydd cyfrinachol neu sensitif â'r geiriau 'CYFRINACHOL' neu 'PEIDIWCH Â DOSBARTHU HEB GANIATÂD YSGRIFENEDIG'

Gwallau

Bydd paratoi gofalus a gwirio caniatadau a systemau technegol priodol yn lleihau'r posibiliad o wneud gwallau.

Bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cynnal adolygiad blynyddol o wallau ynghyd â chadw cofnod ysgrifenedig.
Gweler Paragraffau 8.8-8.18 y Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo (2018):

> *8.6 This section provides information regarding errors. Proper application of the surveillance provisions provided for in Part II of the 2000 Act and the property interference provision provided for in the 1994 and 1997 Acts, should reduce the*

scope for making errors. Public authorities will be expected to have thorough procedures in place to comply with these provisions, including for example the careful preparation and checking of warrants and authorisations, reducing the scope for making errors.

8.7 Wherever possible, any technical systems should incorporate functionality to minimise errors.

8.8 An error must be reported if it is a 'relevant error'. Under section 231(9) of the Investigatory Powers Act 2016, a relevant error for the purpose of activity covered by this code is any error by a public authority in complying with any requirements that are imposed on it by any enactment which are subject to review by a Judicial Commissioner. This would include compliance by public authorities with Part II of the 2000 Act or the property interference provisions of the 1994 and 1997 Acts. Examples of relevant errors occurring would include circumstances where:

- *Surveillance or property interference activity has taken place without lawful authorization; or*
- *There has been a failure to adhere to the safeguards set out in the relevant statutory provisions and Chapter 9 of the Code.*

8.9 Errors can have very significant consequences on an affected individual's rights and, in accordance with section 235(6) of the Investigatory Powers Act 2016, all relevant errors made by public authorities must be reported to the Investigatory Powers Commissioner by the public authority that is aware of the error.

*8.10 When a relevant error has occurred, the public authority that made the error must notify the Investigatory Powers Commissioner as soon as reasonably practicable, and no later than **ten working** days (or as agreed with the Commissioner) after it has been established by appropriate internal governance processes that a relevant error has occurred. Such internal governance processes are subject to review by the Investigatory Powers Commissioner. Where the full facts of the error cannot be ascertained within that time, an initial notification must be sent with an estimated timescale for the error being reported in full and an explanation of the steps being undertaken to establish the full facts of the error.*

8.11 From the point at which the public authority identifies that a relevant error may have occurred, they must take steps to confirm the fact of an error as quickly as it is reasonably practicable to do so. Where it is subsequently confirmed that an error has occurred and that error is notified to the Commissioner, the public authority must also inform the Commissioner of when it was initially identified that an error may have taken place.

8.12 A full report must be sent to the Investigatory Powers Commissioner as soon as reasonably practicable in relation to any relevant error, including details of the error and, where it has not been possible to provide the full report within ten working days (or as agreed with the Commissioner) of establishing the fact of the error, the reasons this is the case. The report should include information on the cause of the error; the amount of surveillance or property interference conducted and material obtained or disclosed; any unintended collateral intrusion; any analysis or action taken; whether any material has been retained or destroyed; and a summary of the steps taken to prevent recurrence.

DRAFT

8.13 The Investigatory Powers Commissioner may issue guidance as necessary, including guidance on the format of error reports. Public authorities must have regard to any guidance on errors issued by the Investigatory Powers Commissioners.

8.14 In addition to the above, errors may arise where a warrant or authorisation has been obtained as a result of the public authority having been provided with information which later proved to be incorrect due to an error on the part of the person providing the information, but on which the public authority relied in good faith. Whilst these actions do not constitute a relevant error on the part of the authority which acted on the information, such occurrences should be brought to the attention of the Investigatory Powers Commissioner. Where reporting such circumstances to the Investigatory Powers Commissioner, the processes outlined at Paragraph 8.10 apply as they apply to the reporting of a relevant error.

Adrodd am Wallau Perthnasol

O fis Tachwedd 2022 ymlaen, bydd yn rhaid adrodd am Wallau Perthnasol a gyflawnir gan awdurdodau cyhoeddus, wrth arfer eu pwerau a'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 a Deddf yr Heddlu 1997, gan ddilyn y broses ddiwygiedig ganlynol:

- Rhaid i'r Cyngor adrodd am unrhyw Wall Perthnasol i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.
- Dylai pob adroddiad gael ei anfon i Errors@ipco.org.uk.
- Ar ôl derbyn Gwall Perthnasol, rhoddir cydnabyddiaeth awtomatig.
- Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach neu gymryd unrhyw gamau pellach o ganlyniad i adroddiad Gwall Perthnasol, bydd Arolygydd Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn cysylltu â'r Cyngor.
- Yna caiff y Gwall Perthnasol ei asesu er mwyn pennu a allai'r amgylchiadau fod wedi:

a) arwain at niwed difrifol neu

b) galw am wneud unrhyw newidiadau brys i bolisi neu weithdrefnau cenedlaethol.

Os mai dyma yw'r achos, cynhelir ymchwiliad.

- Os bernir nad yw'n ddifrifol, caiff y Gwall Perthnasol ei ystyried yn yr archwiliad Comisiynydd Pwerau Ymchwilio nesaf.

Caiff Gwallau Perthnasol eu hystyried yn rheolaidd ym mhob un o archwiliadau'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.

Bydd yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu cofnodion a chadarnhau bod y gwall, sydd heb unrhyw gysylltiad neu berthnasedd ag unrhyw ymchwiliad neu weithrediad a gynhelir gan y Cyngor, wedi cael ei ddinistrio.
Mae'r Uwch-swyddog Cyfrifol yn gyfrifol am oruchwylio adrodd am wallau i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, a nodi achos(ion) y gwallau a gweithredu prosesau i'w atal rhag digwydd eto.

Enghreifftiau o gamgymeriadau cyffredin ar ffurflenni RIPA

- Defnyddio hen ffurflenni'r Swyddfa Gartref;
- Peidio â nodi cyfeirnod unigryw ar y ffurflen;
- Copïo geiriad caniatadau blaenorol;

- Methu â rhoi esboniadau manwl o'r hyn a fydd yn digwydd fel rhan o'r gwaith gwyliadwriaeth;
- Methu ag ystyried a/neu egluro'r ffactorau cymesuredd yn ddigonol;
- Methu ag ystyried a/neu egluro'r ymyrraeth anuniongyrchol yn ddigonol;
- Methu ag ystyried y tebygrwydd o gaffael gwybodaeth gyfrinachol;
- Methu ag anfon ffurflenni (gwreiddiol) wedi'u llenwi at yr Uwch-swyddog Cyfrifol; neu
- Fethu â gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r tactegau y mae'n wybyddus eu bod ar gael neu y bwriedir eu defnyddio yn unig.

Enghreifftiau o gamgymeriadau Swyddogion Awdurdodi

- Naratif ailadroddus a rhoi sêl bendith heb ystyried yr holl ffeithiau a nodir ar y ffurflen gais am ganiatâd yn briodol;
- Methu â nodi'n glir pa weithgareddau a chyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir;
- Heb fod yn gwybod yr hyn y gall y cyfarpar gwyliadwriaeth a ganiateir ei wneud; (e.e. camerâu sy'n recordio'n barhaus, y gallu i greu delweddau thermol / is-goch, camerâu sy'n cael eu switsio ymlaen gan symudiadau);
- Methu â dangos bod dulliau llai ymwthiol wedi'u hystyried yn ddigonol a pham eu bod wedi'u diystyru er mwyn defnyddio'r dacteg a ddewiswyd;
- Methu â rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli a storio cynnyrch y wyliadwriaeth wrth ganslo caniatâd;
- Dim gweithdrefnau cadarn na gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith;
- Methu â rhoi tystiolaeth o gymesuredd – bod dulliau eraill wedi'u hystyried, a bod y meini prawf perthnasol wedi'u hystyried; neu
- Rhaid barnu'r angen am ganiatâd ar adeg rhoi'r caniatâd, ac nid drwy edrych yn ôl.

<u>Gwallau Difrifol</u>

8.15 Section 231 of the 2016 Act states that the Investigatory Powers Commissioner must inform a person of any relevant error relating to that person if the Commissioner considers that the error is a serious error and that it is in the public interest for the person concerned to be informed of the error. The Commissioner may not decide that an error is a serious error unless he or she considers that the error has caused significant prejudice or harm to the person concerned. The fact that there has been a breach of a person's Convention rights (within the meaning of the Human Rights Act 1998) is not sufficient by itself for an error to be a serious error.

8.16 In deciding whether it is in the public interest for the person concerned to be informed of the error, the Commissioner must in particular consider:

- *national security;*
- *the prevention or detection of serious crime;*
- *the economic well-being of the United Kingdom; or*
- *the continued discharge of the functions of any of the intelligence services*

8.17 Before making their decision, the Commissioner must ask the public authority which has made the error to make submissions on the matters concerned. Public authorities must take all such steps as notified to them by the Investigatory Powers Commissioner to help identify the subject of a serious error. See Reporting Relevant Errors above.

8.18 When informing a person of a serious error, the Commissioner must inform the person of any rights that the person may have to apply to the Investigatory Powers Tribunal, and provide such details of the error as the Commissioner considers to be necessary for the exercise of those rights.

Gellir cael rhagor o arweiniad fan hyn:

- Paragraffau 7.1 – 7.20 o'r Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2018 a
- Paragraffau 8.6 – 8.18 o'r Cod Ymarfer ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018

CODI PRYDER

Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio (IPCO) yn cydnabod pwysigrwydd y porth gwybodaeth sy'n cael ei greu yn Neddf Pwerau Ymchwilio 2016.
Mae'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio wedi cyhoeddi cyfarwyddyd i'r rhai sydd am ddatgelu gwybodaeth ynghylch defnyddio pwerau ymchwilio:
2022-08-Disclosing-information-to-IPCO.pdf(ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com)

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â datgeliadau ynghylch unrhyw faterion sydd wedi'u cynnwys o fewn goruchwyliaeth y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio.
Mae'r cyfarwyddyd yn datgan, lle y bo'n briodol, y dylai polisi chwythu'r chwiban mewnol cyflogwr gael ei ystyried yn gyntaf. Mae'r polisi hwn i'w weld yma:
https://cerinet.ceredigion.gov.uk/employees/safeguarding-and-whistleblowing/whistleblowing/

CWYNION

Caiff unrhyw un sy'n anfodlon â'r modd y mae'r Cyngor wedi cadw gwyliadwriaeth, neu'r modd y mae'n cadw gwyliadwriaeth, wneud cwyn. Yr unigolyn fydd yn penderfynu pa weithdrefn y dylid ei defnyddio.

Os bydd yr unigolyn am gwyno gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, dylai'r achwynydd gael gwybod am Drefn Gwyno Gorfforaethol y Cyngor, (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/sylwadau-canmoliaeth-a-chwynion/cwynion-corfforaethol/ a
https://www.ceredigion.gov.uk/media/1178/complaints-policy-bookletcymraeg.pdf)
Bydd y gŵyn yn cael ei thrafod yn unol â'r weithdrefn honno.
Os bydd yr unigolyn am gyflwyno cwyn yn uniongyrchol i gorff annibynnol, neu os bydd wedi defnyddio gweithdrefnau mewnol y Cyngor a'i fod yn dal i fod yn anfodlon, caiff gyflwyno cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT').

Mae gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yr awdurdod i ymchwilio a dod i benderfyniad ynghylch cwynion yn erbyn defnydd awdurdod cyhoeddus o bwerau ymchwilio. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio neu er mwyn gwneud cwyn, yna ceir manylion llawn sut mae gwneud hynny ar wefan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (IPT): www.ipt-uk.com.

Gellir anfon cwyn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod:

The Investigatory Powers Tribunal
PO Box 33220
London
SWIH 9ZQ

* Gweler Rhan 5 isod am gwynion ynghylch Data Cyfathrebu

RHAN 5 – Data Cyfathrebu

Daeth Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Data Cyfathrebu) 2010 (OS 2010 rhif 480) i rym ar 6 Ebrill 2010 ac mae'n cadarnhau'r pwerau a geir ym Mhennod 2 o RIPA a ddarparwyd i'r Awdurdodau Lleol gan Orchymyn cyfatebol 2003.

Yn gryno, mae Pennod 2 yn caniatáu i Awdurdod Cyhoeddus, fel y Cyngor, gaffael gwybodaeth a ddiffinnir fel "data cyfathrebu" *("communications data").* Mae hyn yn cynnwys data tanysgrifio a data gwasanaeth ond nid "data traffig" *("traffic data")* fel y'i diffinnir gan y Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).

Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 ('IPA 2016') sy'n rheoleiddio mynediad i ddata cyfathrebu (https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/). Gweler hefyd God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757850/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf.

Ystyr 'Data Cyfathrebu'

Gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan ddarparwyr gwasanaethau cyfathrebu (e.e. cwmnïau telathrebu, rhyngrwyd a phost) sy'n ymwneud â chyfathrebiadau'u cwsmeriaid yw data cyfathrebu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â defnyddio gwasanaeth cyfathrebu, ond nid cynnwys y cyfathrebiadau'u hunain.

Gallai enghraifft syml o gais llwyddiannus am ddata cyfathrebu gynnwys, er enghraifft, gwneud cais am fanylion yn cadarnhau dyddiad ac amser e-bost, ond nid ei gynnwys.

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn nodi (ym mharagraff 2.18) bod y term 'data cyfathrebu' yn cynnwys 'pwy', 'pryd', 'ble', a 'sut' y cyfathrebwyd ond nid cynnwys y cyfathrebiad h.y. yr hyn a ddywedwyd neu a ysgrifennwyd (diffinnir cynnwys cyfathrebiad yn adran 261(6) o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 fel unrhyw elfen o'r cyfathrebiad, neu unrhyw ddata sydd ynghlwm wrth y cyfathrebiad neu'n rhesymegol gysylltiedig ag ef, sy'n datgelu unrhyw beth o'r hyn y gellid yn rhesymol ei ystyried yn ystyr (os oes un) y cyfathrebiad hwnnw).

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn nodi, mewn perthynas â Data Cyfathrebu :

2.19 *'It includes the way in which, and by what method, a person or thing communicates with another person or thing. It excludes anything within a communication including text, audio and video that reveals the meaning, other than inferred meaning, of the communication.*

2.20 It can include the address to which a letter is sent, the time and duration of a communication, the telephone number or email address of the originator and recipient, and the location of the device from which the communication was made. It covers electronic communications including internet access, internet telephony, instant messaging and the use of applications. It also includes postal services.

2.21 Communications data is generated, held or obtained in the provision, delivery and maintenance of communications services – i.e. postal services or telecommunications services.

2.22 Communications data in relation to telecommunications operators' services and systems includes data held or obtainable by a telecommunications operator or postal operator or which is available directly from a telecommunication system and comprises four elements.

Data about an entity to which a telecommunications service is provided and relates to the provision of the service

2.23 This data includes information about any person or entity to whom a service is provided, whether a subscriber or guest user and whether or not they have ever used that service. For example, this may include information about the person associated with an email address even if that email address has not been used since its creation.

2.24 An entity (see below for further details) can also include devices so this data would cover information about the devices owned by a customer as well as the services provided by the telecommunications operator to which the owner of the devices subscribes. This data may include names and addresses of subscribers.

2.25 Importantly this data is limited to data held or obtained by the telecommunications operator in relation to the provision of a telecommunications service – it does not include data which may be held about a customer by a telecommunications operator more generally which is not related to the provision of a telecommunications service.

2.26 For example, for a social networking provider data such as the status of the account, contact details for the customer and the date a person registered with the service would all be communications data as they relate to the use of the service. However, other data held by the provider about a customer which does not relate to the provision of the telecommunications service, including personal information such as political or religious interests included in profile information, is not within scope of the definition of communications data.

Data comprised in, included as part of, attached to or logically associated with a communication for the purposes of a telecommunication system that facilitates the transmission of that communication

2.27 This data includes any information that is necessary to get a communication from its source to its destination, such as the dialled telephone number or Internet Protocol (IP) address. It includes data which:

- *identifies the sender or recipient of a communication or their location;*
- *identifies or selects the apparatus used to transmit the communication;*
- *comprises signals which activate the apparatus used (or which is to be used) to transmit the communication; and*
- *identifies data as being part of a communication.*

2.28 This element of the communications data definition also includes data held, or capable of being obtained, by the telecommunications operator which is logically associated with a communication for the purposes of the telecommunication system by which the communication is being, or may be, transmitted. In practice this will often mean any data which is used to route or transmit a communication which the telecommunications operator holds or could obtain, for example from the network.

DRAFT

Communications Data Code of Practice

2.29 This might include, for example data about domain name system ('DNS') requests which allow communications to be routed across the network. It also includes data that facilitates the transmission of future communications (regardless of whether those communications are, in fact, transmitted).

2.30 Only information falling within this section of the definition of communications data can be obtained directly from a telecommunication system by a public authority.

Data which relates to the use of a service or system

2.31 This element includes other information held by a telecommunications operator about the use of the service such as information that the provider holds for billing purposes.

Data which is about the architecture of a telecommunication system.

2.32 The definition of communications data additionally includes data held by a telecommunications operator about the architecture of the telecommunication system (sometimes referred to as 'reference data'). This may include the location of cell masts or Wi-Fi hotspots. This information itself does not contain any information relating to specific persons and its acquisition in its own right does not interfere with the privacy of any customers. However, this data is often necessary for the public authority to interpret the data received in relation to specific communications or users of a service.

2.33 Part 3 of the Act does not apply to any conduct by a public authority to obtain publicly or commercially available communications data. A communications data authorisation under Part 3 is not mandatory to obtain reference data, such as mobile phone mast locations, from a telecommunications operator as there is no intrusion into an individual's rights. However, some reference data, such as details of Wi-Fi hotspots, may be commercially sensitive and an authorisation can be sought by a public authority seeking to obtain this data from a telecommunications operator where the telecommunications operator requires it.

Entity and Events Data

2.34 All communications data held by a telecommunications operator or obtainable from a telecommunication system falls into two categories:

- *entity data – this data is about entities or links between them and describes or identifies the entity but does not include information about individual events. Entities could be individuals, groups and objects (such as mobile phones or other communications devices);*
- *events data – events data identifies or describes events in relation to a telecommunication system which consist of one or more entities engaging in an activity at a specific point, or points, in time.*

2.35 The authorisation levels required to access communications data reflect the fact that the set of events data as a whole contains the more intrusive communications data, including information on who has been in communication

with whom, a person's location when their mobile device connects to the network and internet connection records. The rank of the designated senior officer that can authorise acquisition of data reflects the differing levels of intrusiveness of the data. For example, in certain circumstances, the police can authorise access to entity data at Inspector level but events data is authorised at Superintendent level. Additionally entity data can be obtained in a wider range of crime types than events data.

2.36 *There are some circumstances where a telecommunications operator will need to process events data in order to respond to a request for entity data. In such circumstances the level of authorisation required is for the type of data that is to be disclosed, rather than the type of data that is processed e.g. where a public authority wants to know the identity of a person using an IP address at a specific time and date this will be an application for entity data.*

2.37 *Where a public authority provides events data to a telecommunications operator as part of a request for entity data then the telecommunications operator may disclose that events data in the response to the entity data authorisation. Taking the example above, the telecommunications operator could include the time and date of the communication as part of the response without the need for it to be authorised as an event. This is because the public authority, by providing the events data to the telecommunications operator, has demonstrated they are already aware of the event and only intend to determine the entity involved in that event. By disclosing the events data the telecommunications operator would only be providing the public authority with information they already knew. Such disclosure is likely to occur where the telecommunications operator discloses the full record from their systems.*

Entity data

2.38 *Entity data covers information about a person or thing, and about links between a telecommunications service, part of a telecommunication system and a person or thing, that identify or describe the person or thing. This means that individual communication devices such as phones, tablets and computers are entities. The links between a person and their phone are therefore entity data but the fact of or information about communications between devices on a network at a specific time and for a specified duration would be events data.*

2.39 *Examples of entity data include:*

- *'subscriber checks' such as "who is the subscriber of phone number 01234 567 890?", "who is the account holder of e-mail account example@example.co.uk?" or "who is entitled to post to web space www.example.co.uk?";*
- *subscribers' or account holders' account information, including names and addresses for installation, and billing including payment method(s), details of payments;*
- *information about the connection, disconnection and reconnection of services to which the subscriber or account holder is allocated or has subscribed (or may have subscribed) including conference calling, call messaging, call waiting and call barring telecommunications services;*
- *information about apparatus or devices used by, or made available to, the subscriber or account holder, including the manufacturer, model, serial numbers and apparatus codes (This includes PUK (Personal Unlocking Key) codes for mobile phones. These are initially set by the handset manufacturer*

and are required to be disclosed in circumstances where a locked handset has been lawfully seized as evidence in criminal investigations or proceedings); and

- *information about selection of preferential numbers or discount calls.*

2.40 Entity data can change over time. So, for example if a person moves house the address held by a telecommunications operator will change. The fact of that is an attribute of the entity (the person) and not a communication event.

2.41 Some telecommunications operators may choose to retain user passwords as clear text for business purposes (In many cases a telecommunications operator will actually retain a password hash rather than the password itself. When a user enters the password to use a service it is encrypted and the hash generated is checked against the hash already held by a telecommunications operator meaning the operator never needs to retain the actual password). In this context passwords would constitute entity data. Any information, such as a password, giving access to the content of any stored communications or access to the use of a communications service may only be sought under Part 3 of the Act from a telecommunications operator in the following circumstances:

- *where such information is necessary in the interests of national security; or*
- *for preventing death, injury or damage to health.*

2.42 A communications data authorisation cannot authorise a public authority to use a password obtained through that or another communications data authorisation. If a public authority wishes to use a password obtained through a communications data authorisation to access the content of stored communications or any communications service it must, in accordance with section 6

2.43 of the Act, ensure that it has appropriate lawful authority.

Events

2.44 Events data covers information about time-bound events taking place across a telecommunication system at a time interval. Communications data is limited to communication events describing the transmission of information between two or more entities over a telecommunications service. This will include information which identifies, or appears to identify, any person, apparatus ('Apparatus' is defined in section 263 of the Act to include 'any equipment, machinery or device (whether physical or logical) and any wire or cable') or location to or from which a communication is transmitted. It does not include non-communication events such as a change in address or telephone number for a customer.

2.45 Examples of events data include, but are not limited to:

- *information tracing the origin or destination of a communication that is, or has been, in transmission (including incoming call records);*
- *information identifying the location of apparatus when a communication is, has been or may be made or received (such as the location of a mobile phone);*
- *information identifying the sender or recipient (including copy recipients) of a communication from data comprised in or attached to the communication;*
- *routing information identifying apparatus through which a communication is or has been transmitted (for example, file transfer logs and e-mail headers – to the extent that content of a communication, such as the subject line of an e-mail, is not disclosed);*

DRAFT

- *itemised telephone call records (numbers called) (Itemised bills can include an indication of the cost for receiving communications, for example calls and messages received by a mobile telephone that has been 'roaming' on another network);*
- *itemised internet connection records;*
- *itemised timing and duration of service usage (calls and/or connections);*
- *information about amounts of data downloaded and/or uploaded;*
- *information about the use made of services which the user is allocated or has subscribed to (or may have subscribed to) including conference calling, call messaging, call waiting and call barring telecommunications services.*'

Ymyrryd â Data Cyfathrebu

Ni all awdurdod lleol recordio galwadau ffôn rhwng dau barti pan nad yw'r naill barti na'r llall yn gwybod bod yr alwad yn cael ei recordio.

Mewn rhai sefyllfaoedd, gall y sawl sy'n ffonio neu'n derbyn galwad gydsynio i'r sgwrs ffôn gael ei recordio. O dan amgylchiadau o'r fath, nid oes angen gwarant. I gadw gwyliadwriaeth o'r fath, bydd naill ai angen caniatâd i gadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu ganiatâd i ddefnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol os mai ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol sy'n gwneud neu'n derbyn yr alwad (fel arfer swyddog sy'n '*gweithio'n gudd'*).

Os yw'r swyddog neu'r ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol yn bwriadu recordio sgwrs ffôn fel rhan o weithgareddau gwyliadwriaeth gyfeiriedig neu weithgareddau sy'n defnyddio ffynhonnell cuddwybodaeth ddynol sydd eisoes wedi'u caniatáu, nid oes angen cael caniatâd arbennig neu ganiatâd ychwanegol.

Nid yw fframwaith deddfwriaethol RIPA'n berthnasol i'r gwaith o recordio sgyrsiau ffôn at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â phwerau ymchwilio.

Mae'r Ddeddf Pwerau Ymchwilio (IPA) 2016 yn amlinellu'r dyletswyddau cyffredinol o ran preifatrwydd wrth ymwneud â'r canlynol:

- ymyrryd yn anghyfreithlon â data cyfathrebu a
- chaffael data cyfathrebu yn anghyfreithlon.

Mae'r Ddeddf hefyd yn diddymu ac yn cyfyngu ar nifer o bwerau cyffredinol i gaffael data cyfathrebu ac yn cyfyngu ar yr amgylchiadau hynny lle gellir cynnal ymyrraeth ag offer ac y gellir gwneud rhai ceisiadau am ymyrryd â chyfathrebu. Mae'r Ddeddf yn nodi gwaharddiadau rhag ymyrraeth anghyfreithlon.

Sylwch, o dan adran 11 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, mae'n drosedd i unigolyn mewn awdurdod cyhoeddus gael data cyfathrebu yn fwriadol neu'n ddi-hid gan weithredwr telathrebu neu weithredwr post heb awdurdod cyfreithlon. Ni chyflawnir trosedd os gall yr unigolyn sawl sy'n cael y data ddangos ei fod wedi gweithredu yn y gred resymol bod ganddo ganiatâd cyfreithlon.

Nid yw'n drosedd i gael gafael ar ddata cyfathrebu lle mae'r data hwn ar gael yn gyhoeddus neu'n fasnachol gan weithredydd telathrebu/gweithredwr post. Mewn amgylchiadau o'r fath mae cydsyniad y gweithredwr yn darparu'r awdurdod cyfreithlon. Fodd bynnag, ni ddylai awdurdodau cyhoeddus fynnu, neu wahodd, unrhyw weithredwr i ddatgelu data cyfathrebu trwy ddibynnu ar yr eithriad hwn.

Nid yw Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn caniatáu i awdurdodau lleol ryng-gipio data cyfathrebu. Dim ond trwy Un Pwynt Cyswllt (SPC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll

Cenedlaethol (NAFN) y caniateir i Swyddogion y Cyngor gael gafael ar Data Cyfathrebu (gweler isod).

Mae caniatadau Data Cyfathrebu yn dod i ben 1 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo. Gall adnewyddiad wedi'i ganiatáu estyn y caniatâd am hyd at fis ychwanegol.

Gallai methu â sicrhau cymeradwyaeth briodol a chydymffurfio â Pholisi'r Cyngor arwain at eithrio tystiolaeth gan Lysoedd, cwynion yn erbyn y Cyngor, neu gyflawni troseddau. Mae'r Cyngor yn destun archwiliad ac arolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ac mae'n bwysig ein bod yn cydymffurfio â Deddf Pwerau Ymchwilio 2016.

Cael gafael ar ddata cyfathrebu drwy Un Pwynt Cyswllt (SPOC) y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol (NAFN)

Mae'n hanfodol bod caffael Data Cyfathrebu wedi'i ganiatáu'n briodol.

Mae caffael data cyfathrebu o dan Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn cynnwys pedair rôl:

(a) Ymgeisydd;

(b) Swyddog ar Reng Gymeradwy;

(c) Un Pwynt Cyswllt;

(ch) Uwch-swyddog Cyfrifol mewn Awdurdod Cyhoeddus.

Caiff ceisiadau am ddata cyfathrebu eu caniatáu trwy aelodaeth y Cyngor o'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol ('NAFN') sy'n gweithredu fel Un Pwynt Cyswllt achrededig ar gyfer gweithredwyr telathrebu, gweithredwyr post a darparwyr gwasanaethau'r rhyngrwyd.

Rhaid i Swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i geisio caffael unrhyw fath o ddata cyfathrebu (yr Ymgeisydd) wneud cais i'w gaffael trwy borth canolog Un Pwynt Cyswllt y Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol. Rhaid i Swyddog ar Reng Gymeradwy hefyd fod yn ymwybodol o'r cais ac mae'r Rhwydwaith Gwrth-dwyll Cenedlaethol yn hwyluso cymeradwyo'r cais gan y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA').

Ers i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (IPA) ddod i rym, hon yw'r brif ddeddfwriaeth sy'n pennu sut mae awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys asiantaethau gorfodi'r gyfraith, asiantaethau cuddwybodaeth ac awdurdodau lleol, yn defnyddio'r pwerau ymchwilio sydd ar gael i ni. Mae'r pwerau hyn yn darparu ar gyfer caffael yn gyfreithlon ddata cyfathrebu, gan gynnwys manylion ynglŷn â phwy a gyfathrebodd, ble, pryd, sut a chyda phwy, ond nid y cynnwys (hynny yw, yr hyn a ddywedwyd).

I ddefnyddio gwefan ddiogel NAFN, rhaid i'r ymgeiswyr gofrestru'n unigol ar wefan NAFN yn www.nafn.gov.uk. Ar ôl cofrestru, rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen gais ar-lein a'i chyflwyno'n electronig i un o swyddogion NAFN. Bydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd a oes angen iddo wneud unrhyw newidiadau. Gellir lawrlwytho'r ffurflenni perthnasol o wefan y Swyddfa Gartref hefyd, a gellir cael copi gan yr Uwch-swyddog Gyfrifol neu Gynrychiolydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol.

Rhaid i'r cais i gaffael data cyfathrebu (yn ôl paragraffau 5.4-5.5 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018):

- disgrifio'r data cyfathrebu sy'n ofynnol, gan nodi, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw ddyddiad(au) hanesyddol neu yn y dyfodol a, lle bo hynny'n briodol, cyfnod(au) amser;

- nodi'r pwrpas y mae angen y data ar ei gyfer, trwy gyfeirio at bwrpas statudol o dan y Ddeddf;

- cynnwys cyfeirnod unigryw;

- cynnwys enw a swydd, rheng neu radd y sawl sy'n gwneud y cais;

- disgrifio a yw'r data cyfathrebu'n ymwneud â dioddefwr, tyst, achwynydd, rhywun sydd dan amheuaeth, perthynas agosaf, person bregus neu berson arall sy'n berthnasol i'r ymchwiliad neu'r ymgyrch;

- cynnwys enw'r ymgyrch (os yw'n berthnasol) y mae'r cais yn ymwneud ag ef;

- nodi ac egluro'r amserlen y mae angen y data ar ei gyfer;

- esbonio pam yr ystyrir bod caffael y data hwnnw'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r hyn y ceisir ei gyflawni trwy ei gaffael (gweler adran Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 ar reidrwydd a chymesuredd, gan ddechrau ym mharagraff 3.3. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r ddau fwled nesaf ar ymyrraeth anuniongyrchol a chanlyniadau anfwriadol);

- cyflwyno'r achos dros ei ganiatáu mewn ffordd deg a chytbwys. Yn benodol, dylid gwneud pob ymdrech resymol i ystyried gwybodaeth sy'n cefnogi neu'n gwanhau'r achos dros ei ganiatáu;

- ystyried a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio unrhyw ymyrraeth anuniongyrchol ystyrlon – i ba raddau y gellir torri hawliau unrhyw unigolyn nad yw'n destun ymchwiliad a pham y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth honno o dan yr amgylchiadau;

- ystyried a, lle bo hynny'n briodol, disgrifio unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl yn sgil y cais; a

- lle mae data yn cael eu ceisio gan weithredwr telathrebu neu weithredwr post, a all y gweithredwr telathrebu neu weithredwr post hysbysu'r unigolyn(unigolion) sy'n destun gwyliadwriaeth o'r ffaith bod cais wedi cael ei wneud am ei ddata.

- Dylai'r cais gofnodi wedi hynny a gafodd ei ganiatáu gan unigolyn sy'n caniatáu a phryd y gwnaed y penderfyniad hwnnw. Dylai'r awdurdod cyhoeddus gadw ceisiadau a dylent fod yn hygyrch i'r Un Pwynt Cyswllt.

Bydd y swyddog NAFN a benodir yn Un Pwynt Cyswllt, ymhlith pethau eraill, yn cyflawni rôl rheoli ansawdd ac yn rhoi cyngor ar faterion amrywiol i gynorthwyo'r swyddog ymchwilio a'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn y Cyngor ar gyfer Caniatadau Data Cyfathrebu, y mae'n ofynnol iddynt fod ar yr un lefel (gweler 4.11 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018) â'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu.

Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn cynghori a yw'r cais yn bodloni'r gofynion statudol, a oes modd i'r Gweithredwyr Telathrebu, Gweithredwyr Post neu'r Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd gael gafael ar y wybodaeth ofynnol yn rhwydd, ac a yw'r cais yn effeithiol o ran

cost. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN hefyd yn gweithredu fel swyddog cyswllt gan gyfathrebu â'r Gweithredwyr Telathrebu, Gweithredwyr Post neu Ddarparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd.

Ar hyn o bryd mae'r swyddogion canlynol yn ymgymryd â rôl **'Swyddogion ar Reng Gymeradwy'** i gadarnhau i NAFN eu bod yn ymwybodol o'r cais a wnaed ar ran y Cyngor:

1. Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd;

Eilyddion eraill (os nad yw Swyddog ar Reng Gymeradwy 1 uchod ar gael);
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth; a
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.

Bydd y Swyddog ar Reng Gymeradwy yn derbyn hysbysiad, pan fydd yr ymgeisydd yn cwblhau'r cais, ei fod wedi'i gyflwyno. Ar ôl iddo gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r cais, bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn derbyn y cais ac yn cynnal gwiriadau priodol ar y cais. Os bydd unrhyw newidiadau sylfaenol yn cael eu gwneud i'r cais, bydd yn ofynnol i'r Swyddog ar Reng Gymeradwy gadarnhau ei fod yn ymwybodol o'r cais diwygiedig. Bydd y Swyddog ar Reng Gymeradwy yn anfon copi o'r e-bost at yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu (gweler isod).

Asiantaeth Awdurdodi: Y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu ('OCDA')

Cyflwynodd Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 y Swyddfa Awdurdodi Data Cyfathrebu fel, y corff annibynnol sy'n gyfrifol am ganiatáu ac asesu pob cais cyfathrebu data o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016. Mae'r Swyddfa yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Asesiad annibynnol o'r holl geisiadau cyfathrebu data.
- Caniatáu unrhyw geisiadau priodol.
- Sicrhau atebolrwydd Awdurdodau yn y broses a safonau diogelu.

O ganlyniad, nid oes angen cymeradwyaeth farnwrol i gaffael data cyfathrebu gan Swyddogion awdurdod lleol mwyach. Bydd NAFN yn cyflwyno'r cais i'r OCDA a fydd wedyn yn asesu'r cais. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN (neu Un Pwynt Cyswllt y Cyngor) yn defnyddio'r broses ganiatáu i gael gafael ar y data cyfathrebu gofynnol o gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu a bydd y data'n cael eu postio ar y wefan i sicrhau mai dim ond yr ymgeisydd sy'n gallu cael gafael arnynt. Os nad yw NAFN yn gallu mynd i gronfa ddata'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu perthnasol yn uniongyrchol, bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn anfon hysbysiad i'r Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu yn y ffordd arferol.

Pan fydd yr OCDA yn caniatáu'r cais, mae'r penderfyniad hwn yn cael ei gyfleu i Un Pwynt Cyswllt NAFN a chymerir camau i ofyn am y data gan y darparwyr telathrebu perthnasol ac asiantaethau eraill sy'n dal data cyfathrebu o'r fath i ddarparu'r data angenrheidiol.

Pan fydd yr OCDA yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gael ei ddiwygio, bydd yn cael ei ddychwelyd trwy Un Pwynt Cyswllt NAFN a bydd gan yr Ymgeisydd 14 diwrnod calendr i adolygu'r cais a'i ailgyflwyno. Bydd methu â diwygio'r cais o fewn y 14 diwrnod yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig.

Pan fydd yr OCDA yn gwrthod y cais, gall yr Ymgeisydd:

1. Peidio â bwrw ymlaen â'r cais;
2. Ailgyflwyno'r cais gyda chyfiawnhad diwygiedig a/neu ymddygiad diwygiedig i ofyn am y data; neu

3. Ailgyflwyno'r cais heb ei ddiwygio a gofyn i'r OCDA adolygu'r penderfyniad.

Yn achos ceisio adolygiad, neu apelio yn erbyn y penderfyniad gwreiddiol, **mae gan yr Awdurdod 7 diwrnod calendr i geisio'r adolygiad.** Rhaid i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor wneud unrhyw apêl. Bydd yr OCDA yn darparu arweiniad ar y broses hon.

Mae manteision sylweddol i ddefnyddio porth NAFN ac nid oes unrhyw ffordd arall o gael data cyfathrebu, gan fod y Cod Ymarfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddefnyddio Gwasanaeth Un Pwynt Cyswllt NAFN.

Gellir ceisio gwybodaeth hanesyddol ac yn y dyfodol gan ddarparwr, yn amodol ar gyfyngiadau.

Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu

Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor ar gyfer Data Cyfathrebu yw'r Swyddog Monitro/Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch Data Cyfathrebu at yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu, neu fel arall Cynrychiolydd yr **Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu**, sef y Swyddog Llywodraethu.

Mae Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 (ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf) yn cadarnhau ym mharagraff 4.10 y dylai'r Cyngor gael Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu. Rhaid i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu fod ar reng uwch, sydd o leiaf yr un rheng â'r uwch swyddog dynodedig (at ddibenion NAFN, byddai hwn yn Gyfarwyddwr Cyngor, Pennaeth Gwasanaeth, Rheolwr Gwasanaeth neu reng gyfatebol). Mae paragraff 4.10 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 hefyd yn nodi mai'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu sy'n gyfrifol am y canlynol:

> *(a) the integrity of the process in place within the public authority to acquire communications data;*
>
> *(b) engagement with Authorising Officers in the Office for Communications Data Authorisations (where relevant);*
>
> *(c) compliance with Part 3 of the IPA 2016 and with the Communications Data Code of Practice 2018, including responsibility for novel or contentious cases (see paragraph 8.45 of the Communications Data Code of Practice 2018);*
>
> *(d) oversight of the reporting of errors to the Investigatory Powers Commissioner ('IPC') and the identification of both the cause(s) of errors and the implementation of processes to minimise repetition of errors;*
>
> *(e) ensuring the overall quality of applications submitted to Office for Communications Data Authorisations ('OCDA') by the public authority;*
>
> *(f) engagement with the IPC's inspectors when they conduct their inspections; and*
>
> *(g) where necessary, oversight of the implementation of post-inspection action plans approved by the IPC.*

Rhaid i gofnodion a gedwir gael eu cadw'n ganolog gan Un Pwynt Cyswllt NAFN a bod ar gael i'w harchwilio gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ar gais a'u cadw i ganiatáu i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT') gyflawni ei swyddogaethau. Bydd y gwasanaeth cadw

dogfennau yn cael ei ddarparu gan NAFN, a fydd hefyd yn darparu copïau o bryd i'w gilydd, ac yn ôl y gofyn, i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu (gweler hefyd baragraffau 24.1 – 24.9 Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018).

I gael rhagor o wybodaeth am gaffael a datgelu, cadw gwybodaeth a materion cyfathrebu cyffredinol gweler Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/757850/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf.

Gwallau Data Cyfathrebu

Os bydd unrhyw wall yn cael ei wneud, o ran rhoi hysbysiad neu ganiatâd neu o ganlyniad i unrhyw weithred a ganiatawyd neu unrhyw weithred i gydymffurfio â hysbysiad, dylid cadw cofnod ohono. Dim ond ar ôl cyflwyno'r hysbysiad i'r Gweithredwyr Telegyfathrebu/Gweithredwyr Post y gall gwall ddigwydd. Os ceir hyd iddo cyn cyflwyno'r hysbysiad, ni fydd yn cyfrif fel gwall swyddogol.
Gweler paragraffau 24.17 – 24.37 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018.

Ceir dau fath o wall sef '**Gwall Adroddadwy'** a **'Gwall Cofnodadwy'**:

- Gwall lle cafodd data cyfathrebu'u caffael yn anghywir yw **Gwall Adroddadwy** ac, mewn achos o'r fath, rhaid rhoi adroddiad i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio cyn gynted ag y bo modd yn ymarferol, a dim hwyrach na 5 diwrnod gwaith (neu fel y cytunir â'r Comisiynydd) ar ôl i'r prosesau llywodraethu mewnol priodol gadarnhau bod gwall perthnasol wedi digwydd. Mae hyn oherwydd gallai fod iddo ganlyniadau sylweddol i'r unigolyn y cafodd ei fanylion eu datgelu'n anghywir.

- Gwall lle cafodd gwall ei bennu cyn caffael y data cyfathrebu yw **Gwall Cofnodadwy**. Rhaid i'r Cyngor gadw cofnod o'r achosion hyn, ond nid oes rhaid iddo gyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Gall Gwallau Adroddadwy gynnwys y gwallau a ganlyn:

- Hysbysiad sy'n cael ei wneud at ddiben, neu i gael math o ddata, na all yr awdurdod cyhoeddus ofyn i'w gweld;
- Amryfusedd dynol, fel trawsosod gwybodaeth yn anghywir;
- Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu'n datgelu'r wybodaeth anghywir pan fydd yn cydymffurfio â hysbysiad; neu
- Ddatgelu neu gaffael mwy o ddata nag sy'n ofynnol.

Gall Gwallau Cofnodadwy gynnwys y gwallau a ganlyn:

- Hysbysiad nad oes modd i Ddarparwr Gwasanaethau Cyfathrebu gydymffurfio ag ef;
- Methiant i adolygu gwybodaeth a oedd eisoes ym meddiant y swyddogion, e.e. gofyn am ddata a gafodd eu caffael eisoes ar gyfer yr un ymchwiliad, neu ddata y mae'n wybyddus nad yw'r rheswm dros eu caffael bellach yn ddilys;
- Anfon hysbysiadau at y Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu anghywir; neu
- Anfon hysbysiadau at Ddarparwyr Gwasanaethau Cyfathrebu na chawsant eu paratoi gan y Swyddog a Reng Gymeradwy a ganiataodd y cais;

Nid yw anfon rhif ffôn at Weithredwr Telegyfathrebu neu Weithredwr Post arall yn gyfystyr â gwall. Mewn achosion lle caiff gormod o ddata'u datgelu, os nad yw'r deunydd yn berthnasol i'r ymchwiliad, dylid ei ddinistrio ar ôl cyflwyno adroddiad i'r Comisiynydd.

Os bwriedir defnyddio'r deunydd gormodol ar ôl bwrw golwg drosto, rhaid i'r ymgeisydd ychwanegu atodiad at y cais gwreiddiol sy'n nodi pam fod angen defnyddio'r data gormodol hyn. Yna bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu yn penderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur i'r data gormodol gael ei ddefnyddio yn yr ymchwiliad (gweler paragraffau 24.38 – 24.42 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018).

Rhaid rhoi gwybod i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ac i'r Comisiynydd am unrhyw wall adroddadwy cyn pen 5 diwrnod gwaith. Mae NAFN yn adrodd am wallau ar ran y Cyngor a bydd yr Uwch-swyddog Cyfrifol yn cael gwybod am y rhain yng nghofnodion y Cyngor ac unrhyw gamau mewnol sy'n ofynnol. Os yw'r adroddiad yn ymwneud â gwall a wnaed gan Weithredwyr Telathrebu/Gweithwyr Post, rhaid i'r Cyngor gyflwyno adroddiad amdano, ond bydd NAFN yn rhoi gwybod i'r Gweithredwyr Telathrebu/Gweithredwyr Post i sicrhau bod modd iddo ymchwilio i'r achos.

Rhaid i'r cofnodion a gedwir o'r gwallau cofnodadwy gynnwys manylion y gwall, esboniad o'r modd y bu i'r gwall ddigwydd a braslun o'r camau a gymerir i sicrhau nad yw'r un gwall yn digwydd eto. Rhaid bod y cofnodion hyn ar gael i arolygwyr y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio eu gweld a rhaid i'r Uwch-swyddog Cyfrifol fwrw golwg drostynt yn rheolaidd.

Gwallau Difrifol

O ran 'Gwall Difrifol', a 'achosodd ragfarn neu niwed sylweddol i'r unigolyn dan sylw', rhaid rhoi gwybod i Uwch-swyddog Cyfrifol y Cyngor. Gall y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hysbysu'r unigolyn yr effeithir arno o'r data a ddatgelwyd, a all wneud cwyn i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio. Rhaid i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio fod yn fodlon bod y gwall yn a) gwall difrifol A b) mae er budd y cyhoedd i'r unigolyn dan sylw gael gwybod am y gwall.

Cyn penderfynu a yw'r gwall yn ddifrifol neu beidio, bydd y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio yn derbyn cyflwyniadau gan y Cyngor ynghylch a yw datgelu er budd y cyhoedd e.e. efallai na fyddai er budd y cyhoedd i ddatgelu pe byddai gwneud hynny yn niweidiol i 'atal a chanfod troseddau.

Gweler paragraffau 25.1 – 25.9 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 i gael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio a 25.10 – 25.17 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl y Comisiynydd Gwybodaeth.

Gweler hefyd baragraffau 25.18 – 25.21 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Gorfodi safonau uniondeb, dinistrio a diogelwch.

Caniatáu Caffael Data Cyfathrebu

Mae Adran 81 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 yn darparu amddiffyniad os caiff unrhyw gamau i gaffael a datgelu data cyfathrebu eu herio:

81. Lawfulness of conduct authorised by this Part
(1) Conduct is lawful for all purposes if—
(a) it is conduct in which any person is authorised to engage by an authorisation or required to undertake by virtue of a notice given in pursuance of an authorisation, and
(b) the conduct is in accordance with, or in pursuance of, the authorisation or notice.

Felly, i fanteisio ar yr amddiffyniad hwn, mae angen cael caniatâd priodol ar gyfer y wyliadwriaeth.

Y prawf rheidrwydd a chymesuredd

Ni ddylai'r Swyddog ar Reng Gymeradwy ond ganiatáu caffael data cyfathrebu os yw'n fodlon:

1. **Bod y weithred yn ANGENRHEIDIOL ar y sail a ganlyn:**

    - I atal neu ganfod trosedd neu i atal anhrefn

2. **Bod y wyliadwriaeth yn GYMESUR – Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn diffinio mesur neu weithred fel un sy'n gymesur os yw:**

    - Yn amharu cyn lleied â phosibl ar hawliau a rhyddidau (yr unigolyn o dan sylw ac unrhyw drydydd parti diniwed); a

    - Yn cael ei llunio'n ofalus i gyflawni'r amcanion o dan sylw ac nad yw'n fympwyol, yn annheg nac yn seiliedig ar ystyriaethau afresymol.

Mae canfod trosedd yn cynnwys pennu gan bwy, at ba ddiben, drwy ba fodd ac yn gyffredinol o dan ba amgylchiadau y cafodd unrhyw drosedd ei chyflawni, casglu tystiolaeth i'w defnyddio mewn achos cyfreithiol a dal yr unigolyn (neu'r unigolion) sydd wedi cyflawni'r drosedd.

Gall ffurflen gais gynnwys sawl cais am wahanol fathau o ddata sy'n ymwneud ag ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol. Felly, dylid ystyried sut y gall hyn effeithio ar effeithlonrwydd prosesau'r awdurdod cyhoeddus ac effaith rheoli materion datgelu cyn treial troseddol, yn ystod treial troseddol ac ar ei ôl.

I gael mwy o gyfarwyddyd, darllenwch ganllawiau perthnasol y Swyddfa Gartref sydd ar gael ar ei gwefan: https://www.gov.uk/government/collections/ripa-codes

Terfynau Amser

Dylai'r cais bennu'r cyfnod byrraf ar gyfer y data sy'n angenrheidiol i gyflawni'r amcan y gofynnir am y data ar ei gyfer.

Dim ond am fis o'r dyddiad y caiff y caniatâd neu'r hysbysiad ei roi (gan yr OCDA trwy Un Pwynt Cyswllt NAFN) y bydd pob hysbysiad a chaniatâd sy'n gofyn am ddata cyfathrebu gan y darparwr gwasanaeth yn ddilys. Gellir adnewyddu am gyfnod o hyd at 1 mis a daw hysbysid neu ganiatâd o'r newydd i rym ar ddiwedd yr hysbysiad neu'r caniatâd y mae'n ei adnewyddu.

Os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwyo yn cytuno i adnewyddu caniatâd neu hysbysiad, rhaid bod y Swyddog ar Reng Gymeradwy wedi ystyried y rhesymau pam ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur iddo barhau, a rhaid iddo gofnodi'r dyddiad adnewyddu.

Pan ddylid canslo caniatâd (e.e. ddim yn angenrheidiol nac yn gymesur mwyach), rhaid hysbysu Un Pwynt Cyswllt NAFN ar unwaith. Bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn canslo'r camau awdurdodedig ac yn cymryd camau i hysbysu'r darparwr gwasanaeth post neu delathrebu yn ddi-oed.

Swyddog ar Reng Gymeradwy

Y Swyddog ar Reng Gymeradwy yw'r unigolyn sy'n rheolwr ar lefel gwasanaeth neu'n uwch yn y Cyngor, a'i rôl yw bod yn ymwybodol o'r cais a wnaed gan yr Ymgeisydd, a chadarnhau hyn i Un Pwynt Cyswllt NAFN. Nid yw'n canatau nac yn cymeradwyo'r cais.

Ar ôl darllen y cais, os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn credu bod yr Ymgeisydd wedi bodloni'r holl ofynion ar gyfer rheidrwydd a chymesuredd yna dylai gofnodi'r ffaith honno drwy gyfrwng nodyn syml. Dylid nodyn syml gan y Swyddog ar Reng Gymeradwy gael ei gofnodi.

Os nad yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn credu bod yr Ymgeisydd wedi dadlau'r achos dros gaffael y data, dylai wrthod y cais a'i ddychwelyd at yr Un Pwynt Cyswllt a'r Ymgeisydd.

Yn yr un modd, os bydd Ynad yn gwrthod y cais, dylid ei wrthod a'i ddychwelyd at yr Un Pwynt Cyswllt.

Os caiff y cais ei wrthod gan yr Un Pwynt Cyswllt neu'r Swyddog ar Reng Gymeradwy, bydd yr Un Pwynt Cyswllt yn cadw'r ffurflen ac yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig am y rhesymau dros wrthod y cais. Bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn gwneud hynny trwy'r wefan.

Os yw'r Swyddog ar Reng Gymeradwy yn cofnodi'i ystyriaethau yng nghronfa ddata NAFN a bod modd priodoli'r ystyriaethau i'r Swyddog ar Reng Gymeradwy, nid oes angen llofnod.

Cofrestr Ganolog o'r Caniatadau – Data Cyfathrebu

Yn achos data cyfathrebu, bydd Un Pwynt Cyswllt NAFN yn cadw copïau gwreiddiol o'r holl geisiadau, caniatadau, copïau o'r hysbysiadau a'r penderfyniadau i dynnu caniatadau yn eu hôl ac i ganslo hysbysiadau, a'r rheini wedi'u croesgyfeirio yn erbyn pob dogfen gysylltiedig.

Rhaid cadw ceisiadau, caniatadau, copïau o hysbysiadau, a chofnodion o dynnu caniatâd yn ôl a'i ganslo, ar ffurf ysgrifenedig neu electronig am o leiaf 3 blynedd. Cofnod o'r dyddiad a, phan fo hynny'n briodol, yr amser y mae pob hysbysiad neu ganiatâd yn cael ei ganiatáu, ei adnewyddu neu ei ganslo (gweler paragraffau 24.1-24.9 o'r Cod Ymarfer Data Cyfathrebu i gael manylion llawn am lefel y wybodaeth y dylid ei chadw).

Nid oes unrhyw beth yn y Polisi hwn yn cael effaith ar ddyletswyddau tebyg o dan Ddeddf Gweithdrefn Droseddol ac Ymchwiliadau 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddeunydd a gafwyd yn ystod ymchwiliad ac a allai fod yn berthnasol i'r ymchwiliad gael ei gofnodi, ei gadw a'i ddatgelu i'r erlynydd.

Pan fydd y system NAFN yn cael ei defnyddio, bydd y gwasanaeth cadw dogfennau yn cael ei ddarparu gan NAFN, a fydd hefyd yn darparu copïau o bryd i'w gilydd, ac yn ôl y gofyn, i'r Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu, ac yn delio ag unrhyw geisiadau gan arolygwyr gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Serch hynny, dylai Cofnod Canolog y Cyngor hefyd gynnwys cofnod o:

- Nifer y ceisiadau a wrthodwyd gan Swyddog Rheng Cymeradwy;
- Nifer yr hysbysiadau sy'n gofyn am i ddata cyfathrebu gael eu datgelu yn unol ag ystyr pob un o is-adrannau Adran 21(4);
- Nifer y caniatadau i gaffael data cyfathrebu yn unol ag ystyr pob un o is-adrannau Adran 21(4); a'r
- Nifer y troeon y rhoddir hysbysiad brys ar lafar.

DRAFT

Gellir gofyn i NAFN ddarparu gwybodaeth ystadegol am nifer yr hysbysiadau neu'r caniatadau y mae wedi'u rhoi ar ran y Cyngor yn ystod cyfnod penodol, gan gynnwys unrhyw wallau a wnaed. Bydd yr Uwch-swyddog Gyfrifol ar gyfer Data Cyfathrebu'r Cyngor yn gofyn am wybodaeth o'r fath oddi wrth NAFN bob chwarter.

DRAFT

CWYNION

Fel y nodir ym mharagraff 26.2 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am oruchwylio diogelwch, uniondeb a dinistrio data a gedwir yn unol â'r Ddeddf. Gall methu â chydymffurfio â darpariaethau Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018 yn y meysydd hyn hefyd ennyn pryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth gysylltiedig. Dylid trosglwyddo unrhyw bryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data gysylltiedig i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO):

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF
0303 123 1113
www.ico.org.uk.

Fel y nodir ym mharagraff 26.3 o God Ymarfer Data Cyfathrebu 2018, mae gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio (IPT) awdurdodaeth i ystyried a phenderfynu ar gwynion ynghylch defnydd awdurdodau cyhoeddus o bwerau ymchwilio, gan gynnwys y rhai a gwmpesir gan y cod hwn, yn ogystal ag ymddygiad gan neu ar ran unrhyw un o'r gwasanaethau cudd-wybodaeth, a dyma'r unig dribiwnlys priodol ar gyfer hawliadau hawliau dynol yn erbyn yr asiantaethau cudd-wybodaeth. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion am ddefnyddio pwerau fel y'u disgrifir yn y cod hwn at y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio.

Gall unrhyw unigolyn sy'n anfodlon â'r ffordd y mae'r Cyngor yn cadw neu wedi cadw gwyliadwriaeth gwyno. Yr unigolyn dan sylw sy'n penderfynu pa weithdrefn y dylid ei defnyddio.

Os yw rhywun yn dymuno cwyno gan ddefnyddio gweithdrefnau'r Cyngor, yna dylid gwneud yr achwynydd yn ymwybodol o Weithdrefn Cwynion Corfforaethol y Cyngor (gweler https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/comments-compliments-and-complaints/cwynion corfforaethol/ ac https://www.ceredigion.gov.uk/media/1179/complaints-policy-bookletenglish.pdf)

Ymdrinnir â'r gŵyn yn unol â'r weithdrefn honno.

Os yw person yn dymuno cwyno'n uniongyrchol i gorff annibynnol neu wedi defnyddio gweithdrefnau mewnol y Cyngor a'i fod yn dal yn anfodlon, yna gall ef/hi gwyno i'r Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio ('IPT').

Mae gan yr IPT awdurdodaeth i ymchwilio a phenderfynu ar gwynion yn erbyn defnydd awdurdodau cyhoeddus o bwerau ymchwilio. I ddarganfod mwy o wybodaeth am yr IPT neu wneud cwyn, yna mae manylion llawn sut i wneud hynny ar gael ar wefan IPT: www.ipt-uk.com.

Gellir anfon cwynion i'r cyfeiriad isod:

The Investigatory Powers Tribunal
PO Box 33220
Llundain
SWIH 9ZQ

Drwy'r ebost at info@ipt-uk.com or
Dros y ffôn ar 0207 035 3711.

* Gweler Rhan 4 uchod am gwynion ynghylch Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig neu Ffynhonnell Cuddwybodaeth Ddynol.

DRAFT

RHAN 6 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA'

Ystyr 'gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA'

O bryd i'w gilydd, gall fod angen i'r Cyngor gadw gwyliadwriaeth gudd nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA. Mae hyn yn iawn gan mai deddfwriaeth ganiataol yw RIPA. Mae'r gweithdrefnau a'r canllawiau isod yn amlinellu'r prosesau sy'n angenrheidiol i ganiatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA. Bwriedir i'r broses adlewyrchu'r broses ar gyfer caniatáu gwyliadwriaeth o dan RIPA, ac eithrio nad oes angen cymeradwyaeth ynad. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld isod sy'n amlinellu'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, gan gynnwys llenwi ffurflen gais.

Mae'n bwysig bod gweithdrefn ar waith ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, gan fod dulliau ar gyfer gweithgarwch, na ellir eu gwarchod, yn cael eu hannog. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff y diffiniadau statudol eu bodloni, ond nid ar y seiliau a nodir yn RIPA. Mae'n dal i fod yn ofynnol ystyried hawliau dynol ac mae proses awdurdodi'n darparu trywydd archwilio defnyddiol o'r penderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd.

Rhaid i Swyddogion Ymchwilio gael cyfeirnod unigryw gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol cyn ei gyflwyno i'r Swyddog Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA.

Drwy ganiatáu gweithgareddau o dan RIPA, mae'n rhoi amddiffyniad i'r Cyngor o dan Adran 27 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) h.y. mae'r gweithgaredd yn gyfreithlon at bob diben, ar yr amod bod caniatâd wedi'i roi, ac mae gweithredoedd y Swyddogion yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, o fethu â chael caniatâd, nid yw'n golygu bod y wyliadwriaeth gudd yn anghyfreithlon.

'Tarian nid cleddyf yw RIPA ac mae Adran 80 o RIPA yn cynnwys arbediad cyffredinol am ymddygiad cyfreithlon:

'Nothing in any of the provisions of this Act by virtue of which conduct of any description is or may be authorised by any warrant, authorisation or notice, or by virtue of which information may be obtained in any manner, shall be construed -

(a) as making it unlawful to engage in any conduct of that description which is not otherwise unlawful under this Act and would not be unlawful apart from this Act;
(b) as otherwise requiring—
(i) the issue, grant or giving of such a warrant, authorisation or notice, or
(ii) the taking of any step for or towards obtaining the authority of such a warrant, authorisation or notice, before any such conduct of that description is engaged in; or
(c) as prejudicing any power to obtain information by any means not involving conduct that may be authorised under this Act.'

Eglurwyd y pwynt hwn yn fanylach gan y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio yn achos 'C yn erbyn yr Heddlu' (Rhif yr achos: IPT/03/32/H 14 Tachwedd 2006) (Saesneg yn unig):

'Although RIPA provides a framework for obtaining internal authorisations of directed surveillance (and other forms of surveillance), there is no general prohibition in RIPA against conducting directed surveillance without RIPA authorisation. RIPA does not require prior authorisation to be obtained by a public authority in order to carry out surveillance. Lack of

authorisation under RIPA does not necessarily mean that the carrying out of directed surveillance is unlawful.'

Pam cynnal gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA?

Gall y Cyngor fod yn awyddus i gadw "gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA" am un o ddau reswm:

I. Troseddau nad ydynt yn cael eu cosbi drwy chwe mis o garchar

Fel y nodir uchod, ni chaiff Swyddogion Awdurdodi'r Cyngor ganiatáu Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig o dan RIPA ac eithrio er mwyn atal neu ganfod ymddygiad sy'n gyfystyr â throsedd, neu sy'n drosedd, ac sy'n bodloni'r amodau a nodir yn yr Erthygl Newydd 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn 2010 sef bod modd cosbi'r drosedd y maent yn ceisio ei hatal neu'i chanfod, o gael collfarn ddiannod neu dditiad, drwy **o leiaf 6 mis o garchar**, neu ei bod yn drosedd o dan adrannau 146, 147 neu 147A o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (troseddau sy'n ymwneud â gwerthu tybaco ac alcohol i blant o dan oedran).

Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw trosedd yn bodloni'r prawf chwe mis, nid yw'n golygu na ellir cadw gwyliadwriaeth gudd.

Gwnaed y pwynt hwn gan y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth yn ei adroddiad blynyddol (2010/2011) (Saesneg yn unig):

'The higher threshold in the proposed legislation will reduce the number of cases in which local authorities have the protection of RIPA when conducting covert surveillance; it will not prevent the use of those tactics in cases where the threshold is not reached but where it may be necessary and proportionate to obtain evidence covertly and there will be no RIPA audit trail. Part I of RIPA makes unauthorised interception unlawful. In contrast, Part II makes authorised surveillance lawful but does not make unauthorised surveillance unlawful.'

II. Cadw Gwyliadwriaeth ar Gyflogeion

Ni fydd modd caniatáu'r rhan fwyaf o'r gwaith o gadw gwyliadwriaeth ar gyflogeion o dan RIPA.

Gweler penderfyniad blaenorol y Tribiwnlys Pwerau Ymchwilio: C yn erbyn yr Heddlu a'r Ysgrifennydd Gwladol ar ran yr Adran Gartref (14 Tachwedd 2006; Rhif IPT/03/32/H)

Roedd C, cyn sarjant heddlu, wedi ymddeol yn 2001 ar ôl hawlio iawndal am anaf i'w gefn ar ôl baglu ar garped yng ngorsaf yr heddlu. Dyfarnwyd iawndal iddo, ynghyd â phensiwn uwch oherwydd yr anafiadau.

Yn 2002, bu i'r heddlu gyfarwyddo cwmni o ddditectifs preifat i gadw llygad ar C i weld a oedd yn gwneud unrhyw beth a oedd yn anghyson â'i anafiadau honedig. Roedd tystiolaeth fideo'n ei ddangos yn torri lawnt. Bu i C erlyn yr heddlu gan honni eu bod wedi cadw gwyliadwriaeth gyfeiriedig heb ganiatâd. Yn gyntaf, roedd yn rhaid i'r Tribiwnlys benderfynu a oedd ganddo awdurdod i wrando ar yr achos. Roedd yr achos yn dibynnu ar y dehongliad o ran gyntaf y diffiniad o wyliadwriaeth gyfeiriedig h.y. a oedd y wyliadwriaeth yn cael ei chadw 'at ddibenion ymchwiliad penodol neu ymgyrch benodol?'

Dyfarnodd y Tribiwnlys nad hwn oedd y math o wyliadwriaeth y bwriedir i RIPA ei reoleiddio. Bu iddo wahaniaethu rhwng swyddogaethau cyffredin a swyddogaethau craidd awdurdod cyhoeddus (Saesneg yn unig):

'The specific core functions and the regulatory powers which go with them are identifiable as distinct from the ordinary functions of public authorities shared by all authorities, such as the employment of staff and the making of contracts. There is no real reason why the performance of the ordinary functions of a public authority should fall within the RIPA regime, which is concerned with the regulation of certain investigatory powers, not with the regulation of employees or of suppliers and service providers.'

Bu i'r Tribiwnlys ddatgan hefyd na fyddai'n briodol cymhwyso RIPA i wyliadwriaeth o'r fath am sawl rheswm:

1) Nid yw RIPA'n cwmpasu pob awdurdod cyhoeddus, ac nid oedd unrhyw synnwyr cadw gwyliadwriaeth ar un o gyflogeion yr heddlu ar sail gyfreithiol wahanol, er enghraifft, i un o gyflogeion y Trysorlys, sef corff nad oes ganddo'r un hawliau gwyliadwriaeth o dan RIPA.
2) Mae gan y Tribiwnlys reolau cyfyng iawn o ran tystiolaeth, bod yn agored, a hawliau i apelio. Byddai'r rhain yn peri annhegwch i gyflogeion awdurdodau RIPA pan fyddent yn herio gwyliadwriaeth eu cyflogwyr o'u cymharu â'r rheini a gyflogir gan awdurdodau nad ydynt yn dod o dan gwmpas RIPA.

Hyd yn oed pan fydd cyflogwr yn cadw gwyliadwriaeth ar gyflogai ar un o'r seiliau a geir yn adran 28(3), mae'r achos hwn yn awgrymu mai'r cwestiwn allweddol yw:

A yw'n swyddogaeth graidd sy'n gysylltiedig ag un o swyddogaethau rheoleiddiol yr awdurdod? Yng nghyd-destun awdurdod lleol, byddai hyn yn cynnwys Safonau Masnach, Iechyd Amgylcheddol, a Thrwyddedu, ymhlith swyddogaethau eraill. Os nad yw'n cael ei gwneud at un o'r dibenion hyn, nid yw'n wyliadwriaeth gyfeiriedig.

<u>Gweithgarwch cudd ar-lein – y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol ('SNS')</u>

Gweler Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA y Cyngor i gael arweiniad ynghylch gweithgarwch cudd ar-lein ar y Rhyngrwyd a Safleoedd Rhwydweithio Cymdeithasol, y mae'n rhaid ei ddarllen ar y cyd â'r Polisi hwn.

Gweler Siart lif 9 – Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

<u>Cydymffurfio â Deddfwriaeth Hawliau Dynol</u>

Ni fydd RIPA'n amddiffyn unrhyw wyliadwriaeth gudd a wneir heb ganiatâd RIPA (h.y. yr amddiffyniad yn adran 27). Fodd bynnag, gellir cadw gwyliadwriaeth gudd ar yr amod ei bod yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gellir gorfodi'r Confensiwn hwn yn uniongyrchol yn erbyn awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:

Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn datgan:
'Mae gan bawb hawl i barch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth.

Ni chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon ac eithrio yn unol â'r gyfraith ac fel y bo'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er mwyn diogelu'r cyhoedd, cadw trefn gyhoeddus, amddiffyn iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddidau eraill.'

I fodloni gofynion Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, rhaid bod y wyliadwriaeth gudd yn **angenrheidiol ac yn gymesur**. Wrth benderfynu a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur, mae angen ystyried y ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth ganiatáu gwyliadwriaeth a reoleiddir gan RIPA.

Cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data

Mae'r Rheoliadau Telathrebu'n caniatáu i'r Cyngor heb ganiatâd pellach ryng-gipio'n gyfreithlon gyfathrebiadau e-bost neu ffôn ei gyflogeion, a monitro eu defnydd o'r rhyngrwyd, at ddibenion atal neu ganfod trosedd, neu ganfod defnydd nas caniateir o'r systemau hyn. Dylid rhoi sylw i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth mewnol y Cyngor (ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (Cerinet).

Dylid ceisio cyngor pellach ar y rheoliadau hyn gan Swyddog Diogelu Data'r Cyngor a dylid rhoi sylw i Bolisi Diogelwch Gwybodaeth mewnol y Cyngor, a hefyd 'Ganllaw Cyflym yr ICO i'r Cod Ymarfer Cyflogaeth' (gweler https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1128/quick_guide_to_the_employment_practices_code.pdf).

Wrth gadw gwyliadwriaeth gudd ar gyflogeion mewn modd nad yw'n cael ei reoleiddio gan RIPA, bydd Deddf Diogelu Data 2018 yn berthnasol gan fod gwybodaeth bersonol am unigolion sy'n fyw yn cael ei phrosesu e.e. eu symudiadau, lluniau ac ati.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Arferion Cyflogaeth mewn perthynas â diogelu data (ar gael yn www.ico.org.uk). Nid yw'r math hwn o wyliadwriaeth yn cael ei drafod yn y ddogfen hon.

Yn y ddau achos uchod, mae'n bwysig sicrhau bod trywydd archwilio priodol ar gael ar ffurf cofnodion ysgrifenedig.

Y Cod Ymarfer ar Arferion Cyflogaeth o ran Diogelu Data

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Cod Ymarfer Arferion Cyflogaeth mewn perthynas â diogelu data (ar gael yn: https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1064/the_employment_practices_code.pdf (y 'Cod DPEP').Mae Rhan 3 o'r Cod DPEP yn cynnwys pob math o wyliadwriaeth gweithwyr o fonitro fideo ac olrhain cerbydau i wyliadwriaeth e-bost a'r rhyngrwyd. Mae'n rhoi canllawiau ar sut i gadw gwyliadwriaeth ar gyflogeion mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Er nad yw'r Cod yn ddeddf, gall y Comisiynydd Gwybodaeth a'r llysoedd ei gymryd i ystyriaeth pan fyddant yn penderfynu a gydymffurfiwyd â'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae'r Cod yn datgan y dylid monitro cyflogeion at ddiben pendant y gellir ei gyfiawnhau ac y dylai'r cyflogeion wybod bod hyn yn digwydd.
O ran gwyliadwriaeth gudd, mae'n datgan mai prin fydd yr achosion pan fydd modd cyfiawnhau monitro o'r fath. Felly, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid ei wneud e.e. i atal neu i ganfod trosedd neu gamymddygiad difrifol.
Un o brif argymhellion eraill y Cod yw y dylai'r uwch reolwyr fel rheol awdurdodi unrhyw gamau i fonitro cyflogeion yn gudd. Dylent sicrhau eu bod yn fodlon bod lle i amau bod gweithgarwch troseddol neu gamymddygiad o'r fath yn digwydd. Dylent gyflawni asesiad effaith ac ystyried a yw'r wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur o ystyried yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni.

Mae'r Cod yn cynnwys rheolau eraill y mae angen i awdurdodau lleol (ac eraill) eu hystyried pan fyddant yn cadw gwyliadwriaeth gudd ar gyflogeion:

- Cyn ymchwilio, rhaid pennu rheolau clir sy'n cyfyngu ar y camau i ddatgelu'r wybodaeth y ceir gafael arni a mynediad at y wybodaeth honno;
- Dylid cyfyngu ar nifer y bobl sy'n rhan o'r ymarfer monitro cudd;
- Rhaid mai diben y wyliadwriaeth yw cael gafael ar dystiolaeth o fewn cyfnod penodol ac ni ddylai barhau ar ôl i'r ymchwiliad ddod i ben;
- Os defnyddir cyfarpar sain neu fideo, ni ddylid gwneud hyn mewn mannau fel toiledau neu swyddfeydd preifat fel rheol;
- Dim ond er mwyn atal neu ganfod trosedd neu gamymddygiad difrifol y dylid defnyddio'r wybodaeth y ceir gafael arni drwy'r ymarfer monitro cudd; a
- Dylid diystyru unrhyw wybodaeth arall a gesglir yn ystod y cyfnod monitro a, lle bo modd, dylid ei dileu oni bai ei bod yn datgelu gwybodaeth na fyddai'n rhesymol disgwyl i unrhyw gyflogwr ei hanwybyddu.

Yn y ddau achos uchod nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan RIPA, mae'n bwysig cadw trywydd archwilio clir drwy gadw cofnodion ysgrifenedig. Yn ei adroddiad blynyddol (2011/2012), pwysleisiwyd hyn gan y Prif Gomisiynydd Gwyliadwriaeth (ym mharagraff 5.22) (Saesneg yn unig):

'I occasionally encourage the use of similar authorisation mechanisms for activity which cannot be protected by the Acts (for example where covert techniques are used to identify a missing person when no crime is suspected). In these circumstances statutory definitions are met but none of the grounds specified in RIPA section 28(3) or RIP(S)A section 6(3), yet the human rights of the subject of surveillance must be considered. The authorisation process provides a useful audit of decisions and actions.'

Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

Yr un yw'r Swyddogion Awdurdodi ar gyfer gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA a'r Swyddogion Awdurdodi sy'n awdurdodi gwyliadwriaeth RIPA h.y.:

- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth;**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; a**
- **Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal.**

Fe'ch anogir i ddefnyddio dulliau tebyg ar gyfer gweithgareddau na all deddfwriaeth RIPA eu hamddiffyn. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff y diffiniadau statudol eu bodloni, ond nid ar y seiliau a nodir yn RIPA. Mae'n dal i fod yn ofynnol ystyried hawliau dynol. Mae proses ganiatáu yn darparu archwiliad defnyddiol o'r penderfyniadau a'r camau gweithredu. Mae'r broses yn adlewyrchu'r un ar gyfer Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, ar wahân i Gymeradwyaeth Farnwrol.

Dylid ceisio URN gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol cyn ei gyflwyno i Swyddogion Awdurdodi, gyda'r ffurflen wreiddiol yn cael ei hanfon at yr Uwch-swyddog Cyfrifol i'w chofnodi yn y Gofrestr Ganolog ar ôl cwblhau'r broses awdurdodi, a chadw copi o'r Gwasanaeth.

Ffurflen caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

Rhaid llenwi ffurflen awdurdodi gwyliadwriaeth and yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA, fel uchod, ac mae ffurflen enghreifftiol gydag arweiniad ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor (CeriNet) yn https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/forms.

Cylch oes caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

Dangosir Siart Llif sy'n dangos cylch oes sylfaenol caniatâd gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA isod. Mae hwn yr un fath â chylch oes gwyliadwriaeth gyfeiriedig RIPA, ac eithrio nad oes angen cymeradwyaeth farnwrol

Bydd gweithgarwch nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA yn cael ei riportio i'r Pwyllgor Arolygu Trosolwg a Chydlynu.

DRAFT

Siart lif 9 – Caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA

C.1 – ai diben y wyliadwriaeth arfaethedig yw ymchwilio:
Trosedd, Trefn gyhoeddus, Diogelwch cyhoeddus, Camymddygiad staff, Diogelu plant, Mater difrifol arall

Enghreifftiau:
mân drosedd h.y. trosedd nad yw'n bodloni'r prawf 'trosedd ddifrifol' (**gweler y diffiniad isod)
- camddefnyddio'r e-bost/rhyngrwyd
- cwblhau taflen amser yn anghywir
- torri cytundeb tenantiaeth

YDY

NAC YDY

C.2 – A yw diben y wyliadwriaeth yn angenrheidiol? Dylid ystyried effeithiolrwydd dulliau eraill i gael y wybodaeth/y dystiolaeth a geisir

Ceisio caniatâd ysgrifenedig ar gyfer y wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn y broses caniatâd RIPA ragnodedig

YDY

C.3 Ydy'r wyliadwriaeth yn gymesur?

Dylid ystyried:
- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Y dulliau i'w mabwysiadu
- Dulliau eraill (a llai ymwthiol) sydd ar gael
- Y defnydd priodol o ddeddfwriaeth
- Yr effaith ar y sawl a amheuir

NAC YDY

Mae'n bosib na chaiff caniatâd ei roi i gadw'r wyliadwriaeth

NAC YDY

YDY

C.4 – Ydych chi wedi ystyried beth yw'r gallwch ei wneud (os o gwbl) i leihau/osgoi ymyrraeth anuniongyrchol? NAC O

Dylid ystyried y perygl o darfu ar breifatrwydd pobl nad ydynt yn gysylltiedig â'r ymchwiliad e.e.:
- Maint a chwmpas yr ymgyrch
- Dulliau/offer a ddefnyddir
- Amseriad y wyliadwriaeth
- Hyd y wyliadwriaeth

** Prawf Trosedd Ddifrifol: gwyliadwriaeth mewn perthynas â throseddau difrifol yn unig sy'n bodloni'r amodau a osodir yn Erthygl 7A(3)(a) neu (b) o Orchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2021 (fel y'i diwygiwyd) sydd angen caniatâd o dan RIPA h.y. troseddau y gellir eu cosbi gan uchafswm cyfnod o 6 mis o garchar, neu drosedd o dan Adrannau 146, 147, 147(A) o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu Adran 7 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933

YDW

NAC YDW

Ceisiwch Ganiatâd Ysgrifenedig ar gyfer y Wyliadwriaeth arfaethedig trwy ddilyn proses caniatáu gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA y Cyngor

DRAFT

Siart lif 10 – Gwyliadwriaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio gan RIPA – Cylch oes sylfaenol Caniatâd Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig



Atodlen 1 – Deddfwriaeth, Codau Ymarfer, Polisïau a Chanllawiau Perthnasol

Dylid darllen Polisi Cyfryngau Cymdeithasol RIPA ar y cyd â'r holl ddeddfwriaeth, canllawiau a chodau ymarfer cyfredol a pherthnasol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r) canlynol:

- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA)
  http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/contents
- Nodiadau Esboniadol RIPA
  http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/23/notes/contents

- Codau Ymarfer Statudol RIPA:
  - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Wyliadwriaeth Gudd ac Ymyrryd ag Eiddo 2018
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742041/201800802_CSPI_code.pdf
  - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742042/20180802_CHIS_code_.pdf
  - Cod Ymarfer ar Swmpgaffael Data Cyfathrebu:
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715477/Bulk_Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
  - Cod Ymarfer Data Cyfathrebu 2018:
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/822817/Communications_Data_Code_of_Practice.pdf
  - Cod Ymarfer Diwygiedig ar Ymchwilio i Wybodaeth Electronig a Ddiogelwyd
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/742064/RIPA_Part_III_Code_of_Practice.pdf
  - Cod Ymarfer Ymyrryd ag Offer 2018
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/715479/Equipment_Interference_Code_of_Practice.pdf
  - Cod Ymarfer Diwygiedig Drafft Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol 2022
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1112114/Oct_2022_Draft_Revised_CHIS_Code_of_Practice.pdf
    (Fersiwn terfynol i ddilyn)
  - Cod Ymarfer Diwygiedig Drafft Ymyrryd â Chyfathrebu 2022
    https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1112134/Oct_2022_Draft_revised_Interception_of_Comms.pdf
    (Final version to follow)

- Ddeddf Pwerau Ymchwilio ('IPA 2016')
  https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2016/25/contents

- OS 2010 Rhif 521 – Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) 2010
  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/521/contents/made
- OS 2012 Rhif 1500 Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) 2012
  http://www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1500/contents/made

DRAFT

- Rheoliadau Pwerau'r Ymchwilydd (Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol ac Ymyrryd: Cod Ymarfer) 2022 i ddilyn.

- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('IPCO') (Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth ('OSC' gynt) (ar gael yn: https://www.ipco.org.uk/) gan gynnwys Gweithdrefnau a Dogfen Gyfarwyddyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth: https://ipco-wpmedia-prod-s3.s3.eu-west-2.amazonaws.com/OSC-PROCEDURES-AND-GUIDANCE.pdf

- Cod Ymarfer Diogelu Cyflogaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1064/the_employment_practices_code.pdf

- Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Gamerâu Gwyliadwriaeth (2021) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1035067/Surveillance_Camera_CoP_Accessible_PDF.pdf

- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor: https://ceri.ceredigion.gov.uk/portal/employee-handbook/policies-procedures/social-media-policy/

- Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor; https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-security-policy/

- Cod Ymarfer y Cyngor ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol * https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/1061/codeofconduct-eng.pdf

- Polisi Diogelu Data a GDPR y Cyngor ** https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/1060/data-protection-and-gdpr-policy.pdf

- Polisi E-bost y Cyngor * https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/2440/ceredigion-email-retention-policyv7.pdf

- Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion y Cyngor (ar gael yn https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/strategies-plans-policies/information-and-records-management-policy/)**

- Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl y Cyngor

- Polisi Golygyddol a Gweinyddu Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor * https://cerinet.ceredigion.gov.uk/media/1676/social-media-editorial-and-administration-policy.pdf

- Polisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor * https://cerinet.ceredigion.gov.uk/documents/policies-and-procedures/

DRAFT

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Recriwtio Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**
Pwrpas yr adroddiad:	**I sicrhau bod apwyntiadau priodol yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau**
Er:	**Penderfyniad**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Cynghorydd Matthew Vaux Aelod Cabinet ar gyfer Partneriaethau, Gwasanaethau Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu, a Diogelu'r Cyhoedd**

CEFNDIR

Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod:
• 5 x aelod annibynnol ac,
• 4 cynghorydd (2 x Cynghorydd sir, a 2 x Cynghorydd Tref/Cymuned).

Penodwyd y Cadeirydd presennol, Mrs Caroline White i ddechrau ar 30/7/2013 ac fe'i hailbenodwyd ar 30/7/2019. Bydd tymor y swydd yn dod i ben ar 29/7/2023. Nid yw Mrs Caroline White bellach yn gymwys i gael ei hailbenodi.

Cynhaliwyd proses recriwtio, gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal ar 12 Ionawr 2023. Yr ymgeisydd llwyddiannus oedd Gail Storr.

Cynigir y bydd y penodiad am un tymor o 6 mlynedd, gydag opsiwn i ailbenodi am ail dymor o 4 blynedd, hyd at ddim mwy na dau dymor gweinyddol olynol yn gynhwysol o'r tymor presennol (hyd at 10 mlynedd- hyd at 29/7/32)

Gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor yn 2029 os am ddefnyddio tymor pellach o 4 blynedd

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Na **Os na, esboniwch pam**
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	***Crynodeb:*** Amherthnasol **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**
Argymhelliad / Argymhellion:	Fod y Cyngor yn penderfynu cymeradwyo penodi Gail Storr yn berson annibynnol / lleyg i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau o 30 Gorffennaf 2023 hyd at 27 Gorffennaf 2029.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	Mae angen yr argymhellion er mwyn sicrhau bod y penodiad priodol ar waith, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r Cyfansoddiad.
Trosolwg a Chraffu:	AMH
Fframwaith Polisi:	AMH
Amcanion Llesiant Corfforaethol	Mae Moeseg a Safonau effeithiol yn sicrhau y gall y Cyngor gyflawni pob Blaenoriaeth Gorfforaethol • Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesa a galluogi cyflogaeth • Creu Cymunedau Gofalgar ac ach • Darparu'r Dechrau gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu • Creu Cymunedau Cynaliadwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Yn unol â'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth
Goblygiadau cyfreithiol:	I gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol
Goblygiadau staffio:	Dim
Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	Deddf Llywodraeth Leol 1972 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/4/resources/welsh Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 https://www.legislation.gov.uk/cy/asc/2021/1/schedule/3/paragraph/14/enacted/welsh
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Dim
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
Swyddog Adrodd:	Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad:	21 Ionawr 2023

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Cymeradwyo Polisïau Cyflogau Athrawon 2022/23**
Pwrpas yr adroddiad:	**Cymeradwyo Polisi enghreifftiol Cyflogau Athrawon a chymeradwyo bod Cyrff Llywodraethu Ysgolion Ceredigion yn ei fabwysiadu.** **Cael cymeradwyaeth ar gyfer Polisi enghreifftiol Cyflogau Athrawon Digyswllt ar gyfer athrawon a gyflogir yn ganolog.**
Er:	**Cymeradwyaeth**
Aelod Cabinet a Phortffolio:	**Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

Cafodd pedwaredd Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)) ei chyhoeddi ar 14 Tachwedd 2022 ac mae'n cadarnhau'r trefniadau tâl ar gyfer athrawon Cymru ar gyfer 2022/23. Dyma elfennau statudol y Ddogfen sydd yn gorfod cael eu rhoi ar waith:

- Mae codiad o 5% wedi cael ei weithredu i bob pwynt cyflog statudol a lwfans
- Mae'r codiadau cyflog yn daladwy oddi ar 1 Medi 2022

Yn ogystal â'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfarniad cyflog, mae Dogfen Cyflog ac Amodau 2022 yn diwygio'r egwyddor pro-rata fel bod modd talu CAD1 neu CAD2 (Taliad Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu) yn llawn i athro rhan-amser ar yr amod bod modd i'r sawl sy'n ei dderbyn gyflawni holl ddyletswyddau'r lwfans o fewn ei oriau arferol.

O ganlyniad i ddwy ŵyl banc ychwanegol yn ystod 2022/2023 yn sgil Angladd Gwladol y Frenhines ym mis Medi 2022 a Choroni Brenin Siarl III ym mis Mai 2023, rhaid i athrawon fod ar gael i weithio am 193 o ddiwrnodau (1252 o oriau o amser dan gyfarwyddyd) yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23.

Mae'r Polisi Cyflogau Enghreifftiol, sy'n berthnasol i athrawon a gyflogir gan yr ysgolion, a'r Polisi Cyflogau enghreifftiol i Athrawon Digyswllt, sy'n berthnasol i athrawon a gyflogir yn ganolog, yn adlewyrchu'r newidiadau hyn ac yn mabwysiadu gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau 2022.

Ymgynghorwyd ar y ddau bolisi tâl gydag undebau llafur yr athrawon yn rhanbarthol ac yn lleol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam** ***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**	Naddo, pennwyd gan gyfarwyddyd statudol a deddfwriaeth.
Argymhellion:	Cymeradwyo: 1. Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon 2022/23 a'i gymeradwyo i'r Cyrff Llywodraethu er mwyn ei fabwysiadu yn ysgolion Ceredigion 2. Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon Digyswllt 2022/23 ar gyfer athrawon a gyflogir yn ganolog	
Rhesymau dros y penderfyniad:	Sicrhau y cydymffurfir â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2022 a bod cysondeb ledled ysgolion Ceredigion.	
Trosolwg a Chraffu:	Heb ystyried	
Fframwaith Polisi:	Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn mynnu bod ysgolion yn cymeradwyo Polisi Tâl. Fersiwn ddiweddaredig yw'r polisi tâl i'w gymeradwyo i Gyrff Llywodraethu ac mae'n cydymffurfio â Dogfen Cyflog 2022.	
Amcanion Corfforaethol:	• Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth • Creu cymunedau gofalgar ac iach • Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu • Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Y gyllideb a ddirprwyir i ysgolion	
Goblygiadau Cyfreithiol	Dim	
Goblygiadau Staffio:	Dim	
Goblygiadau o ran eiddo/ asedau:	Dim	

Risg(iau):	Risg o beidio â chydymffurfio â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022
Pwerau Statudol:	Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2022
Papurau Cefndirol:	
Atodiadau:	Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon 2022/2023 Polisi Cyflogau enghreifftiol Athrawon Digyswllt 2022/2023
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	04/01/2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Polisi Cyflogau Enghreifftiol Athrawon

2022/2023

RHEOLI'R DDOGFEN	
Enw'r Polisi	Polisi Cyflogau Athrawon 2022/23
Gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth
Swyddogion Adolygu	Swyddogion Adnoddau Dynol
Y BROSES YMGYNGHORI	
Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur canlynol ynghylch y Polisi hwn: • Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) • Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon • Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau • Yr Undeb Addysg Genedlaethol • UCAC	

POLISI CYFLOGAU ENGHREIFFTIOL ATHRAWON 2022/23

Mabwysiadodd Corff Llywodraethu
Ysgol .....

y Polisi hwn yn ffurfiol ar ..... .

TABL CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	4
2.	Datganiad o Fwriad	4
3.	Cydraddoldebau	4
4.	Swydd-ddisgrifiadau	5
5.	Gwerthuso	5
6.	Rhwymedigaethau'r Corff Llywodraethu	5
7.	Rhwymedigaethau'r Pennaeth	5
8.	Rhwymedigaethau'r Athrawon	6
9.	Differynnau	6
10.	Diogelu	6
11.	Medrusrwydd a Datblygiad Cyflog	6
12.	Pennu Cyflogau	7
13.	Cyflog y Pennaeth	7
14.	Cyflog y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol	8
15.	Datblygiad Cyflog ar gyfer Aelodau'r Grŵp Arwain	9
16.	Cyflog Athrawon Dosbarth	10
17.	Ceisiadau am Dâl ar yr Ystod Cyflog Uwch	12
18.	Rôl Ymarferwr Arweiniol	14
19.	Athrawon heb gymhwyso	14
20.	Lwfansau a Thaliadau yn ôl Disgresiwn	15
21.	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	18
22.	Athrawon a Gyflogir ar Fyr Rybudd (Cyflenwi)	18

Atodiad 1:	Ystodau Cyflog 2022/23	19
Atodiad 2:	Datganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon	23
Atodiad 3:	Meini Prawf ar gyfer Datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch	24
Atodiad 4:	Ffurflen Gais ar gyfer yr Ystod Cyflog Uwch	25
Atodiad 5:	Siart Llif y Broses Adolygu Cyflogau	26
Atodiad 6:	Canllawiau ar Gyflogau'r Grŵp Arwain	27
Atodiad 7:	Ffurflen Adolygu Flynyddol y Grŵp Arwain	35
Atodiad 8:	Y Broses Apeliadau Cyflog	36
Atodiad 9:	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	39
Atodiad 10:	Strwythur Staffio yr Ysgol	40

CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)), ac mae wedi bod yn destun ymgynghori â'r holl gymdeithasau addysgu cydnabyddedig.

1.2. Mae'r polisi cyflog hwn ond yn berthnasol i'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol ac nid yw'n berthnasol i unrhyw un a gyflogir drwy asiantaeth.

2. DATGANIAD O FWRIAD

2.1. Prif ddyletswydd statudol Cyrff Llywodraethu yng Nghymru, fel y'i nodir ym mharagraff 21 (2) o Ddeddf Addysg 2002, yw cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol. Bwriedir i'r Polisi hwn gefnogi'r ddyletswydd statudol honno.

2.2. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer pennu cyflogau yn yr Ysgol hon yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.

2.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu ag unplygrwydd, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles pennaf yr Ysgol mewn perthynas â gweithredu'r Polisi hwn.

2.4. Bydd y Corff Llywodraethu yn agored am benderfyniadau tâl a wnaethpwyd a chamau a gymerwyd, a bydd yn barod i egluro penderfyniadau a chamau i bobl sydd â diddordeb.

2.5. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r DCAAY(C), a byddant yn destun ymgynghoriad â phartïon perthnasol, gan gynnwys undebau llafur cydnabyddedig.

3. CYDRADDOLDEBAU

3.1. Mae'r Ysgol yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn. Bydd y Corff Llywodraethu yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol, gan gynnwys.

- Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999;
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;
- Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000;
- Rheoliadau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2002; a
- Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010

3.2. Cymhwysir y Polisi hwn yn gyson i bob cyflogai a hynny heb ystyried oedran, anabledd, hil, rhywedd (rhyw), ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, crefydd, cred na chyfeiriadedd rhywiol.

3.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn benodol mewn perthynas â phob penderfyniad ar hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu a thalu staff, a hyfforddi a datblygu staff.

3.4. Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod prosesau talu'n dryloyw ac yn deg. Bydd pob penderfyniad a wneir yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n wrthrychol. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fesul achos, er mwyn ystyried amgylchiadau unigolion, er enghraifft absenoldeb hirdymor oherwydd mamolaeth neu afiechyd, gan gynnwys absenoldeb yn ymwneud â COVID.

4. SWYDD-DDISGRIFIADAU

4.1. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff swydd-ddisgrifiad yn unol â strwythur staffio yr Ysgol (**gweler Atodiad 10**), fel y cytunwyd gan y Corff Llywodraethu.

5. GWERTHUSIADAU

5.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 o ran gwerthuso Penaethiaid ac Athrawon trwy gymhwyso Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

6. RHWYMEDIGAETHAU'R CORFF LLYWODRAETHU

6.1. Bydd y corff llywodraethu yn gwneud y canlynol:

- cyflawni ei rwymedigaethau fel y'u nodir yn y DCAAY(C) a'r Amodau Gwasanaeth i Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (y "Burgundy Book");
- sefydlu Pwyllgor Cyflogau a Phwyllgor Apeliadau Cyflog;
- gwneud pob penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, gan ystyried argymhellion y Pennaeth;
- sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi penderfyniadau ynghylch cyflogau, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a chynllun gwariant yr Ysgol;
- sicrhau bod athrawon, trwy'r Pennaeth, yn cael gwybod am benderfyniadau ynghylch cyflogau sy'n effeithio arnynt, a bod cofnodion yn cael eu cadw o'r argymhellion a'r penderfyniadau a wneir; a
- monitro'n flynyddol canlyniadau penderfyniadau ynghylch cyflogau, gan gynnwys i ba raddau y gall grwpiau gwahanol o athrawon ddatblygu ar gyfraddau gwahanol. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei rannu â chynrychiolwyr undebau llafur lefel ysgol.

7. RHWYMEDIGAETHAU'R PENNAETH

7.1. Bydd y Pennaeth yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod pob gwerthuswr (os nad y Pennaeth yw hwnnw) yn darparu gwybodaeth gywir, berthnasol, gyflawn ac amserol am argymhellion ynghylch cyflogau;

- cymedroli asesiadau perfformiad ac argymhellion cychwynnol ynghylch cyflogau i sicrhau cysondeb a thegwch;

- cyflwyno argymhellion perthnasol ynghylch cyflogau i'r Pwyllgor Cyflogau, a sicrhau bod y Pwyllgor Cyflogau yn cael gwybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau;

- rhoi gwybod i'r Athrawon am Bolisi Cyflogau yr Ysgol, a sicrhau bod copi ar gael iddynt;

- rhoi gwybod i'r staff sy'n gweinyddu'r gyflogres a/neu'r staff adnoddau dynol yn yr Awdurdod Lleol am benderfyniadau ynghylch cyflogau y mae angen eu rhoi ar waith; a

- sicrhau bod adroddiad ar weithrediad y Polisi Cyflogau yn cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethu a'r Undebau Llafur perthnasol yn flynyddol.

8. RHWYMEDIGAETHAU ATHRAWON

8.1. Bydd yr Athrawon yn gwneud y canlynol:

- ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Polisi Cyflogau hwn, y DCAAY(C), y safonau proffesiynol perthnasol, a'r holl bolisïau perthnasol ar gyflogaeth ysgolion; a

- mynd i'r afael â'r prosesau a nodir yn y Polisi hwn, a hynny mewn modd cadarnhaol.

9. DIFFERYNNAU

9.1. Yn fframwaith y DCAAY(C), bydd differynnau priodol yn cael eu creu a'u cynnal rhwng swyddi yn yr Ysgol, gan gydnabod atebolrwydd a phwysau swydd, ac angen y Corff Llywodraethu i recriwtio a chadw digon o Athrawon o'r ansawdd gofynnol ar bob lefel.

10. DIOGELU

10.1. Lle mae penderfyniad tâl yn arwain, neu'n gallu arwain, at ddechrau cyfnod diogelu, bydd y Corff Llywodraethu yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y DCAAY(C) ac yn rhoi'r rhybudd gofynnol cyn gynted â phosibl a chyn pen mis ar ôl y penderfyniad.

11. MEDRUSRWYDD A DATBLYGIAD CYFLOG

11.1. Lle mae athro yn destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Ysgol, bydd prosesau rheoli perfformiad yr Ysgol yn cael eu gohirio mewn perthynas â'r Athro dan sylw nes i'r Weithdrefn Medrusrwydd ddod i'w chasgliad.

11.2. Pan gwblheir y Weithdrefn Medrusrwydd, bydd yr athro yn ailddechrau prosesau rheoli perfformiad yn unol â Pholisi'r Ysgol.

11.3. Ni fydd datblygiad cyflog yn ganiataol yn unol â'r Polisi Cyflog hwn tra bydd Athro yn destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Ysgol.

11.4. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, byddai'r Athro'n ailymuno â'r cylch Rheoli Perfformiad.

11.5. Ni fydd datblygiad cyflog yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol mewn unrhyw achos yn ymwneud â medrusrwydd ffurfiol.

12. PENNU CYFLOGAU

12.1. Mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo ei bwerau pennu cyflog i'r Pwyllgor Cyflogau.

12.2. Pennu Cyflogau yn Flynyddol

12.2.1. Bydd cyflogau'r holl staff addysgu, gan gynnwys y rheiny yn y grŵp arwain, yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a hynny'n weithredol o 1 Medi. Bydd y Corff Llywodraethu yn cwblhau adolygiadau blynyddol o gyflog Athrawon, ynghyd ag asesiadau o geisiadau i ddatblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, erbyn 31 Hydref; bydd gwerthusiadau blynyddol y Pennaeth yn cael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr.

12.2.2. Gall adolygiadau gael eu cynnal ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn, er mwyn adlewyrchu, er enghraifft, unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu newidiadau yn y swydd-ddisgrifiad sy'n arwain at newid yn y sail ar gyfer cyfrifo cyflog unigolyn.

12.2.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn cymhwyso unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol yn y dyfodol fel y'u nodir yn y DCAAY(C).

12.3. Rhoi gwybod am benderfyniad ynghylch cyflogau

12.3.1. Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei roi i bob Athro yn nodi'r cyflog ac unrhyw fuddion ariannol eraill y caiff eu hawlio ar ôl penderfyniad. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd hyn yn cael ei wneud erbyn 31 Hydref ar gyfer Athrawon, 31 Rhagfyr ar gyfer Penaethiaid, neu cyn pen mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

12.4. Y Weithdrefn ar gyfer Apeliadau

12.4.1. Mae gan y Corff Llywodraethu weithdrefn ar gyfer apeliadau mewn perthynas â chyflogau. Fe'i heglurir yn **Atodiad 8** i'r Polisi Cyflogau hwn.

13. CYFLOG Y PENNAETH

13.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod y broses o bennu cydnabyddiaeth ariannol y Pennaeth yn deg ac yn dryloyw.

13.2. Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu ystod cyflog arweinyddiaeth saith pwynt, y gellir ei hadolygu yn ôl yr angen ar gyfer y Pennaeth, a hynny'n seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol, parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y DCAAY(C) (yn benodol paragraffau 9.2, 9.3 a 9.4).

13.3. Bydd y ffactorau ychwanegol i'w hystyried yn cynnwys holl gyfrifoldebau parhaol y swydd, yr heriau sy'n benodol i'r rôl, a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff.

13.4. Gall y Corff Llywodraethu ailbennu ystod cyflog y Pennaeth os bydd angen newid grŵp y Pennaeth (gan gynnwys lle bo'r Pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros fwy nag un ysgol mewn ffederasiwn ac yn dod yn atebol am yr ysgolion hynny'n barhaol). Gall ystod cyflog y Pennaeth hefyd gael ei hadolygu ar unrhyw adeg os ystyrir bod angen adlewyrchu newid arwyddocaol o ran cyfrifoldebau'r swydd.

13.5. Ni fydd taliadau ar gyfer cyfrifoldebau dros dro y Pennaeth yn cael eu cynnwys yn yr ystod cyflog, ond byddant yn cael eu pennu yn unol â'r DCAAY(C)l, fel yr eglurir yn **Atodiad 6**.

13.6. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn Atodiad 1, ac mae wedi cytuno ar ystod cyflog saith cam, sef A xxx i A xxx (*y manylion i'w cynnwys yma gan yr ysgol*).

13.7. **Cyflog Adeg Penodi**

13.7.1. Yn achos penodiadau newydd, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu'r ystod cyflog arweinwyr i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol pan fydd y Pennaeth yn cael ei benodi, a hynny gan ystyried rôl lawn y Pennaeth a darpariaethau'r DCAAY(C).

13.7.2. Bydd y Corff Llywodraethu yn mabwysiadu proses tri cham wrth osod y cyflog ar gyfer Pennaeth newydd, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

13.7.3. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn adolygu grŵp Pennaeth yr Ysgol ac ystod cyflog arweinwyr y Pennaeth, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau perthynoleddau cyflog teg yn yr Ysgol.

13.7.4. Gweler **Atodiad 6** i'r Polisi Cyflogau hwn am ganllawiau ynghylch ystodau cyflog arweinwyr, ac **Atodiad 7** am Ddatganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau.

13.8. **Penaethiaid sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol**

13.8.1. Pan benodir Pennaeth i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol, dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r penderfyniad ynghylch grŵp y Pennaeth ar gyfanswm nifer yr unedau disgyblion ar draws pob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol ag **Atodiad 6.**

13.8.2. Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Athrawon eraill a fydd, o ganlyniad i rôl y Pennaeth, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhain yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr Athro), a gofnodir. Ni ddylid cytuno i gynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol oni bai fod y swydd yn cronni cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl fwy y Pennaeth – nid yw'n awtomatig.

14. CYFLOG Y DIRPRWY BENNAETH/PENNAETH CYNORTHWYOL

14.1. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog yn ôl disgresiwn ar gyfer cyflogau arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

14.2. Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu ystod cyflog arweinwyr pum pwynt a gymerwyd o'r ystod cyflog arweinwyr yn y DCAAY(C) fel y nodir yn Atodiad 1. Gellir adolygu hyn yn ôl yr angen ar gyfer swyddi Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol, fel y'u pennir yn fframwaith y DCAAY(C).

14.3. Bydd yr ystod ar gyfer swyddi unigol yn cael ei phennu yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, a gall amrywio o swydd i swydd.

14.4. Yn yr ysgol hon, ystod cyflog pum cam y Dirprwy Bennaeth yw A xx i A xxx (*manylion y cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol*).

14.5. Yn yr Ysgol hon, ystod cyflog pum cam y Pennaeth Cynorthwyol yw A xx i A xxx (*manylion y cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol*).

14.6. **Cyflog Adeg Penodi**

14.6.1. Pan fydd angen gwneud penodiad newydd, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu'r ystod cyflog arweinwyr ar gyfer y swydd i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol pan fydd y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn cael ei benodi.

14.6.2. Bydd yr ystod cyflog yn cael ei phennu yn unol â'r DCAAY(C).

14.6.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn mabwysiadu'r broses tri cham wrth osod y cyflog ar gyfer penodiadau newydd i'r tîm arwain ehangach, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

15. DATBLYGIAD CYFLOG AR GYFER AELODAU'R GRŴP ARWAIN

15.1. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau aelodau o'r grŵp arwain sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol, a bennir yn unol â'r DCAAY(C).

15.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, pa un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

15.3. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

15.4. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Bennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol, yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt.

15.5. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn destun achos medrusrwydd ffurfiol.

15.6. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog ar y ffurflen Adolygu Cyflog Blynyddol yn **Atodiad 7**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r aelod o'r staff.

15.7. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod o'r staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

15.8. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi ar ffurflen yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau. Mae gan yr aelod o'r staff yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

16. CYFLOG ATHRAWON DOSBARTH

16.1. Cyflog Adeg Penodi

16.1.1. Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi gwag yn yr Ysgol yn cael eu hystyried gan y Pennaeth [a'r (*nodwch fanylion y pwyllgor*) os yw'n briodol]. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu naill ai'n fewnol neu'n allanol, yn lleol neu'n genedlaethol, fel y bo'n briodol.

16.1.2. Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion yr ystod cyflog ac unrhyw lwfansau neu daliadau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd.

16.1.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer swydd Athro dosbarth, yn unol â'r Brif Ystod Cyflog a'r Ystod Cyflog Uwch, y manylir arnynt yn **Atodiad 1**.

16.1.4. Bydd y corff llywodraethu'n pennu cyflog dechreuol ar gyfer swydd wag athro ystafell ddosbarth. Mae'r corff llywodraethu yn ymrwymedig i egwyddor cludadwyedd tâl i athrawon sy'n cael eu talu ar hyn o bryd yn unol â darpariaethau'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, a bydd yn cymhwyso'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 12.3 o'r DCAAY(C) yn ymarferol wrth wneud penodiadau newydd.

16.1.5. Wrth bennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer athro dosbarth presennol mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr ac sy'n cael ei dalu yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, bydd y corff llywodraethu yn talu'r athro ar y brif ystod cyflog neu'r ystod cyflog uwch, a hynny ar bwynt ar y raddfa sydd o leiaf yn cynnal hawl blaenorol yr athro i dâl, ac unrhyw ddatblygiad cyflog, y byddai wedi ei gael pe byddai wedi aros yn ei swydd flaenorol.

16.1.6. Bydd cludadwyedd cyflog yn cael ei gymhwyso ar sail "pro rata" pan fydd athro yn symud i/o swydd addysgu ran-amser.

16.1.7. At hynny, os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn athro sydd wedi cael seibiant o'r gwasanaeth, yna gall y corff llywodraethu bennu ei bwynt ar y raddfa yn seiliedig ar ei gyflog terfynol blaenorol a dalwyd yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, gan gynnwys unrhyw gynyddrannau y byddai'r athro wedi bod â hawl i'w gael pe bai wedi aros yn ei swydd flaenorol ar yr adeg y digwyddodd y newid mewn cyflogaeth. Gall y Corff Llywodraethu ystyried unrhyw brofiad perthnasol a gafwyd o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth neu gyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i addysgu.

16.1.8. Rhaid i gludadwyedd cyflog rychwantu toriad yn y gwasanaeth addysgu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu deuluol. Mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr newydd yn bwriadu cymryd safbwynt gwahanol, rhaid i'r seiliau dros wneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall.

16.1.9. Ni fydd y Corff Llywodraethu yn cyfyngu ar yr ystod cyflog a hysbysebir, na'r cyflog cychwynnol na'r rhagolygon ar gyfer datblygiad cyflog o ran swyddi Athrawon dosbarth, heblaw am isafswm y Brif Ystod Cyflog ac uchafswm yr Ystod Cyflog Uwch.

16.2. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar y Brif Ystod Cyflog ar hyn o bryd**

16.2.1. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau athrawon (ac eithrio Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n ymgymryd â'u blwyddyn ymsefydlu) sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r DCAAY(C).

16.2.2. Dyfernir datblygiad cyflog i Athrawon yn eu blwyddyn ymsefydlu wedi iddynt gwblhau eu blwyddyn ymsefydlu yn llwyddiannus.

16.2.3. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, pa un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

16.2.4. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau M1 i M5 o'r Brif Raddfa Gyflog wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd yn rôl Athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

16.2.5. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

16.2.6. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Athro ar y Brif Raddfa yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

16.2.7. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

16.2.8. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei darparu i'r athro.

16.2.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

16.2.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

16.3. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar Ystod Cyflog Uwch ar hyn o bryd**

16.3.1. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau athrawon ar yr ystod cyflog uwch sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r DCAAY(C).

16.3.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, pa un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

16.3.3. Yn y mwyafrif o achosion, dylai datblygiad ar y Raddfa Gyflog Uwch ddigwydd **pob dwy flynedd**, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol, fel y nodir yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.

16.3.4. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon sydd yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei darparu i'r athro.

16.3.5. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

16.3.6. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

17. CEISIADAU AM GYFLOG AR YR YSTOD CYFLOG UWCH

17.1. Gall Athro cymwysedig wneud cais unwaith bob blwyddyn i gael ei dalu ar yr Ystod Cyflog Uwch, yn unol â'r DCAAY(C) a Pholisi Cyflogau yr Ysgol hon.

17.2. Cyfrifoldeb pob Athro yw penderfynu a ddylai gyflwyno cais.

17.3. Er mwyn i'r asesiad fod yn gadarn ac yn dryloyw, bydd yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

17.4. Bydd yr amcanion personol ar gyfer y cylch gwerthuso sydd ar ddod yn cael eu gosod a'u cadarnhau ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau y gellir bodloni'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y DCAAY(C) ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys bod yr Athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol, a bod ei gyflawniadau a'i gyfraniad i'r ysgol yn sylweddol ac yn barhaus.

17.5. Gall athrawon sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, anabledd neu resymau sy'n gysylltiedig â mamolaeth, ynghyd â'r rheiny nad ydynt yn destun Rheoliadau Gwerthuso 2011 (h.y. athro a gyflogir ar gontract byrdymor o lai nag un tymor), ddyfynnu tystiolaeth ysgrifenedig o gyfnod addas a pherthnasol cyn dyddiad y cais i gefnogi eu cais.

17.6. **Y broses**

17.6.1. Y dyddiad cau ar gyfer cais sydd i'w gyflwyno gan Athro i'w werthuswr yw *(yr ysgol i nodi dyddiad yma – fel arfer cyn diwedd Tymor yr Haf, h.y. 31 Awst).*

17.6.2. Gellir gwneud eithriadau mewn rhai amgylchiadau penodol, e.e. yr Athrawon hynny sydd ar gyfnod mamolaeth neu sy'n absennol oherwydd salwch ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall yr athro ofyn – o leiaf pythefnos cyn y dyddiad cau a nodwyd – am estyniad o hanner tymor ar y mwyaf ar gyfer cyflwyno cais.

17.6.3. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno cais fel a ganlyn:

- Mae'r athro yn rhoi gwybod i'r gwerthuswr yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno cael ei ystyried i ddringo i'r Ystod Cyflog Uwch ac y dylai ei amcanion personol ar gyfer y cyfnod gwerthuso dwy flynedd sydd i ddod adlewyrchu'r cais hwn.

Yn dilyn cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol:

- Bydd y gwerthuswr yn llenwi ffurflen asesu, fel y gwelir yn **Atodiad 4**, gan nodi argymhelliad y gwerthuswr mewn perthynas â datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, yn dilyn cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol.

- Bydd y Pennaeth yn ystyried argymhelliad y gwerthuswr ac yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Cyflogau.

- Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn gwneud penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, ar ôl cael cyngor gan y Pennaeth.

- Bydd yr athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad ei gais erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn berthnasol.

- Os yw'r cais yn aflwyddiannus, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn egluro pa feysydd o berfformiad yr Athro nas ystyrir eu bod wedi bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir yn y Polisi hwn (gweler "Asesu" isod).

- Os gofynnir amdano, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi gan y Pennaeth. Fel arfer, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi cyn pen 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am ganlyniad y cais. Bydd adborth yn cael ei roi mewn modd cadarnhaol, a bydd yn cynnwys cyngor a chymorth ynghylch meysydd i'w gwella, er mwyn i'r athro fodloni'r meini prawf perthnasol.

- Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd yr athro yn symud i gam 1 o'r Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi yn y flwyddyn berthnasol, h.y. ar ôl llwyddo i gwblhau'r amcanion a osodwyd yn y flwyddyn academaidd hyd at 31 Awst 2020, bydd yr athro yn symud i'r cam cyntaf ar yr Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi 2020.

17.6.4. Gall ymgeiswyr aflwyddiannus apelio yn erbyn y penderfyniad, fel yr amlinellir yn **Atodiad 8**.

17.7. **Asesu**

17.7.1. Ni fydd cais yn llwyddiannus oni bai fod y Corff Llywodraethu yn fodlon bod holl ofynion y DCAAY(C) wedi'u bodloni, gan gynnwys:

- bod yr athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol; a

- bod cyflawniadau'r athro, a'i gyfraniad at leoliad neu leoliadau addysgol, yn sylweddol ac yn gyson.

17.7.2. At ddibenion y Polisi Cyflogau hwn, bydd y Pwyllgor Cyflogau yn fodlon bod yr Athro wedi bodloni disgwyliadau'r Corff Llywodraethu ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch lle bydd meini prawf yr Ystod Cyflog Uwch (gweler **Atodiad 3**) wedi'u bodloni, fel y profwyd gan adolygiad gwerthuso llwyddiannus.

17.7.3. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ffynonellau tystiolaeth, ar gael ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

18. RÔL YMARFERWR ARWEINIOL

18.1. Gall y Corff Llywodraethu greu swyddi Ymarferwyr Arweiniol ar gyfer athrawon sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain ym maes gwella sgiliau addysgu.

18.2. Os bydd y Corff Llywodraethu yn dymuno creu swyddi o'r fath, bydd yn pennu'r cyfrifoldebau a'r ystod cyflog i'r swyddi hyn. Ymgynghorir â'r staff a'r undebau llafur perthnasol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig o'r fath i'r strwythur staffio.

18.3. Polisi'r Corff Llywodraethu fydd penodi unrhyw Athro Ymarferydd Arweiniol newydd i ystod pum pwynt, fel sy'n briodol ym marn y Corff Llywodraethu.

18.4. Bydd yr ystod cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cydweddu â'r DCAAY(C), sef isafswm o £45,303 y flwyddyn ar hyn o bryd ac uchafswm o £68,870 y flwyddyn.

18.5. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

18.6. Bydd datblygiad cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cael ei bennu yn unol â'r broses a nodir yn 16.3.1 i 16.3.4 uchod.

19. ATHRAWON HEB GYMHWYSO

19.1. Bydd cyflog blynyddol yn cael ei dalu i athro ar yr ystod cyflog heb gymhwyso yn unol â DCAAY(C). Yn yr ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog statudol fel y nodir yn **Atodiad 1**.

19.2. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, mae yna amgylchiadau penodol lle caiff y rheiny heblaw Athrawon cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysgu wneud 'gwaith penodedig'.

19.3. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn, ac ni fydd ond yn cyflogi athrawon heb gymhwyso fel y nodir yn y Rheoliadau hyn.

19.4. Gall y Corff Llywodraethu dalu lwfans ychwanegol i Athro heb gymhwyso sy'n bodloni'r meini prawf fel y'u diffinnir yn y DCAAY(C).

19.5. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau 1 i 6 o Raddfa Gyflog yr Athrawon heb Gymhwyso wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

19.6. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

19.7. Dylai datblygiad cyflog ar y Raddfa Gyflog Athrawon heb Gymhwyso 6 phwynt ddigwydd yn flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid datblygiad oni bai fod yr unigolyn wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

19.8. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei darparu i'r athro heb gymhwyso.

19.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro heb gymhwyso yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

19.9.1. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

19.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

19.11. Bydd Athro heb gymhwyso sy'n ennill statws athro cymwysedig yn cael ei dalu ar yr ystodau cyflog ar gyfer Athrawon cymwysedig, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a'r DCAAY(C).

20. LWFANSAU A THALIADAU YN ÔL DISGRESIWN

20.1. Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD)

20.1.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu taliadau CAD1 a CAD2 i ddeiliaid swyddi fel y nodir yn strwythur staffio'r Ysgol (gweler **Atodiad 10**).

20.1.2. Bydd y taliadau hyn yn cael eu dyfarnu i Athrawon sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol, sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n barhaus, a hynny yng nghyd-destun strwythur staffio'r Ysgol ac at ddiben sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu, ac y gwneir yr Athro yn atebol amdano.

20.1.3. Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn egluro am ba gyfrifoldeb neu becyn o gyfrifoldebau y mae taliad CAD yn cael ei ddyfarnu.

20.1.4. Bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu taliad CAD1 a CAD2 yn cydweddu â'r DCAAY(C).

20.1.5. Yr ystod ar gyfer CAD1 yw £8,859 i £14,990 y flwyddyn.

20.1.6. Yr ystod ar gyfer CAD2 yw £3,071 i £7,497 y flwyddyn.

20.1.7. Yn yr ysgol hon, mae'r taliadau CAD a ddefnyddir ar hyn o bryd fel a ganlyn:

CAD1 - (*manylion pob CAD1 i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)
CAD2 - (*manylion pob CAD2 i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)

20.1.8. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu taliad CAD3 rhwng £611 a £3,028 y flwyddyn am gyfnod penodol i athro ar gyfer prosiect gwella ysgol sydd â therfyn amser clir, neu ar gyfer cyfrifoldebau allanol untro.

20.1.9. Bydd hyd y cyfnod penodol, a chyfanswm y taliad blynyddol, yn cael eu pennu ar y cychwyn, a bydd taliad yn cael ei wneud yn fisol.

20.1.10. Os bydd y Corff Llywodraethu yn dymuno gwneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, ynghyd â lefel a hyd y taliad, yn cael eu pennu'n glir yn dilyn gwaith ymgynghori â'r staff perthnasol a chynrychiolwyr yr undebau.

20.1.11. Gall athro sy'n cael taliad CAD1 neu daliad CAD2 hefyd gael taliad CAD3 ar yr un pryd.

20.1.12. Ni fydd unrhyw ddiogelu'n berthnasol mewn perthynas â dyfarnu taliad CAD3.

20.1.13. Bydd taliad CAD1 neu CAD2 a ddyfernir i athro rhan-amser yn gallu cael ei ddyfarnu ar sail yr egwyddor pro rata ac nid yn llai na'r oriau gwaith dan gontract, neu gellir penderfynu ei dalu yn llawn os bydd yr athro yn ymgymryd â'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r lwfans. Os telir y lwfans yn llawn, dylai fod modd cyflawni'r dyletswyddau a gytunir o fewn oriau arferol yr athro rhan-amser dan sylw. Dylai'r athro unigol a'r Corff Llywodraethu gytuno rhyngddynt ar lefel y taliad lwfans a'r dyletswyddau.

20.1.14. Caiff lwfansau CAD3 eu talu yn llawn, ni waeth beth yw'r oriau y mae athro rhan-amser yn gweithio yn arferol o dan y contract cyflogaeth.

20.2. **Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig**

20.2.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu lwfansau AAA yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a nodir yn y DCAAY(C).

20.2.2. Bydd Lwfans AAA, heb fod yn llai na £2,426 y flwyddyn, nac yn fwy na £4,786 y flwyddyn, yn daladwy i Athro dosbarth yn unol â'r DCAAY(C).

20.2.3. Yn yr Ysgol hon, y gwerthoedd AAA yw: (*manylion pob Lwfans/gwerth AAA i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)

20.2.4. Wrth benderfynu ar werth lwfans AAA, bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried strwythur darpariaeth AAA yr Ysgol, a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd, cymwysterau neu arbenigedd yr Athro sy'n berthnasol i'r swydd, a gofynion perthynol y swydd.

20.3. **Lwfansau Dros Dro**

20.3.1. Mae lwfansau dros dro yn daladwy i athrawon y neilltuir dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol iddynt, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â'r DCAAY(C).

20.3.2. Cyn pen pedair wythnos o ddechrau dyletswyddau dros dro, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu a fydd deiliad y swydd dros dro yn cael lwfans ai peidio. Yn achos absenoldeb maith wedi'i gynllunio, efallai y bydd lwfans dros dro yn cael ei gytuno ymlaen llaw, a'i dalu o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

20.3.3. Bydd unrhyw athro sy'n cyflawni dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, neu Bennaeth Cynorthwyol, am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, yn cael ei dalu ar bwynt priodol yn ystod cyflog Penaethiaid, ystod cyflog Dirprwy Benaethiaid neu ystod cyflog Penaethiaid Cynorthwyol, fel y pennir gan y Pwyllgor Cyflogau. Bydd

taliad yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau'r dyletswyddau, ond bydd fel arfer yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

20.3.4. Efallai y bydd lwfansau dros dro hefyd yn berthnasol i Athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cyd-weithwyr absennol sy'n cael taliad CAD a/neu lwfans AAA.

20.3.5. Gall lwfansau ychwanegol fod yn daladwy i Athrawon heb gymhwyso yn unol â'r DCAAY(C).

20.4. **Taliadau Ychwanegol**

20.4.1. Ac eithrio yn achos y rheini ar yr ystod arwain, caiff y Corff Llywodraethu wneud taliadau ychwanegol i athro, o ran:

- datblygiad proffesiynol parhaus a wneir y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon yn rhan o'r hyn sy'n digwydd fel mater o drefn yn yr Ysgol;
- cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunwyd arno rhwng yr Athro a'r Pennaeth; a
- chyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol yr Athro i ddarparu gwasanaethau ar gyfer codi safonau addysgol un neu ragor o ysgolion ychwanegol, neu mewn perthynas â hynny.

20.5. **Buddion Cymhelliad Recriwtio neu Gadw**

20.5.1. Gall y corff llywodraethu ddyfarnu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth ariannol, cynhaliaeth neu fuddion eraill ar gyfer cymhelliad recriwtio neu gadw. Wrth benderfynu ar unrhyw ddyfarniadau o'r fath, bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried y DCAAY(C) ynghyd â chyngor arbenigol o ran Adnoddau Dynol.

20.5.2. Ni cheir dyfarnu taliad o'r fath i Benaethiaid, Dirprwy Benaethiaid na Phenaethiaid Cynorthwyol heblaw i ad-dalu costau adleoli neu gostau tai rhesymol.

20.5.3. Bydd yr holl ystyriaethau eraill o ran recriwtio a chadw staff mewn perthynas â swydd Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol yn cael eu hystyried wrth bennu'r ystod cyflog.

20.5.4. Caiff y rheswm dros ddyfarnu unrhyw daliad ychwanegol, hyd disgwyliedig unrhyw gymhelliad neu fudd o'r fath, a'r dyddiad adolygu, pan geir eu tynnu'n ôl, ei egluro o'r cychwyn, yn ysgrifenedig.

20.5.5. Bydd y Corff Llywodraethu yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holl ddyfarniadau o'r fath.

21. CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN AMSER

21.1. Ystyrir bod Athrawon a gyflogir yn barhaus yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai nag wythnos waith lawn yn rhai rhan-amser.

21.2. Rhoddir datganiad ysgrifenedig i Athrawon rhan-amser sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau o ran oriau gwaith a'r mecanwaith safonol a ddefnyddir i bennu eu cyflog, yn amodol ar ddarpariaethau'r trefniadau oriau gwaith a chyflog statudol a thrwy gymharu ag wythnos addysgu amserlen yr Ysgol ar gyfer Athro llawn-amser mewn swydd gyfwerth. Nid yw hyn yn effeithio ar y taliad CAD3, nad yw'n un pro rata ar gyfer staff rhan-amser. Gweler **Atodiad 9** i gael rhagor o wybodaeth.

22. ATHRAWON A GYFLOGIR AR FYR RYBUDD (CYFLENWI)

22.1. Bydd athrawon a gyflogir ar sail cyflenwi yn cael eu talu'n ddyddiol, wedi'i gyfrifo yn unol â'r dybiaeth fod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 193 o ddiwrnodau (yn sgil gwyliau banc ychwanegol yn 2022/23); bydd cyfnodau o gyflogaeth sy'n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.

22.2. Os yw'r ysgol yn defnyddio asiantaeth, mae'r ysgol yn ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi, lle bydd yn caffael gan asiantaethau a enwir ymhlith Asiantaethau Cyflenwi Cymeradwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn unig, ac yn ymrwymo i dalu cyfradd ddyddiol ofynnol o M2 ÷ 193 diwrnod (yn sgil gwyliau banc ychwanegol yn 2022/23). Yr eithriad fydd, pan na all yr asiantaethau ar fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyflenwi'r athro â'r sgiliau addas, gall yr ysgol fynd at asiantaethau eraill, ond gydag ymrwymiad i dalu'r gyfradd tâl M2, o leiaf.
Dilëir lle nad yw'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi

ATODIAD 1

YSTODAU CYFLOG 2020/21

Y Brif Ystod Cyflog:

Pwynt	Gwerth
PYC2	£28,866
PYC 3	£31,184
PYC 4	£33,587
PYC 5	£36,232
PYC 6	£39,873

Yr Ystod Cyflog Uwch:

Pwynt	Gwerth
YCU 1	£41,337
YCU 2	£42,869
YCU 3	£44,450

Ystod Cyflog Ymarferydd Arweiniol:

Pwynt	Gwerth
YA1	£45,303
YA 2	£46,438
YA 3	£47,597
YA 4	£48,996
YA 5	£49,996
YA 6	£51,250
YA 7	£52,631
YA 8	£53,843

YA 9	£55,188
YA 10	£56,607
YA 11	£58,075
YA 12	£59,414
YA 13	£60,898
YA 14	£62,417
YA 15	£63,970
YA 16	£65,671
YA 17	£67,178
YA 18	£68,870

Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyso:

Pwynt	**Gwerth**
AHG1	£19,412
AHG 2	£21,669
AHG 3	£23,926
AHG 4	£26,183
AHG 5	£28,443
AHG 6	£30,700

Ystod Cyflog Arweinwyr:

Pwynt	**Gwerth**
A1	£45,081
A2	£46,209
A3	£47,363
A4	£48,542

A5	£49,751
A6	£51,000
A7	£52,371
A8	£53,581
A9	£54,918
A10	£56,329
A11	£57,790
A12	£59,123
A13	£60,600
A14	£62,111
A15	£63,656
A16	£65,349
A17	£,66,849
A18*	**£67,851**
A18	£68,530
A19	£70,231
L20	£71,971
A21*	**£73,022**
A21	£73,752
A22	£75,584
A23	£77,455
A24*	**£78,590**
A24	£79,376
A25	£81,348
A26	£83,361
A27*	**£84,541**

A27	£85,426
A28	£87,545
A29	£89,714
A30	£91,947
A31*	**£93,284**
A31	£94,218
A32	£96,560
A33	£98,958
A34	£101,404
A35*	**£102,896**
A35	£103,925
A36	£106,498
A37	£109,145
A38	£111,846
A39*	**£113,437**
A39	£114,572
A40	£117,430
A41	£120,364
A42	£123,380
A43	£125,211

*** Y pwyntiau hyn, ynghyd â Phwynt A43, yw'r pwyntiau uchaf ar y raddfa ar gyfer wyth ystod y Grŵp Penaethiaid**

ATODIAD 2

DATGANIAD YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFLOGAU ATHRAWON

Enw:	.....	**Rhif Cyflogai:**	.....
Ysgol:	.....	**Dyddiad Dod i Rym:**	.....

MANYLION CYFLOG

Cyflog a Phwynt – Y Brif Ystod Cyflog (PYC2 - PYC6)	**£**	**Pwynt**
Cyflog a Phwynt – Yr Ystod Cyflog Uwch (YCU1 – YCU3)	**£**	**Pwynt**
Cyflog a Phwynt – Ystod Heb Gymhwyso (AHG1 - AHG6)	**£**	**Pwynt**
Cyflog ar Ystod Ymarferydd Arweiniol	**£**	**Pwynt**

LWFANSAU

		Manylion e.e. dros dro (gyda dyddiadau), y rheswm dros y lwfans
Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) CAD1 / CAD2 / CAD3	CAD___ **£**	
Recriwtio neu Gadw (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	**£**	
Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	**£**	
Lwfansau Eraill – Nodwch (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	**£**	
DIOGELU	**£**	
CYFANSWM CYFLOG	**£**	

POLISI CYFLOGAU ENGHREIFFTIOL ATHRAWON 2022/23

ATODIAD 2

Cyfarfod y Pwyllgor Cyflogau ar: .....

Llofnod y Pennaeth/Cadeirydd y Pwyllgor: ..... Dyddiad: .....

ATODIAD 3

MEINI PRAWF AR GYFER DATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH

1. Rhinweddau Proffesiynol

1.1. Yn cyfrannu'n sylweddol, lle y bo'n briodol, at weithredu polisïau ac arferion y gweithle, ac at hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am eu gweithredu.

2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol

2.1. Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o sut y mae defnyddio ac addasu amrywiaeth o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut y mae personoli'r dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr wireddu ei botensial.

2.2. Yn meddu ar wybodaeth helaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r trefniadau a'r gofynion asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a addysgir ganddynt, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chymwysterau ac arholiadau cyhoeddus.

2.3. Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r mathau gwahanol o gymwysterau a manylebau, a'u haddasrwydd i ddiwallu anghenion dysgwyr.

2.4. Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fwy datblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg gysylltiedig, gan gynnwys sut y mae dysgu'n datblygu ynddynt.

2.5. Yn meddu ar wybodaeth a phrofiad digon manwl i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc.

3. Sgiliau Proffesiynol

3.1. Yn hyblyg, yn greadigol ac yn fedrus wrth gynllunio dilyniannau dysgu mewn gwersi, ac ar draws gwersi, sy'n effeithiol ac sy'n cael eu paru'n dda yn gyson ag amcanion dysgu ac anghenion dysgwyr, ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am y pwnc/cwricwlwm.

3.2. Yn meddu ar sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda o ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol, gan wneud cynnydd sydd cystal â dysgwyr tebyg yn genedlaethol, neu'n rhagori arnynt.

3.3. Yn hyrwyddo cydweithio a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

3.4. Yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol cyd-weithwyr trwy hyfforddi a mentora, arddangos arfer effeithiol, a rhoi cyngor ac adborth.

ATODIAD 4

ASESIAD O GAIS ATHRO I DDATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH

I'w Lenwi gan Werthuswr yr Athro

Enw'r Athro:	
Swydd:	

Tystiolaeth o'r gwerthusiad diweddaraf Nodwch pa ddatganiad gwerthuso sydd ynghlwm:
*** Wedi bodloni'r meini prawf * Heb fodloni'r meini prawf (*Dilëir fel sy'n briodol)** **Os na fodlonwyd y meini prawf yn llwyr, rhowch fanylion isod (gan barhau drosodd, os oes angen) o ran pa agweddau ar berfformiad yr athro nad ydynt yn bodloni'r meini prawf:**

Llofnodwyd ..... **(Gwerthuswr)**

Dyddiad: .....

I'W GYFLWYNO I'R PENNAETH

At Ddefnydd yr Ysgol yn Unig

Daeth y ffurflen gais i law ar: .....

Cynhaliwyd yr asesiad ar: .....

Gan: .....

POLISI CYFLOGAU ENGHREIFFTIOL ATHRAWON 2022/23

ATODIAD 5

SIART LLIF O'R BROSES ADOLYGU CYFLOGAU
(ac eithrio'r Pennaeth)

Gosod Amcanion Rheoli Perfformiad

↓

Adolygiad Gwerthuso Rheoli Perfformiad/Argymhelliad Cyflog gan y Gwerthuswr

↓

Yr Athro yn gwneud Cais am yr Ystod Cyflog Uwch

↓

Y cais yn cael ei ychwanegu at yr Adolygiad Gwerthuso

↓

Gall y gwerthusai apelio yn erbyn Canlyniad y Gwerthusiad/Rheoli Perfformiad

↓

Y Pennaeth yn adolygu'r holl argymhellion gwerthuso ac yn ychwanegu argymhelliad ynghylch cyflog

↓

Y Pennaeth yn cyflwyno i'r Pwyllgor Cyflogau am benderfyniad

↓

Y Pwyllgor Cyflogau yn penderfynu ar y cyflog

↓

Yr athro yn cael gwybod gan y Pennaeth yn ysgrifenedig

YR ATHRO YN DERBYN

↓

DIWEDD Y BROSES

YR ATHRO YN GWRTHOD

↓

↓

↓

Yr Athro yn gofyn am wrandawiad sylwadau gyda'r Pwyllgor Cyflogau. Wedi i hwn gael ei gynnal, rhoddir gwybod i'r Athro am y penderfyniad

YR ATHRO YN DERBYN

↓

DIWEDD Y BROSES

YR ATHRO YN GWRTHOD

↓

Uwchgyfeirio'r Apêl i'r Pwyllgor Apeliadau

↓

Y Pwyllgor Apeliadau yn gwrando ar yr apêl ac yn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad

↓

ATODIAD 5

DIWEDD Y BROSES

ATODIAD 6

CANLLAWIAU AR GYFLOGAU'R GRŴP ARWAIN

1. Y Pennaeth a'r Tîm Arwain (POB YSGOL)

Mae Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth 43 cam statudol wedi cael ei hailgyflwyno. Bydd Penaethiaid , Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol yn cael eu talu yn ôl yr hyn a bennir gan y Corff Llywodraethu. Nodir hyn isod:

2. Grwpiau o Ysgolion (POB YSGOL)

Mae yna wyth grŵp o ysgolion wedi'u pennu o sgôr uned yr ysgol. Mae'r DCAAY(C) yn pennu isafswm ac uchafswm gwerth cyflog ar gyfer pob grŵp, ac mae'r cyfraddau cyflog dangosol a gyhoeddir ar y cyd gan y cyflogwyr a'r undebau llafur yn gosod gwerthoedd ynghlwm wrth bwyntiau cyflog unigol o fewn yr ystodau hynny.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu ystod cyflog saith pwynt ar gyfer y Pennaeth, ac ystod cyflog pum pwynt ar gyfer yr holl swyddi arwain eraill.

3. Sgôr Uned yr Ysgol

a. Pob Ysgol (ac eithrio Ysgolion Arbennig)

Cyfrifir y sgôr uned i bennu grŵp Ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALl yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 Ionawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

** Dilëwch os nad yw'n briodol*

Gwybodaeth am y modd y mae'r sgôr uned yn cael ei chyfrifo:

Pennir hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen/CA1/CA2	**7 uned**
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	**9 uned**
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	**11 uned**
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	**13 uned**

Bydd pob disgybl sydd â **datganiad o anghenion addysgol arbennig**, os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn cyfrif tair uned yn fwy nag y byddai fel arall. Os nad yw'r disgybl mewn dosbarth arbennig o'r fath, dylid cyfrif tair uned dim ond lle y mae'r corff perthnasol yn penderfynu gwneud hynny.

Bydd pob disgybl sy'n mynychu am lai na hanner diwrnod ar bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol yn cyfrif hanner yr unedau y byddai fel arall yn eu cyfrif.

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 1,000	1
1,001 - 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

b. Sgôr Uned Ddiwygiedig (Ysgolion Arbennig yn Unig)

Cyfrifir y sgôr uned ddiwygiedig i bennu grŵp yr ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALl yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 Ionawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

Mae'n rhaid i ysgol arbennig gael ei neilltuo i grŵp Pennaeth yn unol â'r tabl canlynol trwy gyfeirio at ei sgôr uned ddiwygiedig, a gyfrifir yn unol ag is-adrannau (i) a (ii) isod:

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

(i) Gwybodaeth am y modd y caiff y gymhareb staff-disgyblion ei chyfrifo

Rhaid i gyfran y staff i ddisgyblion yn yr ysgol gael ei chyfrifo a'i mynegi ar ffurf canran ('y gymhareb staff-disgybl') yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \text{ X } 100$$

Lle A yw nifer yr Athrawon a'r Staff Cymorth wedi'i bwysoli'n unol ag (a) isod, a B yw nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i bwysoli'n unol â (b) isod:

a) Y pwysoliad ar gyfer Athro yw dwy uned am bob Athro cyfwerth ag amser llawn, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod o Staff Cymorth yw un uned am bob unigolyn cyfwerth ag amser llawn; ac

b) Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn-amser yw un uned, a'r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan-amser yw hanner uned.

Rhaid i addasydd cymhareb staff-disgybl gael ei gyfrifo yn unol â'r tabl canlynol, trwy gyfeirio at y gymhareb staff-disgybl a bennir yn unol â'r uchod:

Cymhareb Staff-Disgyblion	**Addasydd y Gymhareb Staff-Disgyblion**
1 - 20%	1
21 - 35%	2
36 - 50%	3
51 - 65%	4
66 - 80%	5
81% neu fwy	6

D.S. Ystyr ‘aelod o staff cymorth’ yw aelod o Staff yr ysgol nad yw'n:
- Athro;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â darparu prydau bwyd;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â diogelu neu gynnal a chadw adeiladau'r ysgol; neu
- Unigolyn a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio a gofalu am blant y tu allan i oriau ysgol.

(ii) Gwybodaeth am y modd y caiff cyfanswm y sgôr uned ddiwygiedig ei gyfrifo

Pennir y cyfanswm hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr uned yr ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

ATODIAD 6

Cyfnod Allweddol	Unedau Fesul Disgybl
Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2	10
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	12
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	14
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	16

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm diwygiedig sgôr uned yr ysgol trwy luosi cyfanswm sgôr uned yr ysgol a bennwyd o dan yr adran hon (h.y. yn unol â'r tabl uchod) ag addasydd y gymhareb staff-disgybl a gyfrifwyd o dan adran 3.

D.S. Os caiff y Pennaeth ei benodi'n Bennaeth ar fwy nag un ysgol ar sail barhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y Pennaeth, neu, o dan y Rheoliadau Cydweithredu (5), y corff cydweithredol, gyfrifo grŵp y Pennaeth trwy gyfuno sgôr uned yr holl ysgolion y mae'r Pennaeth yn gyfrifol amdanynt er mwyn canfod cyfanswm y sgôr uned, sydd wedyn yn pennu grŵp y Pennaeth.

4. Penodi Arweinwyr Newydd/Newidiadau i Strwythurau Cyflogau Arweinwyr presennol – Proses Tri Cham (POB YSGOL)

Dylai'r Corff Llywodraethu ddilyn y broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer **penodiadau newydd neu ddiwygio strwythurau cyflogau presennol o ran y Pennaeth neu'r tîm arwain ehangach**.

Cam 1 - Diffinio'r rôl a phennu'r grŵp Pennaeth
Cam 2 - Gosod yr ystod cyflog ddangosol
Cam 3 - Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r ystod cyflog unigol

Dylai'r holl benderfyniadau a'r rhesymau drostynt gael eu cofnodi'n drylwyr ar bob cam. Rhaid i bob penderfyniad ynghylch cyflogau gael ei wneud yn unol â meini prawf gwrthrychol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw grŵp o Athrawon sydd â nodwedd warchodedig benodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Awgrymir bod ysgolion yn gofyn am gyngor wrth gyfrifo a chofnodi penderfyniadau ynghylch strwythur cyflogau arweinwyr.

<u>Cam 1</u> - Diffinio'r Rôl a Phennu Grŵp y Pennaeth

Ar y cam hwn, dylai'r Corff Llywodraethu ddiffinio'r swydd a nodi'r ystod cyflog gyffredinol fel canllaw i bennu'r lefel briodol o gyflog. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ddiffinio a nodi rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd penodol y swydd, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol sy'n ofynnol.

ATODIAD 6

Ar gyfer swyddi Penaethiaid, bydd y Corff Llywodraethu yn neilltuo Ysgol i grŵp Pennaeth (fel y diffinnir yn 3 uchod), a fydd yn pennu'r ystod cyflog briodol fel yr amlinellir isod:

Maint y Grŵp	Ystod y Camau	Ystod Cyflog (DCAAY(C) 2022)
1	A6 - A18*	£ 51,000 - £67,851
2	A8 - A21*	£ 53,581 - £73,022
3	A11 - A24*	£ 57,790 - £ 78,590
4	A14 - A27*	£ 62,111 - £ 84,581
5	A18 - A31*	£ 68,530 - £ 93,284
6	A21 - A35*	£ 73,752 - £ 102,896
7	A24 - A39*	£ 79,376 - £ 113,437
8	A28 - A43	£ 87,545 - £ 125,211

Ar gyfer swyddi eraill yn y grŵp arwain, dylai'r Corff Llywodraethu ystyried y modd y mae'r rôl yn cyd-fynd â strwythur arwain ehangach yr Ysgol. Ni ddylai'r ystod cyflog ar gyfer Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol orgyffwrdd ag ystod cyflog y Pennaeth heblaw **mewn amgylchiadau eithriadol**.

<u>Cam 2</u> - Pennu'r Ystod Cyflog Ddangosol

Ar y cam hwn, bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried cymhlethdod a her y rôl yng nghyd-destun penodol yr Ysgol, a gwneud penderfyniad ynghylch cyflog yng ngoleuni hyn.

Ar gyfer swyddi Penaethiaid, disgwylir y bydd y Corff Llywodraethu fel arfer yn dod i'r casgliad bod cyfanswm y sgôr uned yn llwyr gyfleu cymhlethdod rôl y Pennaeth, a bod yr ystod cyflog berthnasol yn cynnwys lefelau priodol o dâl, yn unol â'r DCAAY(C). Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried a ddylai'r ystod cyflog ddangosol ddechrau ar isafswm grŵp y Pennaeth, neu a yw'n dymuno i'r ystod ddechrau ar lefel uwch oherwydd lefel yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna amgylchiadau lle ceir ffactorau ychwanegol sy'n awgrymu y dylai'r ystod cyflog ddangosol fod yn uwch na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cyfrifiad sylfaenol yng Ngham 1.

Dyma rai enghreifftiau o ffactorau ychwanegol i'w hystyried (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob posibilrwydd):

- Y cyd-destun a'r her a gyflwynir gan anghenion disgyblion e.e. os oes llawer o amddifadedd yn y gymuned (hawl i Brydau Ysgol am Ddim a/neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol) neu niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal neu blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae hyn yn effeithio ar yr her mewn perthynas â gwella deilliannau;

- Llawer iawn o gymhlethdod a her, e.e. atebolrwydd am nifer o ysgolion neu reoli ar draws nifer o safleoedd gwasgaredig, sy'n mynd yn eithaf pell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan unrhyw Bennaeth ysgol(ion) o faint tebyg, ac nad yw eisoes wedi'i adlewyrchu yng nghyfanswm y sgôr uned a ddefnyddiwyd yng ngham 1;

- Atebolrwydd ychwanegol nas adlewyrchwyd yng ngham 1, e.e. arwain cynghrair ysgol addysgu; a

- Ffactorau a all amharu ar allu'r ysgol i ddenu ymgeiswyr â phrofiad a chymwysterau priodol ar gyfer swyddi arwain, e.e. lleoliad, cyfrwng iaith, maes pwnc/arbenigedd a/neu lefel o gymorth gan y tîm arwain ehangach.

Gall y Corff Llywodraethu bennu'r ystod cyflog ddangosol gydag **uchafswm hyd at 25% uwchlaw lefel uchaf ystod y grŵp Pennaeth perthnasol**.

Uwchlaw'r terfyn hwnnw, rhaid cael cyngor annibynnol allanol ac, os bydd y cyngor yn awgrymu bod ystod sy'n uwch na'r terfyn hwn yn briodol, rhaid i'r Corff Llywodraethu llawn lunio achos busnes, a chytuno arno.

Dylai'r Corff Llywodraethu sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei gyfrif ddwywaith, e.e. o ran pethau a ystyriwyd yng ngham 1, megis cyfrifoldeb am ysgol ychwanegol a adlewyrchwyd eisoes yng nghyfanswm y sgôr uned; neu o ran defnyddio dangosyddion sy'n gorgyffwrdd, fel Prydau Ysgol am Ddim a'r premiwm disgybl.

NI DDYLAI'R Corff Llywodraethu gynyddu cyflog sylfaenol na thalu lwfans ychwanegol am gydweithio lleol rheolaidd sy'n rhan o rôl pob Pennaeth.

Ar gyfer rolau arwain eraill, mae'r broses yn eithaf tebyg. Bydd y Corff Llywodraethu yn dymuno ystyried y modd y dylai'r rolau arwain eraill gael eu pennu yn unol â'r lefel a bennwyd ar gyfer y Pennaeth, gan sicrhau bod digon o le i ddatblygu cyflog. Dylid hefyd ystyried unrhyw swyddi addysgu ac iddynt lwfansau ychwanegol.

Ar ddiwedd y cam hwn, dylai'r Corff Llywodraethu benderfynu lle yn yr ystod eang i bennu'r ystod cyflog ddangosol, gan nodi hyn yn glir wrth hysbysebu'r swydd. Dylid gwneud penderfyniad cyffredinol ynghylch safle ac ehangder yr ystod, gan sicrhau bod lle priodol i ddatblygu cyflog dros amser.
Dylai fod trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir, a'r rhesymau drosto.

Disgwylir hefyd, lle y bo'n bosibl, y bydd yr Ysgol yn ymgymryd â phroses o feincnodi cyflogau cyn pennu'r ystod cyflog ar gyfer swydd Pennaeth neu swyddi arwain eraill.

Yn achos y ffactorau hynny nad oes disgwyl iddynt barhau, fel cyfrifoldeb dros dro am ysgol ychwanegol, dylid adlewyrchu'r rhain trwy lwfans yn hytrach na'u cyfuno yn yr ystod cyflog ddangosol.

<u>Cam 3</u> – Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r Ystod Cyflog Unigol ar gyfer penodiadau newydd

Mae'r ddau gam cyntaf yn fodd i bennu'r ystod cyflog briodol. I bob pwrpas, diben y trydydd cam yw penderfynu ar y cyflog cychwynnol ar gyfer yr unigolyn y cynigir y swydd iddo.

Ar y cam hwn, bydd y Corff Llywodraethu yn ffafrio ymgeisydd ar gyfer y swydd, a bydd yn dymuno pennu'r cyflog cychwynnol ynn ngoleuni ffactorau sy'n benodol i'r ymgeisydd, er enghraifft i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn bodloni gofynion penodol y swydd.

Bydd yn bwysig sicrhau bod yna le i ddatblygu cyflog dros amser.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

5. Sefydlu Ystod Cyflog uwchlaw Grŵp Pennaeth yr Ysgol (POB YSGOL)

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd yr ystod cyflog o fewn terfynau grŵp y Pennaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, e.e. lle gall fod anhawster mawr i benodi, neu lle bydd angen cymell Pennaeth i dderbyn cyfrifoldeb am ysgol fawr iawn neu i arwain sawl ysgol fawr, gall fod yn briodol ystyried estyn yr ystod cyflog unigol.

Mewn achosion o'r fath, gall y Corff Llywodraethu benderfynu y gall uchafswm yr ystod cyflog fod uwchlaw uchafswm grŵp y Pennaeth, **hyd at 25% yn ychwanegol**.

Os ystyrir bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu estyniad y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, bydd achos busnes yn ofynnol. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol gan unigolyn neu gorff priodol, a all ystyried pa un a ellir cyfiawnhau mynd uwchlaw'r terfyn mewn achos penodol ai peidio.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

6. Taliadau Dros Dro i Benaethiaid (POB YSGOL)

Gall y Corff Llywodraethu ystyried tâl ychwanegol i'r Pennaeth am gyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol sy'n amlwg yn rhai dros dro, neu ddyletswyddau sy'n ychwanegol at y swydd y pennwyd ei gyflog ar ei chyfer, e.e. os yw'n darparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Yn cynnwys achosion lle caiff y Pennaeth ei benodi'n Bennaeth Dros Dro ar un neu ragor o ysgolion ychwanegol, ac nad yw hyn wedi'i gynnwys yn ffactor parhaol wrth gyfrifo'r ystod cyflog.

7. Diogelu Cyflog (POB YSGOL)

Os caiff yr Ysgol ei neilltuo i grŵp is, neu os bydd y Corff Llywodraethu yn dewis lleihau'r ystod cyflog arweinwyr, bydd gan yr aelod o staff yr hawl i gael swm wedi'i ddiogelu am hyd at dair blynedd, yn amodol ar y DCAAY(C).

ATODIAD 7

FFURFLEN ADOLYGU FLYNYDDOL AR GYFER PENNAETH/DIRPRWY BENNAETH/PENNAETH CYNORTHWYOL

(Medi 20___)

Enw:	**Rhif Cyflogai:** .....
Ysgol:	

*** Pennaeth:**

Grŵp Ysgol: ..... Ystod Cyflog y Pennaeth: £..... i £.....

*** Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol:**

Ystod Cyflog: £..... i £.....

Cyflog a Phwynt ym mis Awst 20___: £..... Pwynt: .....

Y rhesymeg a ddefnyddiwyd i bennu'r cyflog:

.....

.....

Cyflog a Phwynt Diwygiedig ym mis Awst 20___: £..... Pwynt: .....

Ardystiwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr/ y Pwyllgor Cyflogau: .....

Ardystiwyd gan y Pennaeth: ..... Dyddiad: .....

*** Dileër fel sy'n briodol**

ATODIAD 8

Y BROSES APELIADAU CYFLOG

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymrwymedig i sicrhau yr ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch cyflogau yn gyflym, yn deg ac mewn modd sy'n gyson â deddfwriaeth ar gydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall, yn ogystal â'r DCAAY(C).

Gall athrawon, gan gynnwys Penaethiaid, apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'u cyflog, neu unrhyw benderfyniad arall a wneir gan y Corff Llywodraethu (neu Bwyllgor neu unigolyn sy'n gweithredu ag awdurdod dirprwyedig) sy'n effeithio ar eu cyflog.

Gall y rhesymau dros apelio gynnwys y canlynol, ymhlith rhesymau eraill. Bod yr unigolyn neu'r Pwyllgor a wnaeth y penderfyniad:

a) wedi cymhwyso darpariaeth y DCAAY(C) yn anghywir;
b) wedi methu ystyried y canllawiau statudol yn briodol;
c) wedi methu ystyried y dystiolaeth berthnasol yn briodol;
d) wedi ystyried tystiolaeth amherthnasol neu anghywir;
e) yn unochrog; neu
f) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon fel arall yn erbyn yr athro.

Yn achos y gwrandawiad sylwadau a'r gwrandawiad apêl, mae hawl gan yr athro i gael cyd-weithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gydag ef.

Cam 1 – Trafodaeth Anffurfiol (Cam Dewisol)

Mae gan Athro sy'n anfodlon ar argymhelliad ynghylch cyflog y cyfle i drafod yr argymhelliad â'r Pennaeth, a hynny cyn i'r argymhelliad gael ei weithredu a chyn i'r Ysgol gadarnhau'r penderfyniad.

Os bydd yr Athro, ar ôl cael trafodaeth anffurfiol â'r unigolyn sy'n gwneud yr argymhelliad ynghylch cyflog, neu ar ôl cael yr hysbysiad o benderfyniad cyflog, o'r farn bod argymhelliad anghywir wedi'i wneud, gall gyflwyno ei sylwadau i Bwyllgor Cyflogau y Corff Llywodraethu (gweler Cam 2 isod).

Cam 2 – Gwrandawiad Sylwadau

1. Bydd yr Athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad ynghylch ei gyflog ac, os yw'n berthnasol, bydd yn cael gwybod ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn sicrhau bod yr athro yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau ac apelio yn erbyn y penderfyniad, os yw'n briodol.

2. Os bydd yr Athro yn dymuno cyflwyno sylwadau, dylai wneud hynny'n ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael gwybod am y penderfyniad. Yr Athro sydd i benderfynu a fydd yn gofyn am wrandawiad sylwadau.

3. Bydd Clerc y Llywodraethwyr yn trefnu bod gwrandawiad sylwadau yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pwyllgor Cyflogau. Efallai y bydd gofyn i'r Pennaeth fynd i'r gwrandawiad i egluro ar ba sail y gwnaed yr argymhelliad.

4. Bydd yr athro yn cael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawiad sylwadau. Gall yr athro fynd i'r gwrandawiad i gyflwyno tystiolaeth, i alw ar dystion, ac i ofyn cwestiynau i'r Pwyllgor Cyflogau.

5. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn penderfynu a ddylid diwygio'r penderfyniad gwreiddiol, a bydd yn ysgrifennu at yr athro i roi gwybod am y canlyniad o fewn 5 diwrnod ysgol ar ôl gwneud y penderfyniad.

6. Os bydd yr Athro yn dal i fod yn anfodlon, gall apelio yn erbyn y penderfyniad hwn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am y canlyniad gan y Pwyllgor, a hynny trwy symud ymlaen i Gam 3 y broses.

Cam 3 – Gwrandawiad Apêl

1. Dylai'r Athro nodi'n glir yn ysgrifenedig ar ba sail y mae'n apelio yn erbyn y penderfyniad, ac yna anfon y llythyr at Glerc y Llywodraethwyr cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y canlyniad ysgrifenedig.

2. Bydd Clerc y Llywodraethwyr yn trefnu bod gwrandawiad apêl yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, ond fel arfer cyn pen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am yr apêl.

3. Dylai'r athro gael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawiad.

4. Dylai’r apêl gael ei chlywed gan y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau, sy'n cynnwys o leiaf tri llywodraethwr cymwys nad oeddent yn rhan o’r penderfyniad gwreiddiol, neu os oedd y Pwyllgor Cyflogau gwreiddiol yn cynnwys mwy na thri aelod, gan yr un faint o leiaf â nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Cyflogau hwnnw.

5. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn derfynol.

6. Ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad apêl y mae:

    - Y Cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Apeliadau
    - Yr Athro a'i gynrychiolydd neu gyd-weithiwr (os oes rhywun gyda'r Athro)
    - Tystion ar gyfer ochr y cyflogai (os yw'n briodol)
    - Aelod o'r Pwyllgor Cyflogau gwreiddiol, a fydd yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol
    - Tystion ar gyfer yr ochr reoli (os yw'n briodol)
    - Clerc y gwrandawiad
    - Yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgor Apeliadau (yn amodol ar ddarpariaethau unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth)

ATODIAD 8

Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer cyfarfodydd apêl ffurfiol

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb, ynghyd â'u rôl yn y trafodion.

- Bydd yr Athro yn cyflwyno ei achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i'w hystyried ac unrhyw dystion y mae wedi galw arnynt;
- Gall aelodau'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn cwestiynau i'r Athro, a gall cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau ofyn cwestiynau hefyd;
- Bydd cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau yn datgan ei achos gan gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ac unrhyw dystion i gefnogi'r achos, os yw'n briodol
- Gall aelodau'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau, a gall yr Athro ofyn cwestiynau hefyd;
- Gall y ddwy ochr wneud datganiad cloi os dymunant (yr athro yn gyntaf, ac wedyn cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau). Ni ellir cyflwyno tystiolaeth newydd ar y cam hwn;
- Bydd y ddau barti yn gadael y gwrandawiad;
- Gall y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn i'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol am gyngor (os yw'n berthnasol). Ar ôl i'r cyngor hwn gael ei roi, bydd yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn gadael y gwrandawiad ond gellir ei alw'n ôl i roi cyngor pellach (os yw'n berthnasol);
- Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn ystyried yr holl dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol;
- Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn galw'r ddwy ochr yn ôl er mwyn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad (os yw'n aros am benderfyniad) neu, bydd yn dweud wrth y Clerc am ysgrifennu at yr Athro ar ran y Pwyllgor i'w hysbysu ynghylch y penderfyniad, a'r rhesymau drosto; a
- Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y newid cyflog, os yw hynny'n briodol.

ATODIAD 9

CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN-AMSER

Mae'n rhaid i Athro rhan-amser gael **A**mserlen **W**ythnosol **A**thrawon **Y**sgol (AWAY), ac mae'n rhaid talu cyfran o'r amserlen hon iddo.

Mae'n rhaid i bob ysgol greu AWAY ar gyfer pob Athro. Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at oriau sesiynau ysgol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer addysgu, gan gynnwys CPA ond ac eithrio amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau.

Yna bydd Athrawon rhan-amser yn cael eu talu yn ôl eu hamser addysgu gwirioneddol, ac eithrio cofrestru, gwasanaethau ac egwyliau.

Er enghraifft:
Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn para rhwng 9.00am a 12.15pm, ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, gydag un egwyl 15 munud yn sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn sesiwn y prynhawn, byddai'r AWAY ar gyfer Athro llawn-amser yn 25 awr. Pe bai Athro rhan-amser yn cael ei gyflogi ar gyfer y bore yn unig, gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, byddai canran yr wythnos addysgu a amserlennir yn cael ei chyfrifo'n 15 awr. Dangosir hyn isod:

	Sesiwn y bore (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	+	Sesiwn y prynhawn (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	x	Nifer y Diwrnodau yn yr Amserlen		AWAY	% yr AWAY
Llawn-amser	3 awr	+	2 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan-amser	3 awr			x	5 diwrnod	=	15 awr	60%

Rhaid cynnwys **Amser CPA ac Amser Rheoli** wrth gyfrifo amser cyswllt dosbarth.

Amser dan Gyfarwyddyd – gall Pennaeth ddyrannu amser dan gyfarwyddyd i Athrawon rhan-amser (gydag amodau) fel cyfran o swydd gyfwerth ag amser llawn 1252 awr. Gall Athrawon rhan-amser nawr gael eu cyfarwyddo i gyflenwi ar gyfer egwyliau, gwasanaethau ac amseroedd cofrestru, a hynny fel rhan o'u dyletswyddau dan gyfarwyddyd.

Ni ellir mynnu bod athrawon rhan-amser ar gael i weithio (naill ai ar gyfer dyletswyddau addysgu neu ddyletswyddau eraill) ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, gallant weithio trwy gydgytundeb â'r Pennaeth. Dylai unrhyw oriau ychwanegol o ganlyniad i hyn gael eu talu yn unol â chyflog arferol yr Athro.

Efallai y bydd gofyn i Athrawon rhan-amser gyflawni dyletswyddau, heblaw addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau'r ysgol ar y diwrnod y mae'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio fel arfer (pa un a yw'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod hwnnw fel arfer). Gall hyn fod yn rhan o'r amser dan gyfarwyddyd.

ATODIAD 10

STRWYTHUR STAFFIO YR YSGOL

(*Yr Ysgol i nodi manylion isod fel sy'n berthnasol ar yr adeg y bydd y Polisi Cyflogau hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu*)

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Polisi Cyflogau Enghreifftiol Athrawon Digyswllt

2022/2023

RHEOLI'R DDOGFEN	
Enw'r Polisi	Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt 2022/23
Gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth
Swyddogion Adolygu	Swyddogion Adnoddau Dynol
Y BROSES YMGYNGHORI	
Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur canlynol ynghylch y polisi hwn. • Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) • Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) • Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) • Yr Undeb Addysg Genedlaethol (NEU) • UCAC	

Mabwysiadodd Corff Llywodraethu
Ysgol .....

y Polisi hwn yn ffurfiol ar ..... .

TABL CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	4
2.	Datganiad o Fwriad	4
3.	Cydraddoldebau	4
4.	Swydd-ddisgrifiadau	5
5.	Gwerthuso	5
6.	Rhwymedigaethau'r Awdurdod Lleol	5
7.	Rhwymedigaethau'r Rheolwr Llinell	5
8.	Rhwymedigaethau'r Athrawon	6
9.	Differynnau	6
10.	Diogelu	6
11.	Medrusrwydd a Datblygiad Cyflog	6
12.	Pennu Cyflogau	7
13.	Cyflog y Rheolwr	7
14.	Cyflog y Dirprwy Reolwr/Rheolwr Cynorthwyol	8
15.	Datblygiad Cyflog ar gyfer Aelodau'r Grŵp Arwain	9
16.	Cyflog Athrawon Dosbarth	10
17.	Cyflog Athrawon Dosbarth	12
18.	Rôl Ymarferwr Arweiniol	14
19.	Athrawon heb gymhwyso	14
20.	Lwfansau a Thaliadau yn ôl Disgresiwn	15
21.	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	18
22.	Athrawon a Gyflogir ar Fyr Rybudd (Cyflenwi)	18

Atodiad 1:	Ystodau Cyflog 2021/22	19
Atodiad 2:	Datganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon	23
Atodiad 3:	Meini Prawf ar gyfer Datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch	24
Atodiad 4:	Ffurflen Gais ar gyfer yr Ystod Cyflog Uwch	25
Atodiad 5:	Siart Llif y Broses Adolygu Cyflogau	26
Atodiad 6:	Canllawiau ar Gyflogau'r Tîm Arwain	27
Atodiad 7:	Ffurflen Adolygu Flynyddol y Tîm Arwain	35
Atodiad 8:	Y Broses Apeliadau Cyflog	36
Atodiad 9:	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	39
Atodiad 10:	Strwythur Staffio'r Ysgol	40

CYFLWYNIAD

1.1. Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)) ac mae wedi bod yn destun ymgynghori â'r holl gymdeithasau addysgu cydnabyddedig.

1.2. At ddiben y polisi hwn, mae Athrawon digyswllt yn cyfeirio at Athrawon nad ydynt yn dod o dan reolaeth Cyrff Llywodraethu Ysgolion, h.y. Athrawon Peripatetig, Athrawon Bro, Athrawon a Gyflogir yn Ganolog, ac ati.

2. DATGANIAD O FWRIAD

2.1. Prif ddyletswydd statudol Cyrff Llywodraethu yng Nghymru, fel y'i nodir ym mharagraff 21 (2) o Ddeddf Addysg 2002, yw cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol. Bwriedir i'r Polisi hwn gefnogi'r ddyletswydd statudol honno.

2.2. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer pennu cyflogau yn yr Ysgol hon yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.

2.3. Bydd Rheolwyr Llinell yn gweithredu ag unplygrwydd, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles pennaf yr Ysgol mewn perthynas â gweithredu'r Polisi hwn.

2.4. Bydd y Rheolwr Llinell yn agored ynglŷn â phenderfyniadau a wneir a chamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chyflog, a bydd yn barod i egluro penderfyniadau a chamau gweithredu i bobl sydd â diddordeb.

2.5. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn destun gwaith ymgynghori â phartïon perthnasol, gan gynnwys undebau llafur cydnabyddedig.

3. CYDRADDOLDEBAU

3.1. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb, gan gynnwys:

- Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999;
- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;
- Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000;
- Rheoliadau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2002; a
- Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010

3.2. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson at bob cyflogai, a hynny heb ystyried oedran, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, crefydd, cred a chyfeiriadedd rhywiol.

3.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn enwedig o ran pob penderfyniad ynghylch hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu, talu, hyfforddi a datblygu staff.

3.4. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod prosesau talu'n dryloyw ac yn deg. Bydd pob penderfyniad a wneir yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n wrthrychol. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fesul achos, er mwyn ystyried amgylchiadau unigolion, fel absenoldeb tymor hir ar sail mamolaeth neu afiechyd, gan gynnwys unrhyw absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID.

4. SWYDD-DDISGRIFIADAU

4.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff swydd-ddisgrifiad yn unol â strwythur staffio yr Ysgol (**gweler Atodiad 10**), fel y cytunwyd gan y Corff Llywodraethu.

5. GWERTHUSO

5.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 o ran gwerthuso penaethiaid ac athrawon trwy gymhwyso Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

6. RHWYMEDIGAETHAU'R AWDURDOD LLEOL

6.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- cyflawni ei rwymedigaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) a'r Amodau Gwasanaeth i Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (y "Burgundy Book");

- sefydlu system ar gyfer delio â phenderfyniadau ynghylch cyflogau ac apeliadau ynghylch cyflogau;

- gwneud pob penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, gan ystyried argymhellion y Rheolwr Llinell;

- sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi penderfyniadau ynghylch cyflogau, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a chynllun gwariant yr Ysgol;

- sicrhau bod athrawon, trwy eu Rheolwr Llinell, yn cael gwybod am benderfyniadau ynghylch cyflogau sy'n effeithio arnynt, a bod cofnodion yn cael eu cadw o'r argymhellion a'r penderfyniadau a wneir; a

- monitro'n flynyddol ganlyniadau penderfyniadau ynghylch cyflogau, gan gynnwys i ba raddau y caiff grwpiau gwahanol o athrawon ddatblygu ar gyfraddau gwahanol. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei rannu â chynrychiolwyr undebau llafur lefel ysgol.

7. RHWYMEDIGAETHAU'R RHEOLWR LLINELL

7.1. Bydd y Rheolwr Llinell yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod pob gwerthuswr (os nad y Rheolwr Llinell yw hwnnw) yn darparu gwybodaeth gywir, berthnasol, gyflawn ac amserol am argymhellion ynghylch cyflogau;

- cymedroli asesiadau perfformiad ac argymhellion cychwynnol ynghylch cyflogau i sicrhau cysondeb a thegwch;

- cyflwyno argymhellion ynghylch cyflogau i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol/Panel Cyflogau a sicrhau bod y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn cael gwybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau;

- rhoi gwybod i'r athrawon am Bolisi Cyflogau yr Awdurdod Lleol, a sicrhau bod copi ar gael iddynt;

- rhoi gwybod i'r staff sy'n gweinyddu'r gyflogres a/neu'r staff adnoddau dynol yn yr Awdurdod Lleol am benderfyniadau ynghylch cyflogau y mae angen eu rhoi ar waith; a

- sicrhau bod adroddiad ar weithrediad y Polisi Cyflogau yn cael ei gyflwyno, ar lefel maes gwasanaeth, i'w drafod gyda'r Undebau Llafur perthnasol yn flynyddol.

8. RHWYMEDIGAETHAU'R ATHRAWON

8.1. Bydd yr athrawon yn gwneud y canlynol:

- and ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Polisi Cyflogau, y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), y safonau proffesiynol perthnasol a'r holl bolisïau perthnasol ar gyflogaeth awdurdodau lleol; a

- mynd i'r afael â'r prosesau a nodir yn y polisi hwn, a hynny mewn modd cadarnhaol

9. DIFFERYNNAU

9.1. O fewn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), bydd differynnau priodol yn cael eu creu a'u cynnal rhwng swyddi yn yr ysgol, gan gydnabod atebolrwydd a phwysau'r swydd, ac angen yr Awdurdod Lleol i recriwtio a chadw digon o athrawon o'r ansawdd gofynnol ar bob lefel.

10. DIOGELU

10.1. Os bydd penderfyniad ynghylch cyflog yn arwain at ddechrau cyfnod diogelu, neu os gallai arwain at gyfnod o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â

darpariaethau perthnasol y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), a bydd yn rhoi'r rhybudd gofynnol cyn gynted â phosibl ac o fewn mis ar ôl y penderfyniad.

11. MEDRUSRWYDD A DATBLYGIAD CYFLOG

11.1. Os bydd yr Athro yn destun Gweithdrefn Medrusrwydd ffurfiol yr Awdurdod Lleol, bydd prosesau rheoli perfformiad yr Ysgol yn cael eu hatal yn achos yr Athro dan sylw, a hynny tan i'r Weithdrefn Medrusrwydd gael ei chwblhau.

11.2. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, bydd yr Athro yn ailgydio mewn prosesau rheoli perfformiad, yn unol â Pholisi'r Awdurdod Lleol.

11.3. Ni chaniateir datblygiad cyflog yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn pan fo Athro yn destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Awdurdod Lleol.

11.4. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, dylai'r Athro ail-ymuno â'r broses Rheoli Perfformiad.

11.5. Ni fydd datblygiad cyflog yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol mewn unrhyw achos ffurfiol yn ymwneud â medrusrwydd.

12. PENNU CYFLOGAU

12.1. Mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo ei bwerau pennu cyflog i'r Pwyllgor Cyflogau. Bydd y penderfyniadau o ran cyflogau yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol / Panel cyflogau ar gyfer y maes gwasanaeth, a'r Rheolwr Llinell priodol fydd yn rhoi gwybod i bob Athro am ei gyflog.

12.2. Pennu cyflogau yn flynyddol

12.2.1. Bydd cyflogau'r holl staff addysgu, gan gynnwys y Rheolwr, y Dirprwy Reolwr neu'r Rheolwr Cynorthwyol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a hynny'n weithredol o 1 Medi. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cwblhau adolygiadau blynyddol o gyflog athrawon, ac asesiadau o geisiadau i ddatblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, erbyn 31 Hydref; bydd adolygiad blynyddol o gyflog y Rheolwr yn cael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr.

12.2.2. Gall adolygiadau gael eu cynnal ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn, er mwyn adlewyrchu, er enghraifft, unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu newidiadau yn y swydd-ddisgrifiad sy'n arwain at newid yn y sail ar gyfer cyfrifo cyflog unigolyn.

12.2.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cymhwyso unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol yn y dyfodol fel y'u nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

12.3. Rhoi gwybod am benderfyniad ynghylch cyflogau

12.3.1. Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei roi i bob athro a fydd yn nodi'r cyflog ac unrhyw fuddiannau ariannol eraill y mae ganddo'r hawl iddynt yn sgil gwneud

penderfyniad. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd hyn yn cael ei wneud erbyn 31 Hydref ar gyfer athrawon, 31 Rhagfyr ar gyfer Rheolwyr, neu o fewn mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

12.4. **Y Weithdrefn ar gyfer apeliadau**

12.4.1. Mae gan yr Awdurdod Lleol weithdrefn ar gyfer apeliadau mewn perthynas â chyflogau. Fe'i heglurir yn **Atodiad 8** i'r Polisi Cyflogau hwn.

13. CYFLOG Y RHEOLWR

13.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y broses o bennu cydnabyddiaeth ariannol y Rheolwr yn deg ac yn dryloyw.

13.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu ystod cyflog arweinyddiaeth saith pwynt, a gymerwyd o'r Ystod Cyflogau Arweinwyr yn y DCAAY(C), fel y nodir yn Atodiad 1. Gellir adolygu hyn yn ôl yr angen ar gyfer y Rheolwr yn seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (yn benodol paragraffau 9.2, 9.3 a 9.4).

13.3. Bydd y ffactorau ychwanegol i'w hystyried yn cynnwys holl gyfrifoldebau parhaol y swydd, heriau sy'n benodol i'r rôl a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff.

13.4. Gall yr Awdurdod Lleol ailbennu ystod cyflog y Rheolwr os bydd angen newid y grŵp rheolwyr (gan gynnwys lle bo'r Rheolwr yn cymryd cyfrifoldeb dros fwy nag un ysgol mewn ffederasiwn ac yn dod yn atebol amdanynt yn barhaol). Gall ystod cyflog y Rheolwr hefyd gael ei hadolygu ar unrhyw adeg os ystyrir bod angen adlewyrchu newid arwyddocaol o ran cyfrifoldebau'r swydd.

13.5. Ni fydd taliadau ar gyfer cyfrifoldebau dros dro y Rheolwr yn cael eu cynnwys yn yr ystod cyflog, ond byddant yn cael eu pennu yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), fel yr eglurir yn **Atodiad 6**.

13.6. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1,** ac mae wedi cytuno ar ystod cyflog saith cam, sef A xxx i A xxx (*manylion i'w cynnwys yma gan yr ysgol).*

13.7. **Cyflog pan gaiff Rheolwr ei benodi**

13.7.1. Ar gyfer penodiadau newydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu'r ystod cyflog arweinyddiaeth i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol pan fydd y Rheolwr yn cael ei benodi, a hynny gan ystyried rôl lawn y Rheolwr a darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

13.7.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn mabwysiadu proses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer Rheolwr newydd, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

13.7.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu ystod cyflog y Rheolwr, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau perthynoleddau cyflog teg yn y maes gwasanaeth/Awdurdod Lleol.

13.7.4. Gweler **Atodiad 6** i'r Polisi Cyflogau hwn am ganllawiau ynghylch ystodau cyflog arweinwyr ac **Atodiad 7** am Ddatganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau.

13.8. **Rheolwyr sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol**

13.8.1. Pan benodir Rheolwr i fod yn gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol, dylai'r Awdurdod Lleol seilio'r penderfyniad ynghylch grŵp y Rheolwr ar gyfanswm nifer yr unedau disgyblion ar draws pob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol ag **Atodiad 6.**

13.8.2. Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Athrawon eraill a fydd, o ganlyniad i rôl y Rheolwr, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhain yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr Athro), a gofnodir. Ni ddylid cytuno i gynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol oni bai fod y swydd yn cronni cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl fwy y Rheolwr – nid yw'n awtomatig.

14. CYFLOG Y DIRPRWY REOLWR/RHEOLWR CYNORTHWYOL

14.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

14.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu ystod cyflog arweinwyr saith pwynt, a gymerwyd o'r Ystod Cyflogau Arweinwyr yn y DCAAY(C), fel y nodir yn Atodiad 1. Gellir adolygu hyn yn ôl yr angen ar gyfer y Dirprwy Reolwr/Rheolwr Cynorthwyol yn seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

14.3. Bydd yr ystod ar gyfer swyddi unigol yn cael ei phennu yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, a gallant amrywio rhwng swyddi.

14.4. Yn yr Awdurdod Lleol hwn, ystod cyflog pum cam y Dirprwy Reolwr yw A xx i A xxx *(manylion cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol)*.

14.5. Yn yr Awdurdod Lleol hwn, ystod cyflog pum cam y Rheolwr Cynorthwyol yw A xx i A xxx *(manylion cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol)*.

14.6. **Cyflog adeg penodi**

14.6.1. Pan fydd angen gwneud penodiad newydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu'r ystod cyflog arwain ar gyfer y swydd i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol adeg penodi.

14.6.2. Pennir yr ystod cyflog yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

14.6.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn mabwysiadu'r broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer penodiadau newydd i'r tîm arwain ehangach, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

15. DATBLYGIAD CYFLOG AR GYFER AELODAU'R TÎM ARWAIN

15.1. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau aelodau o'r tîm arwain sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol, a bennir yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (Cymru).

15.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cyflawni cyfnodau o gyflogaeth cyfwerth ag o leiaf chwe wythnos ar hugain, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn dechrau, i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

15.3. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

15.4. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Reolwr, Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol, yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt.

15.5. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Rheolwr, y Dirprwy Reolwr neu'r Rheolwr Cynorthwyol yn destun achos medrusrwydd ffurfiol.

15.6. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog ar y ffurflen Adolygu Cyflog Blynyddol yn **Atodiad 7**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r aelod o'r staff.

15.7. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod o'r staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

15.8. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei gofnodi ar y ffurflen Adolygu Cyflog Blynyddol. Mae gan yr aelod o'r staff yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn ar gyfer apeliadau i'w gweld yn **Atodiad 8**.

16. CYFLOG ATHRO DOSBARTH

16.1. Cyflog pan gaiff athro dosbarth ei benodi

16.1.1. Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi gwag yn yr Ysgol yn cael eu hystyried gan y Rheolwr Llinell [a'r (*nodwch fanylion y pwyllgor*) os yw'n briodol]. Bydd pob swydd

yn cael ei hysbysebu naill ai'n fewnol neu'n allanol, yn lleol neu'n genedlaethol, fel y bo'n briodol.

16.1.2. Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion yr ystod cyflog ac unrhyw lwfansau neu daliadau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd.

16.1.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer swydd Athro dosbarth, yn unol â'r Brif Ystod Cyflog a'r Ystod Cyflog Uwch, y manylir arnynt yn **Atodiad 1**.

16.1.4. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu cyflog dechreuol ar gyfer swydd wag athro ystafell ddosbarth. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i egwyddor cludadwyedd tâl i athrawon sy'n cael eu talu ar hyn o bryd yn unol â darpariaethau'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, a bydd yn cymhwyso'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 12.3 o'r DCAAY(C) yn ymarferol wrth wneud penodiadau newydd.

16.1.5. Wrth bennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer athro dosbarth presennol mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, neu academi neu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr ac sy'n cael ei dalu yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, bydd yr awdurdod lleol yn talu'r athro ar y brif ystod cyflog neu'r ystod cyflog uwch, a hynny ar bwynt ar y raddfa sydd o leiaf yn cynnal hawl blaenorol yr athro i dâl, ac unrhyw ddatblygiad cyflog, y byddai wedi ei gael pe byddai wedi aros yn ei swydd flaenorol.

16.1.6. Bydd cludadwyedd cyflog yn cael ei gymhwyso ar sail "pro rata" pan fydd athro yn symud i/o swydd addysgu ran-amser.

16.1.7. At hynny, os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn athro sydd wedi cael seibiant o'r gwasanaeth, yna gall yr Awdurdod Lleol bennu ei bwynt ar y raddfa yn seiliedig ar ei gyflog terfynol blaenorol a dalwyd yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, gan gynnwys unrhyw gynyddrannau y byddai'r athro wedi bod â hawl i'w gael pe bai wedi aros yn ei swydd flaenorol ar yr adeg y digwyddodd y newid mewn cyflogaeth. Gall yr Awdurdod Lleol ystyried unrhyw brofiad perthnasol a gafwyd o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth neu gyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i addysgu.

16.1.8. Rhaid i gludadwyedd cyflog rychwantu toriad yn y gwasanaeth addysgu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu deuluol. Mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr newydd yn bwriadu cymryd safbwynt gwahanol, rhaid i'r seiliau dros wneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall.

16.1.9. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn cyfyngu ar yr ystod cyflog a hysbysebir, na'r cyflog cychwynnol a'r rhagolygon o ran datblygiad cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi Athrawon dosbarth, ac eithrio yn achos isafswm y Brif Ystod Cyflog ac uchafswm yr Ystod Cyflog Uwch.

16.2. **Datblygiad cyflog ar gyfer athrawon sydd ar y Brif Ystod Cyflog ar hyn o bryd**

16.2.1. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau athrawon (ac eithrio athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â'u blwyddyn ymsefydlu) sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (Cymru).

16.2.2. Dyfernir datblygiad cyflog i Athrawon yn eu blwyddyn ymsefydlu wedi iddynt gwblhau eu blwyddyn ymsefydlu yn llwyddiannus.

16.2.3. Bydd unigolyn wedi cwblhau ‘blwyddyn o gyflogaeth’ os bydd wedi cyflawni cyfnodau o gyflogaeth cyfwerth ag o leiaf chwe wythnos ar hugain, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn dechrau, i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p’un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

16.2.4. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau M2 i M6 o'r Prif Ystod Cyflog wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gyflawnwyd yn rôl Athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

16.2.5. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

16.2.6. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Athro ar y Brif Raddfa yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

16.2.7. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro'n destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

16.2.8. Bydd y Rheolwr Llinell/Pennaeth Gwasanaeth yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r athro.

16.2.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod o’r staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

16.2.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei gofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn ar gyfer apeliadau i'w gweld yn **Atodiad 8**.

16.3. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar yr Ystod Cyflog Uwch ar hyn o bryd**

16.3.1. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau Athrawon ar yr ystod cyflog uwch sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r DCAAY(C).

16.3.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

16.3.3. Yn y mwyafrif o achosion, dylai datblygiad ar yr Ystod Cyflog Uwch ddigwydd **bob dwy flynedd**, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw, fel y nodir yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.

16.3.4. Bydd y Rheolwr Llinell / Pennaeth Gwasanaeth yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r Athro.

16.3.5. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

16.3.6. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

17. CEISIADAU AM GYFLOG AR YR YSTOD CYFLOG UWCH

17.1. Gall Athro cymwysedig wneud cais unwaith bob blwyddyn i gael ei dalu ar yr Ystod Cyflog Uwch, yn unol â'r DCAAY(C) a Pholisi Cyflogau yr Ysgol hon.

17.2. Cyfrifoldeb pob Athro yw penderfynu a ddylai gyflwyno cais.

17.3. Er mwyn i'r asesiad fod yn gadarn ac yn dryloyw, bydd yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

17.4. Bydd yr amcanion personol ar gyfer y cylch gwerthuso sydd ar ddod yn cael eu gosod a'u cadarnhau ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau y gellir bodloni'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y DCAAY(C) ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys bod yr Athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol, a bod ei gyflawniadau a'i gyfraniad i'r ysgol yn sylweddol ac yn barhaus.

17.5. Gall athrawon sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, anabledd neu resymau sy'n gysylltiedig â mamolaeth, ynghyd â'r rheiny nad ydynt yn destun

Rheoliadau Gwerthuso 2011 (h.y. athro a gyflogir ar gontract byrdymor o lai nag un tymor), ddyfynnu tystiolaeth ysgrifenedig o gyfnod addas a pherthnasol cyn dyddiad y cais i gefnogi eu cais.

17.6. **Y broses**

17.6.1. Y dyddiad cau ar gyfer cais sydd i'w gyflwyno gan Athro i'w werthuswr yw *(yr awdurdod lleol i nodi dyddiad yma – fel arfer cyn diwedd Tymor yr Haf, h.y. 31 Awst).*

17.6.2. Gellir gwneud eithriadau mewn rhai amgylchiadau penodol, e.e. yr Athrawon hynny sydd ar gyfnod mamolaeth neu sy'n absennol oherwydd salwch ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall yr athro ofyn – o leiaf pythefnos cyn y dyddiad cau a nodwyd – am estyniad o hanner tymor ar y mwyaf ar gyfer cyflwyno cais.

17.6.3. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno cais fel a ganlyn:

- Mae'r athro yn rhoi gwybod i'r gwerthuswr yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno cael ei ystyried i ddringo i'r Ystod Cyflog Uwch ac y dylai ei amcanion personol ar gyfer y cyfnod gwerthuso sydd i ddod adlewyrchu'r cais hwn.

Ar ôl cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol:

- Bydd y gwerthuswr yn llenwi ffurflen asesu, fel y gwelir yn **Atodiad 4**, gan nodi argymhelliad y gwerthuswr mewn perthynas â datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, ar ôl cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol.

- Bydd y Rheolwr Llinell yn ystyried argymhelliad y gwerthuswr ac yn gwneud argymhelliad i'r Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau.

- Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau yn gwneud penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, ar ôl cael cyngor gan y Rheolwr.

- Bydd yr athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad ei gais erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn berthnasol.

- Os yw'r cais yn aflwyddiannus, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn egluro pa feysydd o berfformiad yr Athro nas ystyrir eu bod wedi bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir yn y Polisi hwn (gweler "Asesu" isod).

- Os gofynnir amdano, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi gan y Rheolwr. Fel arfer, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi cyn pen 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am ganlyniad y cais. Bydd adborth yn cael ei roi mewn modd cadarnhaol, a bydd yn cynnwys cyngor a chymorth ynghylch meysydd i'w gwella, er mwyn i'r athro fodloni'r meini prawf perthnasol.

- Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd yr athro yn symud i gam 1 o'r Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi yn y flwyddyn berthnasol, h.y. ar ôl llwyddo i gwblhau'r amcanion a osodwyd yn y flwyddyn academaidd hyd at 31 Awst 2020, bydd yr athro yn symud i'r cam cyntaf ar yr Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi 2020.

17.6.4. Gall ymgeiswyr aflwyddiannus apelio yn erbyn y penderfyniad, fel yr amlinellir yn **Atodiad 8**.

17.7. **Asesu**

17.7.1. Ni fydd cais yn llwyddiannus oni bai fod y Corff Llywodraethu yn fodlon bod holl ofynion y DCAAY(C) wedi'u bodloni, gan gynnwys:

- bod yr athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol; a
- bod cyflawniadau'r athro, a'i gyfraniad at leoliad neu leoliadau addysgol, yn sylweddol ac yn gyson.

17.7.2. At ddibenion y Polisi Cyflogau hwn, bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau yn fodlon bod yr Athro wedi bodloni disgwyliadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch lle bydd meini prawf yr Ystod Cyflog Uwch (gweler **Atodiad 3**) wedi'u bodloni, fel y profwyd gan adolygiad gwerthuso llwyddiannus.

17.7.3. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ffynonellau tystiolaeth, ar gael ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

18. RÔL YMARFERWR ARWEINIOL

18.1. Gall yr Awdurdod Lleol greu swyddi Ymarferwyr Arweiniol ar gyfer athrawon sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain ym maes gwella sgiliau addysgu.

18.2. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno creu swyddi o'r fath, bydd yn pennu'r cyfrifoldebau a'r ystod cyflog i'r swyddi hyn. Ymgynghorir â'r staff a'r undebau llafur perthnasol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig o'r fath i'r strwythur staffio.

18.3. Polisi'r Awdurdod Lleol fydd penodi unrhyw Athro Ymarferydd Arweiniol newydd i ystod pum pwynt, fel sy'n briodol ym marn y Corff Llywodraethu.

18.4. Bydd yr ystod cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cydweddu â'r DCAAY(C), sef isafswm o £45,303 y flwyddyn ar hyn o bryd ac uchafswm o £68,870 y flwyddyn.

18.5. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgresiwn, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

18.6. Bydd datblygiad cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cael ei bennu yn unol â'r broses a nodir yn 16.3.1 i 16.3.4 uchod.

19. ATHRAWON HEB GYMHWYSO

19.1. Bydd cyflog blynyddol yn cael ei dalu i athro ar yr ystod cyflog heb gymhwyso yn unol â DCAAY(C). Yn yr ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog statudol fel y nodir yn **Atodiad 1**.

19.2. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, mae yna amgylchiadau penodol lle caiff y rheiny heblaw Athrawon cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysgu wneud ‘gwaith penodedig’.

19.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol hyn, ac ni fydd ond yn cyflogi athrawon heb gymhwyso fel y nodir yn y Rheoliadau hyn.

19.4. Gall yr Awdurdod Lleol dalu lwfans ychwanegol i Athro heb gymhwyso sy’n bodloni’r meini prawf fel y’u diffinnir yn y DCAAY(C).

19.5. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau 1 i 6 o’r Ystod Cyflog Athrawon heb Gymhwyso wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

19.6. Bydd unigolyn wedi cwblhau ‘blwyddyn o gyflogaeth’ os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. At y dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p’un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

19.7. Dylai datblygiad cyflog ar yr Ystod Cyflog Athrawon heb Gymhwyso 6 phwynt ddigwydd yn flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid datblygiad oni bai fod yr unigolyn wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

19.8. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r athro heb gymhwyso.

19.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro heb gymhwyso yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

19.9.1. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.

19.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

19.11. Bydd Athro heb gymhwyso sy’n ennill statws athro cymwysedig yn cael ei dalu ar yr ystodau cyflog ar gyfer Athrawon cymwysedig, yn unol â’r Polisi Cyflogau hwn a'r DCAAY(C).

20. LWFANSAU A THALIADAU YN ÔL DISGRESIWN

20.1. Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD)

20.1.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dyfarnu taliadau CAD1 a CAD2 i ddeiliaid swyddi fel y nodir yn strwythur staffio'r Ysgol (gweler **Atodiad 10**).

20.1.2. Bydd y taliadau hyn yn cael eu dyfarnu i Athrawon sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol, sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n barhaus, a hynny yng nghyd-destun strwythur staffio'r Ysgol ac at ddiben sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu, ac y gwneir yr Athro yn atebol amdano.

20.1.3. Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn egluro am ba gyfrifoldeb neu becyn o gyfrifoldebau y mae taliad CAD yn cael ei ddyfarnu.

20.1.4. Bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu taliad CAD1 a CAD2 yn cydweddu â'r DCAAY(C).

20.1.5. Yr ystod ar gyfer CAD1 yw £8,859 i £14,990 y flwyddyn.

20.1.6. Yr ystod ar gyfer CAD2 yw £3,071 i £7,497 y flwyddyn.

20.1.7. Mae'r taliadau CAD a ddefnyddir ar hyn o bryd fel a ganlyn:

CAD1 - (manylion pob CAD1 i'w mewnosod yma gan yr ysgol)
CAD2 - (manylion pob CAD2 i'w mewnosod yma gan yr ysgol)

20.1.8. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu taliad CAD3 rhwng £611 a £3,028 y flwyddyn am gyfnod penodol i athro ar gyfer prosiect gwella ysgol sydd â therfyn amser clir, neu ar gyfer cyfrifoldebau allanol untro.

20.1.9. Bydd hyd y cyfnod penodol, a chyfanswm y taliad blynyddol, yn cael eu pennu ar y cychwyn, a bydd taliad yn cael ei wneud yn fisol.

20.1.10. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno gwneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, ynghyd â lefel a hyd y taliad, yn cael eu pennu'n glir yn dilyn gwaith ymgynghori â'r staff perthnasol a chynrychiolwyr yr undebau.

20.1.11. Gall athro sy'n cael taliad CAD1 neu daliad CAD2 hefyd gael taliad CAD3 ar yr un pryd.

20.1.12. Ni fydd unrhyw ddiogelu'n berthnasol mewn perthynas â dyfarnu taliad CAD3.

20.1.13. Bydd taliad CAD1 neu CAD2 a ddyfernir i athro rhan-amser yn gallu cael ei ddyfarnu ar sail yr egwyddor pro rata ac nid yn llai na'r oriau gwaith dan gontract, neu gellir penderfynu ei dalu yn llawn os bydd yr athro yn ymgymryd â'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r lwfans. Os telir y lwfans yn llawn, dylai fod modd cyflawni'r dyletswyddau a gytunir o fewn oriau arferol yr athro rhan-amser dan sylw. Dylai'r athro unigol a'r Corff Llywodraethu gytuno rhyngddynt ar lefel y taliad lwfans a'r dyletswyddau.

20.1.14. Caiff lwfansau CAD3 eu talu yn llawn, ni waeth beth yw'r oriau y mae athro rhan-amser yn gweithio yn arferol o dan y contract cyflogaeth.

20.2. **Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig**

20.2.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dyfarnu lwfansau AAA yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a nodir yn y DCAAY(C).

20.2.2. Bydd Lwfans AAA, heb fod yn llai na £2,426 y flwyddyn, nac yn fwy na £4,786 y flwyddyn, yn daladwy i Athro dosbarth yn unol â'r DCAAY(C).

20.2.3. Y gwerthoedd AAA yw: (*manylion pob gwerth/lwfans AAA i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)

20.2.4. Wrth benderfynu ar werth lwfans AAA, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried strwythur y ddarpariaeth AAA, a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd, cymwysterau neu arbenigedd yr Athro sy'n berthnasol i'r swydd, a gofynion perthynol y swydd.

20.3. **Lwfansau Dros Dro**

20.3.1. Mae lwfansau dros dro yn daladwy i athrawon y neilltuir dyletswyddau Rheolwr, Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol iddynt, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â'r DCAAY(C).

20.3.2. Cyn pen pedair wythnos o ddechrau dyletswyddau dros dro, bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu a fydd deiliad y swydd dros dro yn cael lwfans ai peidio. Yn achos absenoldeb maith wedi'i gynllunio, efallai y bydd lwfans dros dro yn cael ei gytuno ymlaen llaw, a'i dalu o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

20.3.3. Bydd unrhyw athro sy'n cyflawni dyletswyddau Rheolwr, Dirprwy Reolwr, neu Reolwr Cynorthwyol, am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, yn cael ei dalu ar bwynt priodol yn yr ystod cyflog Rheolwyr, ystod cyflog Dirprwy Reolwyr neu ystod cyflog Rheolwyr Cynorthwyol, fel y pennir gan y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau. Bydd taliad yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau'r dyletswyddau, ond bydd fel arfer yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

20.3.4. Efallai y bydd lwfansau dros dro hefyd yn berthnasol i Athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cyd-weithwyr absennol sy'n cael taliad CAD a/neu lwfans AAA.

20.3.5. Gall lwfansau ychwanegol fod yn daladwy i Athrawon heb gymhwyso yn unol â'r DCAAY(C).

20.4. **Taliadau Ychwanegol**

20.4.1. Ac eithrio yn achos y rheini ar yr ystod arweinwyr, caiff yr Awdurdod Lleol wneud taliadau ychwanegol i athro, o ran:

- datblygiad proffesiynol parhaus a wneir y tu allan i'r diwrnod ysgol;

- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon yn rhan o'r hyn sy'n digwydd fel mater o drefn yn yr Ysgol;

- cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunwyd arno rhwng yr Athro a'r Rheolwr; a

- chyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol yr Athro i ddarparu gwasanaethau ar gyfer codi safonau addysgol un neu ragor o ysgolion ychwanegol, neu mewn perthynas â hynny.

20.5. **Buddion Cymhelliad Recriwtio neu Gadw**

20.5.1. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth ariannol, cynhaliaeth neu fuddion eraill ar gyfer cymhelliad recriwtio neu gadw. Wrth benderfynu ar unrhyw ddyfarniadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y DCAAY(C) ynghyd â chyngor arbenigol o ran Adnoddau Dynol.

20.5.2. Ni cheir dyfarnu taliad o'r fath i Reolwyr, Dirprwy Reolwyr na Rheolwyr Cynorthwyol heblaw i ad-dalu costau adleoli neu gostau tai rhesymol.

20.5.3. Bydd yr holl ystyriaethau eraill o ran recriwtio a chadw staff mewn perthynas â swydd Rheolwr, Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol yn cael eu hystyried wrth bennu'r ystod cyflog.

20.5.4. Caiff y rheswm dros ddyfarnu unrhyw daliad ychwanegol, hyd disgwyliedig unrhyw gymhelliad neu fudd o'r fath, a'r dyddiad adolygu, pan geir eu tynnu'n ôl, ei egluro o'r cychwyn, yn ysgrifenedig.

20.5.5. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holl ddyfarniadau o'r fath.

21. CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN AMSER

21.1. Ystyrir bod Athrawon a gyflogir yn barhaus yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai nag wythnos waith lawn yn rhai rhan-amser.

21.2. Rhoddir datganiad ysgrifenedig i Athrawon rhan-amser sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau o ran oriau gwaith a'r mecanwaith safonol a ddefnyddir i bennu eu cyflog, yn amodol ar ddarpariaethau'r trefniadau oriau gwaith a chyflog statudol a thrwy gymharu ag wythnos addysgu amserlen yr Ysgol ar gyfer Athro llawn-amser mewn swydd gyfwerth. Nid yw hyn yn effeithio ar y taliad CAD3, nad yw'n un pro rata ar gyfer staff rhan-amser. Gweler **Atodiad 9** i gael rhagor o wybodaeth.

22. ATHRAWON A GYFLOGIR AR FYR RYBUDD (CYFLENWI)

22.1. Bydd athrawon a gyflogir ar sail cyflenwi yn cael eu talu'n ddyddiol, wedi'i gyfrifo yn unol â'r dybiaeth fod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 193 o ddiwrnodau (yn sgil gwyliau banc ychwanegol yn 2022/23); bydd cyfnodau o gyflogaeth sy'n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.

22.2. Os yw'r ysgol yn defnyddio asiantaeth, mae'r ysgol yn ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi, lle bydd yn caffael gan asiantaethau a enwir ymhlith Asiantaethau Cyflenwi Cymeradwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn unig, ac yn ymrwymo i dalu cyfradd ddyddiol ofynnol o M2 ÷ 193 diwrnod (yn sgil gwyliau banc ychwanegol yn 2022/23). Yr eithriad fydd, pan na all yr asiantaethau ar fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyflenwi'r athro â'r sgiliau addas, gall yr ysgol fynd at asiantaethau eraill, ond gydag ymrwymiad i dalu'r gyfradd tâl M2, o leiaf.
Dilëir lle nad yw'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi

ATODIAD 1

YSTODAU CYFLOG 2020/21

Y Brif Ystod Cyflog:

Pwynt	Gwerth
PYC 2	£28,866
PYC 3	£31,184
PYC 4	£33,587
PYC 5	£36,232
PYC 6	£39,873

Yr Ystod Cyflog Uwch:

Pwynt	Gwerth
YCU 1	£41,337
YCU 2	£42,869
YCU 3	£44,450

Ystod Cyflog Ymarferwyr Arweiniol:

Pwynt	Gwerth
YA 1	£45,303
YA 2	£46,438
YA 3	£47,597
YA 4	£48,996
YA 5	£49,996
YA 6	£51,250
YA 7	£52,631
YA 8	£53,843

YA 9	£55,188
YA 10	£56,607
YA 11	£58,075
YA 12	£59,414
YA 13	£60,898
YA 14	£62,417
YA 15	£63,970
YA 16	£65,671
YA 17	£67,178
YA 18	£68,870

Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyso:

Pwynt	**Gwerth**
AHG 1	£19,412
AHG 2	£21,669
AHG 3	£23,926
AHG 4	£26,183
AHG 5	£28,443
AHG 6	£30,700

Ystod Cyflog Arweinwyr:

Pwynt	**Gwerth**
A1	£45,081
A2	£46,209
A3	£47,363
A4	£48,542

A5	£49,751
A6	£51,000
A7	£52,371
A8	£53,581
A9	£54,918
A10	£56,329
A11	£57,790
A12	£59,123
A13	£60,600
A14	£62,111
A15	£63,656
A16	£65,349
A17	£,66,849
A18*	**£67,851**
A18	£68,530
A19	£70,231
A20	£71,971
A21*	**£73,022**
A21	£73,752
A22	£75,584
A23	£77,455
A24*	**£78,590**
A24	£79,376
A25	£81,348
A26	£83,361
A27*	**£84,541**

A27	£85,426
A28	£87,545
A29	£89,714
A30	£91,947
A31*	**£93,284**
A31	£94,218
A32	£96,560
A33	£98,958
A34	£101,404
A35*	**£102,896**
A35	£103,925
A36	£106,498
A37	£109,145
A38	£111,846
A39*	**£113,437**
A39	£114,572
A40	£117,430
A41	£120,364
A42	£123,380
A43	£125,211

*** Y pwyntiau hyn a Phwynt A43 yw'r pwyntiau uchaf ar y raddfa ar gyfer wyth Ystod y Grwpiau Penaethiaid**

ATODIAD 2

DATGANIAD YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFLOGAU ATHRAWON

Enw:	.....	**Rhif Cyflogai:**	.....
Ysgol:	.....	**Dyddiad Dod i Rym:**	.....

MANYLION CYFLOG

Cyflog a Phwynt – Y Brif Ystod Cyflog (PYC2 - PYC6)	**£**	**Pwynt**
Cyflog a Phwynt – Yr Ystod Cyflog Uwch (YCU1 – YCU3)	**£**	**Pwynt**
Cyflog a Phwynt – Ystod Heb Gymhwyso (AHG1 – AHG6)	**£**	**Pwynt**
Cyflog ac Ystod Ymarferydd Arweiniol	**£**	**Pwynt**

LWFANSAU

		Manylion e.e. dros dro (gyda dyddiadau), y rheswm dros y lwfans
Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) CAD1 / CAD2 / CAD3	CAD___ **£**	
Recriwtio neu Gadw (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	**£**	
Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	**£**	
Lwfansau Eraill – Nodwch (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	**£**	
DIOGELU	**£**	
CYFANSWM CYFLOG	**£**	

ATODIAD 2

Cyfarfod y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau ar: .....

Llofnod y Rheolwr Llinell: ..... Dyddiad: .....

ATODIAD 3

MEINI PRAWF AR GYFER DATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH

1. Rhinweddau proffesiynol

1.1. Cyfrannu'n sylweddol, lle y bo'n briodol, at weithredu polisïau ac arferion gweithle, ac at hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am eu gweithredu.

2. Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol

2.1. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o sut y mae defnyddio ac addasu amrywiaeth o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut y mae personoli'r dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr wireddu ei botensial.

2.2. Meddu ar wybodaeth helaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r trefniadau a'r gofynion asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a addysgir, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chymwysterau ac arholiadau cyhoeddus.

2.3. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r mathau gwahanol o gymwysterau a manylebau, a'u haddasrwydd i ddiwallu anghenion y dysgwyr.

2.4. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fwy datblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg gysylltiedig, gan gynnwys sut y mae dysgu'n symud ymlaen ynddynt.

2.5. Meddu ar wybodaeth a phrofiad digon manwl i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc

3. Sgiliau Proffesiynol

3.1. Bod yn hyblyg, yn greadigol ac yn fedrus wrth gynllunio dilyniannau dysgu mewn gwersi, ac ar draws gwersi, sy'n effeithiol ac sy'n cael eu paru'n dda yn gyson ag amcanion dysgu ac anghenion y dysgwyr, ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am y pwnc/cwricwlwm.

3.2. Meddu ar sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda o ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol, gan wneud cynnydd sydd cystal â dysgwyr tebyg yn genedlaethol, neu'n rhagori arnynt.

3.3. Hyrwyddo cydweithio a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

3.4. Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr trwy hyfforddi a mentora, arddangos arfer effeithiol, a rhoi cyngor ac adborth.

ATODIAD 4

ASESIAD O GAIS ATHRO I DDATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH

I'w Lenwi gan Werthuswr yr Athro

Enw'r Athro:	
Swydd:	

Tystiolaeth o'r gwerthusiad mwyaf diweddar **Nodwch pa ddatganiad gwerthuso sydd ynghlwm:**
*** Wedi bodloni'r meini prawf** *** Heb fodloni'r meini prawf** **(* Dilëwch fel y bo'n briodol)** **Os na fodlonwyd y meini prawf yn llawn, rhowch fanylion isod (gan barhau drosodd, os oes angen) o ran pa agweddau ar berfformiad yr athro nad ydynt yn bodloni'r meini prawf:**

Llofnodwyd ..... **(Gwerthuswr)**

Dyddiad: .....

I'W GYFLWYNO I'R RHEOLWR

At Ddefnydd yr Ysgol yn Unig

Daeth y ffurflen gais i law ar: .....

Gwnaed yr asesiad ar: .....

Gan: .....

ATODIAD 5

SIART LLIF O'R BROSES ADOLYGU CYFLOGAU
(ac eithrio'r Rheolwr)

Gosod Amcanion Rheoli Perfformiad

↓

Adolygiad Gwerthuso Rheoli Perfformiad/Argymhelliad Cyflog gan y Gwerthuswr

↓

Yr Athro yn gwneud cais am yr Ystod Cyflog Uwch

↓

Y cais yn cael ei ychwanegu at yr adolygiad Gwerthuso

↓

Gall y gwerthusai apelio yn erbyn canlyniad y Gwerthusiad/Rheoli Perfformiad

↓

Tîm Arwain yn adolygu'r holl argymhellion gwerthuso ac yn ychwanegu argymhelliad ynghylch cyflog

↓

Tîm Arwain yn cyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau am benderfyniad ynghylch cyflog

↓

Y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn penderfynu ar y cyflog

↓

Yr Athro yn cael gwybod gan y Pennaeth yn ysgrifenedig

YR ATHRO YN DERBYN

↓

DIWEDD Y BROSES

YR ATHRO YN GWRTHOD

↓

↓

↓

Yr Athro yn gofyn am wrandawiad sylwadau gyda'r Pwyllgor Cyflogau. Pan fydd hyn wedi digwydd dylai'r Athro gael gwybod am y penderfyniad.

YR ATHRO YN DERBYN

↓

DIWEDD Y BROSES

YR ATHRO YN GWRTHOD

↓

Uwchgyfeirio'r Apêl i'r Pwyllgor Apeliadau

↓

Y Pwyllgor Apeliadau yn gwrando ar yr apêl ac yn rhoi gwybod i'r athro am y penderfyniad

ATODIAD 5

↓

DIWEDD Y BROSES

ATODIAD 6

CANLLAWIAU AR GYFLOGAU'R GRŴP ARWAIN

1. Y Rheolwr a'r Tîm Arwain (POB YSGOL)

Mae Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth 43 cam statudol wedi cael ei hailgyflwyno. Bydd Rheolwyr, Dirprwy Reolwyr a Rheolwyr Cynorthwyol yn cael eu talu yn ôl yr hyn a bennir gan yr Awdurdod Lleol. Nodir y rhain isod.

2. Grwpiau o Ysgolion (POB YSGOL)

Mae yna wyth grŵp o ysgolion wedi'u pennu o sgôr uned yr ysgol. Mae'r DCAAY(C) yn pennu isafswm ac uchafswm gwerth cyflog ar gyfer pob grŵp, ac mae'r cyfraddau cyflog dangosol a gyhoeddir ar y cyd gan y cyflogwyr a'r undebau llafur yn gosod gwerthoedd ynghlwm wrth bwyntiau cyflog unigol o fewn yr ystodau hynny.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu ystod cyflog saith pwynt ar gyfer y Rheolwr, ac ystod cyflog pum pwynt ar gyfer yr holl swyddi arwain eraill.

3. Sgôr Uned yr Ysgol

a. Pob Ysgol (ac eithrio Ysgolion Arbennig)

Cyfrifir y sgôr uned i bennu grŵp Ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALl yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 Ionawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

** Dilëwch os nad yw'n briodol*

Gwybodaeth am y modd y mae'r sgôr uned yn cael ei chyfrifo:

Pennir hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen/CA1/CA2	**7 uned**
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	**9 uned**
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	**11 uned**
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	**13 uned**

Bydd pob disgybl sydd â **datganiad o anghenion addysgol arbennig**, os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn cyfrif tair uned yn fwy nag y byddai fel arall. Os nad yw'r disgybl mewn dosbarth arbennig o'r fath, dylid cyfrif tair uned dim ond lle y mae'r corff perthnasol yn penderfynu gwneud hynny.

Bydd pob disgybl sy'n mynychu am lai na hanner diwrnod ar bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol yn cyfrif hanner yr unedau y byddai fel arall yn eu cyfrif.

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 1,000	1
1,001 - 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

b. Sgôr Uned Ddiwygiedig (Ysgolion Arbennig yn Unig)

Cyfrifir y sgôr uned ddiwygiedig i bennu grŵp yr ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALl yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 Ionawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

** Dilëwch os nad yw'n briodol*

Mae'n rhaid i ysgol arbennig gael ei neilltuo i grŵp Rheolwr yn unol â'r tabl canlynol trwy gyfeirio at ei sgôr uned ddiwygiedig, a gyfrifir yn unol ag is-adrannau (i) a (ii) isod:

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

(i) Gwybodaeth am y modd y caiff y gymhareb staff-disgyblion ei chyfrifo

Rhaid i gyfran y staff i ddisgyblion yn yr ysgol gael ei chyfrifo a'i mynegi ar ffurf canran ("y gymhareb staff-disgybl") yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \text{ X } 100$$

Lle A yw nifer yr Athrawon a'r Staff Cymorth wedi'i bwysoli'n unol ag (a) isod, a B yw nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i bwysoli'n unol â (b) isod:

a) Y pwysoliad ar gyfer Athro yw dwy uned am bob Athro cyfwerth ag amser llawn, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod o Staff Cymorth yw un uned am bob unigolyn cyfwerth ag amser llawn; ac

b) Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn-amser yw un uned, a'r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan-amser yw hanner uned.

Rhaid i addasydd cymhareb staff-disgybl gael ei gyfrifo yn unol â'r tabl canlynol, trwy gyfeirio at y gymhareb staff-disgybl a bennir yn unol â'r uchod:

Cymhareb Staff-Disgyblion	**Addasydd y Gymhareb Staff-Disgyblion**
1 - 20%	1
21 - 35%	2
36 - 50%	3
51 - 65%	4
66 - 80%	5
81% neu fwy	6

D.S. Ystyr ‘aelod o staff cymorth’ yw aelod o Staff yr ysgol nad yw'n:
- Athro;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â darparu prydau bwyd;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â diogelu neu gynnal a chadw adeiladau'r ysgol; neu
- Unigolyn a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio a gofalu am blant y tu allan i oriau ysgol.

(ii) Gwybodaeth am y modd y caiff cyfanswm y sgôr uned ddiwygiedig ei gyfrifo

Pennir y cyfanswm hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr uned yr ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

ATODIAD 6

Cyfnod Allweddol	**Unedau Fesul Disgybl**
Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2	10
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	12
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	14
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	16

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm diwygiedig sgôr uned yr ysgol trwy luosi cyfanswm sgôr uned yr ysgol a bennwyd o dan yr adran hon (h.y. yn unol â'r tabl uchod) ag addasydd y gymhareb staff-disgybl a gyfrifwyd o dan adran 3.

D.S. Os caiff y Rheolwr ei benodi'n Rheolwr ar fwy nag un ysgol ar sail barhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y Rheolwr, neu, o dan y Rheoliadau Cydweithredu (5), y corff cydweithredol, gyfrifo grŵp y Rheolwr trwy gyfuno sgôr uned yr holl ysgolion y mae'r Rheolwr yn gyfrifol amdanynt er mwyn canfod cyfanswm y sgôr uned, sydd wedyn yn pennu grŵp y Rheolwr.

4. Penodi Arweinwyr Newydd/Newidiadau i Strwythurau Cyflogau Arweinwyr presennol – Proses Tri Cham (POB YSGOL)

Dylai'r Awdurdod Lleol ddilyn y broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer **penodiadau newydd neu ddiwygio strwythurau cyflogau presennol o ran y Pennaeth neu'r tîm arwain ehangach**.

Cam 1 - Diffinio'r rôl a phennu grŵp y Rheolwr
Cam 2 - Gosod yr ystod cyflog ddangosol
Cam 3 - Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r ystod cyflog unigol

Dylai'r holl benderfyniadau a'r rhesymau drostynt gael eu cofnodi'n drylwyr ar bob cam. Rhaid i bob penderfyniad ynghylch cyflogau gael ei wneud yn unol â meini prawf gwrthrychol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw grŵp o Athrawon sydd â nodwedd warchodedig benodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Awgrymir bod ysgolion yn gofyn am gyngor wrth gyfrifo a chofnodi penderfyniadau ynghylch strwythur cyflogau arweinwyr.

<u>Cam 1</u> - Diffinio'r Rôl a Phennu Grŵp

Ar y cam hwn, dylai'r Awdurdod Lleol ddiffinio'r swydd a nodi'r ystod cyflog gyffredinol fel canllaw i bennu'r lefel briodol o gyflog. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddiffinio a nodi rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd penodol y swydd, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol sy'n ofynnol.

Ar gyfer swyddi Rheolwyr, bydd yr Awdurdod Lleol yn neilltuo Ysgol i grŵp Rheolwr (fel y diffinnir yn 3 uchod), a fydd yn pennu'r ystod cyflog briodol fel yr amlinellir isod:

Maint y Grŵp	Ystod y Camau	Ystod Cyflog (DCAAY(C) 2022)
1	A6 - A18*	£ 51,000 - £67,851
2	A8 - A21*	£ 53,581 - £73,022
3	A11 - A24*	£ 57,790 - £ 78,590
4	A14 - A27*	£ 62,111 - £ 84,581
5	A18 - A31*	£ 68,530 - £ 93,284
6	A21 - A35*	£ 73,752 - £ 102,896
7	A24 - A39*	£ 79,376 - £ 113,437
8	A28 - A43	£ 87,545 - £ 125,211

Ar gyfer swyddi eraill yn y grŵp arwain, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y modd y mae'r rôl yn cyd-fynd â strwythur arwain ehangach yr Ysgol. Ni ddylai'r ystod cyflog ar gyfer Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol orgyffwrdd ag ystod cyflog y Rheolwr heblaw **mewn amgylchiadau eithriadol**.

<u>Cam 2</u> - Pennu'r Ystod Cyflog Ddangosol

Ar y cam hwn, bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried cymhlethdod a her y rôl yng nghyd-destun penodol yr Ysgol, a gwneud penderfyniad ynghylch cyflog yng ngoleuni hyn.

Ar gyfer swyddi Rheolwyr, disgwylir y bydd y Awdurdod Lleol fel arfer yn dod i'r casgliad bod cyfanswm y sgôr uned yn llwyr gyfleu cymhlethdod rôl y Rheolwr, a bod yr ystod cyflog berthnasol yn cynnwys lefelau priodol o dâl, yn unol â'r DCAAY(C). Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried a ddylai'r ystod cyflog ddangosol ddechrau ar isafswm grŵp y Rheolwyr, neu a yw'n dymuno i'r ystod ddechrau ar lefel uwch oherwydd lefel yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna amgylchiadau lle ceir ffactorau ychwanegol sy'n awgrymu y dylai'r ystod cyflog ddangosol fod yn uwch na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cyfrifiad sylfaenol yng Ngham 1.

Dyma rai enghreifftiau o ffactorau ychwanegol i'w hystyried (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob posibilrwydd):

- Y cyd-destun a'r her a gyflwynir gan anghenion disgyblion e.e. os oes llawer o amddifadedd yn y gymuned (hawl i Brydau Ysgol am Ddim a/neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol) neu niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal neu blant ag

Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae hyn yn effeithio ar yr her mewn perthynas â gwella deilliannau;

- Llawer iawn o gymhlethdod a her, e.e. atebolrwydd am nifer o ysgolion neu reoli ar draws nifer o safleoedd gwasgaredig, sy'n mynd yn eithaf pell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan unrhyw Bennaeth ysgol(ion) o faint tebyg, ac nad yw eisoes wedi'i adlewyrchu yng nghyfanswm y sgôr uned a ddefnyddiwyd yng ngham 1;

- Atebolrwydd ychwanegol nas adlewyrchwyd yng ngham 1, e.e. arwain cynghrair ysgol addysgu; a

- Ffactorau a all amharu ar allu'r ysgol i ddenu ymgeiswyr â phrofiad a chymwysterau priodol ar gyfer swyddi arwain, e.e. lleoliad, cyfrwng iaith, maes pwnc/arbenigedd a/neu lefel o gymorth gan y tîm arwain ehangach.

Gall yr Awdurdod Lleol bennu'r ystod cyflog ddangosol gydag **uchafswm hyd at 25% uwchlaw lefel uchaf ystod y grŵp Pennaeth perthnasol**.

Uwchlaw'r terfyn hwnnw, rhaid cael cyngor annibynnol allanol ac, os bydd y cyngor yn awgrymu bod ystod sy'n uwch na'r terfyn hwn yn briodol, rhaid i'r Awdurdod Lleol lunio achos busnes, a chytuno arno.

Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei gyfrif ddwywaith, e.e. o ran pethau a ystyriwyd yng ngham 1, megis cyfrifoldeb am ysgol ychwanegol a adlewyrchwyd eisoes yng nghyfanswm y sgôr uned; neu o ran defnyddio dangosyddion sy'n gorgyffwrdd, fel Prydau Ysgol am Ddim a'r premiwm disgybl.

NI DDYLAI'R Awdurdod Lleol gynyddu cyflog sylfaenol na thalu lwfans ychwanegol am gydweithio lleol rheolaidd sy'n rhan o rôl pob Rheolwr.

Ar gyfer rolau arwain eraill, mae'r broses yn eithaf tebyg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno ystyried y modd y dylai'r rolau arwain eraill gael eu pennu yn unol â'r lefel a bennwyd ar gyfer y Rheolwr, gan sicrhau bod digon o le i ddatblygu cyflog. Dylid hefyd ystyried unrhyw swyddi addysgu ac iddynt lwfansau ychwanegol.

Ar ddiwedd y cam hwn, dylai'r Awdurdod Lleol benderfynu lle yn yr ystod eang i bennu'r ystod cyflog ddangosol, gan nodi hyn yn glir wrth hysbysebu'r swydd. Dylid gwneud penderfyniad cyffredinol ynghylch safle ac ehangder yr ystod, gan sicrhau bod lle priodol i ddatblygu cyflog dros amser.
Dylai fod trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir, a'r rhesymau drosto.

Disgwylir hefyd, lle y bo'n bosibl, y bydd yr Ysgol yn ymgymryd â phroses o feincnodi cyflogau cyn pennu'r ystod cyflog ar gyfer swydd Rheolwr neu swyddi arwain eraill.

Yn achos y ffactorau hynny nad oes disgwyl iddynt barhau, fel cyfrifoldeb dros dro am ysgol ychwanegol, dylid adlewyrchu'r rhain trwy lwfans yn hytrach na'u cyfuno yn yr ystod cyflog ddangosol.

<u>Cam 3</u> - Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r Ystod Cyflog Unigol ar gyfer penodiadau newydd

Mae'r ddau gam cyntaf yn fodd i bennu'r ystod cyflog briodol. I bob pwrpas, diben y trydydd cam yw penderfynu ar y cyflog cychwynnol ar gyfer yr unigolyn y cynigir y swydd iddo.

Ar y cam hwn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ffafrio ymgeisydd ar gyfer y swydd, a bydd yn dymuno pennu'r cyflog cychwynnol ynn ngoleuni ffactorau sy'n benodol i'r ymgeisydd, er enghraifft i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn bodloni gofynion penodol y swydd.

Bydd yn bwysig sicrhau bod yna le i ddatblygu cyflog dros amser.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

5. Sefydlu Ystod Cyflog uwchlaw Grŵp Rheolwr yr Ysgol (POB YSGOL)

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd yr ystod cyflog o fewn terfynau grŵp y Rheolwr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, e.e. lle gall fod anhawster mawr i benodi, neu lle bydd angen cymell Rheolwr i dderbyn cyfrifoldeb am ysgol fawr iawn neu i arwain sawl ysgol fawr, gall fod yn briodol ystyried estyn yr ystod cyflog unigol.

Mewn achosion o'r fath, gall yr Awdurdod Lleol benderfynu y gall uchafswm yr ystod cyflog fod uwchlaw uchafswm grŵp y Pennaeth, **hyd at 25% yn ychwanegol**.

Os ystyrir bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu estyniad y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, bydd achos busnes yn ofynnol. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol geisio cyngor annibynnol allanol gan unigolyn neu gorff priodol, a all ystyried pa un a ellir cyfiawnhau mynd uwchlaw'r terfyn mewn achos penodol ai peidio.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

6. Taliadau Dros Dro i Reolwyr (POB YSGOL)

Gall yr Awdurdod Lleol ystyried tâl ychwanegol i'r Rheolwr am gyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol sy'n amlwg yn rhai dros dro, neu ddyletswyddau sy'n ychwanegol at y swydd y pennwyd ei gyflog ar ei chyfer, e.e. os yw'n darparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Yn cynnwys achosion lle caiff y Rheolwr ei benodi'n Rheolwr Dros Dro ar un neu ragor o ysgolion ychwanegol, ac nad yw hyn wedi'i gynnwys yn ffactor parhaol wrth gyfrifo'r ystod cyflog.

7. Diogelu Cyflog (POB YSGOL)

Os caiff yr Ysgol ei neilltuo i grŵp is, neu os bydd yr Awdurdod Lleol yn dewis lleihau'r ystod cyflog arweinwyr, bydd gan yr aelod o staff yr hawl i gael swm wedi'i ddiogelu am hyd at dair blynedd, yn amodol ar y DCAAY(C).

ATODIAD 7

FFURFLEN ADOLYGU FLYNYDDOL AR GYFER RHEOLWR/DIRPRWY REOLWR/RHEOLWR CYNORTHWYOL

(Medi 20___)

Enw:	**Rhif Cyflogai:** .....
Ysgol:	

*** Rheolwr:**

Grŵp Ysgol: ..... Ystod Cyflog y Pennaeth: £..... i £.....

*** Dirprwy Reolwr / Rheolwr Cynorthwyol:**

Ystod Cyflog: £..... i £.....

Cyflog a Phwynt ym mis Awst 20___: £..... Pwynt: .....

Y rhesymeg a ddefnyddiwyd i bennu'r cyflog:

.....

.....

Cyflog a Phwynt Diwygiedig ym mis Awst 20___: £..... Pwynt: .....

Ardystiwyd gan Bennaeth y Gwasanaeth / Panel Cyflogau: .....

Ardystiwyd gan y Rheolwr Llinell: ..... Dyddiad: .....

*** Dileër fel sy'n briodol**

ATODIAD 8

Y BROSES APELIADAU CYFLOG

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i sicrhau yr ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch cyflogau yn gyflym, yn deg ac mewn modd sy'n gyson â deddfwriaeth ar gydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall, yn ogystal â'r DCAAY(C).

Gall athrawon, gan gynnwys Rheolwyr, apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'u cyflog, neu unrhyw benderfyniad arall a wneir gan yr Awdurdod Lleol (neu Bwyllgor neu unigolyn sy'n gweithredu ag awdurdod dirprwyedig) sy'n effeithio ar eu cyflog.

Gall y rhesymau dros apelio gynnwys y canlynol, ymhlith rhesymau eraill. Bod yr unigolyn neu'r Pwyllgor a wnaeth y penderfyniad:

a) wedi cymhwyso darpariaeth y DCAAY(C) yn anghywir;
b) wedi methu ystyried y canllawiau statudol yn briodol;
c) wedi methu ystyried y dystiolaeth berthnasol yn briodol;
d) wedi ystyried tystiolaeth amherthnasol neu anghywir;
e) yn unochrog; neu
f) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon fel arall yn erbyn yr athro.

Yn achos y gwrandawiad sylwadau a'r gwrandawiad apêl, mae hawl gan yr athro i gael cyd-weithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gydag ef.

Cam 1 – Trafodaeth Anffurfiol (Cam Dewisol)

Mae gan Athro sy'n anfodlon ar argymhelliad ynghylch cyflog y cyfle i drafod yr argymhelliad â'r Rheolwr, a hynny cyn i'r argymhelliad gael ei weithredu a chyn i'r Awdurdod Lleol gadarnhau'r penderfyniad.

Os bydd yr Athro, ar ôl cael trafodaeth anffurfiol â'r unigolyn sy'n gwneud yr argymhelliad ynghylch cyflog, neu ar ôl cael yr hysbysiad o benderfyniad cyflog, o'r farn bod argymhelliad anghywir wedi'i wneud, gall gyflwyno ei sylwadau i'r Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau (gweler Cam 2 isod).

Cam 2 – Gwrandawiad Sylwadau

1. Bydd yr Athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad ynghylch ei gyflog ac, os yw'n berthnasol, bydd yn cael gwybod ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn sicrhau bod yr athro yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau ac apelio yn erbyn y penderfyniad, os yw'n briodol.

2. Os bydd yr Athro yn dymuno cyflwyno sylwadau, dylai wneud hynny'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael gwybod am y penderfyniad. Yr Athro sydd i benderfynu a fydd yn gofyn am wrandawiad sylwadau.

3. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau yn trefnu bod gwrandawiad sylwadau yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau. Efallai y bydd gofyn i'r Rheolwr Llinell fynd i'r gwrandawiad i egluro ar ba sail y gwnaed yr argymhelliad.

4. Bydd yr athro yn cael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawiad sylwadau. Gall yr athro fynd i'r gwrandawiad i gyflwyno tystiolaeth, i alw ar dystion, ac i ofyn cwestiynau i'r Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau.

5. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau yn penderfynu a ddylid diwygio'r penderfyniad gwreiddiol, a bydd yn ysgrifennu at yr athro i roi gwybod am y canlyniad o fewn 5 diwrnod ysgol ar ôl gwneud y penderfyniad.

6. Os bydd yr Athro yn dal i fod yn anfodlon, gall apelio yn erbyn y penderfyniad hwn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am y canlyniad gan y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau, a hynny trwy symud ymlaen i Gam 3 y broses.

Cam 3 – Gwrandawiad Apêl

1. Dylai'r Athro nodi'n glir yn ysgrifenedig ar ba sail y mae'n apelio yn erbyn y penderfyniad, ac yna anfon y llythyr at y Rheolwr Llinell cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y canlyniad ysgrifenedig.

2. Bydd y Rheolwr Llinell yn trefnu bod gwrandawiad apêl yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, ond fel arfer cyn pen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am yr apêl.

3. Dylai'r athro gael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawiad.

4. Dylai'r apêl gael ei chlywed gan y Panel. Bydd y Panel yn cynnwys Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.

5. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn derfynol.

6. Ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad apêl y mae:

    - Y Cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Apeliadau
    - Yr Athro a'i gynrychiolydd neu gyd-weithiwr (os oes rhywun gyda'r Athro)
    - Tystion ar gyfer ochr y cyflogai (os yw'n briodol)
    - Pennaeth y Gwasanaeth / Cadeirydd y Panel Cyflogau, a fydd yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol
    - Tystion ar gyfer yr ochr reoli (os yw'n briodol)
    - Clerc y gwrandawiad
    - Yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, er mwyn rhoi cyngor i'r Panel Apeliadau (yn amodol ar ddarpariaethau unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth)

ATODIAD 8

Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer cyfarfodydd apêl ffurfiol

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb, ynghyd â'u rôl yn y trafodion

- Bydd yr Athro yn cyflwyno ei achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i'w hystyried ac unrhyw dystion y mae wedi galw arnynt;
- Gall aelodau'r Panel Apeliadau ofyn cwestiynau i'r Athro, a gall cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau ofyn cwestiynau hefyd;
- Bydd Pennaeth y Gwasanaeth / cynrychiolydd y Panel Cyflogau yn datgan ei achos gan gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ac unrhyw dystion i gefnogi'r achos, os yw'n briodol
- Gall aelodau'r Panel Apeliadau ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau, a gall yr Athro ofyn cwestiynau hefyd;
- Gall y ddwy ochr wneud datganiad cloi os dymunant (yr athro yn gyntaf, ac wedyn Pennaeth y Gwasanaeth / cynrychiolydd y Panel Cyflogau). Ni ellir cyflwyno tystiolaeth newydd ar y cam hwn;
- Bydd y ddau barti yn gadael y gwrandawiad;
- Gall y Pwyllgor Apeliadau ofyn i'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol am gyngor (os yw'n berthnasol). Ar ôl i'r cyngor hwn gael ei roi, bydd yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn gadael y gwrandawiad ond gellir ei alw'n ôl i roi cyngor pellach (os yw'n berthnasol);
- Bydd y Panel Apeliadau yn ystyried yr holl dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol;
- Bydd y Panel Apeliadau yn galw'r ddwy ochr yn ôl er mwyn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad (os yw'n aros am benderfyniad) neu, bydd yn dweud wrth y Clerc am ysgrifennu at yr Athro ar ran y Panel i'w hysbysu ynghylch y penderfyniad, a'r rhesymau drosto; a
- Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y newid cyflog, os yw hynny'n briodol.

ATODIAD 9

CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN-AMSER

Mae'n rhaid i Athro rhan-amser gael **A**mserlen **W**ythnosol **A**thrawon **Y**sgol (AWAY), ac mae'n rhaid talu cyfran o'r amserlen hon iddo.

Mae'n rhaid i bob ysgol greu AWAY ar gyfer pob Athro. Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at oriau sesiynau ysgol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer addysgu, gan gynnwys CPA ond ac eithrio amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau.

Yna bydd Athrawon rhan-amser yn cael eu talu yn ôl eu hamser addysgu gwirioneddol, ac eithrio cofrestru, gwasanaethau ac egwyliau.

Er enghraifft:
Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn para rhwng 9.00am a 12.15pm, ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, gydag un egwyl 15 munud yn sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn sesiwn y prynhawn, byddai'r AWAY ar gyfer Athro llawn-amser yn 25 awr. Pe bai Athro rhan-amser yn cael ei gyflogi ar gyfer y bore yn unig, gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, byddai canran yr wythnos addysgu a amserlennir yn cael ei chyfrifo'n 15 awr. Dangosir hyn isod:

	Sesiwn y bore (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	+	Sesiwn y prynhawn (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	x	Nifer y Diwrnodau yn yr Amserlen		AWAY	% yr AWAY
Llawn-amser	3 awr	+	2 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan-amser	3 awr			x	5 diwrnod	=	15 awr	60%

Rhaid cynnwys **Amser CPA ac Amser Rheoli** wrth gyfrifo amser cyswllt dosbarth.

Amser dan Gyfarwyddyd – gall Rheolwr ddyrannu amser dan gyfarwyddyd i Athrawon rhan-amser (gydag amodau) fel cyfran o swydd gyfwerth ag amser llawn 1252 awr. Gall Athrawon rhan-amser nawr gael eu cyfarwyddo i gyflenwi ar gyfer egwyliau, gwasanaethau ac amseroedd cofrestru, a hynny fel rhan o'u dyletswyddau dan gyfarwyddyd.

Ni ellir mynnu bod athrawon rhan-amser ar gael i weithio (naill ai ar gyfer dyletswyddau addysgu neu ddyletswyddau eraill) ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, gallant weithio trwy gydgytundeb â'r Rheolwr. Dylai unrhyw oriau ychwanegol o ganlyniad i hyn gael eu talu yn unol â chyflog arferol yr Athro.

Efallai y bydd gofyn i Athrawon rhan-amser gyflawni dyletswyddau, heblaw addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau'r ysgol ar y diwrnod y mae'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio fel arfer (pa un a yw'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod hwnnw fel arfer). Gall hyn fod yn rhan o'r amser dan gyfarwyddyd.

ATODIAD 10

STRWYTHUR STAFFIO YR YSGOL

(*Yr Ysgol i nodi manylion isod fel sy'n berthnasol ar yr adeg y bydd y Polisi Cyflogau hwn yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol*)

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y cyfarfod:	**26 Ionawr 2023**
Teitl:	**Adroddiad ynghylch Polisi Cyflogau arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2023/24**
Pwrpas yr adroddiad:	**Yn unol ag Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i'r Cyngor Iunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol.** **Mae'r Polisi Cyflogau arfaethedig ar gyfer 2023/24 yn amgaeedig er mwyn i'r Cyngor ei ystyried.**
Er:	**Cymeradwyaeth**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet ar gyfer Polisi a Pherfformiad, Gwasanaethau Democrataidd, a Phobl a Threfniadaeth**

Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Polisi Cyflogau ar gyfer 2023/24 yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a'i gyhoeddi ar y wefan berthnasol erbyn 31 Mawrth.

Mae polisïau cyflogau wedi'u paratoi o dan y Ddeddf hon a'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn ers mis Mawrth 2012. Nodwyd y manylion sydd yn rhaid eu cynnwys mewn datganiad polisi cyflogau, a'u diben yn gyffredinol, ar adeg cymeradwyo'r datganiad cyntaf a thynnwyd sylw at y newidiadau a wnaed ar ôl hynny fel y bo'n briodol.

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol ar '*Atebolrwydd Cyflog o fewn Llywodraeth Leol',* sy'n cyflwyno'r cynnwys ychwanegol sydd i'w gynnwys yn y Datganiad Polisi Cyflogau blynyddol, megis:

- rôl y Prif Weithredwr;
- disgrifiad cryno o ddeiliad y swydd;
- y polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chyflog prif swyddog;
- proses gymeradwyo pecynnau ymadael dros £100k;
- rheoli talent;
- trefniadau oddi ar y gyflogres.

Y Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer y llynedd oedd yr un cyntaf a gyhoeddwyd yn y fformat newydd hwn.

Er eglurder, mae polisi cyflogau 2023/24 yn ymwneud â thâl a chyflog y staff a gyflogir o dan y telerau a'r amodau canlynol yn unig:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury

Newidiadau

1. Ym mis Tachwedd cyhoeddwyd y dyfarniadau cyflog a gytunwyd yn genedlaethol ar gyfer staff NJC, Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion, a chawsant eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2022. Noder nad ydy'r trafodaethau hyn wedi dechrau eto ar gyfer 2023/24.

2. Bydd Pwynt 1 ar Golofn Gyflogau NJC yn cael ei ddileu ar 1 Ebrill 2023.

3. O ran y dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer staff NJC, Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion, cytunwyd i ychwanegu £1,925 i bob pwynt ar y golofn gyflogau.

4. Hyd yn hyn ni chytunwyd ar y dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer Pwyllgor Soulbury ond bydd yn cael ei ôl-ddyddio i 1 Medi 2022 pan gaiff ei gytuno.

5. O 1 Ebrill 2023 ymlaen bydd diwrnod ychwanegol o wyliau'n cael ei ychwanegu at hawl gwyliau blynyddol staff sydd ar delerau ac amodau NJC a Phwyllgor Soulbury.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam** ***Crynodeb:*** **Hirdymor:** **Cydweithio:** **Cynnwys:** **Atal:** **Integreiddio:**	Naddo, pennir hyn gan ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol.
Argymhelliad / Argymhellion:	Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer 2023/24 sydd ynghlwm.	
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag Adran 38(1) Deddf Lleoliaeth 2011.	
Trosolwg a Chraffu:	Heb ei ystyried.	
Fframwaith Polisi:	Rheoliadau Llywodraeth Cymru	

Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Mae Polisi Cyflogau 2023/24 yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni pob un o'i Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau o ran Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran Eiddo / Asedau:	Dim
Risg / Risgiau:	Byddai methu â chymeradwyo'r Polisi Cyflogau o fewn y terfyn amser yn mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth.
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972 Deddf Lleoliaeth 2011 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Papurau Cefndir:	
Atodiadau:	Polisi Cyflogau Cyngor Sir Ceredigion 2023/24
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	04/01/2023

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Pobl a Threfniadaeth | People and Organisation

Datganiad Polisi Cyflogau

2023/2024

www.ceri.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir Ceredigion

Datganiad Polisi Cyflogau 2023/2024

	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad a phwrpas	3
2	Y Fframwaith Deddfwriaethol	3
3	Telerau ac Amodau Cyflogaeth	4
4	Gwneud Penderfyniadau	7
5	Trefniadau Cyd-fargeinio gyda'r Undebau Llafur	7
6	Cydnabyddiaeth Ariannol Cyflogau Uwch	7
7	Rheoli Talent	10
8	Tâl yn ôl Perfformiad	10
9	Cymorth ar gyfer Staff sy'n Derbyn Tâl Is	11
10	Cymharu Cyflogau o fewn y Cyngor	11
11	Polisi Ymadael	11
12	Trefniadau Oddi ar y Gyflogres	12
13	Cyhoeddi	13

	Atodiadau	
A	Graddfeydd Cyflog Gweithwyr NJC	14
B	Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion	16
C	Graddfeydd Cyflogau Soulbury	17
D	Yr Holl Grwpiau Gweithwyr – Prif Amodau Gwasanaeth	21
E	Cynllun Honorariwm	23
F	Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad	25
G	Polisi Disgresiwn LGPS y Cyflogwr – Rheoliad 5 a 6	29

1 CYFLWYNIAD A PHWRPAS

1.1 Pwrpas y datganiad yw bod yn dryloyw ynghylch ymagwedd y Cyngor at bennu cyflog ei weithwyr (ac eithrio athrawon), trwy nodi sut y penderfynir ar gyflogau'r holl weithwyr. Mae'n rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Statudol "Atebolrwydd Cyflog mewn Llywodraeth Leol" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021.

1.2 Mae'r Datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

2 Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

2.1 Mae'r datganiad Polisi Cyflogau hwn yn cyflwyno ymagwedd y Cyngor at Bolisi Cyflogau, yn unol â gofynion Adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau sy'n cynnwys y manylion canlynol:

a) Polisïau'r Cyngor ar gyfer holl agweddau ac elfennau cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion
b) Y dull sydd ganddo o gyhoeddi a sicrhau mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion
c) Polisïau'r Cyngor ar gyfer talu'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf
d) Y berthynas sydd rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion ac i weithwyr eraill.

2.2 Nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol i staff addysgu mewn ysgolion awdurdodau lleol ac felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yng nghwmpas y ddogfen hon.

2.3 O dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "rym i benodi swyddogion ar sail telerau ac amodau rhesymol y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn addas". Wrth bennu cyflogau a thâl ei holl weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

a) Deddf Cydraddoldeb 2010
b) Rheoliadau Gwaith Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffafriol) 2000
c) Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010; a, lle bo'n berthnasol
d) Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth).

2.4 O ran y gofynion Cyflog Cyfartal a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, nod y Cyngor yw sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran tâl o fewn ei strwythurau tâl, a bod modd cyfiawnhau'r gwahaniaethau tâl yn wrthrychol trwy systemau Gwerthuso Swyddi a wiriwyd o ran cydraddoldeb, fel bod cyflogau yn uniongyrchol gysylltiedig â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyflogau'r Rhywiau sy'n manylu ar unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r bwlch rhwng y rhywiau.

3 TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH

3.1 Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3,600 o weithwyr. Mae'r swyddi y cyflogir hwy ynddynt yn dod o dan gwmpas ystod o delerau ac amodau sy'n deillio o:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury
- Athrawon (nad ydynt o dan gwmpas yr adroddiad hwn)

3.2 Mae'r graddfeydd cyflogau canlynol yn Atodiadau i'r polisi hwn:

- Atodiad A Graddfeydd Cyflog Gweithwyr (NJC)
- Atodiad B Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion (JNC)
- Atodiad C Graddfeydd Cyflogau Soulbury

3.3 Mae manylion ynghylch niferoedd staff fesul band cyflog ac yn ôl rhyw wedi eu cyhoeddi ar wahân yn Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu blynyddol.

3.4 Codiadau Cyflog Cenedlaethol

3.4.1 Ar gyfer pob grŵp o weithwyr, gweithredir unrhyw godiadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol, yn sgil trafodaethau rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur cydnabyddedig. Bydd y Cyngor yn talu'r codiadau cyflog hyn y cytunir arnynt yn genedlaethol pan benderfynir arnynt, oni bai bod y Cyngor llawn yn penderfynu fel arall.

3.5 Gwerthuso Swyddi

3.5.1 Mae gwerthuso swyddi yn ffordd systematig o benderfynu ar werth swydd o'i chymharu â swyddi eraill mewn sefydliad. Y nod yw gwneud cymhariaeth systematig rhwng swyddi i asesu eu gwerth cymharol, at ddibenion sefydlu strwythur cyflogau rhesymol a chyflog cyfartal rhwng swyddi. Yn 2012 aeth y Cyngor ati i gynnal ymarfer Gwerthuso Swyddi mewn perthynas â swyddi sydd wedi'u llywodraethu gan delerau ac amodau cyflogaeth NJC.

3.5.2 O ran gwerthuso swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (y GLPC). O ran swyddi Prif Swyddog, mae'r Cyngor yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Uwch Reolwr Cymdeithas Llywodraeth Leol.

3.5.3 Mae'r Cyngor yn defnyddio'r golofn gyflogau a drafodir yn genedlaethol gan yr NJC yn sail ar gyfer ei strwythur cyflogau, heblaw am y ffaith ei fod wedi ymestyn y raddfa uchaf o bwynt 44 hyd bwynt 53 ar y golofn gyflogau. Dyma sy'n penderfynu cyflogau'r mwyafrif helaeth o'r gweithwyr heblaw am athrawon. O 1 Ebrill 2019 cyflwynodd y Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol golofn gyflogau newydd, cytunwyd ar y newidiadau hyn gyda'r Undebau Llafur i'w gweithredu ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2022/23, bydd pwynt 1 ar y golofn gyflogau yn cael ei ddileu'n barhaol ar 1 Ebrill 2023. Mae'r golofn gyflogau i'w gweld yn Atodiad A.

3.5.4 Nid yw'r trafodaethau ar gyfer codiad cyflog Ebrill 2023 wedi dechrau eto.

3.5.5 Mae'r Cyngor am gadw'r strwythur tâl a graddio sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb trwy gynnal asesiad gwerthuso swydd ar unrhyw swydd newydd neu swyddi sydd wedi newid yn sylweddol. Bydd Panel Gwerthuso Swyddi ar y Cyd, sy'n cynnwys rheolwyr hyfforddedig a chynrychiolwyr undebau llafur yn cwrdd yn ôl yr angen i ystyried a phenderfynu ar apeliadau ynghylch gradd.

3.6 Cyflogau cychwynnol

3.6.1 Polisi'r Cyngor yw bod pob penodiad i swyddi gyda'r Cyngor yn cael ei wneud ar waelod y radd gyflog berthnasol, er bod modd amrywio hyn pan fo angen cael yr ymgeisydd(wyr) gorau sydd ar gael.

3.6.2 Gall y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol awdurdodi amrywiad i gyflog cychwynnol ar gyfer pob swydd ac eithrio'r rhai a gyflogir ar delerau ac amodau Prif Swyddog. Y Cyngor Llawn fydd yn pennu cyflog cychwynnol y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

3.7 Ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl

3.7.1 Mae'r holl ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl yn destun cytundebau a drafodir yn genedlaethol a/neu'n lleol, ac fe'u cyfeirir at y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol (gweler y broses Gwneud Penderfyniadau i gael rhagor o wybodaeth).

3.7.2 Mae'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n ymwneud â gwyliau blynyddol, oriau gwaith, taliadau goramser, trefniadau gweithio ar y penwythnos a thâl salwch ar gyfer pob grŵp o weithwyr (ac eithrio staff addysgu) wedi'u nodi yn Atodiad D.

3.7.3 Roedd cytundeb cyflogau'r Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ar gyfer 2022/23 yn cynnwys diwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol. Mae'r diwrnod ychwanegol hwn hefyd yn berthnasol ar gyfer y gweithwyr sy'n dod o dan delerau ac amodau Pwyllgor Soulbury ond nid y sawl sy'n cael eu cyflogi o dan y telerau a'r amodau ar gyfer Prif Swyddogion a Phrif Weithredwyr.

3.8 Taliadau Honoraria

3.8.1 Gall fod adegau pryd y gofynnir i weithiwr gyflawni dyletswyddau ychwanegol i'r rheiny yn ei swydd bresennol, am gyfnod o amser. O dan amgylchiadau felly gellir gwneud taliad ychwanegol yn unol â Pholisi Honorariwm y Cyngor. Mae'r polisi i'w weld yn Atodiad E.

3.9 Taliadau atodol grym y farchnad

3.9.1 Mae defnyddio gwerthuso swyddi wedi galluogi'r Cyngor i bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol priodol ar sail y berthynas rhwng maint swyddi mewnol a geir yn y Cyngor. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, gall fod angen rhoi sylw i'r farchnad gyflogau allanol er mwyn denu a chadw gweithwyr sydd â'r profiad, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

3.9.2 Mae gan y Cyngor Gynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad er mwyn sicrhau bod y rheidrwydd i gynnig unrhyw daliadau atodol grym y farchnad yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir, dryloyw o elfennau cymaradwy yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol. Gellir gweld

Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad yn Atodiad F. Polisi'r Cyngor yw bod unrhyw daliadau ychwanegol o'r fath yn cael eu cyfyngu gymaint â phosibl, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn medru eu tynnu'n ôl lle bernir nad oes eu hangen bellach.

3.9.3 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad hwn yr un mor berthnasol i bob grŵp o weithwyr yn y Cyngor. Pan gynigir rhoi ychwanegiad grym y farchnad at swydd Prif Swyddog yn y Cyngor, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Os yw ychwanegiad grym y farchnad yn arwain at becyn cyflog gwerth mwy na £100,000, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

3.10 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

3.10.1 Er mwyn helpu pobl i gynilo mwy o arian ar gyfer eu hymddeoliad, mae'r Llywodraeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr yn awtomatig ar gynllun pensiwn gweithle. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os oes gan weithiwr gontract cyflogaeth am o leiaf 3 mis (ac os yw'n iau na 75 oed), bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar y Cynllun, o ddyddiad dechrau ei gyflogaeth. Mae darpariaethau ar gyfer peidio ag ymuno ar gael.

3.10.2 Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau cyfraniadau gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ac maent yn seiliedig ar ganran y cyflog pensiynadwy yn dibynnu ar lefelau cyflog cyfwerth ag amser llawn. Pennir cyfradd cyfraniad cyflogwyr gan actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Dyfed ac fe'i hadolygir bob tair blynedd er mwyn sicrhau yr ariennir y cynllun yn briodol.

Band	Ystod cyflog cyfwerth amser cyflawn	Cyfradd cyfraniad y gweithiwr	Adran 50/50	Cyfradd cyfraniad y cyflogwr
1	Hyd at £15,000	5.5%	2.75%	15.8%
2	£15,001 - £23,600	5.8%	2.90%	15.8%
3	£23,601 - £38,300	6.5%	3.25%	15.8%
4	£38,301 - £48,500	6.8%	3.40%	15.8%
5	£48,501 - £67,900	8.5%	4.25%	15.8%
6	£67,901 - £96,200	9.9%	4.95%	15.8%
7	£,96,201 - £113,400	10.5%	5.25%	15.8%
8	£113,401- £170,100	11.4%	5.70%	15.8%
9	£170,101 neu fwy	12.5%	6.25%	15.8%

Cyfraddau yn dod i rym 1 Ebrill 2022

3.10.4 Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gwerthusiad teirblwyddol a gadarnhaodd fod y gronfa'n parhau i fod wedi'i fantoli. Yn sgil hyn disgwylir i gyfraniad y cyflogwr ostwng i 14.6% o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

3.10.5 Mae cyfle i weithwyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler uchod) ymuno â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a Rennir Costau Aberthu Cyflog (AVC), gan gynorthwyo gweithwyr sy'n dymuno cynyddu buddion pensiwn ar eu hymddeoliad trwy dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i Gynllun AVC Llywodraeth Leol.

3.11 Buddion eraill i weithwyr

3.11.1 Cred y Cyngor fod cyfrifoldeb arno i helpu iechyd, lles a llesiant y staff er mwyn sicrhau bod eu perfformiad gyda'r gorau. Yn hynny o beth, ac fel y mae llawer o gyflogwyr mawr eraill yn ei wneud, mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion ar ben y cyflogau, megis talebau profion llygaid ar gyfer pobl sy'n gweithio ar gyfarpar sgriniau arddangos yn y gwaith, a threfniadau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant (yn sgil cau'r cynlluniau hyn gan y Llywodraeth, dim ond i'r rhai a ymunodd â'r cynllun cyn mis Hydref 2018 y mae'r budd hwn ar gael bellach), prydlesu ceir a chymryd rhan yn y cynllun Beicio i'r Gwaith.

4 GWNEUD PENDERFYNIADAU

4.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sy'n gyfrifol am bennu penderfyniadau polisi a gweithdrefnau yn ymwneud â recriwtio, telerau ac amodau, a threfniadau diswyddo gweithwyr y Cyngor.

4.2 O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i bennu neu amrywio cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, neu'r rhai sydd i'w penodi yn Brif Swyddogion, gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.

5 TREFNIADAU CYD-FARGEINIO GYDA'R UNDEBAU LLAFUR

5.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undebau llafur canlynol:

5.1.1 NJC ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol

- UNSAIN
- GMB
- UNITE

5.1.2 JNC ar gyfer Prif Swyddogion

- UNSAIN
- GMB

5.1.3 Athrawon

- NAHT
- NASUWT
- NEU
- UCAC
- ASCL

5.2 Cydnabyddir undebau llafur at ddibenion ymgynghori a thrafod ar y cyd mewn perthynas â materion perthnasol, rhai nad ydynt yn cael eu pennu gan gyrff trafod cenedlaethol, a rhai y mae'r ddwy ochr yn cytuno ei bod yn briodol ac yn fuddiol penderfynu arnynt trwy gytundeb. Cynhelir trafodaethau gyda'r nod o ddod i gytundeb ac osgoi anghydfodau. Hefyd mae cydnabod undebau llafur yn ymwneud â chynrychiolaeth i aelodau unigol.

6 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYFLOGAU UWCH

6.1 Prif Weithredwr

6.1.1 Y Prif Weithredwr yw'r uwch swyddog sy'n arwain y Cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb drosto. Y Prif Weithredwr yw'r Prif Swyddog Gweithredol a benodwyd yn statudol yn unol ag Adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Cyngor yn sefydliad mawr a chymhleth sydd â

chyllideb gwerth sawl miliwn o bunnau. Mae ganddo ystod eang iawn o swyddogaethau ac mae'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol, gan gyflogi tua 3,600 o staff.

6.1.2 Mae rôl y Prif Weithredwr yn swydd amser llawn a pharhaol. Dewisir deiliad y swydd ar sail teilyngdod, yn erbyn meini prawf gwrthrychol, yn dilyn hysbyseb cyhoeddus. Penodir y Prif Weithredwr gan y Cyngor Llawn.

6.1.3 Cydweithia'r Prif Weithredwr yn agos ag Aelodau Etholedig i gyflawni nodau strategol y Cyngor, gan gynnwys y blaenoriaethau a ganlyn:

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau a galluogi cyflogaeth;
- Creu cymunedau gofalgar ac iach;
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi pobl o bob oed i ddysgu;
- Creu cymunedau cynaliadwy a gwyrdd sydd wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd.

6.1.4 Mae'r Prif Weithredwr yn gweithio'n rheolaidd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ogystal â'r wythnos fusnes safonol o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn arwain y trefniadau 'ar alwad' yn enwedig ar gyfer trefniadau cynllunio at argyfwng.

6.1.5 Mae'r Prif Weithredwr presennol, Mr Eifion Evans, wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2017 ac wedi gweithio i'r Cyngor ers dros 30 mlynedd. Dechreuodd Mr Evans ar ei yrfa yn y Sir fel athro yn 1991, cyn dod yn Bennaeth yn 1997. Yn 2007 penodwyd Mr Evans yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg, daeth yn Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn 2009 ac yn Gyfarwyddwr Strategol – Dysgu a Phartneriaethau yn 2013. Cyn ei rôl bresennol roedd Mr Evans yn Ddirprwy Brif Weithredwr.

6.1.6 Gan ddod i rym o 1 Ebrill 2023 (codiad cyflog yn yr arfaeth), daw cyflog y Prif Weithredwr o fewn y band cyflog £125,367 i £133,985 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.1.7 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i benodi Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau a refferenda penodol. Penodwyd y Prif Weithredwr i'r rôl honno yng Ngheredigion. Mae'r Swyddog Canlyniadau yn bersonol gyfrifol am ystod eang o swyddogaethau yn ymwneud â chynnal etholiadau a refferenda ac fe'i telir am gyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â ffioedd a bennwyd.

6.1.8 Cyhoeddir manylion am dâl y Prif Weithredwr, gan gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol, yn y Datganiad Cyfrifon. Cyhoeddir y ddogfen hon ar wahân.

6.1.9 Mae treuliau mewn perthynas â milltiredd car, trafnidiaeth gyhoeddus, llety dros nos a pharcio ac ati yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth y Cyngor.

6.1.10 Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a datgelir y manylion yn y Datganiad Cyfrifon. Ni fu unrhyw godiadau neu ychwanegiadau i'r pensiwn y tu allan i drefniadau safonol.

6.2 **Uwch Staff**

6.2.1 At ddibenion y datganiad hwn, mae uwch staff yn golygu 'Prif Swyddogion' fel y'u diffinnir yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi sy'n berthnasol i'r diffiniad statudol wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel a ganlyn:

- **Prif Swyddogion:**
- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Corfforaethol (dwy rôl)

- **Dirprwy Brif Swyddogion** (deuddeg rôl):
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion a Diwylliant (Prif Swyddog Addysg) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Priffyrdd ac Amgylcheddol (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro) (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal (A1)

6.3 Tâl

6.3.1 O 1 Ebrill 2023 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol yn denu cyflog o fewn y band cyflog £100,678 hyd at £107,572 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.3.2 O 1 Ebrill 2023 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A2 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £81,977 hyd at £87,115 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.3.3 O 1 Ebrill 2023 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A1 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £75,165 hyd at £80,275 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).

6.3.4 Cyhoeddir manylion cyflogau uwch staff yn y Datganiad Cyfrifon.

6.4 Recriwtio Prif Swyddogion

6.4.1 Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt recriwtio Prif Swyddogion i'w gweld yn Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion, fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. Pennir y tâl cydnabyddiaeth sydd i'w gynnig i unrhyw Brif Swyddog newydd ei benodi yn unol â'r strwythur tâl a gymeradwywyd a'r polisïau perthnasol sydd gan y Cyngor ar waith adeg recriwtio. Rhaid i unrhyw gyflog sy'n fwy na'r trothwy o £100,000 gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Cyngor Llawn.

6.5 Ychwanegiadau at gyflog Prif Swyddogion

6.5.1 Ar 1 Hydref 2022, cyflwynodd y Cyngor brotocol ar y cyd dros dro a gytunwyd yn genedlaethol a oedd yn cynyddu cyfradd y filltir i 50 ceiniog dros dro ar gyfer

yr holl staff, gan gynnwys y Prif Swyddogion, sy'n defnyddio eu cerbydau preifat ar gyfer gwaith y Cyngor. Mae'r protocol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023 ac os na chaiff ei adnewyddu bydd y gyfradd yn dychwelyd i'r cyfradd costau teithio safonol o 45 ceiniog y filltir. Mae'r Cyngor hefyd yn ad-dalu unrhyw dreuliau eraill rhesymol a ddaw i ran y Prif Swyddog, wrth gyflawni gwaith y Cyngor, ar ôl cyflwyno derbynebau, ac yn unol ag amodau'r Cyd-bwyllgor Trafod Telerau (JNC) ac amodau lleol eraill.

6.5.2 Nid yw'r Cyngor yn talu cost aelodaeth i gorff proffesiynol ar gyfer unrhyw weithiwr ac eithrio'r rhai sy'n dilyn cwrs astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol, a hynny am gyfnod y cwrs yn unig.

6.6 Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

6.6.1 Mae Adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfeirio at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("yr IRP") ac mae'n nodi'r swyddogaethau sydd ganddo o ran cyflogau'r Prif Weithredwr. Gall y Panel wneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi y cyfeirir ato yn y Datganiad Polisi Cyflogau hwn sy'n ymwneud â chyflog Prif Weithredwr y Cyngor ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog Prif Weithredwr y Cyngor.

6.6.2 Bydd y Cyngor, fel y bo'n ofynnol, yn ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr os nad ydynt yn gymesur â newidiadau i gyflogau gweddill staff y Cyngor, a bydd yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion a geir gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newid ai peidio.

7 RHEOLI TALENT

7.1 Mae'r broses Gwerthuso Perfformiad, yn ogystal â rhoi pwyslais ar berfformiad, yn ceisio rhoi cynlluniau dysgu unigol ar waith, gan ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol nid yn unig ar gyfer rolau presennol, ond drwy fod â ffocws yn y dyfodol ar gefnogi datblygiad gyrfa a chynllunio olyniaeth.

7.2 Mae tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn cynnig ystod eang iawn o opsiynau hyfforddi a datblygu a ddarperir yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys rhoi mynediad i weithwyr at gymwysterau trwy broses Panel Cymwysterau Corfforaethol sy'n cefnogi datblygiad gweithwyr ar bob lefel y sefydliad. Cefnogir cynllunio olyniaeth a dilyniant gyrfa'r gweithlu hefyd trwy ddarparu cyrsiau penodol ar gyfer 'Darpar Reolwyr' a 'Rheoli am y Tro Cyntaf'. Mae swyddi prentisiaethau lefel mynediad ar draws yr awdurdod yn cynnig llwybrau i amrywiaeth o yrfaoedd yn ogystal â chynnig ffordd i adnabod talent yn gynnar.

7.3 Mae cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) wedi'u cyflwyno i gefnogi rheolwyr ac i gynnig cymhwyster rheoli cyson ar draws yr awdurdod. Mae chwe charfan Lefel 4 ILM wedi galluogi i 28 o bobl ei gwblhau ac mae 26 rheolwr arall yn gweithio tuag at ei gwblhau. Hefyd mae dwy garfan wedi bod yn gweithio tuag at gymhwyster Lefel 5 ILM, mae 5 o'r rhain wedi cwblhau'r cwrs ac mae 11 yn gweithio tuag at ei gwblhau ar hyn o bryd. Er mwyn datblygu a chefnogi talent a dilyniant gyrfa ymhellach, mae cynlluniau hefyd ar y gweill i gyflwyno darpariaeth Lefel 3 ILM yn ystod y flwyddyn.

8 TÂL YN ÔL PERFFORMIAD

8.1 Nid yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw daliadau bonws na thaliadau ar sail perfformiad i unrhyw un o'i staff.

9 CYMORTH AR GYFER STAFF SY'N DERBYN TÂL IS

9.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i drafod ag Undebau Llafur gyda'r nod o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar sail fforddiadwy a chynaliadwy pan fo amgylchiadau'n caniatáu. Mae'r pwynt isaf ar golofn gyflogau NJC, SCP 1, ar hyn o bryd yn cyfateb i £9.50 yr awr sy'n is na chyfradd cyflog byw gwirioneddol y Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol o £9.90 yr awr.

10 CYMHARU CYFLOGAU O FEWN Y CYNGOR

10.1 Mae'r gweithiwr sydd ar y cyflog isaf yn cael tâl o £20,441 y flwyddyn, yn unol â'r pwynt isaf ar y golofn gyflogau (SCP 2) yng ngholofn gyflogau'r NJC ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid sydd wedi'u cyflogi ar drefniadau gwahanol gan mai hyfforddiant yw prif nodwedd y trefniant hwnnw, ac mae hefyd yn eithrio staff asiantaeth.

10.2 Y gweithiwr sydd â'r cyflog uchaf yw'r Prif Weithredwr a lleiafswm y band cyflog hwnnw yw £125,367 yn codi i uchafswm y band cyflog o £133,985 (codiad cyflog yn yr arfaeth ar gyfer 2023/24). Mae deiliad presennol y swydd yn ennill £133,985.

10.3 Y cyflog canolrifol yn y Cyngor yw £21,968, yn seiliedig ar gyflogau ar 31 Rhagfyr 2022.

- Y lluosydd rhwng cyflog y gweithiwr cyfwerth ag amser llawn sydd â'r cyflog isaf ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:6.6**
- Y lluosydd rhwng y gweithiwr â chyflog isaf a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.4**
- Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:6.1**
- Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.1**

11 POLISI YMADAEL

11.1 Ymddeol yn Gynnar, Dileu Swydd yn Wirfoddol a Dileu Swydd yn Orfodol

11.1.1 Mae ymagwedd y Cyngor at daliadau statudol a dewisol pan derfynir cyflogaeth gweithwyr, cyn iddynt gyrraedd oedran ymddeol arferol, wedi'i gyflwyno yn ei ddatganiad Polisi Disgresiwn Cyflogwr (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol), yn unol â Rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) 2006. Gweler Atodiad G. Mae hyn mewn perthynas â thaliad dileu swydd yn seiliedig ar enillion wythnosol gwirioneddol (Rheoliad 5) a byddai taliad dileu swydd uwch o hyd at 45 wythnos o dâl yn cael ei ganiatáu (Rheoliad 6). Nid yw Rheoliadau 12 a 13 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniad) 2007 yn gymwys gan nad yw'r Awdurdod yn cynyddu cyfanswm aelodaeth aelodau gweithredol (Rheoliad 12) nac yn dyfarnu pensiwn ychwanegol (Rheoliad 13).

11.1.2 Mae pob datganiad o ddiddordeb ar gyfer Ymddeoliad Cynnar a Diswyddiad Gwirfoddol yn destun achos busnes cadarn i geisio cadw'r iawndal yn ôl disgresiwn i derfyn fforddiadwy, yn ogystal ag ystyried costau unrhyw newidiadau canlyniadol i'r sefydliad/graddfeydd cyflog.

11.1.3 Wrth gyfrifo gwerth pecyn terfynu cyflogaeth, dylid cynnwys y taliadau canlynol:

- tâl a dalwyd yn lle rhybudd
- cyfandaliad dileu swydd / taliad terfynu cyflogaeth
- y gost i'r Cyngor o ran y straen ar y gronfa bensiwn sy'n deillio o gael mynediad cynnar i bensiwn heb ei leihau.

11.1.4 Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo o flaen llaw unrhyw becyn diswyddo sy'n gysylltiedig â therfynu cyflogaeth yn gynnar sy'n mynd yn uwch na throthwy o £100,000. Mae'n rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o unrhyw hawliadau statudol neu gontractiol y pecyn diswyddo, ynghyd â chanlyniadau atal y rhain o safbwynt cyfraith cyflogaeth.

11.1.5 Mae'r Cyngor wedi gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn ystod blwyddyn ariannol 2022/2023 ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithwyr a adawodd gyflogaeth y Cyngor o dan y Cynllun hwn i'w gweld yn y Datganiad Cyfrifon blynyddol.

11.2 **Prif Swyddog**

11.2.1 Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becyn diswyddo mewn perthynas â therfynu cyflogaeth Prif Swyddog.

11.3 **Ailgyflogi**

11.3.1 Ni fydd gweithwyr sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar, diswyddo neu ddiswyddiad gwirfoddol sy'n cael eu cyflogi mewn rolau Prif Swyddog fel arfer yn cael dychwelyd i unrhyw gyflogaeth am dâl dros dro neu'n barhaol gyda Chyngor Sir Ceredigion (sy'n cynnwys ysgolion) na chael eu hailgyflogi fel gweithiwr asiantaeth neu ymgynghorwyr. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth ar sail achos busnes cadarn pan gymeradwyir hynny gan y Prif Weithredwr ac Aelod y Cabinet dros Bobl a Threfniadaeth.

11.3.2 Os yw'r ailgyflogi yn ymwneud â swydd y Prif Weithredwr neu Brif Swyddog, yna bydd y penderfyniad hwn angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

11.3.3 Ni chaniateir i weithwyr eraill sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad gwirfoddol ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor am gyfnod o 2 flynedd ar ôl eu dyddiad gadael. Fodd bynnag, unwaith eto, ac mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth yn gynt os yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol sy'n "cyflogi" yn gallu darparu achos busnes cadarn dros wneud hynny sy'n dderbyniol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth.

11.4 **Hyblygrwydd o ran ymddeol**

11.4.1 Mae hawl gan weithwyr gael ymddeoliad hyblyg yn unol â darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Ymddeoliad Hyblyg y Cyngor.

12 TREFNIADAU ODDI AR Y GYFLOGRES

12.1 Os nad yw'r Cyngor yn gallu recriwtio rhywun i swydd o dan gontract cyflogaeth neu os bydd angen cymorth arbenigol i brosiect penodol, bydd y Cyngor, lle bo angen, yn ystyried cyflogi unigolion o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Mewn achos o'r fath, dilynir y broses gaffael berthnasol yn y Rheolau yn ymwneud â Gweithdrefnau Contractau y Cyngor, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos gwerth am arian o gymharu â'r gystadleuaeth o ran sicrhau'r gwasanaeth perthnasol.

12.2 Os mai llenwi swydd wag yw'r contract ar gyfer gwasanaeth, yn ychwanegol at sicrhau y cydymffurfir â'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, caiff penderfyniadau mewn perthynas â phenodi eu gwneud yn unol â rheolau'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau h.y. bydd y Cyngor yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Prif Swyddog a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol neu bydd y rhai sy'n gweithredu o dan eu hawdurdod yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Rheolwr Corfforaethol ac is.

12.3 Gan ddod i rym yn Ebrill 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU "Ddeddfwriaeth Cyfryngwyr" a elwir IR35, a ddiwygiodd reolau treth gweithio oddi ar y gyflogres yn y sector cyhoeddus ac mae'r Cyngor wedi rhoi'r rheolau newydd ar waith i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

13 CYHOEDDI

13.1 Ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, cyhoeddir y datganiad hwn ar wefan y Cyngor.

13.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofyniad arno o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 i gynnwys yn ei Ddatganiad Blynyddol Ariannol yr wybodaeth ofynnol mewn perthynas â'r gweithwyr hynny lle mae'r tâl cyfwerth ag amser llawn yn £60,000 y flwyddyn o leiaf.

ATODIAD A

GRADDFEYDD CYFLOG AR GYFER GWEITHWYR NJC

Codiad cyflog diwethaf: 1 Ebrill 2022 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwyliedig nesaf: 1 Ebrill 2023 (yn yr arfaeth)

Gradd	Band Sgôr Gwerthuso Swyddi	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Gradd 2	200 – 294	2	£20,441
Gradd 3	295 – 329	3	£20,812
Gradd 4	330 – 364	4	£21,189
Gradd 5	365 – 399	5	£21,575
		6	£21,968
Gradd 6	400 – 434	7	£22,369
		8	£22,777
		9	£23,194
		10	£23,620
Gradd 7	435 – 469	12	£24,496
		13	£24,948
		14	£25,409
		15	£25,878
		16	£26,357
Gradd 8	470 – 504	18	£27,344
		19	£27,852
		20	£28,371
		21	£28,900
		22	£29,439
Gradd 9	505 – 539	24	£31,099
		25	£32,020
		26	£32,909
Gradd 10	540 – 579	28	£34,723
		29	£35,411
		30	£36,298

Gradd 11	580 – 619	32	£38,296
		33	£39,493
		34	£40,478
Gradd 12	620 – 659	35	£41,496
		36	£42,503
		37	£43,516
Gradd 13	660 – 699	39	£45,495
		40	£46,549
		41	£47,573
Gradd 14	700 – 739	43	£49,590
		44	£50,581
		45	£51,558
Gradd 15	740 – 779	47	£53,532
		48	£54,516
		49	£55,501
Gradd 16	780 – 1000	51	£57,667
		52	£58,781
		53	£59,918

ATODIAD B

GRADDFEYDD CYFLOG PRIF SWYDDOGION

Codiad cyflog diwethaf: 1 Ebrill 2022 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwyliedig nesaf: 1 Ebrill 2023 (yn yr arfaeth)

GRADDFA GYFLOG PRIF WEITHREDWR

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Prif Weithredwr	1	£125,367
	2	£128,241
	3	£131,112
	4	£133,985

GRADDFA GYFLOG CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Cyfarwyddwr Corfforaethol	1	£100,678
	2	£102,977
	3	£105,274
	4	£107,572

GRADDFA GYFLOG SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
A1	1	£75,165
	2	£76,870
	3	£78,573
	4	£80,275
A2	1	£81,977
	2	£83,679
	3	£85,381
	4	£87,115

ATODIAD C

GRADDFEYDD CYFLOGAU SOULBURY

Codiad cyflog diwethaf: 1 Medi 2021 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwyliedig nesaf: 1 Medi 2022 (yn yr arfaeth)

GWEITHWYR PROFFESIYNOL GWELLA ADDYSG (EIPS)

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£37,056
2	£38,383
3	£39,637
4	£40,907
5	£42,168
6	£43,431
7	£44,758
8	£46,035*
9	£47,522
10	£48,849
11	£50,158
12	£51,425
13	£52,860**
14	£54,140
15	£55,553
16	£56,831
17	£58,113
18	£59,371
19	£60,668
20	£61,338***
21	£62,626
22	£63,749
23	£64,985
24	£66,094
25	£67,278

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
26	£68,434
27	£69,616
28	£70,815
29	£72,016
30	£73,215
31	£74,404
32	£75,611
33	£76,819
34	£78,056
35	£79,291
36	£80,560
37	£81,809
38	£83,071
39	£84,316
40	£85,561
41	£86,811
42	£88,061
43	£89,309
44	£90,564
45	£91,815
46	£93,069
47	£94,327
48	£95,574****
49	£96,825****
50	£98,079****

Nodiadau:

Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio a symbylu staff.

* y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg (EIP) sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Uwch sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

*** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Arweiniol sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

**** estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer asesiadau proffesiynol strwythuredig.

SEICOLEGWYR ADDYSG – GRADDFA A

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£38,865
2	£40,838
3	£42,811
4	£44,782
5	£46,755
6	£48,727
7	£50,584
8	£52,440
9	£54,179*
10	£55,921*
11	£57,544*

Nodiadau:
Mae'r graddfeydd cyflog i gynnwys chwe pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

* Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau asesiadau proffesiynol strwythuredig.

PRIF SEICOLEGWYR ADDYSG AC UWCH SEICOLEGWYR ADDYSG GRADDFA GYFLOG B

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£48,727
2	£50,584
3	£52,440*
4	£54,179
5	£55,921
6	£57,544
7	£58,210
8	£59,456
9	£60,690
10	£61,945
11	£63,177
12	£64,431
13	£65,707
14	£66,941**
15	£68,235**
16	£69,514**
17	£70,803**
18	£72,090**

Nodiadau:
Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

* Y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Prif Seicolegydd Addysg sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.

** Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau dewisol ar y raddfa ac asesiadau proffesiynol strwythuredig.

SEICOLEGWYR ADDYSG CYNORTHWYOL

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£30,694
2	£31,948
3	£33,201
4	£34,448

SEICOLEGWYR ADDYSG DAN HYFFORDDIANT

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£24,970
2	£26,798
3	£28,623
4	£30,453
5	£32,279
6	£34,107

ATODIAD D

YR HOLL GRWPIAU GWEITHWYR – PRIF AMODAU GWASANAETH

GWYLIAU BLYNYDDOL (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser)	
➢ Prif Weithredwr ➢ Prif Swyddogion	33 diwrnod y flwyddyn 36 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	27 diwrnod y flwyddyn 31 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd 34 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
➢ Soulbury	27 diwrnod y flwyddyn 31 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd 34 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
ORIAU GWAITH	
➢ Prif Weithredwr ➢ Prif Swyddogion	O leiaf 37 awr yr wythnos, ynghyd â gwaith ychwanegol gyda'r nos, ar y penwythnos a gŵyl y banc yn ôl yr angen
➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	Wythnos waith safonol yw 37 awr
➢ Soulbury	Wythnos waith safonol yw 37 awr
TALIADAU GWEITHIO GORAMSER	
➢ Prif Weithredwr ➢ Prif Swyddogion ➢ Soulbury	Dim i'w dalu
➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	Gradd 8 ac is: amser a hanner; Gradd 9 ac uwch: TOIL neu amser arferol os na ellir ei gymryd o fewn 13 wythnos.
TALIADAU GWEITHIO AR Y PENWYTHNOS	
➢ Prif Weithredwr ➢ Prif Swyddogion ➢ Soulbury	Dim i'w dalu
➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	Gradd 8 ac is: Sadwrn – amser a chwarter; Sul – amser a hanner Gradd 9 ac uwch: Sadwrn a Sul – amser arferol

CYNLLUN TÂL SALWCH		
➢ Prif Weithredwr ➢ Prif Swyddogion ➢ Soulbury ➢ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	Yn ystod blwyddyn 1af gwasanaeth	1 mis o gyflog llawn; ac ar ôl cwblhau 4 mis o wasanaeth 2 fis o hanner cyflog
	Yn ystod 2il flwyddyn gwasanaeth	2 fis o gyflog llawn; 2 mis o hanner cyflog;
	Yn ystod 3ydd flwyddyn gwasanaeth	4 mis o gyflog llawn; 4 mis o hanner cyflog
	Yn ystod y 4ydd a'r 5ed blwyddyn gwasanaeth	5 mis o gyflog llawn; 5 mis o hanner cyflog
	Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth	6 mis o gyflog llawn; 6 mis o hanner cyflog

ATODIAD E

POLISI HONORARIWM

1. Datganiad Polisi

1.1 Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod angen rhoi tâl ychwanegol, o bryd i'w gilydd, os oes gofyn i weithiwr weithredu ar lefel swydd uwch neu ysgwyddo dros dro ddyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gradd uwch.

1.2 Os yw'r newidiadau i'r swydd yn debygol o fod yn barhaol, dylid ailwerthuso'r swydd o dan gynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor a phennu gradd ffurfiol ar ei chyfer.

1.3 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod y taliadau ychwanegol yn cael eu hystyried yn briodol a'u gweithredu'n gyson. Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a fydd yn berthnasol i bob swydd beth bynnag yw swm y taliad dan sylw.

2. Honorariwm

2.1 Gellir talu tâl honorariwm os gofynnir i weithiwr ysgwyddo rhai o ddyletswyddau a/neu gyfrifoldebau swydd ar radd uwch.

2.2 Os oes mwy nag un gweithiwr addas ar gael sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau ychwanegol, bydd angen dilyn proses ddethol i bennu'r unigolyn gorau i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau hynny.

2.3 Dim ond mewn sefyllfaoedd sy'n para mwy na mis y gellir talu unrhyw lwfans neu honorariwm, a chaiff ei ôl-ddyddio i'r diwrnod cyntaf.

2.4 Telir unrhyw dâl honorariwm am hyd at 12 mis. Os oes eithriad a bod y cyfnod hwnnw'n hirach, caiff y swydd ei hailwerthuso gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor.

3. Gweithdrefn

3.1 Cyn rhoi strwythur graddau newydd y Cyngor ar waith, caiff yr holl daliadau honorariwm presennol eu hadolygu fel y nodir isod.

3.2 Os oes honorariwm ar waith, a'i fod yn seiliedig ar ddyletswyddau a gafodd eu hymgorffori yn yr holiadur gwerthuso swyddi a'u gwerthuso, bydd y radd a aseswyd yn berthnasol o'r dyddiad gweithredu a bydd yr honorariwm yn dod i ben.

3.3 Gan mai taliad ychwanegol at y cyflog sylfaenol ydyw, bydd y Cyngor yn cadw'r sefyllfa Cyflog Cyfartal mewn cof ac, i'r perwyl hwnnw, bydd unrhyw daliad o'r fath yn daliad dros dro, bydd yn destun adolygiad a bydd rhaid ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

3.4 Rhaid i'r rheolwr perthnasol wneud achos busnes i ategu cais am daliad honorariwm, gan ddefnyddio'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" (Atodiad 1). Rhaid cyflwyno'r cais i Gyfarwyddwr yr Adran i'w gymeradwyo.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- Y rheswm dros y taliad, e.e. i ddirprwyo am rywun sy'n absennol am gyfnod hir, neu i gyflawni darn penodol o waith
- Manylion y swydd yr effeithir arni a graddau'r swydd barhaol a'r swydd bosib ar lefel uwch
- I ba raddau y mae'r dyletswyddau yn llawn neu'n rhannol – os ydynt yn rhannol, rhaid rhoi canran
- Cost – cyfrifiad o'r swm y byddai gan y gweithiwr hawl i'w gael bob mis.

3.5 Mewn achosion o'r fath, dylid talu'r swm llawn neu ganran o'r gwahaniaeth rhwng y cyflog presennol ac isafswm cyflog y radd uwch.

3.6 Mewn sefyllfaoedd a fydd yn para'n hirach, e.e. dirprwyo dros gyfnod mamolaeth, dylid ystyried hysbysebu'r swydd gan ddilyn trefniadau recriwtio arferol y Cyngor.

3.7 Os bydd gweithiwr sy'n derbyn cyflog wedi'i ddiogelu yn ysgwyddo dyletswyddau ar lefel uwch na'i swydd wedi'i gwerthuso, ond is na'i gyflog wedi'i ddiogelu, ni fydd ganddo/i hawl i gael taliad ychwanegol.

4 Dull Talu

4.1 Gellir talu'r taliadau uchod ar ffurf swm misol rheolaidd os yw'r manylion yn wybyddus ymlaen llaw, neu gellir eu talu ar ffurf un ôl-daliad ar ddiwedd y cyfnod perthnasol.

5 Ymgynghori

5.1 Mae gan y Cyfarwyddwyr bwerau dirprwyedig i gymeradwyo rhoi tâl Honorariwm. I sicrhau cysondeb, rhaid i'r Cyfarwyddwyr ymgynghori â'r Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol pan fyddant yn ystyried taliadau o dan y cynllun hwn ac anfon copi o'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" ato. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn anfon y ffurflen i Isadran y Gyflogres at ddibenion talu.

ATODIAD F

TALIADAU ATODOL GRYM Y FARCHNAD

1. Datganiad Polisi

1.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael cyflog cyfartal am waith cyfatebol.

1.2 Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn ofynnol talu tâl atodol grym y farchnad, o bryd i'w gilydd, yn ychwanegol at radd asesedig swydd. Fel arfer, bydd hyn yn deillio o brinder sgiliau yn y farchnad swyddi (yn lleol neu'n genedlaethol) neu oherwydd bod cyfradd y farchnad ar gyfer set sgiliau benodol yn uwch nag a bennwyd gan werthusiad swyddi lleol a'r strwythur cyflogau a graddau.

1.3 Er bod y broses gwerthuso swyddi yn cynnig canlyniadau sy'n bodloni ystyriaethau cyflog cyfartal, mae'n amlwg y gall anawsterau godi ar gyfer rhai swyddi o ran recriwtio a chadw staff. Er bod darpariaethau Cyflog Cyfartal yn cael eu bodloni, gall cyfraddau cyflog rhai swyddi gymharu'n anffafriol â swyddi tebyg mewn mannau eraill.

1.4 Mewn achosion o'r fath, gellir ychwanegu tâl atodol at radd y swydd. Caiff taliadau atodol eu mynegi'n glir mewn dogfennau cyflogaeth. Cynhelir adolygiad bob blwyddyn ar ddyddiad cyflwyno'r tâl atodol yn wreiddiol. Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad os rhoddir rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.

1.5 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod taliadau atodol grym y farchnad a ychwanegir at swyddi'n cael eu hystyried a'u gweithredu'n gyson.

2. Cyfiawnhad Gwrthrychol

21 Os bwriedir chwyddo cyflog swydd benodol i adlewyrchu amodau'r farchnad, rhaid dangos bod 'seiliau wedi'u cyfiawnhau'n wrthrychol' ar gael, h.y. bod anawsterau recriwtio a chadw'n bodoli mewn perthynas â'r swydd(i) o dan sylw a fyddai'n arwain at broblemau sefydliadol a/neu weithredol gwirioneddol neu ragweladwy.

22 Dylid cymryd ystyriaethau Cyflog Cyfartal i ystyriaeth a dylid asesu'r posibilrwydd o her cyflog cyfartal. Ni fydd modd i'r Cyngor ddibynnu ar y ffaith bod y farchnad yn awgrymu bod rhai swyddi, a wneir gan fenywod fel arfer, yn cael tâl is na swyddi a wneir gan ddynion fel arfer, oherwydd gall cyfradd y farchnad ei hun fod yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n gwahaniaethu rhwng y rhywiau. Prif egwyddor y penderfyniad yw'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei dalu i benodi'r sawl sydd ei angen i lenwi'r swydd wag.

23 Dylid cymryd ystyriaethau eraill i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad hwn hefyd, fel materion gweithredol ac enw da'r Cyngor, a allai ddioddef os na fydd gwasanaethau allweddol wedi'u staffio'n llawn.

2.4 Yn ogystal, rhaid dangos bod dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd gymharol i raddau helaeth yr un fath â'r swydd dan sylw, ac nad oes gwahaniaethau sylweddol o ran y pecyn gwobrwyo cyffredinol h.y. hawl i wyliau, cynllun tâl salwch, trefniadau gweithio hyblyg. Nid yw'r rhain yn daliadau ariannol, ond gallent gyfrif am y gyfradd dâl is.

2.5 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu rhoi/adnewyddu/diddymu yn amodol ar gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, gan ymgynghori â'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol.

2.6 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu cymhwyso'n gyfartal i'r holl staff mewn swydd benodol (neu faes arbenigol). Caiff y costau eu talu gan y maes gwasanaeth perthnasol.

3. Tystiolaeth

3.1 Rhaid i'r achos busnes dros daliadau atodol o'r fath sicrhau cyfiawnhad gwrthrychol, ynghyd â thystiolaeth ategol. Nid yw tystiolaeth anecdotaidd yn ddigon.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- data meincnodi cyflogau – beth yw'r 'gyfradd gyfredol' ar gyfer y swydd?
- tystiolaeth o unrhyw brosesau recriwtio (aflwyddiannus) diweddar, e.e. sut cafodd y swydd ei hysbysebu yn y gorffennol? A ddefnyddiwyd y cyfryngau cywir? Beth yw'r gyfradd ymateb i hysbysebion? Beth yw cyfradd newid/gadael y swydd?
- lefel a chost gyffredinol y taliadau atodol arfaethedig
- unrhyw fesurau amgen a gafodd eu hystyried neu y gellir eu hystyried, e.e. a ellir ailfodelu'r swydd i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol?
- y risgiau gweithredol a/neu'r risgiau o ran enw da
- manylion unrhyw effaith andwyol dybiedig ar y gwasanaeth a ddarperir o fethu â recriwtio (neu gadw) gweithiwr/gweithwyr o safon briodol
- manylion unrhyw sgil-effeithiau posib a sut y gellir eu datrys, e.e. cymharu cyflog gwahanol swyddi mewn adain neu grŵp gwaith.

4 Tâl

4.1 Ar ôl cael gafael ar y data gofynnol am gyflogau, gwneir asesiad i weld a oes angen cyflwyno tâl atodol grym y farchnad ac, os felly, gwir werth y tâl atodol.

4.2 Caiff pob cais ei drin fesul achos a bydd angen rhoi cyfiawnhad gwrthrychol gan ddefnyddio'r ffurflenni yn Atodiadau I a II, cyn cael cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.

4.3 Cedwir tâl atodol y farchnad ar wahân i'r cyflog y cytunwyd arno ar gyfer y swydd. Rhaid egluro hyn wrth fynd ati i recriwtio i swyddi gwag ac wrth recriwtio ymgeiswyr llwyddiannus. Rhaid i'r gweithwyr ddeall y gall tâl atodol y farchnad amrywio o flwyddyn i flwyddyn neu ddod i ben yn llwyr.

4.4 Bydd gweithwyr mewn swyddi sy'n derbyn tâl atodol y farchnad, neu weithwyr a benodir i swyddi o'r fath, yn cael cadarnhad ysgrifenedig sy'n nodi swm y taliad, y trefniadau adolygu a sut y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith. Mae llythyr safonol ar gyfer hyn i'w gael yn Atodiad III.

4.5 Caiff y tâl atodol ei dalu ar ffurf lwfans yn ychwanegol at y cyflog misol a (chan fod y tâl yn seiliedig ar bwyntiau cynyddrannol) bydd codiadau cyflog costau byw blynyddol yn berthnasol iddo. Oherwydd ei fod yn rhan o gyflog gweithiwr, bydd yn bensiynadwy.

4.6 Pan fo'n briodol, telir taliadau atodol ar sail pro rata yn ôl yr oriau a weithiwyd.

5. Cyfrifo Tâl Atodol y Farchnad

5.1 Caiff unrhyw dâl atodol ei gyfrifo fel cynyddran ychwanegol ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd a bydd yn cyfateb i'r gynyddran agosaf islaw'r cyflog cymharol. Dylid pennu'r tâl ar lefel y tybir y bydd yn lliniaru'r anawsterau recriwtio a chadw / anawsterau gweithredol, ond na fydd yn ormodol, ac ar lefel y gellir ei chyfiawnhau o ran y cyflog a delir ar gyfer swyddi cymharol ar y farchnad.

5.2 Rhaid i ddiben unrhyw dâl atodol, y cyfiawnhad drosto a'i swm fod yn dryloyw a rhaid cadw cofnodion i ddangos hyn, er mwyn i'r Cyngor allu ymateb yn effeithiol i unrhyw her o ran y rhesymeg dros roi tâl o'r fath.

6. Amserlen

6.1 Er mwyn cynnal tegwch a chyfartaledd y strwythur cyflogau ac i sicrhau bod y tâl yn parhau i fod yn gyfiawn ac yn briodol, caiff y taliadau atodol eu hadolygu bob blwyddyn.

6.2 Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Pennaeth Gwasanaeth, ar y cyd â'r Tîm Gwerthuso Swyddi a'r Undeb Llafur priodol, benderfynu a ddylid diddymu tâl atodol y swydd(i) o dan sylw, cadw'r tâl atodol ar yr un lefel, neu addasu'r swm a delir.

6.3 Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.

7. Apelio

7.1 Efallai y bydd gweithiwr yn credu na roddwyd ystyriaeth lawn o ran rhoi / adnewyddu / diddymu tâl atodol a gall fod am apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.

7.2 I apelio, rhaid i'r gweithiwr ysgrifennu at y Prif Weithredwr, gan amlinellu'r rhesymau dros yr apêl, cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig am y penderfyniad ynghylch yr hawl i gael tâl atodol neu

newidiadau iddo.

7.3 Rhaid i'r Prif Weithredwr drefnu i gwrdd â'r gweithiwr i drafod yr apêl cyn pen 14 diwrnod ar ôl y llythyr apêl ysgrifenedig. Mae gan y gweithiwr hawl i fynd â rhywun gydag ef/hi i'r cyfarfod hwn. Ar ôl cynnal y cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr cyn pen 14 diwrnod i roi gwybod i'r gweithiwr am ganlyniad yr apêl.

7.4 Os nad oes modd ymateb o fewn yr amserlen honno, dylid egluro'r rheswm dros yr oedi wrth y gweithiwr a dylid rhoi gwybod iddo/iddi pryd i ddisgwyl ymateb, ond ni ddylai fod yn hirach na 14 diwrnod arall.

7.5 Bydd hyn yn gweithredu fel hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl a hwn fydd penderfyniad terfynol Cyngor Sir Ceredigion. I bob pwrpas, dyma ddiwedd y weithdrefn ffurfiol yn y gweithle.

7.6 Os bydd gweithiwr yn methu â dod i'r cyfarfod apêl heb roi gwybod ymlaen llaw, dylai gysylltu â'r Prif Weithredwr cyn gynted â phosib i egluro pam ei fod/bod yn absennol. Dylai'r Prif Weithredwr aildrefnu'r cyfarfod ar yr adeg nesaf sy'n gyfleus i bawb perthnasol. Mae'n bwysig rhoi rhybudd rhesymol am y cyfarfod. Os bydd y gweithiwr yn methu â dod i gyfarfod fwy nag unwaith ac os na fydd yn rhoi eglurhad rhesymol, tybir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr i gadarnhau eu bod yn tybio bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.

8. Hawl gweithwyr i fynd â rhywun arall gyda nhw i gyfarfodydd

8.1 Mae gan weithwyr hawl i fynd â Chynrychiolydd eu Hundeb Llafur neu gydweithiwr gyda nhw i unrhyw gyfarfod a drefnir i drafod diddymu tâl atodol neu unrhyw apêl sy'n deillio o hynny.

8.2 Os nad oes modd i'r sawl sy'n mynd gyda'r gweithiwr ddod i'r cyfarfod, dylai'r gweithiwr aildrefnu'r cyfarfod ar ddyddiad cyn pen 7 diwrnod ar ôl yr amser gwreiddiol a gynigiwyd, gan sicrhau bod yr amser newydd yn gyfleus i bawb perthnasol; neu, dylid ystyried gofyn i unigolyn arall fynd gyda'r gweithiwr i'r cyfarfod.

ATODIAD G

Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

O dan Reoliad 7 y Rheoliadau Iawndal yn ôl Disgresiwn, rhaid i bob awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) lunio a chadw o dan adolygiad bolisi sy'n berthnasol i weithredu'r disgresiwn sydd ganddynt parthed yr isod:

Disgresiwn	Rheoliad	Polisi
Seilio taliadau dileu swydd/diswyddo ar y cyflog wythnosol gwirioneddol pan fo hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnosau statudol.	5	Talu taliadau dileu swydd/diswyddo/iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol
Rhoi iawndal ar ffurf cyfandaliad hyd at gyflog 104 o wythnosau mewn achosion o ddileu swydd/diswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd neu ddiweddu penodiad ar y cyd.	6	**Dileu swydd (*redundancy*)** Rhyddhau'r buddion pensiwn pan fo'r gweithiwr wedi cyrraedd 55 oed ar ddyddiad terfynu cyflogaeth gan gynyddu wythnosau statudol y dileu swydd gan 1.5 (h.y. uchafswm o 45 wythnos). Mae iawndal o'r fath i gynnwys gwerthoedd taliad dileu swydd statudol. Byddai'r unigolion yn medru dewis trosi'r gwahaniaeth sydd rhwng y taliad dileu swydd statudol a'r union iawndal a roddir i brynu pensiwn ychwanegol drwy gyfrwng ffactorau y darperir gan Adran Actwari'r Llywodraeth. **Terfynu er Effeithlonrwydd** Ni chaiff y buddion pensiwn eu rhyddhau oni fydd y person yn 55 oed erbyn y dyddiad terfynu. **Diswyddo (*severance*)** Pan geir cytundeb ar y naill ochr a'r llall i ryddhau unigolyn o dan Gynllun Diswyddo'r Cyngor, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r disgresiwn sydd ganddo o dan Reoliad 5 i roi

		taliadau iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol. Bydd y taliadau diswyddo yn ôl disgresiwn yn seiliedig ar ganllaw cyflym colli gwaith statudol a bydd nifer yr wythnosau y bydd hawl iddynt wedi eu seilio ar oedran a Gwasanaeth. Bydd lluosydd o 1.5 ar waith a bydd uchafswm o 45 o wythnosau. Mae'r taliad diswyddo gwirfoddol yn cynnwys y taliad colli gwaith statudol. Os yw unigolyn wedi cyrraedd ei 55 oed, rhyddheir buddion pensiwn iddynt heb eu lleihau a fydd wedi cronni hyd at ddyddiad y terfyniad. Mae'n rhaid wrth wasanaeth cymwys parhaus o ddwy flynedd er mwyn cael mynediad at y trefniadau iawndal hyn.
Rhoi blynyddoedd iawndal ychwanegol i unigolyn 50 oed neu hŷn sydd ag aelodaeth (neu aelodaeth dybiannol) ers 5 mlynedd neu fwy o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn achosion o ddileu swyddi, terfynu cyflogaeth er effeithlonrwydd, neu ddiweddu penodiad ar y cyd a ddigwyddodd ar ôl 30 Medi 2006 a chyn 1 Ebrill 2007 (ond dim ond os dechreuodd y cyfnod gwaith cyn 1 Hydref 2006).	11(2)	Peidio â gweithredu'r disgresiwn hwn